

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

04/03/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)

[Questions to the First Minister](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon](#)

[Questions to the Minister for Culture and Sport](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Cynyddu'r Cyflenwad Tai](#)

[Statement: Increasing the Housing Supply](#)

[Datganiad: Cyflawni Rhaglen y Llywodraeth—Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ehangu Dechrau'n Deg](#)

[Statement: Delivering the Programme for Government—Update on Flying Start Expansion](#)

[Adroddiad Blyneddol Estyn 2012-13](#)

[The Estyn Annual Report 2012-13](#)

[Diwrnod Rhyngwladol y Menywod](#)

[International Women's Day](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Llifogydd

Questions to the First Minister

Flooding

13:30 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

1. Pa drafodaethau a gafodd Llywodraeth Cymru gyda Gweinidogion Swyddfa Cymru ynghylch y llifogydd diweddar? OAQ(4)1523(FM)

1. What discussions has the Welsh Government had with Ministers in the Wales Office regarding the recent flooding? OAQ(4)1523(FM)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I have occasional bilaterals with the Secretary of State for Wales and, after raising the issue of the impact of the recent flooding events, I have received confirmation that there would be a consequential for Wales—there is a catch—should there be any additional funding from HM Treasury. We are still waiting.

Rwy'n cael cyfarfodydd dwyochrog achlysurol gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac, ar ôl codi mater effaith digwyddiadau'r llifogydd diweddar, rwyf wedi derbyn cadarnhad y byddai cyllid canlyniadol i Gymru—ond ceir amod—os bydd unrhyw gyllid ychwanegol gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Rydym ni'n dal i aros.

13:31	Ann Jones Bywgraffiad Biography Thank you very much for that, First Minister. While we will welcome that consequential, I was amazed that the Prime Minister could come into Wales to announce that money would be no object for Tory constituencies that had been hit by flooding—because that is what it amounts to, basically—and then promptly walk out again without having said anything about flooding for Wales, or about additional moneys for floods in Wales. I know that you, and your Government—including your Minister who is responsible for flooding, Alun Davies—have worked very hard. [Interruption.] I can hear the twittering over there, but that is the reality of it. I know that you have worked very hard, along with your Minister for Finance, in fighting for that Barnett consequential for Wales, and that there has been a deafening silence from—	Diolch yn fawr iawn am hynna, Brif Weinidog. Er y byddwn yn croesawu'r cyllid canlyniadol hwnnw, fe'm syfrdanwyd y gallai Prif Weinidog y DU ddod i Gymru i gyhoeddi ni waeth faint y gost i etholaethau Toriaidd a oedd wedi cael eu taro gan lifogydd—oherwydd dyna y mae'n ei olygu, yn y bôn—ac yna cerdded yn syth allan eto heb ddweud unrhyw beth am lifogydd ar gyfer Cymru, nac am arian ychwanegol ar gyfer llifogydd yng Nghymru. Gwn eich bod chi, a'ch Llywodraeth—gan gynnwys eich Gweinidog sy'n gyfrifol am lifogydd, Alun Davies—wedi gweithio'n galed iawn. [Torri ar draws.] Gallaf glywed y clebran draw fan yna, ond dyna yw'r gwirionedd. Gwn eich bod wedi gweithio'n galed iawn, ynghyd â'ch Gweinidog Cyllid, i frwydro am y cyllid canlyniadol Barnett hwnnw i Gymru, a bu distawrwydd llwyr gan—	Senedd.tv Fideo Video
13:31	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Are you coming to the question?	A ydych chi'n dod at y cwestiwn?	Senedd.tv Fideo Video
13:31	Ann Jones Bywgraffiad Biography I am coming to it. There has been a deafening silence from the Secretary of State for Wales, David Jones, who constantly—and he is constant about this—runs Wales down. First Minister, will you continue, as a Welsh Government, to stand up for my constituency in Wales and for all those constituents across Wales who have been affected by floods?	Rwy'n dod ato. Bu distawrwydd llwyr gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David Jones, sy'n rhedeg ar Gymru yn gyson—ac mae yn gyson yn hynny o beth—rhedeg ar Gymru. Brif Weinidog, a wnewch chi barhau, fel Llywodraeth Cymru, i sefyll dros fy etholaeth yng Nghymru a dros yr holl etholwyr hynny ledled Cymru sydd wedi cael eu heffeithio gan lifogydd?	Senedd.tv Fideo Video
13:32	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Indeed so. What a contrast there has been between Wales and England. We have seen many thousands of properties flooded in England because of the cuts that have taken place there in the flooding budget. In contrast, in Wales, we have maintained funding for flood defences, and many, many thousands of properties have been protected as a result. It was quite remarkable that the people of Somerset, for example, spent many weeks without being noticed, when they were under water. Suddenly and belatedly, there was a response from the UK Government, and then, of course, when the Thames threatened to overflow it all of a sudden became of interest to the UK Government. We then had the bizarre situation of the Prime Minister coming to Pembrokeshire and announcing with great aplomb that there would be funding for flooding, forgetting the fact that Wales was not included in that announcement.	Gwnaf yn wir. Am wrthgyferbyniad a welwyd rhwng Cymru a Lloegr. Rydym ni wedi gweld miloedd lawer o eiddo dan ddŵr yn Lloegr oherwydd y toriadau i'r gyllideb llifogydd sydd wedi digwydd yno. Ar y llaw arall, yng Nghymru, rydym ni wedi cynnal cyllid ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd, ac mae miloedd lawer o eiddo wedi eu diogelu o ganlyniad. Roedd yn eithaf rhyfeddol bod pobl Gwlad yr Haf, er enghraifft, wedi treulio sawl wythnos heb gael sylw, pryd yr oedden nhw dan ddŵr. Yn sydyn ac yn hwyr, cafwyd ymateb gan Lywodraeth y DU, ac yna, wrth gwrs, pan roedd afon Tafwys yn bygwth gorlifo, daeth o ddiddordeb i Lywodraeth y DU yn sydyn. Yna cawsom y sefyllfa ryfedd lle daeth y Prif Weinidog i Sir Benfro a chyhoeddi'n bendant iawn y byddai cyllid ar gael ar gyfer llifogydd, gan anghofio'r ffaith nad oedd Cymru wedi ei chynnwys yn y cyhoeddiad hwnnw.	Senedd.tv Fideo Video

13:33

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure, First Minister, that, like me, you never cease to be amazed by the courage and the determination that community volunteers display in incidents of extensive flooding. In that light, one of my constituents recently raised the question of whether thought had been given to establishing an organisation for volunteers to assist in civil emergencies, like the old civil defence corps, which was stood down by a former Labour Government in 1968. Such organisations do exist—in the Irish Republic, Austria, Australia, and New Zealand. Is this something that you would be prepared to give some thought to, have you given thought to it, and, potentially, would you discuss this with UK Ministers?

Rwy'n siŵr, Brif Weinidog, eich bod chi, fel finnau, yn parhau i gael eich rhyfeddu gan y dewrder a'r penderfyniad a ddangosir gan wirfoddolwyr cymunedol mewn digwyddiadau o lifogydd helaeth. Yng ngoleuni hynny, cododd un o fy etholwyr y cwestiwn yn ddiweddar o ba un a roddwyd ystyriaeth i greu sefydliad i wirfoddolwyr gynorthwyo mewn argyfyngau sifil, fel yr hen gorfflu amddiffyn sifil, a ddiddymwyd gan gyn-Lywodraeth Lafur ym 1968. Mae sefydliadau o'r fath yn bodoli—yng Ngweriniaeth Iwerddon, Awstria, Awstralia, a Seland Newydd. A yw hyn yn rhywbeth y bydddech yn barod i roi rhywfaint o ystyriaeth iddo, a ydych chi wedi rhoi ystyriaeth iddo, ac a fyddwch chi, o bosibl, yn trafod hyn gyda Gweinidogion y DU?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I welcome very much, of course, the work that was done by volunteers in the course of the recent bad weather that we have had in Wales. Who could fail to commend them on their actions? I have had no discussions with the Wales Office regarding the resurrection of a body that was abolished when I was two years old—that is pretty true. However, nevertheless, I applaud the actions of all those who were involved in dealing with the very difficult weather, and I particularly applaud the fact that, in Wales—and despite the fact that we had similar weather to the south-west of England—we were able to weather those storms. Our flood defences held because we had actually put money into those defences.

Rwy'n croesawu'n fawr iawn, wrth gwrs, y gwaith a wnaed gan wirfoddolwyr yn ystod y tywydd garw diweddar a gawsom yng Nghymru. Pwy allai beidio â'u canmol nhw ar eu gweithredoedd? Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Swyddfa Cymru ynglŷn ag atgyfodi corff a ddiddymwyd pan roeddwn i'n ddwyflwydd oed—mae hynny'n eithaf gwir. Fodd bynnag, serch hynny, rwy'n cymeradwyo gweithredoedd pawb a gymerodd ran yn y gwaith o ymdrin â'r tywydd garw iawn, ac rwy'n cymeradwyo'n arbennig, yng Nghymru—ac er gwaethaf y ffaith i ni gael tywydd tebyg yn ne-orllewin Lloegr—i ni allu dod drwy'r stormydd hynny. Safodd ein hamddiffynfeydd rhag llifogydd yn gadarn oherwydd ein bod wedi gwario arian ar yr amddiffynfeydd hynny mewn gwirionedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n dod i'r amlwg yn awr bod rhai cynghorau yn Lloegr yn awyddus i ddiwygio eu cynlluniau datblygu lleol yn sgîl yr achosion o lifogydd diweddar—efallai mewn ardaloedd lle nad oes llifogydd wedi bod yn y gorffennol, a lle mae datblygu, o bosibl, yn yr arfaeth. Pa gyngor y mae eich Llywodraeth chi yn ei roi i awdurdodau cynllunio Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd—neu pa ganiatâd y gallwch chi ei roi iddynt—o ddiwygio cynlluniau datblygu lleol yn gynt nag y byddent fel arfer yn ei wneud, os oes enghreifftiau tebyg yn dod i'r amlwg yma yng Nghymru?

It is now becoming apparent that certain councils in England are eager to amend their local development plans in the wake of recent flooding—perhaps in areas where there has not been flooding in the past and where development is in the pipeline. What advice is your Government giving to planning authorities in Wales on the possibility—or what consent can you give—of amending their local development plans sooner than they would do otherwise, if there are similar examples emerging here in Wales?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid yw hyn wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaeth yr wyf wedi ei chael gyda Swyddfa Cymru, mae'n rhaid i fi ddweud. Ond, wrth gwrs, mae gennym TAN, a daeth y TAN i rym tua saith mlynedd yn ôl—rwy'n cofio achos mai fi oedd y Gweinidog ddaeth â'r TAN i rym. Rwy'n cofio pobl yn dweud ar y pryd ei fod yn eithafol o ran y ffaith ei fod yn dweud bod yn rhaid gwarchod rhai rhannau o dir a oedd wedi gweld adeiladu o'r blaen. Yn awr, wrth gwrs, rydym yn gwybod bod pethau wedi newid o ran yr hinsawdd, ond byddwn yn erfyn i'r awdurdodau lleol ddilyn y TAN.

This has not been part of any discussion that I have had with the Wales Office, I must say. However, of course, we have a TAN, which came into force some seven years ago—I remember because I was the Minister who brought it forward. I recall people saying at the time that it was extreme in terms of the fact that it safeguarded some land that had already been built upon. We now know, of course, that things have changed in terms of the climate, but it will be incumbent upon local authorities to follow the TAN.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Economi

Economy

13:35	Christine Chapman Bywgraffiad Biography <i>2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ba gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella economi Cwm Cynon? OAQ(4)1526(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video <i>2. Will the First Minister make a statement on what actions the Welsh Government is taking to improve the economy of the Cynon Valley? OAQ(4)1526(FM)</i>
13:35	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> We are progressing our actions as outlined in the programme for government, focusing on growth and sustainable jobs. We have a variety of programmes to do this, including the provision of business support through Business Wales, information and communications technology support, and transport infrastructure improvements. We are now, of course, in a position where unemployment in Wales is lower than in England, and youth unemployment in Wales is substantially lower than in England.	Senedd.tv Fideo Video Rydym yn bwrw ymlaen â'n camau gweithredu fel yr amlinellir yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu, gan ganolbwyntio ar dwf a swyddi cynaliadwy. Mae gennym amrywiaeth o raglenni i wneud hyn, gan gynnwys darparu cymorth i fusnesau trwy Busnes Cymru, cefnogaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, a gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth. Rydym ni mewn sefyllfa nawr, wrth gwrs, lle mae diweithdra yng Nghymru yn is nag yn Lloegr, ac mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn sylweddol is nag yn Lloegr.
13:36	Christine Chapman Bywgraffiad Biography Thank you, First Minister. It is certainly very welcome news that youth unemployment rates have declined more quickly here. However, you will know, First Minister, about the unacceptably high levels of youth unemployment in my constituency and that four out of every 10 young people are not economically active. We can, and should be, proud of what the Welsh Labour Government has achieved in the face of the toughest settlement since the advent of devolution, but how else can we help these young people back into work and enable them to make a positive contribution to the economy of the Cynon Valley and Wales as a whole?	Senedd.tv Fideo Video Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae'n sicr yn newyddion da iawn bod cyfraddau diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi gostwng yn gyflymach yma. Fodd bynnag, byddwch yn gwybod, Brif Weinidog, am y lefelau annerbyniol o uchel o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc yn fy etholaeth i, a'r ffaith nad yw pedwar o bob 10 o bobl ifanc yn economaidd weithgar. Gallwn, a dylem fod, yn falch o'r hyn y mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ei gyflawni yn wyneb y setliad anoddaf ers dyfodiad datganoli, ond sut arall allwn ni helpu'r bobl ifanc hyn yn ôl i mewn i waith a'u galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol at economi Cwm Cynon a Chymru yn ei chyfanrwydd?
13:36	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I thank the Member for the question. We must remember, of course, that many young people who are not economically active are, in fact, students, so they are not actually looking for work, nor are they, by that definition, unemployed. Those who are not economically active are often in that category. That said, of course, I can point to two programmes that have helped, the first of which is the Youth Entrepreneurship Strategy, where we see more and more young people now looking to set up in business. Secondly, we have of course, Jobs Growth Wales. The latest figures, published last week, show that Jobs Growth Wales has created 11,059 job opportunities and 8,693 young people have filled those jobs. This is why our rate of youth unemployment is so substantially below the UK average.	Senedd.tv Fideo Video Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'n rhaid i ni gofio, wrth gwrs, bod llawer o bobl ifanc nad ydynt yn economaidd weithgar yn fyfyrwyr, mewn gwirionedd, ac felly nid ydynt yn chwilio am waith a dweud y gwir, ac nid ydynt, yn ôl y diffiniad hwnnw, yn ddi-waith. Mae'r rhai nad ydynt yn economaidd weithgar yn aml yn y categori hwnnw. Wedi dweud hynny, wrth gwrs, gallaf gyfeirio at ddwy raglen sydd wedi helpu, a'r cyntaf ohonynt yw'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid, lle'r ydym yn gweld mwy a mwy o bobl ifanc bellach sydd â'r nod o sefydlu busnes. Yn ail, mae gennym Twf Swyddi Cymru wrth gwrs. Mae'r ffigurau diweddaraf, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, yn dangos bod Twf Swyddi Cymru wedi creu 11,059 o gyfleoedd ar gyfer swyddi a bod 8,693 o bobl ifanc wedi llenwi'r swyddi hynny. Dyma pam mae ein cyfradd diweithdra ymhlith pobl ifanc yn sylweddol is na chyfartaledd y DU.
13:37	William Graham Bywgraffiad Biography People living near a 76-turbine windfarm being built between Neath and Aberdare are being given a say on how they want to spend a £1.8 million communities fund. First Minister, are there any plans to enable people in their communities to get involved in such projects, particularly to encourage not only people to take responsibility for their community, but ideas and new businesses in the hope that they will be able to reduce local unemployment?	Senedd.tv Fideo Video Mae pobl sy'n byw yn agos at fferm wynt 76 tyrbin sy'n cael ei hadeiladu rhwng Castell-nedd ac Aberdâr yn cael cyfle i fynegi eu barn ar sut yr hoffent wario cronfa cymunedau gwerth £1.8 miliwn. Brif Weinidog, a oes unrhyw gynlluniau i alluogi pobl yn eu cymunedau i gymryd rhan mewn prosiectau o'r fath, yn enwedig er mwyn annog pobl i gymryd cyfrifoldeb am eu cymuned, yn ogystal â syniadau a busnesau newydd, yn y gobaith y byddant yn gallu lleihau diweithdra yn lleol?

13:38

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, that is something that we encouraged. That is why we wanted to create a register of community benefits, and we have encouraged windfarm projects to make sure that they make funds available in an innovative way. There is a limit to how many village halls can be built and refurbished, and it is important that the community benefit that accrues from wind turbines is used, for example, to create employment opportunities for young people.

Oes, mae hynny'n rhywbeth a anogwyd gennym. Dyna pam yr ydym ni'n awyddus i greu cofrestr o fuddion cymunedol, ac rydym ni wedi annog prosiectau ffermydd gwynt i wneud yn siŵr eu bod yn rhoi arian ar gael mewn ffordd arloesol. Mae terfyn ar faint o neuaddau pentref y gellir eu hadeiladu a'u hailwampio, ac mae'n bwysig bod y budd cymunedol sy'n deillio o dyrbinau gwynt yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, i greu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cwestiynau heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions without Notice from the Party Leaders

13:38

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to questions from the party leaders. First this afternoon, we have the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau. Yn gyntaf y prynhawn yma, mae gennym arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:38

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

Thank you very much, Presiding Officer. First Minister, today, the Family and Childcare Trust published its annual childcare cost survey, which makes for some very grim reading for many parents in Wales. Could you account for why, under a Welsh Labour Government, the number of local authorities reporting adequate childcare provision for under-tuos has gone down, with just one in five Welsh councils saying that they have sufficient places?

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Brif Weinidog, heddiw, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant ei harolwg costau gofal plant blynyddol, sy'n cynnig gwybodaeth ddigalon iawn i lawer o rieni yng Nghymru. A allech chi esbonio pam, dan Lywodraeth Lafur Cymru, mae nifer yr awdurdodau lleol sy'n nodi darpariaeth gofal plant ddigonol ar gyfer plant dan ddwy oed wedi gostwng, wrth i ddim ond un o bob pump o gynghorau Cymru ddweud bod ganddynt ddigon o leoedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

These are matters for local authorities. We encourage local authorities to make sure that they have sufficient places available, but it is a matter for them to ensure that they do.

Mae'r rhain yn faterion i awdurdodau lleol. Rydym yn annog awdurdodau lleol i wneud yn siŵr bod ganddynt ddigon o leoedd ar gael, ond mater iddyn nhw yw sicrhau bod ganddynt y lleoedd hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is disappointing, First Minister, that you feel that your own Government does not have a stake in trying to sort this problem out for Welsh parents. The report goes on to say that just 11% of Welsh local authorities reported sufficient childcare provision for five to 11-year-olds; just 6% reported enough provision for disabled children; and not a single Welsh council reported having adequate provision for children living in rural areas. First Minister, are you sure that your Welsh Government does not have a role to play in making sure that there are affordable childcare places for parents across Wales across the age ranges?

Mae'n siomedig, Brif Weinidog, eich bod yn teimlo nad oes gan eich Llywodraeth eich hun swyddogaeth i'w chyflawni o ran ceisio datrys y broblem hon i rieni yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i ddweud mai dim ond 11% o awdurdodau lleol Cymru nododd ddarpariaeth gofal plant ddigonol ar gyfer plant pump i 11 mlwydd oed; dim ond 6% ddywedodd bod ganddynt ddarpariaeth ddigonol ar gyfer plant anabl; ac ni ddywedodd yr un cyngor yng Nghymru bod ganddo ddarpariaeth ddigonol ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Brif Weinidog, a ydych chi'n siŵr nad oes gan eich Llywodraeth Cymru swyddogaeth i'w chyflawni o ran sicrhau bod lleoedd gofal plant fforddiadwy ar gael i rieni ledled Cymru ar draws y grwpiau oedran?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:39

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Of course we work with local authorities to do that, and Flying Start is an example of how good that can be. In the tackling poverty action plan as well, of course, we know that childcare provision is extremely important because we know that so many people rely on childcare provision in order to work. That is why—to use one example—Flying Start has been so successful in enabling many people to go to work, because of the provisions contained in that programme.

Rydym ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol i wneud hynny, wrth gwrs, ac mae Dechrau'n Deg yn enghraifft o ba mor dda y gall hynny fod. Yn y cynllun gweithredu ar drechu tlodi hefyd, wrth gwrs, rydym yn gwybod bod y ddarpariaeth o ofal plant yn arbennig o bwysig gan ein bod yn gwybod bod cymaint o bobl yn dibynnu ar ddarpariaeth gofal plant er mwyn gallu gweithio. Dyna pam—i ddefnyddio un enghraifft—mae Dechrau'n Deg wedi bod mor llwyddiannus o ran galluogi llawer o bobl i fynd i'r gwaith, oherwydd y darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y rhaglen honno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:40

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I am glad that we both agree that adequate childcare is absolutely vital for families and for the Welsh economy, but it begs the question: why are the figures getting worse? If we can move on from willfull provision to the costs for Welsh parents, childcare costs in England are falling in real terms for the first time in 12 years, yet, in Wales, the cost of nursery care for under-twos has increased by nearly 12%. For over-twos, it has increased by 13%, and the cost of after school clubs has increased by a whopping 15%. The reality of childcare under Labour in Wales is that, even if you find a place for your child, it is more and more difficult to afford it. When are you going to start taking this seriously and help hard-working families achieve the flexible childcare that they need across the country?

Brif Weinidog, rwy'n falch bod y ddau ohonom yn cytuno bod gofal plant digonol yn gwbl hanfodol i deuluoedd ac i economi Cymru, ond mae'n rhaid gofyn y cwestiwn: pam mae'r ffigurau'n gwaethygu? Os gallwn symud ymlaen o ddarpariaeth fwriadol at y costau i rieni yng Nghymru, mae costau gofal plant yn Lloegr yn gostwng mewn termau real am y tro cyntaf mewn 12 mlynedd, ac eto, yng Nghymru, mae cost gofal meithrin i'r rhai dan ddwy oed wedi cynyddu bron i 12%. Mae wedi cynyddu 13% i'r rhai dros ddwy oed, ac mae cost Clybiau ar ôl ysgol wedi cynyddu gan swm enfawr o 15%. Gwirionedd gofal plant dan Lafur yng Nghymru, hyd yn oed os ydych chi'n dod o hyd i le ar gyfer eich plentyn, yw ei bod yn fwy ac yn fwy anodd ei fforddio. Pryd ydych chi'n mynd i ddechrau trin hyn o ddifrif a helpu teuluoedd sy'n gweithio'n galed i gael y gofal plant hyblyg sydd ei angen arnynt ledled y wlad?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

There are two points to make here. First, I suspect that she makes references to the costs that are being imposed by private providers and not by public providers, over which we have no control. Secondly, I accept what she says: childcare is or has been an increasing issue for many people, including ourselves, over the years, particularly as we have seen a number of crèches close—some in the public sector and some in the private sector. However, it is exceptionally difficult to achieve the level of childcare that we would want, given the financial circumstances in which we find ourselves. The reality is that the cuts that we are receiving over three years, do not allow us to have the sort of childcare provision that I am sure many Members in this Chamber would want.

Mae dau bwynt i'w gwneud yma. Yn gyntaf, rwy'n amau ei bod yn cyfeirio at y costau sy'n cael eu codi gan ddarparwyr preifat ac nid gan ddarparwyr cyhoeddus, ac nid oes gennym unrhyw reolaeth dros hynny. Yn ail, rwy'n derbyn yr hyn mae hi'n ei ddweud: mae gofal plant yn neu wedi bod yn broblem gynyddol i lawer o bobl, gan gynnwys ni ein hunain, dros y blynyddoedd, yn enwedig gan ein bod wedi gweld nifer o gyfleusterau crèche yn cau —rhai yn y sector cyhoeddus a rhai yn y sector preifat. Fodd bynnag, mae'n eithriadol o anodd cyrraedd y lefel o ofal plant y byddem yn ei ddymuno, o ystyried yr amgylchiadau ariannol rydym ni'n canfod ein hunain ynddynt. Y gwir amdani yw nad yw'r toriadau rydym ni'n eu derbyn dros dair blynedd yn caniatáu i ni gael y math o ddarpariaeth gofal plant yr wyf yn siŵr y byddai llawer o Aelodau yn y Siambr hon yn dymuno ei gael.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:41

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

First Minister, could you explain today why some cardiac patients have been referred over the bridge to Bristol to have their treatment for cardiac problems sorted out there, because, regrettably, the waiting lists are so great here in Wales?

Brif Weinidog, a allech chi egluro heddiw pam mae rhai cleifion cardiaidd wedi eu hatgyfeirio dros y bont i Fryste i gael eu triniaeth ar gyfer problemau'r galon yno, oherwydd, yn anffodus, bod y rhestrau aros mor fawr yma yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

To get treatment sooner.

I gael triniaeth ynghynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That is a very flippant answer, to be honest with you. [Laughter.] I do take the point that, obviously, they have to have treatment as quickly as possible and that commissioning treatment in independent hospitals on the other side of Offa's Dyke will allow that to happen. However, looking at what the Royal College of Surgeons has said, 152 patients have died in the last five years while waiting for cardiac surgery. In December 2013, 183 patients had been waiting over 36 weeks for such surgery. This is the highest number since October 2009. The Royal College of Surgeons identified these problems over six months ago and it is still waiting for substantive answers from Health Inspectorate Wales. Do you not think that there is an apology owed on behalf of your Government to the patients who have been kept waiting on these waiting lists, and in particular for the premature deaths that have been identified by the Royal College of Surgeons because of these waiting times?

Mae hwnna'n ateb gwamal iawn, i fod yn onest â chi. [Chwerthin.] Rwy'n derbyn y pwynt, yn amlwg, bod yn rhaid iddyn nhw gael triniaeth cyn gynted â phosibl ac y bydd comisiynu triniaeth mewn ysbytai annibynnol yr ochr arall i Glawdd Offa yn caniatáu i hynny ddigwydd. Fodd bynnag, gan edrych ar yr hyn y mae Coleg Brenhinol y Llawfeddygon wedi ei ddweud, mae 152 o gleifion wedi marw yn ystod y pum mlynedd diwethaf wrth aros am lawdriniaeth gardiaidd. Ym mis Rhagfyr 2013, roedd 183 o gleifion wedi bod yn aros dros 36 wythnos am lawdriniaeth o'r fath. Dyma'r nifer uchaf ers mis Hydref 2009. Nodwyd y problemau hyn gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon dros chwe mis yn ôl, ac mae'n dal i aros am atebion pendant gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Onid ydych chi'n credu y dylid ymddiheuro ar ran eich Llywodraeth i'r cleifion sydd wedi eu cadw'n aros ar y rhestrau aros hyn, ac yn enwedig am y marwolaethau cynamserol a nodwyd gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon oherwydd yr amseroedd aros hyn?

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thought that the answer that I gave the leader of the opposition was fairly clear, but certainly, I will give him a fuller answer: yes, 80 patients will go to England for treatment this month and surgery will be undertaken at weekends here in Wales. In the long term, we have a two-year plan to put in place cardiac surgery in Wales on a sustainable footing, but, in the meantime, I do not see how he can criticise us for looking for other options to deliver a service for the people who need that service. Otherwise, he would be condemning us for not using facilities outside Wales and for making people wait longer. The reality is that, now, more people will wait a shorter period of time to get their treatment.

Roeddwn i'n meddwl bod yr ateb a roddais i arweinydd yr wrthblaid yn eithaf eglur, ond yn sicr, byddaf yn rhoi ateb mwy cyflawn iddo: bydd, mi fydd 80 o gleifion yn mynd i Loegr am driniaeth y mis hwn a bydd llawdriniaeth yn cael ei chynnal ar benwythnosau yma yng Nghymru. Yn y tymor hir, mae gennym gynllun dwy flynedd i sefydlu llawdriniaeth gardiaidd yng Nghymru ar sail gynaliadwy, ond, yn y cyfamser, nid wyf yn gweld sut y gall ef ein beirniadu ni am chwilio am ddewisiadau eraill ar gyfer darparu gwasanaeth i'r bobl sydd angen y gwasanaeth hwnnw. Fel arall, byddai'n ein condemnio am beidio â defnyddio cyfleusterau y tu allan i Gymru ac am wneud i bobl aros yn hwy. Y gwir amdani bellach yw y bydd mwy o bobl yn aros am gyfnod byrrach o amser i gael eu triniaeth.

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The criticism that I was making of you, First Minister, is that the ideology prevented this type of treatment from being made available to patients far sooner, and the premature deaths that have been identified could, in certain instances, have been prevented.

Y feirniadaeth yr oeddwn i'n ei gwneud amdano chi, Brif Weinidog, yw bod yr ideoleg wedi atal y math hwn o driniaeth rhag cael ei roi ar gael i gleifion yn gynharach o lawer, ac y gellid bod wedi atal y marwolaethau cynamserol a nodwyd, mewn rhai achosion.

However, the concern that I have is that you point to a medium-to-long-term plan that has been put in place by the commissioning board from Cwm Taf health board to develop cardiac services here in Wales. I accept that plan, but, we heard Ann Clwyd, who is the Labour Member for Cynon Valley, saying last week that there are hospitals in Wales that should be put in special measures and that some people are being forced to go into the private sector as they cannot afford to wait. That, she said, is a state of affairs that she is not prepared to put up with. Those were the words of Ann Clwyd, the Labour Member for Cynon Valley. So, what confidence can you give us today that the measures identified by Cwm Taf health board, which is the commissioner of cardiac services, will actually address the long-term waits and, in particular, the inability for patients to get their treatments sorted here in Wales? Can you give a commitment that those improvements will be made in the next 12 to 18 months?

Fodd bynnag, y pryder sydd gennyf yw eich bod yn cyfeirio at gynllun tymor canolig i dymor hir sydd wedi ei roi ar waith gan y bwrdd comisiynu o Fwrdd Iechyd Cwm Taf i ddatblygu gwasanaethau cardiaidd yma yng Nghymru. Rwy'n derbyn y cynllun hwnnw, ond, clywsom Ann Clwyd, sef yr Aelod Llafur dros Gwm Cynon, yn dweud yr wythnos diwethaf y ceir ysbytai yng Nghymru a ddylai fod yn destun mesurau arbennig a bod rhai pobl yn cael eu gorfodi i fynd i'r sector preifat gan nad ydynt yn gallu fforddio aros. Mae honno, meddai, yn sefyllfa nad yw'n barod i'w derbyn. Dyna oedd geiriau Ann Clwyd, yr Aelod Llafur dros Gwm Cynon. Felly, pa sicrwydd allwch chi ei roi i ni heddiw y bydd y mesurau a nodwyd gan fwrdd iechyd Cwm Taf, sef comisiynydd y gwasanaethau cardiaidd, yn mynd i'r afael â'r amseroedd aros tymor hir mewn gwirionedd ac, yn arbennig, y ffaith nad yw cleifion yn gallu cael eu triniaethau yma yng Nghymru? A allwch chi roi ymrwymiad y bydd y gwelliannau hynny'n cael eu gwneud yn ystod y 12 i 18 mis nesaf?

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes, that is why we have a plan for the next two years. I do not accept what Ann Clwyd says, incidentally. In the meantime, that is why it is important that we identify short-term ways of ensuring that people get the treatment that they need. That is what we stand for as a party—making sure that people can access treatments. If it means, in the meantime, accessing treatments by non-conventional routes, so be it. I would rather that people get that treatment than not. His party has played fast and loose with figures. Only last week, Darren Millar, his health spokesperson, was claiming that the number of beds in Wales had dropped by nearly 20%. There are two points to make about that: first, of course, the number of beds has dropped, because more people are treated at home than they were, but, secondly, he forgot to mention that, in England, the figure is 25%. There has been a 25% drop in the number of beds in England, so, in fact, we have actually protected beds far better than his party's Government has in England. He can see the figures, if he wants; they are here. I will read them out if he wants me to. [Interruption.] He can shout as much as he wants to. In 2002-03— [Interruption.]

Gallaf, dyna pam mae gennym ni gynllun ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Nid wyf yn derbyn yr hyn y mae Ann Clwyd yn ei ddweud, gyda llaw. Yn y cyfamser, dyna pam mae'n bwysig ein bod yn nodi ffyrdd tymor byr o sicrhau bod pobl yn cael y driniaeth sydd ei hangen arnynt. Dyna'r hyn rydym ni'n sefyll drosto fel plaid—sicrhau y gall pobl gael mynediad at driniaethau. Os yw hynny'n golygu, yn y cyfamser, cael mynediad at driniaethau trwy ffyrdd nad ydynt yn gonfensiynol, yna felly mae'n rhaid iddi fod. Byddai'n well gennyf bod pobl yn cael y driniaeth na pheidio. Mae ei blaid ef wedi defnyddio ffigyrau i'w diben eu hunain. Dim ond yr wythnos diwethaf, roedd Darren Millar, ei lefarydd iechyd, yn honni bod nifer y gwelyau yng Nghymru wedi gostwng bron i 20%. Mae dau bwynt i'w gwneud am hynny: yn gyntaf, wrth gwrs, mae nifer y gwelyau wedi gostwng, gan fod mwy o bobl yn cael eu trin gartref nag o'r blaen, ond, yn ail, anghofiodd sôn bod y ffigur yn 25% yn Lloegr. Bu gostyngiad o 25% i nifer y gwelyau yn Lloegr, felly, mewn gwirionedd, rydym ni'n diogelu gwelyau yn llawer gwell nag y mae Llywodraeth ei blaid ef wedi ei wneud yn Lloegr. Caiff weld y ffigurau, os yw'n dymuno; maen nhw yma. Fe wnafe eu darllen nhw allan os yw'n dymuno i mi wneud hynny. [Torri ar draws.] Caiff weiddi cymaint ag y mae eisiau. Yn 2002-03— [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. Gracious me. First Minister, were you going to read something?

Trefn. Mawredd mawr. Brif Weinidog, a oeddech chi'n mynd i ddarllen rhywbeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

In 2002-03, there were 183,000 beds in England, but now there are 136,000 beds in England. It is not all about beds, that much is true, but by his own definition, he has condemned his own party's stewardship of the NHS in England, except he did not do enough work or research to find out that fact.

Yn 2002-03, roedd 183,000 o welyau yn Lloegr, ond erbyn hyn mae 136,000 o welyau yn Lloegr. Nid yw'n ymwneud â gwelyau'n gyfan gwbl, mae hynny'n wir, ond yn ôl ei ddiffiniad ei hun, mae wedi condemnio stiwardiaeth ei blaid ei hun o'r GLG yn Lloegr, heblaw iddo beidio â gwneud digon o waith neu ymchwil i ddarganfod y ffaith honno.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

I would like to return to the Family and Childcare Trust annual report, which was published today. It showed that the cost of nursery provision for those aged under two has increased by 11.7%, compared with the UK average increase of 3.3%. First Minister, can you tell us why you think that costs have increased so much in Wales compared with other parts of the UK?

Hoffwn ddychwelyd at adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant a gyhoeddwyd heddiw. Roedd yn dangos bod cost darpariaeth feithrin ar gyfer y rhai dan ddwy oed wedi cynyddu 11.7%, o'i gymharu â'r cynnydd o 3.3% i gyfartaledd y DU. Brif Weinidog, a allwch chi ddweud wrthym pam yn eich barn chi y mae costau wedi cynyddu cymaint yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I have to say that I have not seen the report, so I cannot comment too much on its detail. The suspicion must be that there is not enough provision, particularly in the private sector, and costs have risen as a result. That would seem to me to be the case. The next question is, 'What can Government do about it?' I am sure that we will all have ideas as to how to improve childcare, but these are difficult financial times for establishing the kind of facilities that many of us in this Chamber would want to see.

Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf wedi gweld yr adroddiad, felly ni allaf wneud gormod o sylwadau ar ei fanylion. Mae'n rhaid mai'r amheuaeth yw nad oes digon o ddarpariaeth, yn enwedig yn y sector preifat, a bod costau wedi cynyddu o ganlyniad. Mae hi'n ymddangos i mi mai dyna'r achos. Y cwestiwn nesaf yw, 'Beth all y Llywodraeth ei wneud am y peth?' Rwy'n siŵr y bydd gan bob un ohonom syniadau ar sut i wella gofal plant, ond mae hwn yn gyfnod ariannol anodd ar gyfer sefydlu'r math o gyfleusterau y byddai llawer ohonom yn y Siambr hon eisiau eu gweld.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They are difficult financial times, First Minister, and pressures upon local council budgets are resulting in further cutbacks in childcare provision. In my local authority, Rhondda Cynon Taf, the council is removing full-time provision for those aged under four, and those cuts have not even been implemented, so they are not impacting yet. Do you accept that the cuts to local council budgets for childcare will further hinder parents who need affordable childcare places so that they can get back into the workplace, and do you also accept that it will further exacerbate our economic problems if people are unable to access affordable childcare in order to work?

Mae hwn yn gyfnod ariannol anodd, Brif Weinidog, ac mae pwysau ar gyllidebau cyngorau lleol yn arwain at doriadau pellach yn y ddarpariaeth o ofal plant. Yn fy awdurdod lleol i, Rhondda Cynon Taf, mae'r cyngor yn cael gwared ar ddarpariaeth llawn amser ar gyfer y rhai dan bedair oed, ac nid yw'r toriadau hynny wedi eu gweithredu hyd yn oed, felly nid ydynt wedi cael effaith eto. A ydych chi'n derbyn y bydd y toriadau i gyllidebau cyngorau lleol ar gyfer gofal plant yn fwy o rwystr i rieni sydd angen lleoedd gofal plant fforddiadwy fel y gallant ddychwelyd i'r gweithle, ac a ydych chi hefyd yn derbyn y bydd yn gwaethygu ymhellach ein problemau economaidd os nad yw pobl yn gallu cael mynediad at ofal plant fforddiadwy er mwyn gallu gweithio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Of course, that is where Flying Start comes in, to make sure that there is access to childcare that, otherwise, would not be there. Local authorities must make their own decisions, according to their budgets and provide the services that they think are affordable to their local populations. It is true to say, of course, that local government budgets are squeezed, but we cannot give them money that we do not have.

Wrth gwrs, dyna lle mae Dechrau'n Deg yn dod i mewn, i wneud yn siŵr bod mynediad at ofal plant na fyddai yno fel arall. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud eu penderfyniadau eu hunain, yn ôl eu cyllidebau a darparu'r gwasanaethau y maen nhw o'r farn eu bod yn fforddiadwy i'w poblogaethau lleol. Mae'n wir dweud, wrth gwrs, bod cyllidebau llywodraeth leol yn cael eu gwasgu, ond ni allwn roi arian nad yw gennym iddyn nhw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It sounds, First Minister, as though you are saying that nothing can be done by Government about this problem. Your party has already announced its intentions for 25 hours a week of free childcare for three-year-olds in England. You have also committed yourselves to providing wraparound childcare for schoolchildren. Your party leader has outlined his vision for a so-called 'one nation' Labour Party, where there is meant to be a level playing field. When, therefore, will you be matching the promises made for childcare in England here in Wales?

Mae'n swnio, Brif Weinidog, fel pe bydddech yn dweud na all y Llywodraeth wneud dim am y broblem hon. Mae eich plaid eisoes wedi cyhoeddi ei bwriadau ar gyfer 25 awr yr wythnos o ofal plant am ddim i blant tair blwydd oed yn Lloegr. Rydych chi hefyd wedi ymrwymo eich hunain i ddarparu gofal plant cofleidiol i blant ysgol. Mae arweinydd eich plaid wedi amlinellu ei weledigaeth ar gyfer yr hyn a elwir yn Blaid Lafur 'un genedl', lle rydym ni i fod i gael sefyllfa gwbl gydradd. Pryd, felly, fyddwch chi'n ategu'r addewidion a wnaed ar gyfer gofal plant yn Lloegr yma yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:49	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I do not remember saying that this is part of the one nation Labour Party as the leader of Welsh Labour, if I may make that point. Secondly, it is true that that is part of the policy that has been outlined in England. We would then, of course, get a consequential if that policy were to be implemented, following, as many of us in this Chamber would want to see, the election of a Labour Government next year in Westminster. Knowing that that money would be coming, we would then be able to take a decision as to how best to use it in order to provide childcare in Wales. However, unfortunately, we do not yet have a Labour Government at Westminster.	Senedd.tv Fideo Video
13:49	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography We now move back to the questions on the agenda.	Senedd.tv Fideo Video Symudwn yn ôl nawr at y cwestiynau ar yr agenda.
	Lefelau Diweithdra	Unemployment Levels
13:49	Julie Morgan Bywgraffiad Biography <i>3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am lefelau diweithdra yng Nghymru? OAQ(4)1524(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video <i>3. Will the First Minister make a statement on Welsh unemployment levels? OAQ(4)1524(FM)</i>
13:49	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes. As I said earlier on, our rate of unemployment is lower than England's. Youth unemployment is falling faster in Wales and is also, of course, lower than in England.	Senedd.tv Fideo Video Gwnaf. Fel y dywedais yn gynharach, mae ein cyfradd diweithdra yn is nag un Lloegr. Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yn gostwng yn gyflymach yng Nghymru ac mae hefyd, wrth gwrs, yn is nag yn Lloegr.
13:50	Julie Morgan Bywgraffiad Biography I thank the First Minister for that response. Would the First Minister confirm that while public sector jobs have been lost since 2000, private sector employment growth has been far higher in Wales than in the UK as a whole?	Senedd.tv Fideo Video Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau, er i swyddi gael eu colli o'r sector cyhoeddus ers 2000, bod twf cyflogaeth yn y sector preifat wedi bod yn llawer uwch yng Nghymru nag yn y DU yn ei chyfanrwydd?
13:50	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes, it is. That is tribute, of course, to all the work that has been done by the Minister and her department. The fact is that we have seen foreign direct investment increase by 191% in one year. Export figures will be published this week or next week, I think. I expect to see those export figures showing good news for Wales. The facts are that our unemployment levels are so much lower, employment is up, economic inactivity is down, young people see the benefit of Jobs Growth Wales, and we have attracted probably the biggest investment into Wales for many decades, through Pinewood Studios—nearly 2,000 jobs. That shows the confidence that the business community has in this Welsh Government and its ability to deliver.	Senedd.tv Fideo Video Ydy, mae hynny'n wir. Mae hynny'n deyrnged, wrth gwrs, i'r holl waith sydd wedi ei wneud gan y Gweinidog a'i hadran. Y ffaith yw ein bod wedi gweld buddsoddiad uniongyrchol tramor yn cynyddu 191% mewn un flwyddyn. Bydd ffigurau allforio yn cael eu cyhoeddi yr wythnos hon neu'r wythnos nesaf, rwy'n credu. Rwy'n disgwyl gweld y ffigurau allforio hynny yn dangos newyddion da i Gymru. Y gwir amdani yw bod ein lefelau diweithdra yn llawer is, mae cyflogaeth wedi cynyddu, mae anweithgarwch economaidd wedi gostwng, mae pobl ifanc yn gweld budd Twf Swyddi Cymru, ac rydym ni wedi denu'r buddsoddiad mwyaf i Gymru ers degawdau lawer yn ôl pob tebyg, trwy Pinewood Studios—bron i 2,000 o swyddi. Mae hynny'n dangos yr hyder sydd gan y gymuned fusnes yn y Llywodraeth Cymru hon a'i gallu i gyflawni.

13:51

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Without wishing to question your figures, First Minister, I note that the Statistical First Release statistics of July 2013 would indicate that economic inactivity rates among people aged 16 to 64 in Wales were nearly 24%, against 22% in England. Although we welcome the reduction in unemployment among people aged 16 to 18, the number of those aged 19 to 24 has, in fact, increased. Although we recognise that there has been some fall in unemployment, which is to be welcomed, there is a lot more to be done. What are you going to do about it?

Heb ddymuno cwestiynu eich ffigurau, Brif Weinidog, rwy'n nodi y byddai ystadegau Datganiad Ystadegol Cyntaf mis Gorffennaf 2013 yn dangos bod cyfraddau anweithgarwch economaidd ymhlith pobl 16 i 64 oed yng Nghymru yn 24% bron, o'u cymharu â 22% yn Lloegr. Er ein bod yn croesawu'r gostyngiad mewn diweithdra ymhlith pobl 16 i 18 oed, mae nifer y rhai 19 i 24 oed wedi cynyddu mewn gwirionedd. Er ein bod yn cydnabod y bu rhywfaint o ostyngiad mewn diweithdra, sydd i'w groesawu, mae llawer mwy i'w wneud. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud am hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I am not sure why the Member is using figures that, by his own admission, are eight months out of date. Nevertheless, he is. I can tell him that the latest statistics show that unemployment rates for those between 16 and 17, are—if I remember rightly—24% in Wales. That is still too high, but 35% is the UK average. When we look at 18 to 24-year-olds, we see that the UK average rate is something like 19%, and 16.8% in Wales. So, the latest figures show quite clearly that, when it comes to unemployment and youth unemployment, the figures in Wales are far better. Why is that? It is true to say that the UK is following a trend of lower unemployment. The figures show that. However, in Wales, we are doing better. It is a real shame that the UK Government cannot do as well as a Welsh Labour Government. [Interruption.]

Nid wyf yn siŵr pam mae'r Aelod yn defnyddio ffigurau sydd, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, wyth mis ar ei hôl hi. Serch hynny, dyna mae'n ei wneud. Gallaf ddweud wrtho bod yr ystadegau diweddaraf yn dangos mai 24% yw'r cyfraddau diweithdra ar gyfer y rhai rhwng 16 a 17 yng Nghymru—os cofiaf yn iawn. Mae hynny'n dal yn rhy uchel, ond 35% yw cyfartaledd y DU. Pan edrychwn ar bobl ifanc 18 i 24 mlwydd oed, rydym yn gweld mai rhywbeth fel 19% yw cyfradd gyfartalog y DU, ac 16.8% yng Nghymru. Felly, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos yn gwbl eglur, pan ddaw'n fater o ddiweithdra a diweithdra ymhlith pobl ifanc, mae'r ffigurau yng Nghymru yn llawer gwell. Pam mae hynny? Mae'n wir dweud bod y DU yn dilyn tuedd o ddiweithdra is. Mae'r ffigurau'n dangos hynny. Fodd bynnag, yng Nghymru, rydym ni'n gwneud yn well. Mae'n drueni mawr na all Llywodraeth y DU wneud cystal â Llywodraeth Lafur Cymru. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Rhun ap Iorwerth [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have also been scratching my head in recent weeks hearing your claims that youth unemployment in Wales is lower than in other parts of the UK, when established figures suggest that it is, in fact, worse. Will you admit that the new figures that you have been using to quote the Office for National Statistics, due to its relatively small sample size and variability, should be treated with caution, and designated as experimental statistics? There is discrepancy, at best. I will put it on the record that I hope that you are right, but will you admit that painting the rosier picture possible is not the best way to make the Government work harder in order to get our young people back into work.

Rwyf hefyd wedi bod yn crafu fy mhen yn yr wythnosau diwethaf o glywed eich honiadau bod diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn is nag mewn rhannau eraill o'r DU, pan fo'r ffigurau sefydledig yn awgrymu ei fod, mewn gwirionedd, yn waeth. A wnewch chi gyfaddef y dylid bod yn ofalus â'r ffigurau newydd yr ydych chi wedi bod yn eu defnyddio i ddyfynnu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, oherwydd maint cymharol fach ac amrywioldeb y sampl, a'u dynodi yn ystadegau arbrol? Ceir anghysondeb, o leiaf. Byddaf yn ei roi ar y cofnod fy mod i'n gobeithio eich bod yn iawn, ond a wnewch chi gyfaddef nad peintio darlun gwyh yw'r ffordd orau o wneud y Llywodraeth weithio'n galetach er mwyn cael ein pobl ifanc yn ôl i mewn i waith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is because Government has worked hard that we have so many young people going into work—8,563 of them, at the last count—through Jobs Growth Wales. I am not sure what the Member means about established statistics. If he means statistics that his party has just made up, I do not know whether they are established statistics. The Office for National Statistics is the body that provides objective statistics for the whole of the UK. If he is saying that those statistics are, in some way, wrong he must justify that with equally objective and well-researched statistics of his own.

Oherwydd bod y Llywodraeth wedi gweithio'n galed yr ydym yn gweld cymaint o bobl ifanc yn mynd i mewn i waith—8, 563 ohonynt, ar y cyfrif diwethaf—trwy Dwf Swyddi Cymru. Nid wyf yn siŵr beth mae'r Aelod yn ei olygu wrth ystadegau sefydledig. Os yw'n golygu ystadegau y mae ei blaid ef newydd eu llunio, nid wyf yn gwybod a ydynt yn ystadegau sefydledig. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r corff sy'n darparu ystadegau gwrthrychol ar gyfer y DU gyfan. Os yw'n dweud bod yr ystadegau hynny yn anghywir mewn rhyw ffordd, mae'n rhaid iddo gyfiawnhau hynny gydag ystadegau ei hun, sydd yr un mor wrthrychol ac sydd wedi eu hymchwilio yr un mor drylwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is not right to say, of course, that there is not more that needs to be done. Of course there is. The rate of unemployment is still too high. Let us face it, if it was not for Jobs Growth Wales and the work that we have done with youth entrepreneurship, and if it was not for the investment that we have brought into Wales, investments like Pinewood Studios, and the huge increase in foreign direct investment and the increase in exports, we would not be in this position. We are in this position—although there is still more work to be done, of course—because of the actions of this Government.

Nid yw'n iawn dweud, wrth gwrs, nad oes mwy y mae angen ei wneud. Wrth gwrs fod hynny'n wir. Mae'r gyfradd diweithdra yn dal yn rhy uchel. Gadewch i ni wynebu'r peth, pe na byddai am Twf Swyddi Cymru a'r gwaith yr ydym ni wedi ei wneud gydag entrepreneuriaeth ieuenctid, a phe na byddai am y buddsoddiad yr ydym ni wedi ei ddenu i Gymru, buddsoddiadau fel Pinewood Studios, a'r cynnydd enfawr mewn buddsoddiad tramor uniongyrchol a'r cynnydd mewn allforion, ni fyddem yn y sefyllfa hon. Rydym ni yn y sefyllfa hon—er bod mwy o waith i'w wneud o hyd, wrth gwrs—oherwydd gweithredoedd y Llywodraeth hon.

13:54 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Providing young people with high-level skills is important in helping them not only to get into work but then build a career and improve the productivity levels of Wales, which is still lagging behind the UK average. Last week, the Deputy Prime Minister announced the creation of a single UCAS-style information and application system for all post-16 courses in England, to encourage a parity of approach and esteem between vocational and academic routes. I wonder whether you will commit to doing something similar in Wales, seeing that this is something that you have often said is a priority for your Government.

Mae darparu sgiliau lefel uchel i bobl ifanc yn bwysig i'w helpu nid yn unig i gael gwaith ond wedyn adeiladu gyrfa a gwella lefelau cynhyrchiant Cymru, sydd yn dal i lusgo y tu ôl i gyfartaledd y DU. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd Dirprwy Brif Weinidog y DU sefydliad un system wybodaeth ac ymgeisio o fath UCAS ar gyfer yr holl gyrsgau ôl-16 yn Lloegr, er mwyn annog cydraddoldeb o ran ymagwedd a pharch rhwng llwybrau galwedigaethol ac academaidd. Tybed a wnewch chi ymrwymo i wneud rhywbeth tebyg yng Nghymru, o ystyried bod hyn yn rhywbeth yr ydych chi wedi ei ddweud yn aml sy'n flaenoriaeth i'ch Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We have already done it with the youth guarantees. The UK Government is merely following the lead that we have given.

Rydym ni eisoes wedi gwneud hynny gyda'r gwarantau ieuenctid. Y cwbl mae Llywodraeth y DU yn ei wneud yw dilyn yr esiampl yr ydym ni wedi ei gosod.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mastectomi

Mastectomy

13:54 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer cleifion sydd wedi cael mastectomi o ran derbyn canlyniadau profion yn dilyn llawdriniaeth? OAQ(4)1521(FM)

4. Will the First Minister make a statement on waiting times for patients who have had a mastectomy to receive test results following surgery? OAQ(4)1521(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Nid oes amser aros penodol ar gyfer derbyn canlyniadau ar ôl cael llawdriniaeth y fron. Rydym yn disgwyl i gleifion gael gwybod am y triniaethau pellach sydd ar gael iddynt, neu dawelu eu meddyliau, cyn gynted ag y bo modd.

There is no specific waiting time measure associated with the receipt of results post breast surgery. We expect patients to be reassured or advised on further treatment options as soon as possible.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:55 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae etholwraig wedi cysylltu â mi sydd wedi cael y driniaeth hon yn Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli, a chafodd wybod y byddai'n derbyn y canlyniadau o fewn wythnos. Mae'n dal i aros am y canlyniadau hynny, ac mae wedi cael gwybod yn awr y bydd yn rhaid iddi aros am o leiaf bum wythnos. Mae hefyd wedi cael gwybod bod o leiaf 12 o bobl eraill yn yr un sefyllfa. Mae hyn yn dilyn y penderfyniad i ganoli'r system, o ran gwneud yr asesiadau a datgelu canlyniadau'r profion, yng Nghaerfyrddin. A ydych yn derbyn fod y sefyllfa hon yn annerbyniol?

A constituent has contacted me who has had this treatment at Prince Philip Hospital in Llanelli and who was told that she would receive the results within a week. She is still awaiting those results, and has been told that she will have to wait at least five weeks. She has also been told that there are at least 12 other people in the same situation. This follows the decision to centralise the system, in terms of carrying out these assessments and providing test results, in Carmarthen. Do you accept that this is unacceptable?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:56

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae'r Aelod yn gwybod nad dyna'r sefyllfa. Mae wedi derbyn llythyr gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn dweud yn blwmp ac yn blaen fod problemau wedi bodoli gyda staffio yn ddiweddar—nid yw rhai aelodau o staff wedi bod yn y gwaith. Mae'r bwrdd hefyd wedi egluro bod yn rhaid ailstrwythuro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Mae'r hyn wedi digwydd yn barod yn y gogledd, lle mae'r gwasanaeth wedi cael ei ganoli mewn modd nad yw wedi digwydd yn y de a'r gorllewin. Fodd bynnag, mae hwn yn rhywbeth y mae'r bwrdd iechyd am ei wneud.

The Member knows that that is not the position. He has received a letter from the Hywel Dda Local Health Board stating, in black and white, that there have been staffing problems recently, with some staff having been absent from work. The board also made it clear that the service had to be restructured in order to ensure that it is more effective in future. This has already happened in north Wales, where the service has been centralised in a way that has not yet happened in south and west Wales. However, this is something that the health board is doing.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:56

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, one thing that is happening in parts of Wales is that follow-up appointments, which are often in relation to test results, with consultants are the subject of delays. In north Wales we know, for example, that, last month, there were 47,000 people waiting for follow-up appointments and that there was a huge backlog of patients. However, this is not something that is monitored by the Welsh Government. Follow-up appointments are not reported to the Welsh Government, in terms of the backlog, and it is very difficult for people to get the picture of the problem across Wales. What work is your Government doing to ensure that people get timely access to follow-up appointments, particularly those people who have conditions that might deteriorate, as this may cause their condition to go undetected and deliver a devastating outcome for them and their families?

Brif Weinidog, un peth sy'n digwydd mewn rhannau o Gymru yw bod apwyntiadau dilynol, sy'n aml yn ymwneud â chanlyniadau profion, gydag ymgynghorwyr yn destun oediadau. Yng ngogledd Cymru rydym yn gwybod, er enghraifft, bod 47,000 o bobl yn aros am apwyntiadau dilynol y mis diwethaf, a bod ôl-groniad enfawr o gleifion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru. Nid yw apwyntiadau dilynol yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru, o ran yr ôl-groniad, ac mae'n anodd iawn i bobl gael y darlun o'r broblem ledled Cymru. Pa waith mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod pobl yn cael mynediad prydlon at apwyntiadau dilynol, yn enwedig y bobl hynny sydd â chyflyrau a allai ddirywio, gan y gallai hyn achosi i'w cyflyrau beidio â chael eu canfod ac arwain at ganlyniad difrifol iddyn nhw a'u teuluoedd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:57

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I expect clinicians to prioritise the people they need to see very quickly. It is very much in their hands. That cannot be done before they see a patient. However, once a patient has been seen or has had treatment, I would then expect the clinician to ensure that that patient is seen as quickly as is appropriate for them. It is very difficult for Government to make that intervention, because each clinician has to decide on what is appropriate for each patient. We would expect clinicians to do that.

Rwy'n disgwyl i glinigwyr flaenoriaethu'r bobl y mae angen iddyn nhw eu gweld yn gyflym iawn. Mae'r mater yn eu dwylo nhw'n llwyr. Ni ellir gwneud hynny cyn iddyn nhw weld claf. Fodd bynnag, ar ôl i glaf gael ei weld neu ei fod wedi cael triniaeth, byddwn yn disgwyl wedyn i'r clinigwr sicrhau bod y claf yn cael ei weld cyn gynted ag sy'n briodol iddo ef. Mae'n anodd iawn i Lywodraeth wneud yr ymyriad hwnnw, gan fod yn rhaid i bob clinigydd benderfynu ar yr hyn sy'n briodol i bob claf. Byddem yn disgwyl i glinigwyr wneud hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Welsh in Education Strategic Plans

13:58

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

5. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â Chynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg? OAQ(4)1532(FM)

5. Will the First Minister provide an update on Welsh in Education Strategic Plans? OAQ(4)1532(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:58	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Mae pob awdurdod lleol wedi cyflwyno cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg ar ffurf ddrafft i Lywodraeth Cymru. Maent i gyd wedi cael adborth anffurfiol gan swyddogion o Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno eu cynlluniau terfynol i ni ar gyfer cael eu cymeradwyo ar ôl cynnal y broses ymgynghori statudol.	All local authorities have submitted their draft Welsh in education strategic plan to the Welsh Government. They have all received informal feedback from Welsh Government officials before submitting their final, post-consultation plan to us for approval after undertaking the statutory consultation process.	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Diolch am yr ateb hwnnw. Mae'r cynlluniau i fod yn weithredol o 1 Ebrill. Mae problemau ynglŷn â diffyg lleoedd ar gyfer addysg Gymraeg mewn ardaloedd fel Wrecsam yn barod, lle nad oedd ond tri lle gwag ar gyfer dosbarthiadau meithrin y llynedd. Er hynny, nid yw'r ymgynghoriad mewn rhai siroedd yn y gogledd yn terfynu tan y diwrnod cyn iddynt ddod yn weithredol, sef 31 Mawrth. Sut, felly, fydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y cynllun hwn yn weithredol yn ôl yr amserlen wreiddiol?	Thank you for that response. The plans are to be operational from 1 April. There are problems in terms of a shortage of places for Welsh-medium education in areas such as Wrexham already, where there were only three vacancies for nursery classes last year. However, the consultation in some north Wales counties will not conclude until the day before they become operational, namely 31 March. How then will the Government ensure that these plans are operational according to the original timetable?	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Os oes problem ynglŷn â'r broses ymgynghori, byddwn yn ystyried hynny. Yn ail, os nad yw'r cynlluniau'n ddigon da, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ailfeddlu eu cynlluniau eu hunain.	If there is a problem with the consultation, we will consider that. Secondly, if the plans are not good enough, the local authorities will have to rethink their own plans.	Senedd.tv Fideo Video
13:59	Paul Davies Bywgraffiad Biography Brif Weinidog, un o nodau Cyngor Sir Penfro yn ei gynllun strategol Cymraeg mewn addysg yw i fwy o fyfyrwyr rhwng 14 ac 16 oed astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. A allwch ddweud wrthym pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gynnig i sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr 14 i 16 oed yn cydymffurfio â Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, fel bod darpariaeth ar gael i fyfyrwyr mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, a bod y myfyrwyr hyn yn cael y cyfle i fynychu cyrsiau cyfrwng Cymraeg?	First Minister, one of the aims of Pembrokeshire County Council in its Welsh in education strategic plan is for more students between the ages of 14 and 16 to study for qualifications through the medium of Welsh. Can you tell us what assistance the Welsh Government is providing to ensure that the provision for 14 to 16-year-old learners complies with the Learning and Skills (Wales) Measure 2009, so that there is provision for students in rural and remote areas and that they can attend Welsh-medium courses?	Senedd.tv Fideo Video
13:59	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Mae'r gyfraith yno, ac mae'n bwysig dros ben bod awdurdodau lleol yn dilyn y gyfraith. Nid wyf am roi barn ynglŷn ag un rhan o un cynllun sydd wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd. Mae'n rhaid ystyried y cynllun yn gyfan gwbl i weld a yw'r cynllun yn iawn neu beidio. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig dros ben bod yr awdurdodau yn cadw at y gyfraith.	The law is there and it is exceptionally important that local authorities comply with the law. I do not wish to give a view on one part of one plan that has been drafted to date. We must consider the plan in its entirety to see whether it is adequate or not. Having said that, it is very important that authorities stick to the law.	Senedd.tv Fideo Video

14:00

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rydym yn edrych ymlaen at y cynlluniau hyn i weld sut y maen nhw'n mynd i hyrwyddo addysg Gymraeg yn ôl y statud, ac maen nhw ar lefel statudol. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod pobl yn cael mynediad i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae hynny, gan amlaf, drwy deithio oherwydd bod ysgolion—yn enwedig y rhai yn y de—wedi'u gwasgaru. Mae nifer o argymhellion wedi cael eu gwneud yn eich etholaeth chi, ym Merthyr Tudful a lleoedd eraill i newid y drefniadaeth ar gyfer teithio. Mae'r rheini wedi cael eu gosod o'r neilltu am y tro. Ond, a ydych yn cytuno â mi y byddai'n briodol ailedrych ar y rheoliadau ynglŷn â theithio i sicrhau nad yw'r dewis o iaith yn effeithio ar yr ysgol agosaf—hynny yw, y bydd gennych yr hawl i gael eich cludo i'r ysgol agosaf, beth bynnag bo'ch dewis cyfrwng, Cymraeg neu Saesneg?

First Minister, we look forward to seeing these plans to see how they will promote Welsh-medium education according to the statute book, and they are on a statutory level. However, it is also important that people have access to Welsh-medium schools, and that is most often by travelling, because those schools—especially those in the south—are a relatively long distance apart. A number of recommendations have been made in your own constituency, in Merthyr and in other areas to change travel arrangements. Those have been put to one side for the time being. However, would you agree with me that it would be appropriate to review the regulations on pupil travel to ensure that language choice does not affect the closest school—that is, that you have a right to be transported to the closest school, whatever your choice of Welsh-medium or English-medium?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:01

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Gwnaethom ystyried hyn yn fanwl pan ddaeth y Mesur i rym, sef y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Mesur yn dangos ei bod yn bwysig dros ben bod awdurdodau lleol yn hybu'r iaith Gymraeg fel rhan o'r Mesur. Y broblem oedd pe baech yn dweud y dylai rhywun gael cludiant i unrhyw ysgol, heb ots beth yw'r iaith, wedyn byddai'n rhaid ichi gael cludiant i blant mas o rai rhannau o Wynedd a mynd â nhw'n bell iawn i Fangor neu Gaerdybi, efallai, er mwyn cael addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Nod y Mesur oedd sicrhau bod cludiant ar gael i ysgolion Cymraeg heb ei gwneud yn orfodol i awdurdodau lleol sicrhau bod trafnidiaeth ar gael i bawb heb ots beth fyddai'r pellter i fynd i'r ysgol leol—neu i'r ysgol berthnasol, fel y dylwn ei ddweud.

We considered this in great detail when the Measure came into force, namely the Learner Travel (Wales) Measure 2008. The Measure shows that it is very important that local authorities promote the Welsh language as part of the Measure. The problem was that if you were to say that a pupil should get transport to any school, whatever the language, that would mean that you would have to transport some pupils from parts of Gwynedd quite a long distance to Bangor or Holyhead, perhaps, to receive their education through the medium of English. The aim of the Measure was to ensure that transport is available to Welsh-medium schools without making it incumbent upon local authorities to ensure that transport is available to all, whatever the distance to the local school—or to the relevant school, I should say.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cefnogi'r Economi

Supporting the Economy

14:01

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i gefnogi'r economi yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1533(FM)

6. Will the First Minister make a statement on Welsh Government action to support the economy in Mid and West Wales? OAQ(4)1533(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We are progressing our actions to do with the programme for government, through the provision of business support through Business Wales, information and communications technology support and transport infrastructure arrangements.

Rydym yn bwrw ymlaen â'n camau gweithredu sy'n ymwneud â'r rhaglen ar gyfer llywodraethu, trwy ddarparu cymorth i fusnesau trwy Busnes Cymru, cefnogaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a threfniadau seilwaith trafnidiaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister, for that answer. The news that Mustang Marine (Wales) Ltd in Pembroke Dock has gone into administration with a loss of 66 jobs is a bitter blow for the area. How will the Welsh Government give support and assistance to those 66 workers and how can you help to work towards safeguarding the remaining 48 jobs?

Diolch i chi, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Mae'r newyddion bod Mustang Marine (Cymru) Cyf yn Noc Penfro wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr gyda cholled o 66 o swyddi yn ergyd fawr i'r ardal. Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cefnogaeth a chymorth i'r 66 o weithwyr hynny a sut y gallwch chi helpu i weithio tuag at ddiogelu'r 48 o swyddi sy'n dal yno?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:02	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> We are exploring a number of options at the moment, but I can say that those threatened with redundancy will be offered ReAct support and advice.	Senedd.tv Fideo Video Rydym yn archwilio nifer o ddewisiadau ar hyn o bryd, ond gallaf ddweud y bydd y rhai sydd dan fygythiad o golli eu swyddi yn cael cynnig cefnogaeth a chynngor ReAct.
14:02	Angela Burns Bywgraffiad Biography First of all, First Minister, I would like to put on record my gratitude to the Minister and her team for their efforts in trying to help the situation at Mustang Marine. I have had a number of very in-depth conversations with all the key players and I have two direct requests for you, First Minister. First, will you, the Minister and her team get to work with Grant Thornton, the appointed administrator, in an effort to save the rump of that company, which is a substantial maintenance business that provides significant input into the local economy? Secondly, will you look at what caused the decline of a proud and long-standing business with a £9 million turnover that was doing well until its recent partnership with other local partners? That needs to be investigated thoroughly because west Wales can ill afford to lose this kind of anchor company—and it was an anchor company in the enterprise zone.	Senedd.tv Fideo Video Yn gyntaf oll, Brif Weinidog, hoffwn gofnodi fy niolch i'r Gweinidog a'i thîm am eu hymdrechion wrth geisio helpu'r sefyllfa yn Mustang Marine. Rwyf wedi cael nifer o sgysiau manwl iawn gyda'r holl garfannau allweddol ac mae gennyf ddau gais uniongyrchol i chi, Brif Weinidog. Yn gyntaf, a wnewch chi, y Gweinidog a'i thîm fynd ati i weithio gyda Grant Thornton, y gweinyddwr a benodwyd, mewn ymdrech i achub y rhan fwyaf o'r cwmni hwnnw, sy'n fusnes cynnal a chadw sylweddol ac sy'n cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol? Yn ail, a wnewch chi edrych ar yr hyn a achosodd dirywiad busnes balch a hir-sefydlog â throsiant o £9 miliwn a oedd yn gwneud yn dda tan ei bartneriaeth ddiweddar gyda phartneriaid lleol eraill? Mae angen ymchwilio'n drwyadl i hynny oherwydd prin y gall gorllewin Cymru fforddio colli'r math hwn o gwmni angori—ac roedd yn gwmni angori yn yr ardal fenter.
14:03	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I can give the Member assurances on both those points. We are already in discussions with the administrator and we will continue to work with the administrator and the company with a view to exploring all options for the future. Also, in terms of the second question, I know that the Minister is greatly interested in getting an understanding of how things emerged as they are now and I am sure that she will make those investigations and write back to you.	Senedd.tv Fideo Video Gallaf sicrhau'r Aelod ar y ddau bwynt yna. Rydym ni eisoes mewn trafodaethau gyda'r gweinyddwyr a byddwn yn parhau i weithio gyda'r gweinyddwr a'r cwmni gyda'r nod o archwilio'r holl ddewisiadau ar gyfer y dyfodol. Hefyd, o ran yr ail gwestiwn, gwn fod gan y Gweinidog ddiddordeb mawr mewn cael dealltwriaeth o sut y daeth pethau i fod fel y maen nhw nawr, ac rwy'n siŵr y bydd yn cynnal yr ymchwiliadau hynny ac yn ysgrifennu'n ôl atoch.
14:04	Elin Jones Bywgraffiad Biography Brif Weinidog, yn y de, mae'r cysyniad o 'city region' yn cael ei hyrwyddo gan eich Llywodraeth i ddatblygu'r economi yn rhanbarthol, ond nid oes menter debyg ar hyd arfordir y gorllewin, lle mae'r cysylltiad rhwng llwyddiant economaidd a dyfodol y Gymraeg mor bwysig. Pa gynlluniau sydd gennych i gydlynu polisi economaidd mewn ffordd strategol a rhanbarthol ar hyd arfordir y gorllewin i hyrwyddo'r economi yn yr ardal honno a sicrhau dyfodol y Gymraeg?	Senedd.tv Fideo Video First Minister, in the south, the concept of city regions is being promoted by your Government to promote the economy at a regional level, but there is no similar initiative along the western coast, where the link between economic success and the future of the Welsh language is so important. What plans do you have to co-ordinate economic policy in a strategic and regional manner across the west Wales coastline to promote the economy in that area and to secure the future of the Welsh language?
14:04	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Wrth gwrs, mae gennym rai parthau ar hyn o bryd, fel yr un yn nyffryn Teifi. Hefyd, rydym yn parhau i ystyried a oes dadl ynglŷn â chael rhyw fath o ranbarth dinasol o gwmpas Aberystwyth, Caerfyrddin ac, efallai, dinasoedd fel Bangor hefyd.	Senedd.tv Fideo Video Well, of course, we do have some zones at present, such as the one in the Teifi valley. Also, of course, we continue to consider whether there is an argument for having some kind of city region around Aberystwyth, Carmarthen and, perhaps, cities like Bangor as well.

14:05

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, tourism is vital to the success of the economy in mid Wales, and, in particular, in my constituency of Brecon and Radnorshire. Government changes to support for tourism via the regional tourism partnerships are causing some concern in mid Wales that the efforts that have gone on in the past may be diluted or taken away from. Could you outline what steps your Government is taking to ensure that the tourism industry of mid and west Wales is supported appropriately?

Brif Weinidog, mae twristiaeth yn hanfodol i lwyddiant yr economi yng nghanolbarth Cymru, ac, yn benodol, yn fy etholaeth i, Brycheiniog a Sir Faesyfed. Mae newidiadau'r Llywodraeth o ran cefnogi twristiaeth trwy'r partneriaethau twristiaeth rhanbarthol yn achosi peth pryder yng nghanolbarth Cymru y gallai'r ymdrechion a wnaed yn y gorffennol gael eu gwanhau neu y gellid eu cymryd oddi wrthynt. A allech chi amlinellu pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod diwydiant twristiaeth canolbarth a gorllewin Cymru yn cael ei gefnogi'n briodol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:05

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I can say very clearly that we understand that tourism is exceptionally important to all of Wales, and particularly, of course, to parts of Wales such as the mid and west. Any new structure would be designed to enhance the promotion of tourism in those parts of Wales, and we will continue to promote all parts of Wales, including the mid and west, both within the UK and abroad.

Gallaf ddweud yn eglur iawn ein bod yn deall bod twristiaeth yn eithriadol o bwysig i Gymru gyfan, ac yn enwedig, wrth gwrs, i rannau o Gymru fel y canolbarth a'r gorllewin. Byddai unrhyw strwythur newydd yn cael ei gynllunio i wella'r broses o hyrwyddo twristiaeth yn y rhannau hynny o Gymru, a byddwn yn parhau i hyrwyddo pob rhan o Gymru, gan gynnwys y canolbarth a'r gorllewin, yn y DU a thramor.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Sector Ynni

The Energy Sector

14:06

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y sector ynni yng Nghymru ar gyfer 2014/15? OAQ(4)1517(FM)

7. Will the First Minister make a statement on his priorities for the energy sector in Wales for 2014/15? OAQ(4)1517(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

'Energy Wales: A Low Carbon Transition' sets out the Welsh Government's ambition to develop a low-carbon Wales. The plan on how to develop those ambitions will be published before 15 March, but it is quite clear to me that the recommendations contained in the Silk report yesterday, if they are implemented, would go a substantial distance to making sure that we can use our energy resources in a way that is beneficial both to the environment and to the people of Wales.

Mae 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' yn cyflwyno uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cymru carbon isel. Bydd y cynllun ar sut i ddatblygu'r uchelgeisiau hynny'n cael ei gyhoeddi cyn 15 Mawrth, ond mae'n eithaf amlwg i mi y byddai'r argymhellion yn adroddiad Silk ddoe, os cânt eu rhoi ar waith, yn gwneud cryn dipyn i wneud yn siŵr y gallwn ddefnyddio ein hadnoddau ynni mewn ffordd sy'n fuddiol i'r amgylchedd ac i bobl Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:06

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to thank the First Minister very much for that answer. In an earlier exchange with William Graham, reference was made to the community benefits declaration, which was established last year and was seen to have been something of a success. What steps are you prepared to take to roll that out to a more regional level, so that communities affected by windfarm development, particularly in the construction phase, can actually benefit more fully from the community investment that that would make available?

Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog yn fawr am yr ateb yna. Mewn trafodaeth gynharach gyda William Graham, cyfeiriwyd at y datganiad budd i'r gymuned, a sefydlwyd y llynedd ac yr ystyriwyd yn dipyn o lwyddiant. Pa gamau ydych chi'n barod i'w cymryd i gyflwyno hynny i lefel fwy rhanbarthol, fel y gall cymunedau yr effeithir arnynt gan ddatblygiad ffermydd gwynt, yn enwedig yn ystod y cam adeiladu, elwa'n fwy llawn o'r buddsoddiad cymunedol y byddai hynny'n ei roi ar gael?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:07	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I can say that developers have been commissioned to provide information for inclusion in the register of community benefits, and that will be formally launched on 3 April.	Senedd.tv Fideo Video Gallaf ddweud bod datblygwyr wedi eu comisiynu i ddarparu gwybodaeth i'w chynnwys yn y gofrestr o fanteision cymunedol, a fydd yn cael ei lansio'n ffurfiol ar 3 Ebrill.
14:07	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography First Minister, I wonder if you could update us on the steps that you are taking as a Welsh Government to look at the potential for sub-sea cables to run from Anglesey, in relation to the Anglesey energy island project. In particular, have you now established that Deeside can be used for Welsh electricity generation, and have you looked at the issue of running a spur of sub-sea cable down into Pembrokeshire?	Senedd.tv Fideo Video Brif Weinidog, tybed a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y camau yr ydych chi'n eu cymryd fel Llywodraeth Cymru i ystyried y potensial i geblau dan y môr redeg o Ynys Môn, yng nghyswllt prosiect ynys ynni Ynys Môn. Yn arbennig, a ydych chi wedi canfod bellach pa un a ellir defnyddio Glannau Dyfrdwy i gynhyrchu trydan yng Nghymru, ac a ydych chi wedi ystyried y mater o redeg angen o geblau dan y môr i lawr i Sir Benfro?
14:08	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> The Member will know that none of this is devolved. We can have a view on this, of course, and we will want to make sure, as I have said many times in the past, that any means of transmission of electricity should be as unobtrusive as possible. It is a point that I made particularly in Montgomeryshire and it is a point that I understand as far as Anglesey is concerned. I look forward to the Member's deeper question, which is of course that she wishes that these matters were devolved, as per the Silk commission. I look forward to her full support—and indeed support for her leader, incredibly—on this issue as on many other issues.	Senedd.tv Fideo Video Bydd yr Aelod yn gwybod nad oes dim o hyn wedi ei ddatganoli. Gallwn gael barn ar hyn, wrth gwrs, a byddwn yn awyddus i wneud yn siŵr, fel rwyf wedi ei ddweud sawl gwaith yn y gorffennol, y dylai unrhyw ddull o drosglwyddo trydan fod mor anymwrthiol â phosibl. Mae'n bwynt a wnaed gennyf yn benodol yn Sir Drefaldwyn ac mae'n bwynt yr wyf yn ei ddeall cyn belled ag y mae Ynys Môn yn y cwestiwn. Edrychaf ymlaen at gwestiwn mwy manwl yr Aelod, sef y byddai'n dymuno i'r materion hyn fod wedi eu datganoli, wrth gwrs, yn unol â chomisiwn Silk. Edrychaf ymlaen at ei chefnogaeth lawn—a chefnogaeth i'w harweinydd, yn annhygoel—ar y mater hwn yn yr un modd â nifer o faterion eraill.
14:08	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Mae gan Blaid Cymru darged o gynhyrchu'r hyn sy'n cyfateb i 100% o'r trydan sy'n cael ei defnyddio yng Nghymru o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030. Beth yw targed Llywodraeth Cymru?	Senedd.tv Fideo Video Plaid Cymru has a target of producing what would correspond to 100% of the energy used in Wales from renewable sources by 2030. What is the Welsh Government's target?
14:08	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Wrth gwrs, mae gennym dargedau yn y cynllun, ond mae'n rhaid inni ystyried y ffaith nad oes gennym bob twlsyn y byddem ei eisiau er mwyn cyrraedd y targedau. Er enghraifft, mae'n wir i ddweud bod yr Alban wedi mynd ymhellach na Chymru ynglŷn ag ynni'r môr. Pam? Mae'r Alban yn rheoli'r system o 'subsidiaries' trwy'r system ROCs. Rydym wedi dweud sawl gwaith, wrth gwrs, y dylai Cymru gael y grym er mwyn gwneud hynny, ac wrth gwrs mae'n galonogol i weld bod Silk wedi gwneud argymhellion er mwyn sicrhau bod gan bobl Cymru reolaeth resymol dros adnoddau Cymru.	Senedd.tv Fideo Video Of course, we have targets in the plan, but we must consider the fact that we do not have every tool at our disposal to reach the targets. For example, it is true to say that Scotland has gone further than Wales with marine energy. Why? That is because Scotland controls the system of subsidies through the ROCs system. We have said many times, of course, that Wales should have the power to be able to do the same thing, and of course it is encouraging to see that Silk has made recommendations to ensure that the people of Wales have reasonable control over the resources of Wales.
Twf Economaidd		Economic Growth
14:09	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography 8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr ymrwymiadau o ran twf economaidd sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu? OAQ(4)1519(FM)	Senedd.tv Fideo Video 8. Will the First Minister make a statement on the economic growth commitments included in the Programme for Government? OAQ(4)1519(FM)

14:09	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes, the programme will be published in May, and it will contain a full update on the good progress made.	Senedd.tv Fideo Video Gwnaf, bydd y rhaglen yn cael ei chyhoeddi ym mis Mai, a bydd yn cynnwys diweddariad llawn ar y cynnydd da a wnaed.
14:09	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography Thank you for the reply, Minister. Inward investment is vital for economic growth in Wales. The Federation of Small Businesses said in January that your Government's inward investment strategy was 'crowded and confusing'. It went on to say that there was a lack of brand awareness and visibility since the abolition of the Welsh Development Agency. Will the First Minister listen to the FSB and consider the Welsh Conservative proposal of setting up an investment council to attract and develop inward investment to Wales, please?	Senedd.tv Fideo Video Diolch i chi am yr ateb, Weinidog. Mae mewnfuddsoddiad yn hanfodol ar gyfer twf economaidd yng Nghymru. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach ym mis Ionawr bod strategaeth mewnfuddsoddi eich Llywodraeth yn orgymhleth ac yn ddryslyd. Aeth ymlaen i ddweud bod diffyg ymwybyddiaeth brand a gwelededd ers diddymu Awdurdod Datblygu Cymru. A wnaiff y Prif Weinidog wrando ar y Ffederasiwn Busnesau Bach ac ystyried cynnig Ceidwadwyr Cymru i sefydlu cyngor buddsoddi i ddenu a datblygu mewnfuddsoddiad i Gymru, os gwelwch yn dda?
14:10	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I do not agree that setting up a quango full of your mates is the best way of dealing with the Welsh economy. I earlier referred to the point that I have already made many times: we have seen foreign direct investment increase by 191% over the past year. They talk about the WDA, but what exactly did the WDA do for 15 years? That is what I want to know. It did absolutely nothing. After LG, the WDA completely lost its way: it had people all around the world who delivered absolutely nothing; it produced targets that it never met; and, it spent huge amounts of money—eye-watering amounts of money—that would never survive freedom of information scrutiny these days, I can promise Members that. All of that was for what? The WDA prospered at its best in the late 1990s, and all it did was put a huge amount of money on the table and say to businesses, 'Come to Wales, there is money on the table'. When that money went, those businesses went as well. It said to people, 'Come and invest in Wales because wage rates are lower than anywhere else'. The WDA had its day 20 years ago. For the whole of the last decade and most of the 1990s, it delivered absolutely nothing.	Senedd.tv Fideo Video Nid wyf yn cytuno mai sefydlu cwango sy'n llawn o'ch ffrindiau chi yw'r ffordd orau o ymdrin ag economi Cymru. Cyfeiriais yn gynharach at y pwynt rwyf wedi ei wneud lawr gwaith eisoes: rydym ni wedi gweld buddsoddiad uniongyrchol tramor yn cynyddu 191% dros y flwyddyn ddiwethaf. Maen nhw'n siarad am Awdurdod Datblygu Cymru, ond beth yn union a wnaeth Awdurdod Datblygu Cymru am 15 mlynedd? Dyna beth yr hoffwn i gael gwylbod. Ni wnaeth affliw o ddim. Collodd Awdurdod Datblygu Cymru ei ffordd yn llwyr yn dilyn LG: roedd ganddo bobl ym mhedwar ban byd a gyflawnodd ddim byd o gwbl; cynhyrchodd dargedau na wnaeth erioed eu bodloni; a, gwariodd symiau enfawr o arian—symiau anhygoel o arian—na fyddai fyth yn mynd heibio prosesau craffu rhyddid gwybodaeth y dyddiau hyn, gallaf addo hynny i'r Aelodau. A beth oedd diben hyn oll? Roedd Awdurdod Datblygu Cymru yn ffynnu ar ei orau ddiwedd y 1990au, a'r cwbl a wnaeth oedd rhoi swm enfawr o arian ar y bwrdd a dweud wrth fusnesau, 'Dewch i Gymru, mae arian ar y bwrdd'. Ar ôl i'r arian hwnnw ddiflannu, diflannodd y busnesau hynny hefyd. Dywedodd wrth bobl, 'Dewch i fuddsoddi yng Nghymru gan fod cyfraddau cyflog yn is na mewn unrhyw le arall.' Roedd hi ar ben ar Awdurdod Datblygu Cymru 20 mlynedd yn ôl. Ni chyflawnwyd unrhyw beth ganddo yn ystod y degawd diwethaf na'r rhan fwyaf o'r 1990au.
14:11	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography Mae eich Llywodraeth wedi bod yn ymgynghori'n ddiweddar ar leihau nifer yr ystadegau yr ydych yn eu cyhoeddi. O ran yr economi, y ffigurau mwyaf diweddar sydd gennym am GDP yw rhai 2011 a'r rhai am GVA yw ffigurau 2012. Nid ydynt yn rhai y byddech yn ymfalchïo ynddynt. Onid ydych yn credu, er mwyn mesur llwyddiant eich polisiau, bod angen ffigurau mwy cyson a mwy manwl na'r rhai sydd gennym ni?	Senedd.tv Fideo Video Your Government has been consulting recently on reducing the number of statistics that you publish. In terms of the economy, the most recent figures that we have for GDP are those for 2011 and, for GVA, those for 2012. They are not ones that you could take pride in. Do you not believe that in order to assess the success of your policies that you need more consistent and more detailed figures than those available to us at the moment?

14:11	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Mae'n bwynt teg i ddweud bod y ffigurau GDP mor hen—tair blwydd oed—ac mae'r ffigurau GVA bron yr un peth. Mae GDHI hefyd, sydd yn wahanol o ran y ffordd y mae'r ffigurau'n cael eu casglu. Mae hwn yn rhywbeth yr ydym yn ei ystyried, i weld a oes modd i gael ffigurau i Gymru sy'n fwy diweddar na'r ffigurau sydd wedi cael eu cyfeirio atynt hyd yn hyn. Fodd bynnag, beth yr ydym yn gwybod, wrth gwrs, wrth edrych ar y ffigurau diweddar o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, yw bod y sefyllfa yng Nghymru wedi gwella yn fawr iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Hefyd, rydym mewn sefyllfa yn awr lle'r ydym yn gallu cymharu gyda'r gorau yn y Deyrnas Unedig.	Senedd.tv Fideo Video
	Canolfannau Cymunedol	Community Centres
14:12	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography <i>9. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gefnogaeth sy'n cael ei chynnig i awdurdodau lleol i ddiogelu dyfodol canolfannau cymunedol? OAQ(4)1522(FM)</i>	Senedd.tv Fideo Video <i>9. Will the First Minister outline what support is being offered to local authorities to safeguard the future of community centres? OAQ(4)1522(FM)</i>
14:12	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> It is a matter for local authorities to safeguard the community centres that are within their care.	Senedd.tv Fideo Video Mater i awdurdodau lleol yw diogelu'r canolfannau cymunedol y maent yn gofalu amdanynt.
14:12	Nick Ramsay Bywgraffiad Biography You might be trying to pass the buck onto local authorities, but you will know that the Welsh Government recently rebranded and launched the community facilities programme to help protect community assets. However, you have not chosen to implement a community rights agenda of the type that we see in England. That community rights agenda has already saved at least 100 pubs across England—a fair measure of success in my book and I am sure in other people's books as well. Why have you not followed a community rights agenda? How do you intend to monitor the success of the programme that you have put in place to ensure that, if it does not start succeeding in the way that you want, we will have something that actually works?	Senedd.tv Fideo Video Efallai eich bod yn ceisio taflu'r baich ar awdurdodau lleol, ond byddwch yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi ailfrandio a lansio'r rhaglen cyfleusterau cymunedol yn ddiweddar, i helpu i ddiogelu asedau cymunedol. Fodd bynnag, nid ydych wedi dewis gweithredu agenda hawliau cymunedol o'r math a welwn yn Lloegr. Mae'r agenda hawliau cymunedol honno eisoes wedi achub o leiaf 100 o dafarndai ledled Lloegr—mesur teg o lwyddiant yn fy nhyb i, ac yn nhyb pobl eraill hefyd rwy'n siŵr. Pam nad ydych chi wedi dilyn agenda hawliau cymunedol? Sut ydych chi'n bwriadu monitro llwyddiant y rhaglen yr ydych chi wedi ei rhoi ar waith i sicrhau, os na fydd yn dechrau llwyddo yn y ffordd yr hoffech iddi lwyddo, y bydd gennym rywbeth sy'n gweithio mewn gwirionedd?
14:13	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> What he is doing is criticising his own local authority run by his own party. I know that this is a trend with the Member at the moment, and his local authority will have to justify why it is doing that. Nevertheless, we have a proud record when it comes to capital expenditure with the community facilities and activities programme; many facilities in Wales were refurbished as a result of it. However, in terms of revenue funding, that is a matter for local authorities. If the Member has community centres in his constituency that are under threat, he needs to take it up with his own colleagues on the council.	Senedd.tv Fideo Video Yr hyn y mae'n ei wneud yw beirniadu ei awdurdod lleol ei hun sy'n cael ei redeg gan ei blaid ei hun. Gwn fod hon yn duedd gan yr Aelod ar hyn o bryd, a bydd yn rhaid i'w awdurdod lleol gyfiawnhau pam y mae'n gwneud hynny. Serch hynny, mae gennym hanes balch pan ddaw i wariant cyfalaf gyda'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol; ailwampwyd llawer o gyfleusterau yng Nghymru o ganlyniad iddi. Fodd bynnag, o ran cyllid refeniw, mater i awdurdodau lleol yw hwnnw. Os oes gan yr Aelod ganolfannau cymunedol sydd dan fygythiad yn ei etholaeth, mae angen iddo ofyn i'w gydweithwyr ei hun ar y cyngor am hynny.

14:14

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

How many community centres, First Minister, do you think are likely to close and what will your Government do to ensure that the most vulnerable do not suffer further isolation due to austerity measures?

Faint o ganolfannau cymunedol, Brif Weinidog, ydych chi'n credu sy'n debygol o gau a beth fydd eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau nad yw'r mwyaf agored i niwed yn cael eu hynysu ymhellach oherwydd mesurau darbodaeth?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:14

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is impossible to give that figure. They are not our austerity measures—they are the Conservative and Lib Dem Government's austerity measures. Community centres are run in different ways. The Tories say, 'Rubbish; there are no austerity measures', although the Chancellor, of course, has been saying that until he is blue in the face—literally—over the course of the past three years. I know that the leader of the opposition has said that he does not often agree with the Secretary of State; he said in a press conference this morning, 'I do not often agree with the Secretary of State, but I agree with him on policing'. Our party is apparently supposed to be divided, but there we are—I will come back to the question that was asked.

Mae'n amhosibl rhoi'r ffigur hwnnw. Nid ein mesurau darbodaeth ni ydyn nhw—mesurau darbodaeth Llywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol ydyn nhw. Mae canolfannau cymunedol yn cael eu rhedeg mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r Torïaid yn dweud, 'Rwtsh; nid oes unrhyw fesurau darbodaeth', er bod y Canghellor, wrth gwrs, wedi bod yn dweud hynny nes bod ei wyneb yn biws—yn llythrennol—yn ystod y tair blynedd diwethaf. Rwy'n gwybod bod arweinydd yr wrthblaid wedi dweud nad yw'n aml yn cytuno gyda'r Ysgrifennydd Gwladol; dywedodd mewn cynhadledd i'r wasg y bore yma nad yw'n aml yn cytuno â'r Ysgrifennydd Gwladol, ond ei fod yn cytuno ag ef ar blismona. Mae'n debyg bod ein plaid wedi rhannu, ond dyna ni—byddaf yn dod yn ôl at y cwestiwn a ofynnwyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As far as community centres are concerned, some of them are run by local authorities, some by outside organisations—trusts—and some are run by community councils. It is very difficult to give an estimate as to which ones would face difficulties because they are run by so many different organisations. However, I would hope, of course, that community centres, being very important facilities for the communities that they represent, would be considered favourably by any local authority, whether a unitary authority or a community council.

Cyn belled ag y mae canolfannau cymunedol yn y cwestiwn, mae rhai ohonynt yn cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol, rhai gan sefydliadau allanol—ymddiriedolaethau—ac mae rhai yn cael eu rhedeg gan gynghorau cymuned. Mae'n anodd iawn rhagweld pa rai fyddai'n wynebu anawsterau gan eu bod yn cael eu rhedeg gan gynifer o wahanol sefydliadau. Fodd bynnag, byddwn yn gobeithio, wrth gwrs, gan eu bod yn gyfleusterau pwysig iawn i'r cymunedau y maen nhw'n eu cynrychioli, y byddai canolfannau cymunedol yn cael eu hystyried yn ffafriol gan unrhyw awdurdod lleol, boed yn awdurdod unedol neu'n gyngor cymuned.

14:15

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, although you are absolutely right that it is, of course, up to local authorities as to what happens with community centres in their own area, it is the case that many community facilities are under threat because of the economic situation that faces everyone in Wales. As a result of that, particularly in deprived communities, many people face losing vital services, many of which they rely on to access, for example, job applications through broadband provision, et cetera. May I ask what your Government is doing, particularly through the Communities First programme and other programmes, to try to make sure that in those deprived communities those facilities are maintained as much as possible?

Brif Weinidog, er eich bod yn llygad eich lle, wrth gwrs, mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw penderfynu ar yr hyn sy'n digwydd gyda chanolfannau cymunedol yn eu hardaloedd eu hunain, mae'n ffaith fod llawer o gyfleusterau cymunedol dan fygythiad oherwydd y sefyllfa economaidd sy'n wynebu pawb yng Nghymru. O ganlyniad i hynny, yn enwedig mewn cymunedau difreintiedig, mae llawer o bobl yn wynebu colli gwasanaethau hanfodol, llawer ohonynt y maen nhw'n dibynnu arnynt i gael mynediad at, er enghraifft, ceisiadau am swydd trwy ddarpariaeth band eang, ac ati. A gaf i ofyn beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud, yn enwedig drwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni eraill, i geisio gwneud yn siŵr bod y cyfleusterau hynny yn cael eu cynnal cymaint â phosibl yn y cymunedau difreintiedig hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I would argue that we have done that, particularly through Communities First, which is a long-standing programme, and, of course, refurbishment money has been made available for many centres through the community facilities and activities programme, and the Member will be aware of our plans for the future. Certainly, we know that community centres, particularly those that have been refurbished, are enormous local assets. I would encourage all those responsible for running community centres to consider their futures very carefully, particularly given the fact that they play such an enormous role in the life of communities across Wales.

Wel, byddwn yn dadlau ein bod wedi gwneud hynny, yn enwedig trwy Cymunedau yn Gyntaf, sy'n rhaglen hir-sefydlog, ac, wrth gwrs, rhoddwyd arian ailwampio ar gael ar gyfer nifer o ganolfannau drwy'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol, a bydd yr Aelod yn ymwybodol o'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Yn sicr, rydym yn gwybod bod canolfannau cymunedol, yn enwedig y rhai sydd wedi eu hailwampio, yn asedau lleol enfawr. Byddwn yn annog pawb sy'n gyfrifol am redeg canolfannau cymunedol i ystyried eu dyfodol yn ofalus iawn, yn enwedig o gofio'r ffaith eu bod yn cyflawni swyddogaeth mor enfawr ym mywyd cymunedau ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

**Cwestiynau i'r Gweinidog
Diwylliant a Chwaraeon**

Cyfleusterau Chwaraeon

**Questions to the Minister for
Culture and Sport**

Sports Facilities

14:16

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

1. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglŷn â datblygu cyfleusterau chwaraeon yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)0131(CS)

1. What discussions has the Minister had regarding developing sports facilities in mid Wales? OAQ(4)0131(CS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon / The Minister for Culture and Sport

Rwyf yn cynnal trafodaethau gyda Chwaraeon Cymru ac awdurdodau lleol ynglŷn â datblygu cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru.

I hold discussions with Sport Wales and local authorities regarding the development of sports facilities throughout Wales.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, byddwch yn gwybod mai un o'r manau gwan yn y canolbarth yw nad oes trac rhedeg neu drac seiclo aml-dywydd a bod uchelgais gan nifer o gyrff cenedlaethol a lleol i weld trac o'r math yn cael ei ddatblygu yn Aberystwyth. A gaf ofyn ichi felly drafod gyda Chwaraeon Cymru i weld sut y gellid rhoi pecyn cyllid at ei gilydd i sicrhau bod datblygiad o'r math hwn yn y tymor canolig mewn lleoliad strategol cenedlaethol pwysig yn Aberystwyth ar gyfer hyrwyddo'r chwaraeon pwysig hyn?

Minister, you will be aware that one of the weak spots in mid Wales is that there is no all-weather running or cycle track available, and it is an ambition of a number of national and local bodies to see such a track developed in Aberystwyth. May I ask you therefore to discuss with Sport Wales to see how a financial package can be put together to ensure, in the medium term, that there is such a development in a strategic and nationally important location in Aberystwyth for promoting these important sports?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:17

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, as Minister with responsibility for sport and physical activity in Wales, I want to see top quality facilities right across Wales, with no gaps in coverage. I am very willing to have discussions with Sport Wales regarding these matters. I know that there are other interested parties that may potentially be involved. Of course, from next year we will establish a capital loans scheme, which will be a significant addition in terms of offering funding for these sorts of developments. I understand that the Member either has met or will be meeting with Sport Wales tomorrow and I will make sure that I keep in touch on these matters.

Wel, fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, rwyf eisiau gweld cyfleusterau o'r ansawdd uchaf ar draws Cymru gyfan, heb unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Rwy'n barod iawn i gael trafodaethau gyda Chwaraeon Cymru ynghylch y materion hyn. Gwn fod partïon eraill sydd â diddordeb a allai ymwneud â'r mater o bosibl. Wrth gwrs, o'r flwyddyn nesaf ymlaen, byddwn yn sefydlu cynllun benthyciadau cyfalaf, a fydd yn ychwanegiad sylweddol o ran cynnig cyllid ar gyfer y mathau hyn o ddatblygiadau. Rwy'n deall bod yr Aelod naill ai wedi cyfarfod â Chwaraeon Cymru neu ei fod yn cyfarfod â nhw yfory, a byddaf yn gwneud yn siŵr fy mod yn cadw mewn cysylltiad ar y materion hyn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:18

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, Powys County Council is looking to transfer a number of playing fields, including the Trehafren and Vaynor football pitches in my constituency, into the hands of voluntary sports clubs. Many of these clubs now have to make a decision on whether they want to take ownership of these sites and develop them further and whether they have the ability to do that. The authority is apparently not making funding available for the transition. What is the Welsh Government doing with regard to making available all the necessary information on sources of funding to community sports clubs so that they can make a full and informed decision on whether they have the resources and capacity to take on such facilities?

Weinidog, mae Cyngor Sir Powys yn bwriadu trosglwyddo nifer o gaeau chwarae, gan gynnwys caeau pêl-droed Trehafren a Faenor yn fy etholaeth i, i ddwylo dybiau chwaraeon gwirfoddol. Mae'n rhaid i lawer o'r dybiau hyn wneud penderfyniad bellach o ran pa un a ydynt eisiau cymryd perchnogaeth o'r safleoedd hyn a'u datblygu ymhellach ac a yw'r gallu ganddynt i wneud hynny. Yn ôl pob golwg, nid yw'r awdurdod yn sicrhau bod cyllid ar gael ar gyfer y trosglwyddiad. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol ar gael am ffynonellau cyllid i glybiau chwaraeon cymunedol fel y gallant wneud penderfyniad llawn a chytbwys ynghylch a yw'r gallu a'r adnoddau ganddynt i gymryd cyfrifoldeb am gyfleusterau o'r fath?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:19

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the Member describes a strong theme in sport and physical activity provision across Wales at the moment, driven in part, of course, by the difficult budgetary situations that we all face. I think that it is very important that if transfers are to take place there is the necessary support and assistance in place. I very much expect Sport Wales to work closely with our local authorities, our sport governing bodies and our sports clubs to ensure that that support and assistance is in place, and I will have discussions to ensure that that is the case in this particular instance.

Rwy'n meddwl bod yr Aelod yn disgrifio thema gref yn y ddarpariaeth chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Cymru ar hyn o bryd, wedi ei hysgogi'n rhannol, wrth gwrs, gan y sefyllfaoedd cyllidebol anodd rydym ni i gyd yn eu hwynebu. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn bod y gefnogaeth a'r cymorth angenrheidiol ar gael os yw trosglwyddiadau'n digwydd. Rwy'n sicr yn disgwyl i Chwaraeon Cymru weithio'n agos gyda'n hawdurdodau lleol, ein cyrff llywodraethu chwaraeon a'n clybiau chwaraeon i sicrhau bod y gefnogaeth a'r cymorth hwnnw ar gael, a byddaf yn cynnal trafodaethau i sicrhau mai dyna'r gwirionedd yn yr achos penodol hwn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**Active Travel (Wales) Act 2013**

14:20

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

2. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013? OAQ(4)0126(CS)

2. Will the Minister make a statement on the implementation of the Active Travel (Wales) Act 2013? OAQ(4)0126(CS)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The outcome of the consultation on the direction for where the Act will apply will be published shortly. The active travel board has met. Work on the design and delivery guidance is progressing well and will be published for public consultation in the coming weeks.

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad ar y cyfeiriad y bydd y Ddeddf yn berthnasol iddo yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Mae'r bwrdd teithio llesol wedi cyfarfod. Mae gwaith ar y cynllun a'r canllawiau darparu yn symud ymlaen yn dda a bydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn yr wythnosau nesaf.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:20	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography I recently had the pleasure of seeing the Welsh Government-supported Sustrans Bike It scheme in action at Pennar Community School in Pembroke Dock, and I was really impressed by the way in which it promotes cycling and active travel and increases local demand for safe cycling routes. Does the Welsh Government have any plans to further develop its support for this scheme as part of your responsibility to promote cycling?	Yn ddiweddar, cefais y pleser o weld y cynllun Beiciwch Hi Sustrans Cymru, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, ar waith yn Ysgol Gymunedol Pennar yn Noc Penfro, a chefais fy mhlesio gan y ffordd y mae'n hyrwyddo beicio a theithio llesol ac yn cynyddu'r galw lleol am lwybrau beicio diogel. A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddatblygu ei chefnogaeth ar gyfer y cynllun hwn ymhellach yn rhan o'ch cyfrifoldeb i hyrwyddo beicio?	Senedd.tv Fideo Video
14:20	John Griffiths Bywgraffiad Biography I very much agree with the Member regarding the value of the Bike It project, and I have had first-hand experience of that at the Gabalfa Primary School in Cardiff, and it does generate a lot of enthusiasm and action. So, I very much intend to highlight the value of the scheme, and, working with the Minister for transport, to ensure that the scheme continues to be a success across Wales.	Rwy'n cytuno'n llwyr â'r Aelod ynglŷn â gwerth prosiect Beiciwch Hi, ac rwyf wedi cael profiad uniongyrchol o hynny yn Ysgol Gynradd Gabalfa yng Nghaerdydd, ac mae'n cynhyrchu llawer o frwdfrydedd a gweithredu. Felly, rwy'n sicr yn bwriadu tynnu sylw at werth y cynllun, ac i weithio gyda'r Gweinidog trafnidiaeth, i sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn llwyddiant ledled Cymru.	Senedd.tv Fideo Video
14:21	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call the opposition spokesperson, Paul Davies.	Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.	Senedd.tv Fideo Video
14:21	Paul Davies Bywgraffiad Biography Minister, as you aware, the Active Travel (Wales) Act 2013 is a piece of legislation that will, hopefully, encourage people to rely less on their cars when making short journeys. This will, hopefully, encourage parents to rely less on their cars when taking their children to school. Minister, can you tell us how the Welsh Government's new guidelines on safe routes to school will fit into the implementation of the Act? Will the new guidelines be used to inform what constitutes safe travel under the Act?	Weinidog, fel y gwyddoch, mae Bil Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ddarn o ddeddfwriaeth a fydd, gobeithio, yn annog pobl i ddibynnu llai ar eu ceir wrth wneud teithiau byr. Y gobaith yw y bydd hyn yn annog rhieni i ddibynnu llai ar eu ceir pan eu bod yn mynd â'u plant i'r ysgol. Weinidog, a allwch chi ddweud wrthym sut y bydd canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ar lwybrau diogel i'r ysgol yn cyd-fynd â gweithrediad y Ddeddf? A fydd y canllawiau newydd yn cael eu defnyddio i lywio'r hyn a ystyrir yn deithio diogel dan y Ddeddf?	Senedd.tv Fideo Video
14:21	John Griffiths Bywgraffiad Biography Well, I think it is very important that we look across the piece at Welsh Government activity in terms of ensuring that the active travel legislation is successful, and safe routes to school are important to that overall picture. I work very closely with the Minister for transport to ensure that road safety is at the forefront of what we do in terms of general transport policy, and that will very much link up with the legislation and the guidance that surrounds it.	Wel, rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn edrych ar weithgarwch Llywodraeth Cymru yn gyffredinol o ran sicrhau bod y ddeddfwriaeth teithio llesol yn llwyddiannus, ac mae lwybrau diogel i'r ysgol yn bwysig yn y darlun cyffredinol. Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Gweinidog trafnidiaeth i sicrhau bod diogelwch ar y ffyrdd yn flaenllaw i'r hyn yr ydym ni'n ei wneud o ran polisi trafnidiaeth cyffredinol, a bydd hynny'n sicr yn cysylltu â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau sydd ynghlwm wrtho.	Senedd.tv Fideo Video
14:22	Paul Davies Bywgraffiad Biography I am grateful to the Minister for his answer. Of course, it will be essential that local authorities are able to introduce measures under the Act as effectively as possible. Can you tell us what will be the actual costs to local authorities of implementing the new Act? Also, what assessment have you made with regard to local authorities' budgets being reduced? What impact will that have on the implementation of the Active Travel (Wales) Act?	Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ateb. Wrth gwrs, bydd yn hanfodol bod awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno mesurau o dan y Ddeddf mewn modd mor effeithiol â phosibl. A allwch chi ddweud wrthym beth fydd costau gwirioneddol gweithredu'r Ddeddf newydd i awdurdodau lleol? Hefyd, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o ran cyllidebau awdurdodau lleol yn cael eu lleihau? Pa effaith fydd hynny'n ei chael ar y broses o weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru)?	Senedd.tv Fideo Video

14:22	John Griffiths Bywgraffiad Biography Well, of course, the cost of the implementation of the Act was dealt with during the scrutiny process and with regard to the regulatory impact assessment. So, all of that has been covered and set out. For example, we, as the Welsh Government, will cover the initial costs in terms of producing those initial maps of active travel routes in Wales. That is one example of that commitment, honouring the scrutiny process and the commitments given within that.	Wel, wrth gwrs, ymdriniwyd â chost gweithredu'r Ddeddf yn ystod y broses graffu ac o ran yr asesiad effaith rheoleiddiol. Felly, mae hynny i gyd wedi cael sylw ac wedi ei gyflwyno. Er enghraifft, byddwn ni, fel Llywodraeth Cymru, yn talu'r costau cychwynnol o ran cynhyrchu'r mapiau cychwynnol hynny o lwybrau teithio llesol yng Nghymru. Dyna un enghraifft o'r ymrwymiad hwnnw, gan gyd-fynd â'r broses graffu a'r ymrwymadau a roddir o fewn hynny.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call the Plaid Cymru spokesperson, Rhodri Glyn Thomas.	Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Rhodri Glyn Thomas.	Senedd.tv Fideo Video
14:23	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Weinidog, rwy'n falch iawn eich bod yn cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog trafnidiaeth ynghylch hyrwyddo cyfleoedd i bobl sydd am gerdded neu seiclo. A ydych chi'n derbyn mai un o'r cyfleoedd hynny fyddai sicrhau yn y cytundeb newydd ar gyfer y gwasanaeth trên sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddarparu gan Arriva fod mwy o gyfleoedd i bobl fynd â'u beiciau ar drenau a bod mwy o gyfleoedd i hyrwyddo teithiau gan bobl sydd am gerdded ledled Cymru a defnyddio'r gwasanaeth trên yr un pryd?	Minister, I am very pleased that you are holding discussions with the Minister for transport on promoting opportunities for walkers and cyclists. Do you accept that one of those opportunities will be to ensure in the new agreement for the train service that is currently being delivered by Arriva that there should be more opportunities for people to take bikes on trains and that there should be more opportunities to promote travel by people who want to walk throughout Wales and to use the train service at the same time?	Senedd.tv Fideo Video
14:24	John Griffiths Bywgraffiad Biography I very much agree with the Member that we have to look at these matters in terms of integrated transport and, when we look at facilities in producing the guidance under the Act, it will be important to look at public transport, both rail and bus, and to make sure that adequate facilities are provided to encourage active travel.	Cytunaf yn llwyr â'r Aelod bod yn rhaid i ni ystyried y materion hyn o ran cludiant integredig a, phan fyddwn yn edrych ar gyfleusterau wrth gynhyrchu'r canllawiau dan y Ddeddf, bydd yn bwysig edrych ar gludiant cyhoeddus, o ran rheilffyrdd a bysiau, ac i wneud yn siŵr bod cyfleusterau digonol yn cael eu darparu i annog teithio llesol.	Senedd.tv Fideo Video
14:24	Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, a gaf bwyso ychydig yn fwy arnoch chi? A wnewch chi warantu y byddwch yn sicrhau, o fewn y cytundeb hwnnw, bod mwy o leoedd ar gyfer gosod beiciau ar drenau a fydd yn sicrhau bod pobl sydd am seiclo yn cael y gwasanaeth hwnnw a bod digon o gyfle ar gyfer hynny?	In that context, Minister, may I press you a little further? Will you give a guarantee that you will ensure, within that agreement, that there are more bike racks on trains to ensure that cyclists receive that service and that there are sufficient opportunities for that?	Senedd.tv Fideo Video
14:24	John Griffiths Bywgraffiad Biography Well, I think that the assurance that I can give the Member is that these matters will be dealt with in the draft guidance and, indeed, in the work of the active travel board. There will be consultation on that draft guidance and ample opportunity for the feeding in of views. I very much understand the points that the Member makes and they will be addressed through those processes.	Wel, rwy'n credu mai'r sicrwydd y gallaf ei roi i'r Aelod yw y bydd y materion hyn yn cael eu trafod yn y canllawiau drafft ac, yn wir, yng ngwaith y bwrdd teithio llesol. Bydd ymgynghoriad ar y canllawiau drafft a digon o gyfle i gyfrannu safbwyntiau. Rwy'n deall yn llwyr y pwyntiau y mae'r Aelod yn eu gwneud a bydd y prosesau hynny yn mynd i'r afael â nhw.	Senedd.tv Fideo Video
14:25	Eluned Parrott Bywgraffiad Biography The Minister will obviously be aware of the importance of what are designated localities, and I look forward to the publication of the consultation that you mentioned, Minister. However, are you able at this stage to tell us how many respondents there were to that consultation and how their responses will be accommodated in the implementation of the Act?	Bydd y Gweinidog yn amlwg yn ymwybodol o bwysigrwydd yr hyn sy'n ardaloedd dynodedig, ac edrychaf ymlaen at gyhoeddi'r ymgynghoriad a grybwyllwyd gennych, Weinidog. Fodd bynnag, a allwch chi ddweud wrthym ar hyn o bryd faint o ymatebwyr oedd i'r ymgynghoriad hwnnw a sut y bydd eu ymatebion yn cael eu cynnwys yng ngweithrediad y Ddeddf?	Senedd.tv Fideo Video

14:25	John Griffiths Bywgraffiad Biography We have had a good level of response, which is very encouraging for us. Indeed, throughout the process of taking the active travel legislation forward, we have had, I think, a very good level of engagement, which shows the interest and, indeed, the enthusiasm for these measures. I think it will be very important for Members to play a full role as we go forward looking at the responses to the designation and direction, and, indeed, the draft guidance consultation. I fully intend to make sure that Members who were very active and engaged in the scrutiny process of the legislation remain actively engaged as we take the processes and implementation forward.	Rydym ni wedi cael ymateb da, sy'n galonogol iawn i ni. Yn wir, trwy gydol y broses o symud y ddeddfwriaeth teithio llesol ymlaen, rydym ni wedi cael, rwy'n credu, lefel dda iawn o ymgysylltu, sy'n dangos y diddordeb ac, yn wir, y brwdfrydedd ynghylch y mesurau hyn. Rwy'n meddwl y bydd yn bwysig iawn i Aelodau gyflawni swyddogaeth lawn wrth i ni symud ymlaen i edrych ar yr ymatebion i'r dynodiad a'r cyfeiriad, ac, yn wir, yr ymgynghoriad ar y canllawiau drafft. Rwy'n bwriadu gwneud yn siŵr bod Aelodau a oedd yn weithgar iawn ac a gymerodd ran yn y broses graffu ar y ddeddfwriaeth yn parhau i chwarae rhan weithredol wrth i ni frw ymlaen â'r prosesau a'r gweithrediad.	Senedd.tv Fideo Video
	Pêl-droed ar Lawr Gwlad	Grass-roots Football	
14:26	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography <i>3. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bêl-droed llawr gwlad ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)0124(CS)</i>	<i>3. Will the Minister make a statement on grass-roots football in Brecon and Radnorshire? OAQ(4)0124(CS)</i>	Senedd.tv Fideo Video
14:26	John Griffiths Bywgraffiad Biography The Welsh Government strongly supports the development of grass-roots football. We provide financial assistance via Sport Wales to the Welsh Football Trust, which reports that the number of young players playing in the south Powys league has increased from 270 to 672 in the past three years.	Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad pêl-droed ar lawr gwlad yn gryf. Rydym yn darparu cymorth ariannol trwy Chwaraeon Cymru i Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru, sy'n adrodd bod nifer y chwaraewyr ifanc sy'n chwarae yng nghynghrair de Powys wedi cynyddu o 270 i 672 yn y tair blynedd diwethaf.	Senedd.tv Fideo Video
14:26	Kirsty Williams Bywgraffiad Biography Thank you, Minister. Brecon Corries AFC has a proud history since the club was formed in 1946. Despite some difficult times recently, the club has new governance arrangements in place, popular youth teams and an ambitious plan to redevelop facilities at the club, which will be of benefit not just to the club but also to the wider community, and could provide south Powys and south mid Wales with a regional centre for football. What assistance can you give those volunteers running Brecon Corries AFC to make sure that their dreams of having this facility become a reality?	Diolch i chi, Weinidog. Mae gan Glwb Pêl-droed Corries Aberhonddu hanes balch ers ei ffurfio ym 1946. Er gwaethaf rhai cyfnodau anodd yn ddiweddar, mae'r clwb wedi rhoi trefniadau llywodraethu newydd ar waith, gyda thimau ieuenctid poblogaidd a chynllun uchelgeisiol i ailddatblygu cyfleusterau yn y clwb, a fydd o fudd nid yn unig i'r clwb, ond hefyd i'r gymuned ehangach, ac a allai ddarparu canolfan bêl-droed ranbarthol i dde Powys a de canolbarth Cymru. Pa gymorth y gallwch chi ei roi i'r gwirfoddolwyr hynny sy'n rhedeg Clwb Pêl-droed Corries Aberhonddu i wneud yn siŵr bod eu breuddwydion o gael y cyfleuster hwn yn cael eu gwireddu?	Senedd.tv Fideo Video
14:27	John Griffiths Bywgraffiad Biography Well, of course, Welsh Government very much works through Sport Wales with regard to sport and physical activity in Wales. I know that Sport Wales has been involved, as has Powys County Council, so I think advice has been given. However, there is obviously a need for continuing joint working between the various parties. Sport Wales has agreements in place with local authorities, including Powys, and that is very much about supporting the grass roots and voluntary activity. I hope that that will be the case in this particular example.	Wel, wrth gwrs, mae Llywodraeth Cymru yn sicr yn gweithio trwy Chwaraeon Cymru o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. Gwn fod Chwaraeon Cymru wedi bod yn rhan o hyn, fel y mae Cyngor Sir Powys, felly rwy'n meddwl bod cyngor wedi ei roi. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen i gydweithio barhau rhwng y gwahanol bartion. Mae gan Chwaraeon Cymru gytundebau ar waith gydag awdurdodau lleol, gan gynnwys Powys, ac un o brif ddibenion hynny yw cefnogi chwaraeon llawr gwlad a gweithgareddau gwirfoddol. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n digwydd yn yr enghraifft benodol hon.	Senedd.tv Fideo Video
14:27	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call Sandy Mewies on football in Brecon and Radnorshire.	Galwaf ar Sandy Mewies ar bêl-droed ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed.	Senedd.tv Fideo Video

14:27 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is on grass-roots football. I am asking a question because I totally agree with Kirsty Williams about encouraging grass-roots football, and I would suggest that she looks at the example of Holywell Town FC in my constituency. [Laughter.] It is an absolutely flourishing club, promoting and coaching young players, and, as a result, it is enjoying one of its best-ever seasons. Will you join me, Minister, in congratulating the club on this, and on its terrific performance in reaching the semi-finals of the Welsh Cup, knocking out bigger clubs along the way?

Mae hyn yn ymwneud â phêl-droed ar lawr gwlad. Rwy'n gofyn cwestiwn gan fy mod yn cytuno'n llwyr â Kirsty Williams ynglŷn ag annog pêl-droed ar lawr gwlad, a byddwn yn awgrymu ei bod yn edrych ar enghraifft CPD Treffynnon yn fy etholaeth i. [Chwerthin.] Mae'n glwb sy'n ffynnu'n dda, gan hybu a hyfforddi chwaraewyr ifanc, ac, o ganlyniad, mae'n mwynhau un o'i dymhorau gorau erioed. A wnewch chi ymuno â mi, Weinidog, i longyfarch y clwb ar hyn, ac ar ei berfformiad gwyd o gyrraedd rownd gynderfynol Cwpan Cymru, gan guro clybiau mwy ar y ffordd?

14:28 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I very much share in the Member's congratulations on the achievements of Holywell Town FC. I think it is very important that we share experience and good practice across Wales. I congratulate the Member on being very innovative in doing so in this occasion.

Rwy'n sicr yn rhannu llongyfarchiadau'r Aelod i lwyddiannau CPD Treffynnon. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn rhannu profiad ac arfer da ledled Cymru. Rwy'n llongyfarch yr Aelod ar fod yn arloesol iawn wrth wneud hynny ar yr achlysur hwn.

14:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that we are going to have to introduce geography lessons in our professional development.

Rwy'n meddwl y bydd yn rhaid i ni gyflwyno gwersi daearyddiaeth yn ein datblygiad proffesiynol.

Parciau Cenedlaethol Cymru

Welsh National Parks

14:28 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer Parciau Cenedlaethol Cymru yn 2014/15? OAQ(4)0123(CS)

4. Will the Minister make a statement on his priorities for Welsh National Parks in 2014/15? OAQ(4)0123(CS)

14:29 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We will shortly publish our Welsh Government policy statement for protected landscapes, and subsequently review governance arrangements of our national parks.

Byddwn yn cyhoeddi ein datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau gwarchodedig cyn bo hir, ac yn adolygu trefniadau llywodraethu ein parciau cenedlaethol ar ôl hynny.

14:29 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Minister very much for that response. As you know, it is now a year since Wales gained its first dark sky reserve status, only the fifth such status in the world. This was promoted by the Brecon Beacons National Park Authority. During the past 12 months, there has been a noticeable surge in local interest in our skies, particularly in astronomy and astro-tourism. In the context of this success, Minister, and also the prestigious debate that is being promoted and sponsored by our colleague and dark skies enthusiast, Nick Ramsay AM, next Thursday, what can the Welsh Government do to further showcase the success that is the dark skies project to the benefit of the Welsh economy?

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Gweinidog am yr ymateb yna. Fel y gwyddoch, mae'n flwyddyn bellach ers i Gymru ennill ei statws awyr dywyll cyntaf, dim ond y pumed statws o'r fath yn y byd. Cafodd hyn ei hyrwyddo gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu cynnydd amlwg yn y diddordeb lleol yn ein hawyr, yn enwedig o ran seryddiaeth ac astro-dwristiaeth. Yng nghyd-destun y llwyddiant hwn, Weinidog, a hefyd y ddadl o fri sy'n cael ei hyrwyddo a'i noddi gan ein cydweithiwr a'n cefnogwr awyr dywyll brwd, Nick Ramsay AC, ddydd Iau nesaf, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i arddangos llwyddiant y prosiect awyr dywyll ymhellach, er budd economi Cymru?

14:29	John Griffiths Bywgraffiad Biography I very much hope that the publication that I have referred to will reinforce the value of our national parks, and, indeed, areas of outstanding natural beauty. I think that very good examples of that are some of the top-quality dark skies that we have in Wales, and, obviously, the Brecon Beacons has been very successful in promoting its profile in those terms. It is a fabulous sight to see a quality night sky, or dark sky, and I think that it does offer very real tourism opportunities. We would be very pleased to work with Brecon Beacons National Park Authority to make the most of those opportunities.	Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y cyhoeddiad yr wyf wedi cyfeirio ato yn atgyfnerthu gwerth ein parciau cenedlaethol, ac, yn wir, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Credaf fod rhai o'r safleoedd awyr dywyll o'r radd flaenaf sydd gennym yng Nghymru yn enghreifftiau da iawn o hynny, ac, yn amlwg, mae Bannau Brycheiniog wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth hyrwyddo eu proffil yn hynny o beth. Mae'n olygfa wych gweld awyr nos, neu awyr dywyll o ansawdd, ac rwy'n credu ei fod yn cynnig cyfleoedd twristiaeth gwirioneddol. Byddem yn falch iawn o weithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd hynny.	Senedd.tv Fideo Video	
14:30	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography In terms of national parks, Minister, one issue that was raised in front of the Environment and Sustainability Committee was the invasive alien species, and the way that those are affecting national parks. You will be aware of the project that is being run in Snowdonia national park on rhododendron, which has had a considerable amount of success. However, there are other species, such as Himalayan balsam, and, indeed, fish species that are affecting our natural rivers. Do you accept that action at an early stage is important to halt the spread of non-native species, and how are you supporting the national parks in tackling these issues?	O ran parciau cenedlaethol, Weinidog, un mater a godwyd gerbron y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd oedd y rhywogaethau estron ymledol, a'r ffordd y mae'r rheini yn effeithio ar barciau cenedlaethol. Byddwch yn ymwybodol o'r prosiect sy'n cael ei redeg ym mharc cenedlaethol Eryri ar rododendron, sydd wedi cael cryn dipyn o lwyddiant. Fodd bynnag, ceir rhywogaethau eraill, fel ffromlys chwarennog, ac, yn wir, rhywogaethau pysgod sy'n effeithio ar ein hafonydd naturiol. A ydych chi'n derbyn bod cymryd camau cynnar yn bwysig i atal lledaeniad rhywogaethau anffrodorol, a sut ydych chi'n cefnogi'r parciau cenedlaethol i fynd i'r afael â'r materion hyn?	Senedd.tv Fideo Video	
14:31	John Griffiths Bywgraffiad Biography I think that there are many issues around non-native invasive species, which I believe Members will be quite familiar with, and we have discussed these on previous occasions. Obviously, my colleague Alun Davies and, indeed, Natural Resources Wales have a key role to play, and I know that they are working closely with the national parks on these matters.	Rwy'n meddwl bod llawer o faterion yn ymwneud â rhywogaethau ymledol anffrodorol, yr wyf yn credu y bydd yr Aelodau yn eithaf cyfarwydd â nhw, ac rydym ni wedi eu trafod yn y gorffennol. Yn amlwg, mae gan fy nghydweithiwr Alun Davies ac, yn wir, Cyfoeth Naturiol Cymru, swyddogaeth allweddol i'w chyflawni, ac rwy'n gwybod eu bod yn gweithio'n agos gyda'r parciau cenedlaethol ar y materion hyn.	Senedd.tv Fideo Video	
14:31	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Weinidog, wrth i'r Llywodraeth ystyried diwygio rhai o rolau awdurdodau y parciau cenedlaethol yng Nghymru, a allwch chi gadarnhau i'r Cynulliad y bydd y Llywodraeth hon hefyd yn rhoi ystyriaeth i ehangu, neu estyn, y rhannau hynny o Gymru sydd wedi eu dynodi yn barciau cenedlaethol, ai peidio?	Minister, as the Government considers reforming the roles of some of the national parks in Wales, can you confirm to the Assembly whether the Government will give any consideration to expanding, or extending, those areas of Wales that are designated as national parks?	Senedd.tv Fideo Video	
14:32	John Griffiths Bywgraffiad Biography I know that Natural Resources Wales and, again, my ministerial colleague Alun Davies are looking at the processes for potential new and further designation. So, these matters are being actively considered at the current time.	Gwn fod Cyfoeth Naturiol Cymru ac, unwaith eto, fy nghydweithiwr gweinidogol Alun Davies yn edrych ar y prosesau ar gyfer dynodiadau newydd a phellach posibl. Felly, mae'r materion hyn yn cael eu hystyried yn ymarferol ar hyn o bryd.	Senedd.tv Fideo Video	
Cyfleoedd Chwaraeon		Sporting Opportunities		
14:32	Lynne Neagle Bywgraffiad Biography 5. Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd chwaraeon yn Nhorfaen? OAQ(4)0135(CS)	5. What are the Minister's priorities for promoting sporting opportunities in Torfaen? OAQ(4)0135(CS)		Senedd.tv Fideo Video

14:32

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government aims to create a more physically active and healthier Wales, through increased participation in regular exercise and sport. Our work programme is being delivered by Sport Wales, which has a partnership agreement with Torfaen to promote and encourage sport and physical activity that meets local needs.

Nod Llywodraeth Cymru yw creu Cymru iachach a mwy egniol yn gorfforol, trwy gynyddu cyfranogiad rheolaidd mewn ymarfer corff a chwaraeon. Mae ein rhaglen waith yn cael ei chyflwyno gan Chwaraeon Cymru, sydd â chytundeb partneriaeth gyda Thorfaen i hyrwyddo ac annog chwaraeon a gweithgarwch corfforol sy'n diwallu anghenion lleol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:32

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The savage cuts to the Welsh budget, which have been passed on to us by the coalition Government, have unfortunately meant that local authorities in Wales have had to make very difficult decisions between protecting local services, such as social services, and continuing to support sports clubs. In Torfaen, for example, clubs such as Griffithstown Association Football Club are faced with changes to their leasing system, which could prove to be very costly, and could mean that many young people will no longer be able to be involved in the football club. What are you doing as Minister to monitor the impact of the coalition's cuts on sports clubs in our communities, and what steps are you taking with Sport Wales and other agencies to mitigate the impact of those cuts?

Yn anffodus, mae'r toriadau llym i gyllideb Cymru a drosglwyddwyd i ni gan y Llywodraeth glymblaid, wedi golygu bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn rhwng diogelu gwasanaethau lleol, fel gwasanaethau cymdeithasol, a pharhau i gefnogi clybiau chwaraeon. Yn Nhorfaen, er enghraifft, mae clybiau fel Clwb Pêl-droed Tref Gruffydd yn wynebu newidiadau i'w system prydlesu, a allai fod yn gostus iawn, a gallai olygu na fydd llawer o bobl ifanc yn gallu bod yn rhan o'r clwb pêl-droed bellach. Beth ydych chi'n ei wneud fel Gweinidog i fonitro effaith toriadau'r glymblaid ar glybiau chwaraeon yn ein cymunedau, a pha gamau ydych chi'n eu cymryd gyda Chwaraeon Cymru ac asiantaethau eraill i liniaru effaith y toriadau hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:33

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very concerned—as the Member is—regarding these matters. They are obviously concerning for sport and physical activity in Wales, which are so important in so many ways. We are working with local authorities—I have had regular meetings with them, and I have also written to them, stressing the importance of sport and physical activity, even within these difficult budgetary times. I know that Sport Wales provides advice, and that it will work with Griffithstown AFC, and, indeed, Torfaen County Borough Council, on these matters, and, similarly, with the Welsh Local Government Association. I think that it is very important that, at this time—as we touched upon earlier—where there is increased responsibility on sports clubs, which, obviously, are of a voluntary nature, there is adequate advice, support and assistance in place to make sure that that transfer of responsibility is a success.

Rwy'n bryderus iawn—fel y mae'r Aelod—am y materion hyn. Maen nhw'n amlwg yn peri pryder o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru, sydd mor bwysig mewn cymaint o ffyrdd. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol—rwyf wedi cael cyfarfodydd rheolaidd gyda nhw, ac rwyf hefyd wedi ysgrifennu atynt, gan bwysleisio pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol, hyd yn oed yn ystod y cyfnod cyllidebol anodd hwn. Gwn fod Chwaraeon Cymru yn darparu cyngor, ac y bydd yn gweithio gyda Chlwb Pêl-droed Tref Gruffydd, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn wir, ar y materion hyn, ac, yn yr un modd, gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn, ar hyn o bryd—fel y crybwyllwyd yn gynharach—lle mae gan glybiau chwaraeon fwy o gyfrifoldeb, sydd, yn amlwg, o natur wirfoddol, bod cyngor, cefnogaeth a chymorth digonol ar gael i wneud yn siŵr bod y trosglwyddiad hwnnw o gyfrifoldeb yn llwyddiant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, the newly formed Torfaen Leisure Trust will face a major test as a result of the proposals to locate a new secondary school on the Fairwater school and leisure centre site. What support will you be able to offer the Torfaen Leisure Trust for the retention of these very necessary leisure facilities?

Weinidog, bydd Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen, sydd newydd ei ffurfio, yn wynebu prawf sylweddol o ganlyniad i'r cynigion i leoli ysgol uwchradd newydd ar safle ysgol a chanolfan hamdden Fairwater. Pa gefnogaeth fyddwch chi'n gallu ei chynnig i Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen i gadw'r cyfleusterau hamdden hynod angenrheidiol hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Again, we will work through Sport Wales and Torfaen County Borough Council on these matters. The trust has considerable advantages in terms of the rates that it does not pay, as it were, compared with those with a direct local authority responsibility. So, in terms of resource, the trust has considerable advantages, and that model is being looked at by other local authorities across Wales. However, there are still a number of difficulties in taking further development forward and we will work in the way that I described in addressing those matters.

Unwaith eto, byddwn yn gweithio trwy Chwaraeon Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar y materion hyn. Mae gan yr ymddiriedolaeth fanteision sylweddol o ran yr ardrethi nad yw'n eu talu, fel petai, o'u cymharu â'r rhai sydd â chyfrifoldeb awdurdod lleol uniongyrchol. Felly, o ran adnoddau, mae gan yr ymddiriedolaeth fanteision sylweddol, ac mae'r model hwnnw'n cael ei ystyried gan awdurdodau lleol eraill ledled Cymru. Fodd bynnag, ceir nifer o anawsterau o hyd wrth fwrw ymlaen â datblygiadau pellach, a byddwn yn gweithio yn y modd a ddisgrifiais wrth fynd i'r afael â'r materion hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:35

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I do not want to monitor anything—I want to know what steps the Welsh Government is taking to encourage greater participation in sport by young people living in the more deprived areas, such as the Heads of the Valleys, and Torfaen in particular. All of the evidence shows that these youngsters are much less likely to take part in sporting activities than others in the more affluent areas, and I will not name the more affluent areas.

Weinidog, nid wyf eisiau monitro unrhyw beth—rwyf eisiau gwybod pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith pobl ifanc sy'n byw yn yr ardaloedd mwy difreintiedig, fel Blaenau'r Cymoedd, a Thorfaen yn arbennig. Mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod y bobl ifanc hyn yn llawer llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon nag eraill yn yr ardaloedd mwy cefnog, ac nid wyf am enwi'r ardaloedd mwy cefnog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:36

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

These matters are an absolute priority for the Welsh Government, and, through the Welsh Government, for Sport Wales. Sport Wales has a community strategy and it has a child poverty strategy. It now funds StreetGames, as one example, to a much greater extent, and that is about doorstep sporting opportunities and taking sport into our most deprived communities, outreaching to people who would not perhaps otherwise take part in sport and physical activity to the extent that they do when they have those opportunities in their own communities. We also want to link much more closely with Communities First and I work on that with responsible Ministers in the Welsh Government, and, indeed, in terms of the physical activity executive group with colleagues such as Mark Drakeford. There is renewed energy and ideas around this crucial agenda, and I very much intend to drive that work forward.

Mae'r materion hyn yn flaenoriaeth bendant i Lywodraeth Cymru, a, thrwy Lywodraeth Cymru, i Chwaraeon Cymru. Mae gan Chwaraeon Cymru strategaeth gymunedol ac mae ganddo strategaeth tlodi plant. Mae bellach yn ariannu GemauStryd, fel un enghraifft, i raddau llawer mwy, ac mae hynny'n ymwneud â chyfleoedd chwaraeon ar garreg y drws a mynd â chwaraeon allan i'n cymunedau mwyaf difreintiedig, gan estyn allan i bobl na fyddai fel arall efallai yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol i'r graddau y maent yn gwneud hynny pan eu bod yn cael y cyfleoedd hynny yn eu cymunedau eu hunain. Rydym hefyd eisiau cysylltu'n llawer agosach gyda Chymunedau yn Gyntaf ac rwy'n gweithio ar hynny gyda Gweinidogion sy'n gyfrifol yn Llywodraeth Cymru, ac, yn wir, o ran y grŵp gweithredol gweithgarwch corfforol, gyda chydweithwyr fel Mark Drakeford. Ceir egni a syniadau newydd o ran yr agenda hanfodol hon, ac rwyf yn sicr yn bwriadu sbarduno'r gwaith hwnnw yn ei flaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Menywod a Chwaraeon

Women and Sport

14:37

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

6. Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer y menywod sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon? OAQ(4)0119(CS)

6. What measures is the Welsh Government taking to increase the number of women taking part in sporting activities? OAQ(4)0119(CS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Sport Wales delivers our policy outcomes and women in sport is a focus of its work. Its 'What Moves You?' campaign is an example of this, as is the work that it does to increase the number of girls continuing to participate in sport throughout their time in school.

Chwaraeon Cymru sy'n darparu ein canlyniadau polisi ac mae menywod mewn chwaraeon yn ganolbwynt i'w waith. Mae ei ymgyrch 'Sut Mae'ch Symud Chi?' yn enghraifft o hyn, yn ogystal â'r gwaith y mae'n ei wneud i gynyddu nifer y merched sy'n parhau i gymryd rhan mewn chwaraeon drwy gydol eu hamser yn yr ysgol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:37

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you join me with in congratulating Aberdare Rugby Football Club, which has just started its first women's teams in the club's 124-year history, with under-15s and under-18s teams established to get young women participating in sport from an early age? How can we also encourage more women to take part in all sports, including rugby, and what possibilities are there to build on the Winter Olympics, where women won three quarters of the medals that Britain came home with?

A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Clwb Rygbi Aberdâr, sydd newydd ddechrau ei dimau menywod cyntaf yn hanes 124 mlynedd y clwb, wrth i dimau dan 15 oed a dan 18 oed gael eu sefydlu i annog menywod ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon o oedran cynnar? Sut gallwn ni hefyd annog mwy o fenywod i gymryd rhan mewn pob math o chwaraeon, gan gynnwys rygbi, a pha bosibiliadau sydd ar gael i adeiladu ar Gemau Olympaidd y Gaeaf, lle'r enillodd menywod dri chwarter y medalau a ddaeth yn ôl i Brydain?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much join Christine Chapman in congratulating Aberdare RFC on its encouraging initiative, which shows a good example to others in Wales, and, indeed, in terms of the performance of women in the Winter Olympics. We do task Sport Wales with increasing its efforts to encourage more participation by women and girls in sport generally in Wales. I know that the Welsh Rugby Union and, again, StreetGames are working on the 'Us Girls' campaign, which is very much on this agenda. There will be a trial programme commencing in Bridgend, which involves rugby coaching courses for women. So, there is movement and activity on this front in Wales and I think that we have to further develop that as we go forward.

Rwy'n sicr yn ymuno â Christine Chapman i longyfarch Clwb Rygbi Aberdâr ar ei fenter galonogol, sy'n dangos esiampl dda i eraill yng Nghymru, ac, yn wir, o ran perfformiad menywod yng Ngemau Olympaidd y Gaeaf. Rydym yn gwneud Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am gynyddu ei ymdrechion i annog mwy o gyfranogiad gan fenywod a merched mewn chwaraeon yn gyffredinol yng Nghymru. Gwn fod Undeb Rygbi Cymru ac, unwaith eto, GemauStryd yn gweithio ar yr ymgyrch 'Us Girls', sy'n sicr ar yr agenda hon. Bydd rhaglen arbrofol yn dechrau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys cyrsiau hyfforddi rygbi i ferched. Felly, ceir camu ymlaen a gweithgarwch yn y maes hwn yng Nghymru ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni ddatblygu ymhellach, wrth i ni symud ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:38

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the best ways to get women engaged and involved in sport is through grass-roots sport and there are particular problems in my region about the increasing costs of accessing grass-roots sport, particularly with prices going up for access to pitches and things like that. However, we are also seeing the closure of facilities like Plas Madoc, which are in the community and available for community use. What are you doing to assess the impact of this, particularly on women and girls?

Un o'r ffyrdd gorau o gynnwys menywod mewn chwaraeon a'u hannog i gymryd rhan yw trwy chwaraeon ar lawr gwlad a cheir problemau penodol yn fy rhanbarth i o ran costau cynyddol cael mynediad at chwaraeon ar lawr gwlad, yn enwedig wrth i brisiau ar gyfer defnyddio lleiniau a phethau fel hynny gynyddu. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gweld cyfleusterau fel Plas Madoc yn cau, sydd yn y gymuned ac ar gael at ddefnydd y gymuned. Beth ydych chi'n ei wneud i asesu effaith hyn, yn enwedig ar fenywod a merched?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I mentioned earlier, I regularly meet with local government, cabinet members and lead officers with responsibility for sport and physical activity in Wales, to discuss these matters, to understand the emerging picture in terms of the current budget round and to involve partners such as Sport Wales in looking at new, innovative models of delivery. There are new ideas around and there is good practice in Wales, and, as we all know, it is very much about delivering more with less. It is very difficult to do, but, it is possible and we will continue to work with partners to address the issues that the Member raises.

Fel y soniais yn gynharach, rwy'n cyfarfod â llywodraeth leol, aelodau'r cabinet a swyddogion arweiniol sy'n gyfrifol am chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru yn rheolaidd, i drafod y materion hyn, i ddeall y darlun sy'n dod i'r amlwg o ran y cylch cyllideb presennol ac i gynnwys partneriaid fel Chwaraeon Cymru i edrych ar fodelau darparu newydd ac arloesol. Mae syniadau newydd i'w cael a cheir arfer da yng Nghymru, ac, fel y mae pob un ohonom yn gwybod, mae'n golygu darparu mwy gyda llai. Mae'n anodd iawn gwneud hynny, ond, mae'n bosibl a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r materion y mae'r Aelod yn eu codi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you know, I think that PE skirts put off some girls from taking part in sport. Will you ensure that they are not compulsory sportswear in our schools? Will you also ensure that no pupil will have to bare their legs if they choose not to while undertaking sporting activities?

Weinidog, fel y gwyddoch, rwy'n meddwl bod sgertiau AG yn atal rhai merched rhag cymryd rhan mewn chwaraeon. A wnewch chi sicrhau nad ydynt yn wisg chwaraeon orfodol yn ein hysgolion? A wnewch chi sicrhau hefyd na fydd yn rhaid i unrhyw ddisgybl ddangos eu coesau os ydynt yn dewis peidio â gwneud hynny wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Member has raised these issues previously and they are issues of long-standing concern for good reason. They are not matters that will go away, as it were, so I am very happy to address these matters with Sport Wales, LEAs and local authorities. I know that the Sport Wales survey was indicative of a decrease in the probability of children taking part in sport regularly if they were sensitive to these matters, as many are. So, they are real issues that need to be addressed. Although they have been around for a while, we need to continue to discuss them.

Rwy'n gwybod bod yr Aelod wedi codi'r materion hyn o'r blaen ac maent yn faterion sy'n peri pryder hir-sefydlog am reswm da. Nid ydynt yn faterion a fydd yn diflannu, fel petai, felly rwy'n hapus iawn i fynd i'r afael â'r materion hyn gyda Chwaraeon Cymru, Awdurdodau Addysg Lleol ac awdurdodau lleol. Rwy'n gwybod bod arolwg Chwaraeon Cymru yn dangos gostyngiad o ran y tebygolrwydd y byddai plant yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd pe byddent yn sensitif i'r materion hyn, fel y mae llawer. Felly, maen nhw'n faterion gwirioneddol y mae angen rhoi sylw iddynt. Er eu bod wedi bod o gwmpas ers peth amser, mae angen i ni barhau i'w trafod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Safonau Cenedlaethol ar gyfer Llyfrgelloedd

National Standards for Libraries

14:41

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

7. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am safonau cenedlaethol ar gyfer llyfrgelloedd? OAQ(4)0125(CS)

7. Will the Minister make a statement on national standards for libraries? OAQ(4)0125(CS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

9. A wnaiff y Gweinidog amlinellu yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynnal safonau llyfrgelloedd yng Nghymru? OAQ(4)0129(CS)

9. Will the Minister outline what the Welsh Government is doing to maintain library standards in Wales? OAQ(4)0129(CS)

14:41

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Lwydd, rwy'n deall eich bod wedi rhoi caniatâd i gwestiynau 7 a 9 cael eu grwpio.

Presiding Officer, I understand that you have granted permission for questions 7 and 9 to be grouped.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf newydd gymeradwyo'r pumed fframwaith ar gyfer safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru. Bydd y fframwaith yn dod i rym ar 1 Ebrill 2014.

I have just agreed the fifth framework for Welsh public library standards, which will come into force on 1 April 2014.

14:42

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y diweddariad hwnnw ar ddatblygiad y safonau. Er bod nifer o awdurdodau yn gorfod gwneud dewisiadau anodd ynglŷn ag ambell i lyfrgell unigol ac ynglŷn â lleoliad y llyfrgelloedd, mae'n hynod o bwysig i gadw safonau yn uchel yng Nghymru, gan fod Cymru'n arwain gwledydd Prydain o ran safonau llyfrgelloedd.

Thank you, Minister, for that update on the development of the standards. Although a number of authorities are having to make difficult choices regarding a few individual libraries and in terms of the location of libraries, it is extremely important that we retain standards in Wales, given that Wales is in the vanguard in terms of the nations of the United Kingdom on library standards.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth fwrw ymlaen â hyn, a ydych chi'n teimlo ei fod yn briodol ein bod yn cael dadl rywbryd yn y Cynulliad ynglŷn â'r safonau rydych chi am gyhoeddi ar gyfer y flwyddyn nesaf? A fyddwch chi'n ymrwymo i gadw'r safonau ar y lefel uchaf posibl er mwyn gwneud yn siŵr bod llyfrgelloedd ar gael i bawb, achos, yng ngeiriau anfarwol y Manic Street Preachers, 'libraries give us power'?

In taking this forward, do you believe that it would be appropriate that we should have a debate sometime in the Assembly on the standards that you wish to publish for next year? Will you commit to maintaining the standards at the highest possible level in order to ensure that libraries are available to all, because, in the immortal words of the Manic Street Preachers, libraries give us power?

14:42

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Libraries do indeed give us power. In fact, there is a library in Pill in Newport that has a sign on the front of the building that says 'knowledge is power', which is very true. So, it is about empowering people and communities, and we do take libraries very seriously in Wales and rightly so. The Member is right that, in terms of usage, we have a very good story to tell, which puts Wales at the forefront. The standards are about having a professional approach, while at the same time understanding the value of volunteers, and I know that there is a lively debate around that at the moment.

There is much to celebrate in Wales, but much to discuss, because we know that libraries are facing very difficult financial times at the moment. We see a lot of new and good practice in Wales, new models of delivery and good co-location. I have seen co-location with council one-stop shops, museum space and leisure centres. Therefore, there is much to discuss, and perhaps I will discuss with the Minister for business whether it is possible to have a fuller discussion in Plenary on these matters.

Mae'n wir bod llyfrgelloedd yn rhoi pŵer i ni. A dweud y gwir, ceir llyfrgell ym Mhillgwenlli yng Nghasnewydd lle y ceir arwydd ar flaen yr adeilad sy'n dweud 'knowledge is power', sy'n wir iawn. Felly, mae'n ymwneud â grymuso pobl a chymunedau, ac rydym ni'n rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i lyfrgelloedd yng Nghymru, ac mae hynny'n briodol. Mae'r Aelod yn iawn, o ran defnydd, bod gennym stori dda iawn i'w hadrodd, sy'n rhoi Cymru ar flaen y gad. Mae'r safonau yn golygu mabwysiadu agwedd broffesiynol, gan ddeall gwerth gwirfoddolwyr ar yr un pryd, ac rwy'n gwybod bod trafodaeth fywiog ynghylch hynny ar hyn o bryd.

Mae llawer i'w ddathlu yng Nghymru, ond mae llawer i'w drafod, oherwydd ein bod yn gwybod bod llyfrgelloedd yn wynebu cyfnod ariannol anodd iawn ar hyn o bryd. Rydym yn gweld llawer o arfer newydd a da yng Nghymru, modelau newydd o ddarparu a chyd-leoli da. Rwyf wedi gweld cyd-leoli gyda siopau un-stop cyngorau, lle mewn amgueddfeydd a chanolfannau hamdden. Felly, mae llawer i'w drafod, ac efallai y byddaf yn trafod gyda'r Gweinidog busnes a yw'n bosibl cael trafodaeth lawnach yn y Cyfarfod Llawn ar y materion hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn falch iawn o'r glymblaid rhwng Llafur a'r Toriaid yn sir Wrecsam a fydd yn cau dwy lyfrgell erbyn mis Ebrill. Mae'r ymgynghoriad yn ei wneud yn glir y bydd gan Wrecsam broblemau o ran cyrraedd y safonau hynny. Beth fydd eich adran chi'n ei wneud pan fydd y cyngor sir yn dweud na fydd yn bosib o hyn ymlaen i gyrraedd y safonau hynny o fewn y sir, gan gofio bod arweinydd y grŵp Ceidwadol ar gyngor Wrecsam wedi awgrymu mai dim ond un llyfrgell sy'n angenrheidiol o fewn y sir beth bynnag?

Minister, I am sure that you are very pleased with the coalition between Labour and the Tories in Wrexham that will have closed two libraries by April. The consultation makes it clear that Wrexham will have problems in attaining those standards. What will your department do when the county council says that it will not be possible from now on to attain those standards within the county, bearing in mind that the leader of the Conservative group on Wrexham council has suggested that there needs to be only one library within the county anyway?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I say that our approach is very much to work with local authorities in Wales? We know that they face crucially difficult decisions as a result of the budgets that they have. The Welsh Government is in the same position, of course. So, we work with local authorities. We work on the standards in terms of continual improvement. It is a statutory responsibility in terms of delivering library services. I have had meetings and I have written to local government, and Members will know that I have launched a review. Therefore, we are doing much work on these matters, but it is very much in the context of working with local authorities and understanding the difficulties that they face, but looking for these new and better models of delivery.

A gaf i ddweud mai ein hagwedd, yn sicr, yw gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru? Rydym yn gwybod eu bod yn wynebu penderfyniadau hynod anodd o ganlyniad i'r cyllidebau sydd ganddynt. Mae Llywodraeth Cymru yn yr un sefyllfa, wrth gwrs. Felly, rydym ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol. Rydym yn gweithio ar y safonau o ran gwelliant parhaus. Mae'n gyfrifoldeb statudol o ran darparu gwasanaethau llyfrgell. Rwyf wedi cael cyfarfodydd ac rwyf wedi ysgrifennu at lywodraeth leol, a bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi lansio adolygiad. Felly, rydym ni'n gwneud llawer o waith ar y materion hyn, ond mae'n sicr yng nghyd-destun gweithio gydag awdurdodau lleol a deall yr anawsterau y maent yn eu hwynebu, ond chwilio am y modelau newydd a gwell hyn o gyflawni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:45

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, while we do want to see these standards across Wales, we have to be quite realistic. I know that some feel that the high standards imposed upon them have now forced some local authorities to close some of our smaller community libraries. Certainly, within my own constituency, one much-loved, long-standing and highly valued library in Penrhyn Bay has now seen a local group coming forward, wishing to take it on. It has recognised that there are many residents who wish for this central hub of activity, which provides a good selection of books, computer access and friendly banter, to be a real, true community asset. Minister, will you provide some assurance today that it will not see unnecessary bureaucracy and unrealistic standards imposed upon it, which could potentially threaten the very existence of this library and the superb efforts of this community group?

Weinidog, er ein bod eisiau gweld y safonau hyn ledled Cymru, mae'n rhaid i ni fod yn dra realistig. Gwn fod rhai yn teimlo bod y safonau uchel a orfodwyd arnynt bellach wedi gorfodi rhai awdurdodau lleol i gau rhai o'n llyfrgelloedd cymunedol llai. Yn sicr, yn fy etholaeth fy hun, mae llyfrgell hynod boblogaidd, hir-sefydlog, sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fawr ym Mae Penrhyn wedi gweld grŵp lleol yn dod ymlaen, sy'n dymuno ei chymryd drosodd. Mae wedi cydnabod bod llawer o drigolion sy'n dymuno i'r ganolfan hon o weithgarwch, sy'n cynnig detholiad da o lyfrau, mynediad at gyfrifiaduron a thynnu coes cyfeillgar, fod yn ased cymunedol gwirioneddol. Weinidog, a wnewch chi roi rhywfaint o sicrwydd heddiw na fydd safonau biwrocratiaeth diangen ac afrealistig yn cael eu gorfodi arni, ac a allai fygwth bodolaeth y llyfrgell hon ac ymdrechion ardderchog y grŵp cymunedol hwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:46

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, when it comes to closures, I have stressed to local authorities that it is very important to go through proper consultation processes and impact assessments. Where closures are necessary, I think that it is often the case that communities value their library so much that they wish to come forward and keep those facilities open on a voluntary basis, while, at the same time, benefiting from the professionalism that local authorities have in their own library services. Therefore, it is a balance. However, in no way do we wish to impose unnecessary and unhelpful bureaucracy; we want to work with communities and local authorities to make these endeavours a success.

Yn gyntaf oll, pan ddaw i achosion o gau, rwyf wedi pwysleisio i awdurdodau lleol ei bod yn bwysig iawn mynd trwy brosesau ymgynghori ac asesiadau effaith priodol. Pan fydd yn rhaid cau, rwy'n meddwl ei bod yn aml yn wir bod cymunedau yn gwerthfawrogi eu llyfrgell cymaint fel eu bod yn dymuno dod ymlaen a chadw'r cyfleusterau hynny ar agor ar sail wirfoddol, gan, ar yr un pryd, elwa ar y proffesiynoldeb sydd gan awdurdodau lleol yn eu gwasanaethau llyfrgell eu hunain yn aml. Mae'n gydbwysedd, felly. Fodd bynnag, nid ydym eisiau gorfodi biwrocratiaeth diangen ac annefnyddiol mewn unrhyw ffordd; rydym ni eisiau gweithio gyda chymunedau ac awdurdodau lleol i wneud yr ymdrechion hyn yn llwyddiant.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, rwy'n croesawu'n fawr iawn eich ymrwymiad i weithio gydag awdurdodau lleol a mudiadau cymunedol i sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn parhau ar agor a'u bod yn cyrraedd y safonau hyn. Fodd bynnag, y gwir yw bod nifer helaeth o lyfrgelloedd yn awr yn cael eu trosglwyddo i grwpiau cymunedol. Roeddwn i yn llyfrgell Carwe yn ddiweddar, lle mae'r cyngor cymuned, gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr, wedi cymryd y gwasanaeth drosodd. Beth yn ymarferol y gallwch chi fel Llywodraeth ei wneud i gynorthwyo ymdrechion y bobl hyn i gadw'r adnoddau hollbwysig hyn ar agor yn ein cymunedau?

Minister, I very much welcome your commitment to work with local authorities and community organisations to ensure that our libraries remain open and that they attain these standards. However, the fact of the matter is that a substantial number of libraries are now being transferred to community groups. I was in Carway library recently, where the community council, with the support of volunteers, has taken over the service. What in practical terms can you as a Government do to support the efforts of these people to keep these all-important facilities open in our communities?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:47

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is very much a matter of working with local authorities around the standards and a need to make sure that the professionalism within the service is there and available for the volunteers to make sure that these libraries are successfully run. It is a professional service, and rightly so, because people expect that level of provision. Therefore, although volunteers and community involvement are extremely valuable, there does have to be professional oversight, and that is very much what our library standards are about.

Mae'n sicr yn fater o weithio gydag awdurdodau lleol ar y safonau a'r angen i sicrhau bod y proffesiynoldeb o fewn y gwasanaeth yno ac ar gael i'r gwirfoddolwyr i wneud yn siŵr bod y llyfrgelloedd hyn yn cael eu rhedeg yn llwyddiannus. Gwasanaeth proffesiynol yw hwn, ac mae hynny'n briodol, gan fod pobl yn disgwyl y lefel honno o ddarpariaeth. Felly, er bod gwirfoddolwyr a chyfranogiad y gymuned yn hynod werthfawr, mae'n rhaid cael goruchwyliaeth broffesiynol, a dyna'n sicr yw diben ein safonau llyfrgell.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Welsh Liberal Democrats' spokesperson, Peter Black.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:48

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, in my region, one of the local authorities is closing nine libraries, although I think that seven will remain open with community support, and other local authorities are looking at closing libraries as well. Although the 1964 Act gives local authorities a statutory duty to have a library provision, the Welsh public library standards, which you have referred to, according to a legal note that I read this morning, are not statutory guidance and, as such, local authorities do not have to have regard to them. May I ask, therefore, what tools you have in terms of making sure that provision is maintained in communities in the face of the pressures that local government is facing?

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, yn fy rhanbarth i, mae un o'r awdurdodau lleol yn cau naw lyfrgell, er fy mod yn credu y bydd saith yn cael eu cadw ar agor gyda chefnogaeth gymunedol, ac mae awdurdodau lleol eraill yn ystyried cau lyfrgelloedd hefyd. Er bod Deddf 1964 yn ei gwneud yn ddyletswydd statudol i awdurdodau lleol gynnisg darpariaeth lyfrgell, nid yw safonau lyfrgelloedd cyhoeddus Cymru, yr ydych chi wedi cyfeirio atynt, yn ôl nodyn cyfreithiol a ddarllenais y bore yma, yn ganllawiau statudol ac, fel y cyfryw, nid oes rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt. A gaf i ofyn, felly, pa ddulliau sydd gennych chi o ran gwneud yn siŵr y cynhelir y ddarpariaeth mewn cymunedau yn wyneb y pwysau y mae llywodraeth leol yn eu hwynebu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:49

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I said earlier, I think that it is very much a matter of the Welsh Government working with local authorities and, indeed, communities. There are statutory tools available to me: it is possible to hold an inquiry and it is possible to withdraw a library service, but, obviously, those are very draconian measures and, in fact, I am not sure if they have ever been used in the UK, and I am sure that there is good reason for that. It is much more constructive and productive to work with local authorities on these matters. The standards are not statutory, but they are there for good reason. They are a continuous improvement tool: there are assessment and reporting requirements. The standards inform the Welsh Government, and myself as Minister, in terms of where the statutory obligations are being met, so I think that we need to look at the standards and at the statutory responsibilities as a whole.

Fel y dywedais yn gynharach, rwy'n meddwl ei fod yn sicr yn fater o Lywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac, yn wir, cymunedau. Mae dulliau statudol ar gael i mi: mae'n bosibl cynnal ymchwiliad ac mae'n bosibl terfynu gwasanaeth lyfrgell, ond, yn amlwg, mae'r rheini'n fesurau llym iawn ac, mewn gwirionedd, nid wyf yn siŵr a ydynt erioed wedi cael eu defnyddio yn y DU, ac rwy'n siŵr bod rheswm da am hynny. Mae'n llawer mwy adeiladol a chynhyrchiol gweithio gydag awdurdodau lleol ar y materion hyn. Nid yw'r safonau yn statudol, ond maen nhw'n bodoli am reswm da. Maen nhw'n ddulliau gwelliant parhaus: ceir gofynion asesu ac adrodd. Mae'r safonau yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, a minnau fel Gweinidog, o ran ble mae'r rhwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni, felly rwy'n meddwl bod angen i ni edrych ar y safonau ac ar y cyfrifoldebau statudol yn eu cyfanrwydd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, Minister. One of the questions that the Communities, Equality and Local Government Committee is asking witnesses as part of our inquiry into libraries is whether they think that the 1964 Act is fit for purpose and, given that it is 50 years old, whether we need to have a new Act of the Assembly to give guidance and a statutory framework for library provision. What is your view on that, and do you feel that, if you had a new Act, you would have more powers in terms of intervention to try to ensure that library provision can be maintained in many communities around Wales?

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Un o'r cwestiynau y mae'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn ei ofyn i dystion yn rhan o'n hymchwiliad i lyfrgelloedd yw a ydynt yn credu bod Deddf 1964 yn addas i'w diben ac, o ystyried ei bod yn 50 mlwydd oed, a oes angen i ni gael Deddf newydd y Cynulliad i gynnisg canllawiau a fframwaith statudol ar gyfer y ddarpariaeth o lyfrgelloedd. Beth yw eich barn chi ar hynny, ac a ydych chi'n teimlo, pe byddai gennych Ddeddf newydd, y byddai gennych fwy o bwerau o ran ymyrryd i geisio sicrhau y gellir cynnal darpariaeth lyfrgelloedd mewn llawer o gymunedau ledled Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:50

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have recently signed off my evidence to the committee and I very much look forward to reading, in due course, the committee's conclusions. When we talk about a possible debate on libraries and the standards here in the Assembly, I think that it would also be very interesting to get Members' views on the need for possible new legislation.

Rwyf wedi anfon fy nhystiolaeth i'r pwyllgor yn ddiweddar, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ddarllen, maes o law, casgliadau'r pwyllgor. Pan fyddwn yn sôn am ddadl bosibl ar lyfrgelloedd a'r safonau yma yn y Cynulliad, rwy'n meddwl y byddai hefyd yn ddiddorol iawn cael barn yr Aelodau ar yr angen am ddeddfwriaeth newydd bosibl.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

One of the services provided by libraries is access to the internet for those who cannot afford their own connection. Given that many job applications are now online, libraries are essential in helping people back to work. Do you agree with me, Minister, that local authorities in Wales should regard the provision of a sustainable library service as a priority when setting up their budgets?

Un o'r gwasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd yw mynediad at y rhyngwyd ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu fforddio eu cysylltiad eu hunain. O ystyried bod llawer o geisiadau am swyddi ar-lein bellach, mae llyfrgelloedd yn hanfodol ar gyfer helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith. A ydych chi'n cytuno â mi, Weinidog, y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried y ddarpariaeth o wasanaeth llyfrgell cynaliadwy fel blaenoriaeth wrth sefydlu eu cyllidebau?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:51

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member raises an important matter because this is a whole new and very important segment of work for our libraries in Wales in terms of universal credit and jobcentre policy, which means that people in our communities must have online access and must have the necessary skills to use that online access. It is libraries that are at the forefront in providing that access. Therefore, I would be grateful if the Member might raise with his Westminster Government colleagues some additional resource for our libraries in Wales to reflect on those additional responsibilities and additional workload.

Mae'r Aelod yn codi mater pwysig gan fod hwn yn ddarn o waith cwbl newydd a phwysig iawn i'n llyfrgelloedd yng Nghymru o ran credyd cyffredinol a pholisi canolfannau gwaith, sy'n golygu bod yn rhaid i bobl yn ein cymunedau gael mynediad ar-lein a bod yn rhaid iddynt fod â'r sgiliau angenrheidiol i ddefnyddio'r mynediad ar-lein hwnnw. Mae llyfrgelloedd ar flaen y gad o ran darparu'r mynediad hwnnw. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Aelod godi gyda'i gydweithwyr yn Llywodraeth San Steffan rhywfaint o adnoddau ychwanegol i'n llyfrgelloedd yng Nghymru i adlewyrchu'r cyfrifoldebau ychwanegol hynny a'r llwyth gwaith ychwanegol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cymryd Rhan mewn Chwaraeon

Participation in Sport

14:52

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn Sir Gaerfyrddin? OAQ(4)0127(CS)

8. Will the Minister make a statement on what actions the Welsh Government is taking to increase sporting participation in Carmarthenshire? OAQ(4)0127(CS)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:52

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r ymgyrch i ddatblygu chwaraeon ledled Cymru. Y llynedd, buddsoddodd Chwaraeon Cymru dros £570,000 yn ardal sir Gaerfyrddin, gan gefnogi amrywiaeth o raglenni sy'n canolbwyntio ar ddenu rhagor o bobl, yn enwedig pobl ifanc, i gymryd rhan mewn chwaraeon.

The Welsh Government is committed to supporting the development of sport across Wales. Last year, Sport Wales invested over £570,000 within the Carmarthenshire area through a range of programmes that focused on increasing rates of participation in sport, particularly among young people.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:53

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog. Mae'n dda gen i weld buddsoddiad gan y cyngor chwaraeon yn y sir. Wedi dweud hynny, ni fydd yr adnoddau hynny'n cael eu defnyddio oni bai bod y clybiau gwirfoddol ar hyd y sir yn cael eu cefnogi. Fel yr ydym wedi clywed ar ran sawl ardal yng Nghymru yn ystod cwestiynau heddiw, mae toriadau yn y gefnogaeth ar gyfer chwaraeon, a chwaraeon amatur yn arbennig, y codiadau mewn ffioedd i logi caeau chwarae, a throsglwyddo perchnogaeth adnoddau i glybiau nad ydynt wedi arfer delio â hynny i gyd yn rhwystro pobl, yn fy marn i, rhag cymryd rhan yn llwyr mewn chwaraeon a chadw'n heini, gan ymladd yn erbyn gordewdra ac ati hefyd. Gan fod hyn yn digwydd yn awr yn sir Gaerfyrddin, pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i helpu clybiau gwirfoddol i oresgyn y problemau ac i barhau i gynnig modd i bobl fwynhau chwaraeon?

Thank you, Minister. I am pleased to see investment by the sports council in the county. Having said that, those resources will not be used unless the voluntary clubs are supported across the county. As we have heard from a number of areas in Wales during today's questions, cuts in support for sport, particularly amateur sport, and the increases in fees for hiring playing fields, as well as transferring ownership of resources to clubs that are not used to dealing with that sort of thing, all hinder people, in my opinion, in participating fully in sport, keeping fit, and battling obesity and so on. Therefore, as this is now happening in Carmarthenshire, what support can the Welsh Government provide specifically to assist these voluntary clubs to overcome these problems and to continue as a means for people to enjoy sport?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:54

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I share the Member's concerns. If we are to further improve on participation in sport and physical activity in Wales, it is obviously vital that we keep fees as low as possible and do not introduce new responsibilities on our sport clubs and volunteers that would discourage involvement. These are live matters that need to be addressed. I am working with Sport Wales, local authorities and the WLGA on these matters. I do not pretend that there are any easy answers because we come back to what I have mentioned several times already, which, obviously, are the very difficult budgetary situations that local authorities, us and Sport Wales exist within. However, that is not to say that ways cannot be found through these difficulties, and I very much hope that these discussions will produce new ideas for a way forward.

Rwy'n rhannu pryderon yr Aelod. Os ydym yn mynd i wella cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru ymhellach, mae'n amlwg yn hanfodol ein bod yn cadw ffioedd mor isel â phosibl ac nad ydym yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd ar ein clybiau chwaraeon a gwirfoddolwyr a fyddai'n atal cyfranogiad. Mae'r rhain yn faterion byw y mae angen mynd i'r afael â nhw. Rwy'n gweithio gyda Chwaraeon Cymru, awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar y materion hyn. Nid wyf yn honni bod unrhyw atebion hawdd ar gael oherwydd ein bod ni'n dod yn ôl at yr hyn yr wyf wedi ei grybwyll sawl gwaith eisoes, sef, yn amlwg, y sefyllfaoedd cyllidebol anodd iawn y mae awdurdodau lleol, ni a Chwaraeon Cymru yn bodoli ynddynt. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na ellir dod o hyd i ffyrdd drwy'r anawsterau hyn, ac rwy'n gobeithio'n fawr y bydd y trafodaethau hyn yn cynhyrchu syniadau newydd ar gyfer ffordd ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I raised this issue with your colleague, the Minister for Local Government and Government Business, in the week before recess. The answer confirmed that you had written to local authorities. While I recognise the difficult budget choices, Carmarthenshire County Council maintains that its costs are below the national average. However, grass-roots sports play an especially vital role in creating a healthier Wales, reducing levels of obesity and creating a fitter nation. Will you join me in calling for any cost decisions to be regularly reviewed and consulted on in Carmarthenshire, and for this always to be done in co-ordination with the groups and associations affected?

Weinidog, codais y mater hwn gyda'ch cydweithiwr, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, yn ystod yr wythnos cyn y toriad. Cadarnhaodd yr ateb eich bod wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol. Er fy mod yn cydnabod y dewisiadau cyllideb anodd, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn mynnu bod ei gostau yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae chwaraeon ar lawr gwlad yn cyflawni swyddogaeth arbennig o hanfodol o ran creu Cymru iachach, lleihau lefelau gordewdra a chreu cenedl fwy heini. A wnewch chi ymuno â mi i alw am adolygiadau rheolaidd ac ymgynghori ar unrhyw benderfyniadau cost yn Sir Gaerfyrddin, ac i hyn gael ei wneud bob amser mewn cydweithrediad â'r grwpiau a'r cymdeithasau yr effeithir arnynt?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:55

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am pleased to agree with the Member that it is very important that there is proper consultation and impact assessment before major changes are made. Also, once changes are introduced, they should be monitored, assessed and revisited if necessary. I have made those points in discussions with local government across Wales.

Rwy'n falch o gytuno â'r Aelod ei bod yn bwysig iawn bod ymgynghori ac asesu effaith priodol yn digwydd cyn gwneud newidiadau mawr. Hefyd, ar ôl i'r newidiadau gael eu cyflwyno, dylid eu monitro, eu hasesu a'u hailystyried os oes angen. Rwyf wedi gwneud y pwyntiau hynny mewn trafodaethau â llywodraeth leol ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:56

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, as you have pointed out in earlier contributions, Carmarthenshire County Council has to deliver more with less, as indeed the Welsh Government has to. Of course, that is a reflection of what the UK Government has to do due to the mess it inherited from Brown and Balls. Is not the reality of the situation that, for local authorities throughout Wales, sport and culture is an easy win and an easy hit? What is your department doing to persuade them that sport has as much value to our society as caring for our elderly and educating our children? The reality is that it is much easier to close a library or to charge too much for pitch fees than it would be to withdraw care for somebody who is elderly. How are you influencing the decisions made by local authorities?

Weinidog, fel rydych chi wedi ei nodi mewn cyfraniadau cynharach, mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin ddarparu mwy gyda llai, fel yn wir y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru. Wrth gwrs, mae hynny'n adlewyrchiad o'r hyn y mae'n rhaid i Lywodraeth y DU ei wneud oherwydd y llanast iddi ei etifeddu gan Brown a Balls. Onid gwirionedd y sefyllfa yw bod chwaraeon a diwylliant yn rhwydd i awdurdodau lleol ledled Cymru eu taro'n ariannol? Beth mae eich adran chi yn ei wneud i'w darbwyllo bod gan chwaraeon gymaint o werth i'n cymdeithas â gofalu am ein henoed ac addysgu ein plant? Y gwir amdani yw ei bod yn llawer haws cau llyfrgell neu godi ffioedd gormodol am feysydd chwarae nag y byddai cymryd gofal oddi ar rywun sy'n oeddrannus. Sut ydych chi'n dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:57

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Member was doing well initially, until she came to the part about blaming the previous UK Labour Government for the financial situation. I think that it is well documented that it was a world financial crisis that produced these difficulties. I have mentioned several times already that I have been in discussions with local government across Wales—with cabinet members, lead officers and the WLGA. Those discussions will continue to try to find ways through these difficulties. Obviously, I am emphasising the importance of sport and physical activity for health and wellbeing, as well as in relation to many other benefits. That is well understood. We know about the statutory responsibilities of local authorities and the difficult decisions that they have. Nonetheless, we will continue to find new ways forward on these matters.

Toriadau yn y Gyllideb

14:58

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag arweinwyr awdurdodau lleol Cymru am effaith toriadau yn y gyllideb ar gyfleusterau diwylliannol? OAQ(4)0133(CS)

14:58

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I meet regularly with local authority leaders and have stressed the need to recognise the importance of cultural facilities and services to our communities. I shall be meeting again with the Welsh Local Government Association on 24 March to review progress and discuss specific plans.

14:58

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. We have talked a lot this afternoon about what a difficult time it is for local authorities and their funding. We know that many authorities are looking at alternative methods of delivery for cultural venues. Certainly, in my local authority—Cardiff—there has been discussion about the New Theatre and St David's Hall. What can the Minister do to encourage local authorities to ensure that these iconic places of enjoyment and culture remain?

14:59

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have discussed these matters with Cardiff Council and with the Arts Council of Wales. There are alternative delivery models around, not just in Wales but beyond Wales, for culture and in terms of cultural venues. What is really important is that an organisation like the Arts Council of Wales, which has a great deal of knowledge and expertise, understands what is happening in other places and that it is centrally involved in discussions with the local authority so it can bring that knowledge and experience to the table and investigate all possibilities of alternative delivery for these venues and cultural experiences.

Roedd yr Aelod yn gwneud yn dda i ddechrau, tan iddi gyrraedd y rhan am feio Llywodraeth Lafur flaenorol y DU am y sefyllfa ariannol. Rwy'n meddwl ei bod yn gwbl hysbys mai argyfwng ariannol byd-eang a achosodd yr anawsterau hyn. Rwyf wedi sôn sawl gwaith eisoes fy mod i wedi bod mewn trafodaethau gyda llywodraeth leol ar draws Cymru—gydag aelodau'r cabinet, swyddogion arweiniol a CLILC. Bydd y trafodaethau hynny yn parhau i geisio dod o hyd i ffyrdd drwy'r anawsterau hyn. Yn amlwg, rwy'n pwysleisio pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol i iechyd a lles, ac yng nghyswllt nifer o fanteision eraill hefyd. Ceir dealltwriaeth dda o hynny. Rydym yn gwybod am gyfrifoldebau statudol awdurdodau lleol a'r penderfyniadau anodd sydd ganddynt. Serch hynny, byddwn yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd ymlaen ar y materion hyn.

Budget Cuts

10. What discussions has the Minister had with leaders of Welsh local authorities about the impact of budget cuts on cultural facilities? OAQ(4)0133(CS)

Rwy'n cyfarfod ag arweinwyr awdurdodau lleol yn rheolaidd ac wedi pwysleisio'r angen i gydnabod pwysigrwydd cyfleusterau a gwasanaethau diwylliannol i'n cymunedau. Byddaf yn cyfarfod eto gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 24 Mawrth i adolygu cynnydd a thrafod cynlluniau penodol.

Diolchaf i'r Gweinidog am yr ateb yna. Rydym ni wedi sôn llawer y prynhawn yma ba mor anodd yw'r cyfnod hwn i awdurdodau lleol a'u cyllid. Rydym yn gwybod bod llawer o awdurdodau yn edrych ar ddulliau amgen o ddarparu ar gyfer lleoliadau diwylliannol. Yn sicr, yn fy awdurdod lleol i—Caerdydd—cafwyd trafodaeth am y Theatr Newydd a Neuadd Dewi Sant. Beth all y Gweinidog ei wneud i annog awdurdodau lleol i sicrhau bod y mannau eiconig hyn o fwynhad a diwylliant yn parhau?

Rwyf wedi trafod y materion hyn gyda Chyngor Caerdydd a chyda Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae modelau darparu amgen ar gael, nid yn unig yng Nghymru, ond y tu hwnt i Gymru, ar gyfer diwylliant ac o ran lleoliadau diwylliannol. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw bod sefydliad fel Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd â llawer iawn o wybodaeth ac arbenigedd, yn deall yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill a'i fod yn rhan ganolog o drafodaethau gyda'r awdurdod lleol fel ei fod yn gallu dod â'r wybodaeth a'r profiad hwnnw at y bwrdd ac ymchwilio i holl bosibiliadau darpariaeth amgen ar gyfer y lleoliadau a'r profiadau diwylliannol hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

A total of £18,000 of Welsh Government funding and £25,000 from the heritage body, Cadw, to allow emergency works to begin on Brymbo ironworks has been well received. However, it is understood that the total cost of protecting and conserving the site will be hundreds of thousands of pounds and, thus far, discussions with Welsh Government and Cadw indicate no further funding in 2014-15. Given that your role is to conserve and protect the historic environment and to promote heritage-led regeneration, how will you work with this group beyond the initial investment to ensure that that conservation is in place for the day when sufficient funds are available to turn this into a world-beating heritage site?

Mae'r cyfanswm o £18,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru a £25,000 gan y corff treftadaeth, Cadw, er mwyn caniatáu i waith brys gychwyn ar waith haearn Brymbo wedi cael derbyniad da. Fodd bynnag, deallir y bydd cyfanswm y gost o ddiogelu a gwarchod y safle yn gannoedd o filoedd o bunnoedd ac, hyd yma, nid yw trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Cadw yn dynodi unrhyw arian ychwanegol yn 2014-15. O gofio mai eich swyddogaeth chi yw cadw a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo adfywio a arweinir gan dreftadaeth, sut y byddwch chi'n gweithio gyda'r grŵp hwn y tu hwnt i'r buddsoddiad cychwynnol i sicrhau bod y gadwraeth honno ar waith ar gyfer y diwrnod pan fydd digon o arian ar gael i droi hwn yn safle treftadaeth sydd ymhlith goreuon y byd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I very much agree with the Member about the importance of this historic site. What Cadw has made clear is that it very much wants to work with the local community and all those who want to see the site conserved and developed. Part of that is exploring possible avenues of funding over the longer term, with a properly developed plan that is realistic and deliverable. These are very difficult matters, because we all know about the current financial circumstances that have informed so many questions and answers in today's session. Nonetheless, Cadw is there at the table, working with all of those who want to take this development forward.

Cytunaf yn llwyr â'r Aelod am bwysigrwydd y safle hanesyddol hwn. Yr hyn y mae Cadw wedi ei wneud yn eglur yw ei fod yn awyddus iawn i weithio gyda'r gymuned leol a phawb sydd eisiau gweld y safle'n cael ei warchod a'i ddatblygu. Rhan o hynny yw archwilio ffynonellau posibl o gyllid dros y tymor hwy, gyda chynllun sydd wedi ei ddatblygu'n iawn, sy'n realistig ac yn gyraeddadwy. Mae'r rhain yn faterion anodd iawn, oherwydd rydym ni i gyd yn gwybod am yr amgylchiadau ariannol presennol sydd wedi cyfrannu at gymaint o gwestiynau ac atebion yn y sesiwn heddiw. Serch hynny, mae Cadw yno wrth y bwrdd, yn gweithio gyda phawb sydd eisiau bwrw ymlaen â'r datblygiad hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:01

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Nid oes cyfrifoldeb statudol ar lywodraeth leol i gynnal canolfannau perfformio, theatrau ac amgueddfeydd. A yw'ch Llywodraeth yn mynd i sefyll o'r neilltu wrth i'r esgid wasgu dros y blynyddoedd nesaf, o gofio bod Llafur ar y lefel Brydeinig wedi dweud y bydd yn cadw at lefelau a phatrymau gwario George Osborne?

There is no statutory duty on local government to maintain performance venues, theatres and museums. Is your Government going to stand aside as pressure increases over the coming years, bearing in mind that Labour at a UK level have said that it would retain George Osborne's spending levels and patterns?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not know whether we want to get too far into UK politics in the Chamber today but, as we have addressed many times in this question and answer session, these are very difficult times. We all understand that and we all understand statutory responsibilities. Support is available from the Welsh Government and its agencies, including Arts Council Wales and the WLGA, to find ways forward. It is about new ideas, new energies and delivering more with less.

Nid wyf yn gwybod pa un a ydym eisiau mynd yn rhy bell i mewn i wleidyddiaeth y DU yn y Siambr heddiw, ond, fel yr ydym ni wedi cyfeirio ato sawl gwaith yn sesiwn cwestiwn ac ateb hwn, mae hwn yn gyfnod anodd iawn. Rydym ni i gyd yn deall hynny ac rydym ni i gyd yn deall cyfrifoldebau statudol. Mae cefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru a'i hasiantaethau, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru a CLILC, i ddod o hyd i ffyrdd ymlaen. Mae'n ymwneud â syniadau newydd, egni newydd a darparu mwy gyda llai.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:02

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Business Statement and Announcement

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

There are no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement. That can be found among the agenda papers, which are available electronically.

Nid oes newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos yma. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael yn electronig.

15:02

Darren Millar [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister, I know that there is a debate later on the annual Estyn report. One thing that I am very proud of is that Ysgol y Foryd, in my constituency, was awarded three excellents in its recent inspection report on the key questions of outcomes, provisions, and leadership and management. I ask for a statement from the Minister, perhaps later in today's debate if there is an opportunity, to say what actions he and the Welsh Government are taking to ensure that the best practice that we have seen in Ysgol y Foryd can be maintained elsewhere in the Welsh education sector, so that the benefits that both teachers and pupils in Ysgol y Foryd are receiving can be experienced elsewhere in Wales.

Weinidog, gwn y bydd dadl yn nes ymlaen am adroddiad blynyddol Estyn. Un peth yr wyf yn falch iawn ohono yw bod Ysgol y Foryd, yn fy etholaeth, wedi cael tri dyfarniad rhagorol yn ei hadroddiad arolygu diweddar ym meysydd allweddol canlyniadau, darpariaethau, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog, efallai'n nes ymlaen yn y ddadl heddiw os bydd cyfle, i ddweud pa gamau y mae ef a Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau y gellir cynnal yr arfer gorau yr ydym wedi'i weld yn Ysgol y Foryd mewn mannau eraill yn sector addysg Cymru, er mwyn i athrawon a disgyblion mewn mannau eraill yng Nghymru allu cael yr un manteision â rhai Ysgol y Foryd.

15:03

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Minister is in the Chamber and has heard your question. Like all Ministers, I know that he is very keen to see best practice shared right across Wales. If he has the opportunity in the debate, I am sure that he will address at that point.

Mae'r Gweinidog yn y Siambr ac mae wedi clywed eich cwestiwn. Gwn ei fod, fel pob un o'r Gweinidogion, yn awyddus iawn i weld arfer gorau'n cael ei rannu ledled Cymru. Os caiff gyfle yn y ddadl, rwyf yn siŵr y bydd yn ymdrin â'r pwynt hwnnw.

15:03

Mike Hedges [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yesterday, we saw the publication of the second report from the Silk commission. The First Minister has already said that he is hoping that an Assembly debate will be held after the Easter recess. Have you had an opportunity to set that date? If so, could you share that date with the Chamber?

Ddoe, gwelsom gyhoeddi ail adroddiad comisiwn Silk. Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi dweud ei fod yn gobeithio y cynhelir dadl yn y Cynulliad ar ôl toriad y Pasg. A ydych wedi cael cyfle i bennu'r dyddiad hwnnw? Os ydych, a wnewch chi rannu'r dyddiad hwnnw â'r Siambr?

15:04

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

No, we have not had the opportunity to set the date, but it will be as soon as we can when we return after the Easter recess at the end of April.

Nac ydym, nid ydym wedi cael y cyfle i bennu'r dyddiad, ond bydd cyn gynted ag y gallwn ar ôl inni ddychwelyd ar ôl toriad y Pasg ddiwedd mis Ebrill.

15:04

Eluned Parrott [Bywgraffiad Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister, I am sure that you will agree that the issue of female genital mutilation is a very important one but also a very difficult issue for our schools to address. You may be aware of the UK Government Department for Education's decision recently to issue guidance to all schools in England, reminding them of their duty of care to pupils and encouraging them to warn young girls about the dangers of FGM. May I request a written statement from the Minister for Education and Skills on the Welsh Government's plans to address the issue, particularly whether schools here in Wales will be receiving the equivalent information in the next few months from the Welsh Government?

Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod enwaedu benywod yn fater pwysig iawn, ond hefyd yn un anodd iawn i'n hysgolion ymdrin ag ef. Efallai eich bod yn ymwybodol o benderfyniad diweddar Adran Addysg Llywodraeth y DU i gyhoeddi canllawiau i bob ysgol yn Lloegr, yn eu hatgoffa o'u dyletswydd i ofalu am eu disgyblion ac yn eu hannog i rybuddio merched ifanc am beryglon enwaedu benywod. A gaf i ofyn am ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ymdrin â'r mater hwn, gan nodi'n benodol a fydd ysgolion yma yng Nghymru'n cael gwybodaeth gyfatebol gan Lywodraeth Cymru yn yr ychydig fisoedd nesaf?

15:05

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure the Minister will bring forward a written statement in due course. It is something that he and I have met to discuss. Wales has been leading the way in relation to this subject. We were the only country in the UK to hold an event on the International Day of Zero Tolerance to Female Genital Mutilation in February. I am sure the Minister has heard your question. I know that he is looking into this issue and will bring a statement forward in due course.

Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cyflwyno datganiad ysgrifenedig maes o law. Rwyf wedi cwrdd ag ef i drafod y mater. Mae Cymru wedi bod yn arwain y ffordd yn hyn o beth. Ni oedd yr unig wlad yn y DU i gynnal digwyddiad ar Ddiwrnod Rhyngwladol Dim Goddefgarwch i Enwaedu Benywod ym mis Chwefror. Rwyf yn siŵr bod y Gweinidog wedi clywed eich cwestiwn. Gwn ei fod yn edrych ar y mater hwn ac y bydd yn cyflwyno datganiad maes o law.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:05

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Is it possible to have a statement from the Minister for Culture and Sport in relation to the excessive hikes in the fees for pitches that are charged to small sporting clubs across Wales, but in particular in South Wales Central? Cardiff is the European Capital of Sport for 2014, and there has been a considerable increase in the fees that are being charged to small, voluntary clubs. These fees are becoming prohibitive, and a lot of these clubs are unable to participate in team sports. In particular, the level of upkeep of the sporting facilities is remarkably poor, despite a lot of these teams paying higher fees to the local authority. Is it possible to have a statement from the Minister as to what his officials are doing to collate the information and to see what sort of impact these excessive fee rises are having on team sports across Wales?

A fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ynglŷn â'r cynnydd afresymol yn y ffioedd am gaeau chwaraeon sy'n cael eu codi ar glybiau chwaraeon bach ledled Cymru, ond yn enwedig yng Nghanol De Cymru? Caerdydd yw Prifddinas Chwaraeon Ewrop 2014, a bu cynnydd sylweddol yn y ffioedd sy'n cael eu codi ar glybiau bach, gwirfoddol. Mae'r ffioedd hyn yn dechrau mynd yn afresymol, ac mae llawer o'r clybiau hyn yn methu â chymryd rhan mewn chwaraeon tîm. Yn benodol, mae lefel cynnal a chadw'r cyfleusterau chwaraeon yn hynod o wael, er bod llawer o'r timau hyn yn talu ffioedd uwch i'r awdurdod lleol. A fyddai'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog ynglŷn â'r hyn y mae ei swyddogion yn ei wneud i gasglu'r wybodaeth ac i weld pa fath o effaith y mae'r cynnydd afresymol hwn yn y ffioedd yn ei chael ar chwaraeon tîm ledled Cymru?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:06

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not think that that is a matter for the Minister. That is really an issue for local authorities.

Nid wyf yn credu mai mater i'r Gweinidog yw hynny. Mater i awdurdodau lleol ydyw mewn gwirionedd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:06

Leighton Andrews [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Minister is a passionate football fan, and therefore I hope that I can call on her support in requesting a debate on the governance of sport so that we can discuss the current situation at Cardiff City Football Club. I will start by expressing my hope that the current manager can keep Cardiff in the Premiership, starting with a win against Fulham Football Club on Saturday. However, the situation with the majority shareholder is now getting ridiculous. Last week he insulted the intelligence of Cardiff City fans, he insulted the capital city of Wales by dismissing it as a town, he maintains a pointless, vindictive and distasteful campaign against the former manager, and now he appears to have broken premier league rules on bonuses as well. It is clear that most Cardiff City fans want a return to blue—most wear blue at games, and are therefore protesting against the current majority shareholder. I therefore ask for a debate on the governance of sports, so that these issues can be discussed at greater length.

Gwn fod y Gweinidog yn gefnogwr pêl-droed brwd, ac felly rwyf yn gobeithio y gallaf alw am ei chymorth wrth ofyn am ddadl ar lywodraethu chwaraeon er mwyn inni allu trafod y sefyllfa sydd ohoni yng Nghlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Dechreuaf drwy ddweud fy mod yn gobeithio y gall y rheolwr presennol gadw Caerdydd yn yr Uwch Gyngghair, gan ddechrau drwy ennill yn erbyn Clwb Pêl-droed Fulham ddydd Sadwrn. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa o ran y cyfranddaliwr mwyaf bellach yn mynd yn chwerthinllyd. Yr wythnos diwethaf, sarhaodd ddeallusrwydd cefnogwyr Dinas Caerdydd, sarhaodd brifddinas Cymru drwy ei galw'n dref, mae'n cynnal ymgyrch ddibwynt, ddialgar ac annymunol yn erbyn y cyn-reolwr, ac yn awr y mae'n ymddangos ei fod wedi torri rheolau'r uwch gyngghair ar fonysau hefyd. Mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o gefnogwyr Dinas Caerdydd am droi'n ôl yn las—mae'r rhan fwyaf yn gwisgo glas i'r gemau, ac felly'n protestio yn erbyn y cyfranddaliwr mwyaf. Felly, gofynnaf am ddadl am lywodraethu chwaraeon, er mwyn gallu trafod y materion hyn yn fanylach.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:07

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Member is very concerned about what is going on at Cardiff City, and I too hope that the club can avoid relegation this season. He referred to several points regarding the owner, and I know that there has been a breach of premier league rules, which obviously is a matter for the club. The Minister has heard his comments. I do not really think that the governance of sport is something on which the Minister would like to make a statement.

Gwn fod yr Aelod yn bryderus iawn am yr hyn sy'n digwydd yn Ninas Caerdydd, ac rwyf finnau'n gobeithio y gall y clwb osgoi mynd i lawr y tymor hwn. Cyfeiriodd at lawer o bwyntiau'n ymwneud â'r perchennog, a gwn fod rheolau'r uwch gynghrair wedi'u torri, sy'n amlwg yn fater i'r clwb. Mae'r Gweinidog wedi clywed ei sylwadau. Nid wyf yn meddwl mewn gwirionedd fod llywodraethu chwaraeon yn rhywbeth yr hoffai'r Gweinidog wneud datganiad amdano.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:08

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I wonder whether we could have a statement from the Minister for Natural Resources and Food concerning the Wales Rural Observatory. As you are aware, this is a research organisation that provides considerable evidence in relation to rural communities. I understand that it is closing at the end of March this year. That decision has not been subject to scrutiny by this Assembly in any way. There are a number of reports, including 'Older People in Rural Wales', 'Young People in Rural Wales', common agricultural policy reform reports and the report on migrant workers in Wales, which have been sat on, if I can put it that way, by Welsh Government—some of them for over a year. It seems to me that, particularly when the Welsh Government is running a consultation, for example, on the rural development plan, where there is independent evidence, it should be in the public domain. Actually, the decision to shut the Wales Rural Observatory and the impact that that will have on evidence-based policy making should be the subject of a debate in this Chamber.

Tybed a gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd ynglŷn ag Arsyllfa Wledig Cymru. Fel y gwyddoch, dyma sefydliad ymchwil sy'n darparu cryn dipyn o dystiolaeth ynglŷn â chymunedau gwledig. Rwyf ar ddeall ei bod yn cau ddiwedd mis Mawrth eleni. Nid yw'r penderfyniad hwnnw wedi bod yn destun unrhyw fath o graffu gan y Cynulliad hwn. Mae nifer o adroddiadau, gan gynnwys 'Pobl Hŷn yng Nghymru Wledig', 'Pobl Ifanc yng Nghymru Wledig', adroddiadau ar ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin a'r adroddiad ar weithwyr mudol yng Nghymru, y mae Llywodraeth Cymru wedi eistedd arnynt, os gallaf ei ddisgrifio felly—rhai ohonynt am dros flwyddyn. Mae'n ymddangos i mi, yn enwedig pan fo Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgynghoriad, er enghraifft, ar y cynllun datblygu gwledig, lle ceir tystiolaeth annibynnol, y dylai'r wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd. Mewn gwirionedd, dylai'r penderfyniad i gau Arsyllfa Wledig Cymru a'r effaith a gaiff hynny ar lunio polisiâu ar sail tystiolaeth fod yn destun dadl yn y Siambr hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:09

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not aware of what the Minister for Natural Resources and Food is doing in relation to this issue. I will have a discussion with him and ask him to write to the Member.

Nid wyf yn gwybod beth y mae'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd yn ei wneud ynglŷn â'r mater hwn. Trafodaf ag ef a gofynnaf iddo ysgrifennu at yr Aelod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:09

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could we have a statement or a debate on how the Welsh Government could better protect Wales's archaeological legacies? Lovers of local history will be aware that, upstairs today, we have the Newport medieval ship supporters; that is well worth a visit. Its funding is going to run out, I think after 2016, and a lot of work has been done. That ship needs a permanent home. This comes in the wake of an event only last year in the town of Monmouth, where we saw the discovery of evidence of prehistoric boat building, which is now sadly under an attenuation lake for a housing estate. Surely, this should not be happening. Can we get our heads together and ensure that the Welsh Government gives these sorts of archaeological legacies in Wales the support that they deserve? They could be great tourist attractions and they are great educational implements as well. It just seems to me that we are not doing enough. Cadw is good at certain things; it is not very good at this. Please get a grip and let us have a debate on how we can improve things.

A gawn ni ddatganiad neu ddadl am sut y gallai Llywodraeth Cymru ddiogelu etifeddiaeth archeolegol Cymru'n well? Bydd y rhai sy'n ymddiddori mewn hanes lleol yn gwybod bod cefnogwyr llong ganoloesol Casnewydd gyda ni i'w fyny'r grisiau heddiw; mae'n werth ymweld â'r llong. Bydd ei chyllid yn dod i ben, rwyf yn meddwl, ar ôl 2016, ac mae llawer o waith wedi ei wneud. Mae angen cartref parhaol ar y llong. Daw hyn yn sgil digwyddiad y llynedd yn Nhrefynwy, lle darganfuwyd tystiolaeth o adeiladu cychod cynhanes, sydd bellach yn anffodus o dan lyn arafu stad o dai. Does bosibl na ddylai hyn fod yn digwydd. A allwn roi ein pennau at ei gilydd a sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n rhoi cefnogaeth haeddiannol i'r math hwn o etifeddiaeth archeolegol yng Nghymru? Gallent fod yn atyniadau gwych i dwristiaid ac maent yn gyfryngau addysgiadol gwych hefyd. Mae'n ymddangos i mi nad ydym yn gwneud digon. Mae Cadw'n gwneud rhai pethau'n dda; nid ydynt yn gwneud hyn yn dda iawn. Gadewch inni roi sylw i hyn a chael dadl am sut y gallwn wella pethau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that the Minister is very supportive of the issues that you raise and works very closely with Cadw. Tomorrow, your colleague William Graham is leading a short debate on the Newport mediaeval ship, to which the Minister for Culture and Sport is responding.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:11.

Gwn fod y Gweinidog yn gefnogol iawn i'r materion yr ydych yn eu codi ac yn cydweithio'n agos iawn â Cadw. Yfory, bydd eich cydweithiwr William Graham yn arwain dadl fer am long ganoloesol Casnewydd, a bydd y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn ymateb iddi.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:11.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Datganiad: Cynyddu'r Cyflenwad Tai**Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

This statement provides an update to Members on the action that I have taken to increase housing supply since my previous statement in July of last year. It also sets out further action that I intend to take over the coming months.

I have been clear since taking over the housing and regeneration portfolio that my priority is to increase the supply of much-needed homes—both affordable homes and market homes. There is an acute need for more homes across Wales. I recognise this shortage and am taking action across my portfolio. It is also clear to me from my work over the past 12 months that there is no magic bullet to increasing supply and that what is needed is a combination of actions.

Since my statement last July, I have launched the Help to Buy-Wales shared equity scheme. This £170 million initiative is supporting the construction and sale of 5,000 homes across Wales, providing a welcome boost to the economy by stimulating the building of new homes. To date, 87 developers have completed the initial stages of registration, with 60 of these now fully operational and offering Help to Buy-Wales schemes across their sites. Completions have taken place in Neath, Monmouthshire, Flintshire, Caerphilly, Gwynedd and Merthyr Tydfil, of which 62% were first-time buyers.

Help to Buy-Wales has also started to restore confidence in the market. Most importantly, it is supporting people who, through conventional means, have been struggling for years to get onto the property ladder.

I have a team of officials working specifically to improve the use of publicly owned land to support the building of new homes. During the past two years, this administration has delivered 907 affordable homes on public sector land. This was pleasing, but there is much more potential and I have asked for more work to be done.

Statement: Increasing the Housing Supply

Mae'r datganiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y camau yr wyf wedi'u cymryd i gynyddu'r cyflenwad tai ers fy natganiad diwethaf ym mis Gorffennaf y llynedd. Mae hefyd yn nodi camau pellach yr wyf yn bwriadu eu cymryd dros y misoedd nesaf.

Rwyf wedi bod yn glir ers cymryd awenau'r portffolio tai ac adfywio mai cynyddu cyflenwadau cartrefi y mae eu hangen yn ddifrifus yw fy mlaenoriaeth—yn gartrefi fforddiadwy ac yn gartrefi'r farchnad. Mae angen dybryd am fwy o gartrefi ledled Cymru. Rwyf yn cydnabod y prinder hwn ac yn cymryd camau ar draws fy mhorthffolio. Mae hefyd yn amlwg imi o'm gwaith dros y 12 mis diwethaf nad oes bwled hud i gynyddu'r cyflenwad a bod angen cymryd cyfuniad o gamau.

Ers fy natganiad fis Gorffennaf diwethaf, rwyf wedi lansio'r cynllun rhannu ecwiti Cymorth i Brynu-Cymru. Mae'r fenter hon sy'n werth £170 miliwn yn cynorthwyo i adeiladu a gwerthu 5,000 o gartrefi ledled Cymru, a fydd yn rhoi hwb i'r economi drwy ysgogi gwaith adeiladu cartrefi newydd. Hyd yma, mae 87 o ddatblygwyr wedi cwblhau camau cychwynnol y broses gofrestru, a 60 ohonynt bellach yn gwbl weithredol ac yn cynnig cynlluniau Cymorth i Brynu-Cymru ar draws eu safleoedd. Mae gwerthiannau wedi'u cwblhau yng Nghastell-nedd, Sir Fynwy, Sir y Flint, Caerffili, Gwynedd a Merthyr Tudful, ac roedd 62% ohonynt yn brynwyr tro cyntaf.

Mae Cymorth i Brynu-Cymru hefyd wedi dechrau adfer hyder yn y farchnad. Yn bwysicaf na dim, mae'n cynorthwyo pobl sydd, drwy ddulliau confensiynol, wedi bod yn brwydro ers blyneddau i gael troed ar yr ysgol eiddo.

Mae gennyf dim o swyddogion sy'n gweithio'n benodol i wella defnydd tir sy'n eiddo cyhoeddus i helpu i adeiladu cartrefi newydd. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r weinyddiaeth hon wedi darparu 907 o dai fforddiadwy ar dir y sector cyhoeddus. Roedd hyn yn galonogol, ond mae llawer mwy o botensial ac rwyf wedi gofyn i fwy o waith gael ei wneud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On planning, since July, I have taken action to simplify permitted development rights and published research on the planning application process for housing projects and the functioning of planning committees. I made a statement to Members on Part L of the building regulations on 21 January, and these changes will come into force on 31 July 2014. The review of technical advice note 22 on planning for sustainable buildings will be completed soon and I will be making a further announcement on this in due course.

In January, I announced funding for a series of innovative fire sprinkler installation projects within the social housing sector. These projects will form part of the phased introduction of fire sprinklers in all new homes, allowing the building industry to gain experience and skills that are needed to provide an opportunity for innovation and reducing the costs of installing sprinklers.

On delivery against our targets for new affordable homes and bringing empty homes back into use, in only two years of this administration, 4,474 affordable homes were delivered across Wales: 60% of the 7,500 target set by the Government for this term. During the same two years, 2,178 empty private sector dwellings have been returned to use through direct action by local authorities: 44% of the 5,000 target.

My housing supply taskforce reported to me in January with a series of recommendations. In response, I have four strands of work to be taken forward. These are embedding the recommendations on planning within the planning reform agenda, maximising the potential of publicly owned land, examining and testing how the social housing grant programme can deliver more and continuing the facilitation of innovation through both financial mechanisms and looking at different construction methods.

Rather than establishing a new homes delivery group, I have decided to appoint a housing supply adviser to work with home builders, owners of land, local authorities, housing associations and the Welsh Government in order to facilitate the building of good-quality homes. I will now discuss with interested parties the precise terms of reference and scope of this new role.

Presiding Officer, I have carefully considered the recommendation of the taskforce in relation to a revised target for affordable homes within this term of government. I have also been mindful of the impact of welfare reform and of reductions in the Welsh Government budget. However, I am therefore setting a revised target of 10,000 new affordable homes for this term of Government, including co-operative homes and homes built on publicly owned land. To support this increased target, I am putting in place a delivery compact between Welsh Government and Community Housing Cymru that will set out commitments from both parties.

O ran cynllunio, ers mis Gorffennaf, rwyf wedi cymryd camau i symleiddio hawliau datblygu a ganiateir ac wedi cyhoeddi ymchwil i'r broses ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau tai a gweithrediad pwyllgorau cynllunio. Gwneuthum ddatganiad i'r Aelodau am Ran L y rheoliadau adeiladu ar 21 Ionawr, a daw'r newidiadau hyn i rym ar 31 Gorffennaf 2014. Caiff yr adolygiad o nodyn cyngor technegol 22 ar gynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy ei gwblhau'n fuan a byddaf yn gwneud cyhoeddiad pellach am hyn maes o law.

Ym mis Ionawr, cyhoeddais gyllid i gyfres o brosiectau gosod systemau chwistrellu tân arloesol yn y sector tai cymdeithasol. Bydd y prosiectau hyn yn rhan o'r gwaith o gyflwyno systemau chwistrellu tân yn raddol ym mhob cartref newydd, a fydd yn caniatáu i'r diwydiant adeiladu ennill y profiad a sgiliau sydd eu hangen i hybu arloesi ac i leihau costau gosod systemau chwistrellu.

O ran cyflawni yn erbyn ein targedau ar gyfer cartrefi fforddiadwy newydd ac ailddechrau defnyddio cartrefi gwag, mewn dim ond dwy flynedd ers dechrau'r weinyddiaeth hon, cyflenwyd 4,474 o dai fforddiadwy ledled Cymru: 60% o'r targed o 7,500 a bennodd y Llywodraeth ar gyfer y tymor hwn. Yn ystod yr un dwy flynedd, mae 2,178 o anheddau gwag yn y sector preifat yn cael eu defnyddio eto drwy weithredu uniongyrchol gan awdurdodau lleol: 44% o'r targed o 5,000.

Rhoddodd fy nhasglu cyflenwadau tai adroddiad imi ym mis Ionawr a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion. Yn sgil hynny, mae gennyf bedair ffrwd o waith i'w datblygu, sef ymgorffori'r argymhellion cynllunio yn yr agenda diwygio cynllunio, gwneud y mwyaf o botensial tir sy'n eiddo cyhoeddus, archwilio a phrofi sut y gall y rhaglen grant tai cymdeithasol gyflawni mwy a pharhau i hwyluso arloesi drwy gyfrwng mecanweithiau ariannol a thrwy edrych ar wahanol ddulliau adeiladu.

Yn hytrach na sefydlu grŵp cyflenwi cartrefi newydd, rwyf wedi penderfynu penodi cynghorydd cyflenwadau tai i weithio gydag adeiladwyr cartrefi, perchnogion tir, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a Llywodraeth Cymru i hwyluso'r gwaith o adeiladu cartrefi o ansawdd da. Byddaf yn awr yn trafod union gylch gorchwyl a chwmpas y swyddogaeth newydd hon â phartion sydd â diddordeb.

Lywydd, rwyf wedi ystyried yn ofalus argymhelliad y tasglu o ran targed diwygiedig ar gyfer cartrefi fforddiadwy yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Rwyf hefyd wedi ystyried effaith diwygio lles a gostyngiadau yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rwyf felly'n pennu targed diwygiedig o 10,000 o gartrefi fforddiadwy newydd ar gyfer tymor y Llywodraeth hon, gan gynnwys cartrefi cydweithredol a chartrefi a adeiladwyd ar dir sy'n eiddo cyhoeddus. I helpu i gyrraedd y targed uwch hwn, rwyf yn sefydlu compact cyflawni rhwng Llywodraeth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru a fydd yn amlinellu ymrwymïadau'r naill a'r llall.

On market housing, I am giving further consideration to the recommendation of the taskforce that I have an expectation for private sector completions. The taskforce report also highlighted the crucial role that local authorities can play in building more homes. My officials are working with local authorities that plan to build homes once they become self-financing, which will be enabled by the housing Bill.

As the taskforce also noted, it is important that local planning authorities have the appropriate skills and knowledge to understand and assess viability of housing schemes. I am pleased to say that the Planning Officers Society for Wales has recently organised training on this issue, funded by Welsh Government.

I now want to mention very briefly further action on the increase of housing supply. In terms of planning, Members will be aware that I have carried out a consultation on the draft planning Bill and a 'Positive Planning' paper. The aim of the positive planning agenda is to streamline the planning system and to support the change of culture so that planning is an enabler of good-quality development in appropriate locations.

In February, I issued a new technical advice note 23 on economic development. This TAN emphasises the need to recognise the job creation opportunities associated with all development, including house building. I recognise that some of the issues addressed in the new TAN are technical in nature and intend to issue further good practice guidance later this year.

I have also instructed officials to commence a revision to TAN 1, the joint housing land availability studies, in order to ensure that housing land supply monitoring is undertaken as part of the general monitoring of local development plans. Failure to provide a five-year supply of developable housing land should trigger a review of part of, or even the whole, LDP. As part of a wider review of the system of use classes, I have asked my officials to develop an approach to permitted development rights that means rights granted are proportional to the impact caused by the development.

I launched the housing finance grant last September. This £130 million investment will deliver more than 1,000 new affordable homes for rent in the next two years. This funding mechanism is a first for Wales and is unique in a UK context.

I have also recently approved a number of innovative pilot projects to explore different methods of providing affordable homes. Subject to positive evaluation, including one on value for money, I will consider extending these approaches that will seek to make best use of both finance and land. My officials will continue to work with developers, housing associations, local authorities and financiers in order to bring forward innovative schemes to support affordable housing, as well as to increase the supply of good-quality private rented sector homes.

O ran tai'r farchnad, rwyf yn rhoi ystyriaeth bellach i argymhelliad y tasglu o ran fy nîsgwyliad ar gyfer cwblhau gwerthiannau yn y sector preifat. Roedd adroddiad y tasglu hefyd yn rhoi sylw i'r rhan allweddol y gall awdurdodau lleol ei chwarae o ran adeiladu mwy o gartrefi. Mae fy swyddogion yn cydweithio ag awdurdodau lleol sy'n bwriadu adeiladu cartrefi ar ôl iddynt ddod yn hunangyllidol; bydd y Bil tai'n galluogi hynny.

Fel y nododd y tasglu hefyd, mae'n bwysig bod gan awdurdodau cynllunio lleol y sgiliau a'r wybodaeth briodol i ddeall ac i asesu dichonoldeb cynlluniau tai. Mae'n dda gennyf ddweud bod Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru wedi trefnu hyfforddiant ar y mater hwn yn ddiweddar, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Yn awr, hoffwn sôn yn gyflym am y camau pellach a gymerwyd i gynyddu'r cyflenwad tai. O ran cynllunio, bydd yr Aelodau'n gwybod fy mod wedi cynnal ymgynghoriad ar y Bil cynllunio drafft a phapur 'Cynllunio Cadarnhaol'. Nod yr agenda cynllunio cadarnhaol yw symleiddio'r system gynllunio a hwyluso'r newid diwylliant fel bod y broses gynllunio'n galluogi datblygiadau o ansawdd da mewn lleoliadau priodol.

Ym mis Chwefror, cyhoeddais nodyn cyngor technegol newydd 23 ar ddatblygu economaidd. Mae'r nodyn TAN hwn yn pwysleisio'r angen i gydnabod y cyfleoedd i greu swyddi sy'n gysylltiedig â phob datblygiad, gan gynnwys adeiladu tai. Rwyf yn cydnabod bod rhai o'r materion yn y TAN newydd yn dechnegol eu natur ac rwyf yn bwriadu cyhoeddi rhagor o ganllawiau arfer da yn ddiweddarach eleni.

Rwyf hefyd wedi cyfarwyddo swyddogion i gychwyn diwygiad i TAN 1, yr astudiaethau ar y cyd o argaeledd tir ar gyfer tai, er mwyn sicrhau bod cyflenwad y tir ar gyfer tai yn cael ei fonitro fel rhan o waith monitro cyffredinol cynlluniau datblygu lleol. Dylai methiant i ddarparu cyflenwad pum mlynedd o dir y gellir ei ddatblygu ar gyfer tai sbarduno adolygiad o ran o'r cynllun datblygu lleol, neu hyd yn oed y cyfan ohono. Fel rhan o adolygiad ehangach o'r dosbarthiadau systemau defnydd, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddatblygu ymagwedd at hawliau datblygu a ganiateir sy'n golygu bod yr hawliau a roddir yn gymesur â'r effaith a gaiff y datblygiad.

Lansiais y grant cyllid tai fis Medi diwethaf. Bydd y buddsoddiad £130 miliwn hwn yn darparu dros 1,000 o gartrefi fforddiadwy newydd i'w rhentu yn y ddwy flynedd nesaf. Y dull ariannu hwn yw'r cyntaf o'i fath yng Nghymru ac mae'n unigryw yng nghyd-destun y DU.

Rwyf hefyd yn ddiweddar wedi cymeradwyo nifer o brosiectau peilot arloesol i archwilio gwahanol ddulliau o ddarparu tai fforddiadwy. Yn amodol ar werthusiad cadarnhaol, gan gynnwys un ar werth am arian, byddaf yn ystyried ymestyn y dulliau hyn a fydd yn ceisio defnyddio cyllid a thir yn y ffordd orau bosibl. Bydd fy swyddogion yn parhau i gydweithio â datblygwyr, cymdeithasau tai, awdurdodau lleol ac arianwyr i gyflwyno cynlluniau arloesol i gefnogi tai fforddiadwy, a hefyd i gynyddu cyflenwadau cartrefi o ansawdd da yn y sector rhentu preifat.

The housing supply taskforce report included a number of recommendations around collaboration and co-operation. Presiding Officer, these are vital in order to achieve our aims and are central to my approach.

I have taken action to ensure work across my entire portfolio supports the delivery of more housing. My planning reform agenda will have a positive effect on housing supply, as will my new £100 million Vibrant and Viable Places regeneration programme. We have also secured £5 million additional funding in 2014-15 for a pilot town centre property fund, which will focus on regenerating town centres and increasing housing supply.

Presiding Officer, I appreciate that this is a lengthy statement. However, I do not apologise for this in terms of the content. It reflects the priority that I am giving to increasing housing supply and the need for actions on a number of fronts. Thank you.

Roedd adroddiad y tasglu cyflenwadau tai'n cynnwys nifer o argymhellion ynghylch cydweithio a chydweithrediad. Lywydd, mae'r rhain yn allweddol er mwyn cyflawni ein nodau ac yn ganolog i'm hymagwedd.

Rwyf wedi cymryd camau i sicrhau bod gwaith ar draws fy mhortffolio cyfan yn helpu i ddarparu mwy o dai. Bydd fy agenda diwygio cynllunio'n cael effaith gadarnhaol ar gyflenwadau tai, yn ogystal â'm rhaglen adfywio newydd gwerth £100 miliwn, Lleoedd Llewyrchus Llawm Addewid. Rydym hefyd wedi sicrhau £5 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2014-15 ar gyfer cronfa beilot eiddo yng nghanol trefi, a fydd yn canolbwyntio ar adfywio canol trefi a chynyddu cyflenwadau tai.

Lywydd, gwn fod hwn yn ddatganiad hir. Fodd bynnag, nid wyf yn ymddiheuro am hynny o ran y cynnwys. Mae'n adlewyrchu'r flaenoriaeth yr wyf yn ei rhoi i gynyddu'r cyflenwad tai a'r angen i weithredu mewn nifer o feysydd. Diolch.

15:19

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome this statement as somebody who has spent 21 years working in housing finance for a mutual building society, helping home owners, low-cost-home owners and social tenants to have the housing that they needed. I also sat for 12 years on the board of a housing association that provided social housing. Contrary to the Minister's statement the last time that we debated this, I never made my living from the building industry, except during one summer as a building labourer when I was a student and had a summer job.

You refer to Help to Buy, the low-cost home ownership scheme. We are aware that this is being delivered because of UK Government ring-fencing of the capital investment, which I understand has to be repayable. What would be the mechanism and timescale for the repayment involved with that?

You refer to a new homes delivery group and a housing supply adviser working with various sector organisations. Will that include co-design and co-delivery, or, simply, a consultative role with the design and delivery of policies still monopolised at the centre?

I welcome your increased affordable housing target. Will that include intermediate rent, because, as you know, a number of your schemes, such as the Welsh housing partnership, are intermediate rent schemes? Also, will it include any element of the private rented sector, given the housing Bill's proposals to discharge part of the homelessness duty into the private rented sector?

You refer to your officials working with local authorities on plans to build homes. I know from my own dialogue with local authorities that that will include partnerships with social landlords. What role are you taking to ensure that local authorities maximise the outcome through those partnerships, rather than simply developing them themselves?

Rwyf yn croesawu'r datganiad hwn fel rhywun sydd wedi treulio 21 mlynedd yn gweithio ym maes cyllid tai i gymdeithas adeiladu gydfuddiannol, yn helpu perchnogion tai, perchnogion cartrefi isel eu cost a thenantiaid cymdeithasol i gael y tai yr oedd eu hangen arnynt. Bûm hefyd am 12 mlynedd ar fwrdd cymdeithas dai a oedd yn darparu tai cymdeithasol. Yn groes i ddatganiad y Gweinidog y tro diwethaf inni drafod hyn, ni fûm erioed yn gwneud fy mywoliaeth o'r diwydiant adeiladu, ac eithrio imi weithio yn ystod un haf fel labrwr adeiladu pan oeddwn yn fyfyrwr ac wedi cael swydd haf.

Rydych yn cyfeirio at Cymorth i Brynu, y cynllun perchentyaeth cost isel. Rydym yn gwybod bod hyn yn cael ei ddarparu oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi neilltuo'r buddsoddiad cyfalaf; rwyf ar ddeall bod yn rhaid iddo fod yn ad-daladwy. Beth fyddai mecanwaith ac amserlen yr ad-daliad hwnnw?

Rydych yn cyfeirio at grŵp cyflenwi cartrefi newydd a chynghorydd cyflenwadau tai yn gweithio gyda gwahanol sefydliadau yn y sector. A fydd hynny'n cynnwys cynllunio a darparu ar y cyd, ynteu swyddogaeth ymgynghorol yn unig lle bydd dylunio a chyflwyno polisiau'n dal i fod wedi'u monopolieiddio yn y canol?

Rwyf yn croesawu eich targed uwch ar gyfer tai fforddiadwy. A fydd yn cynnwys rhent canolradd, oherwydd, fel y gwyddoch, mae nifer o'ch cynlluniau, megis partneriaeth tai Cymru, yn gynlluniau rhent canolradd? Hefyd, a fydd yn cynnwys unrhyw elfen o'r sector rhentu preifat, ac ystyried cynigion y Bil tai i gyflawni rhan o'r ddyletswydd digartrefedd drwy'r sector rhentu preifat?

Rydych yn cyfeirio at y cydweithio rhwng eich swyddogion ac awdurdodau lleol ar gynlluniau i adeiladu cartrefi. Gwn o drafod ag awdurdodau lleol y bydd hynny'n cynnwys partneriaethau â landlordiaid cymdeithasol. Pa ran ydych chi'n ei chwarae i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud y gorau o'r canlyniad drwy'r partneriaethau hynny, yn hytrach na'u datblygu eu hunain?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You referred to the housing finance grant. It is a welcome initiative, developing from the original housing bond proposals many years ago. Do you recognise that that is not something that can be repeated too often, because of the impact on gearing on housing association balance sheets?

Beyond this, I only have questions that the sector has asked me to ask you. The sector welcomes the housing supply taskforce, but recognises that housing standards are being promoted to the detriment of housing supply and asks, as part of a Government impact assessment, whether the Minister will undertake to scrutinise the cost to the private sector and not just to the public purse to ensure an effective assessment of policy impact occurs.

The sector supports the creation of a public sector land register, but asks whether the Minister will commit to providing funds for a cost-benefit analysis once the public land register is completed so that the public benefit of public land provided as an undervalue can be validated.

The sector notes that the issue of rural housing supply was completely absent from the housing supply taskforce report and asks how the Minister responds to the proposal that cross-subsidy from new open-market housing should be allowed in rural areas, so that more rural affordable housing can be generated, as is happening in other parts of the UK. The sector also notes that the report makes no mention of technical advice note 6, which concerns agricultural housing, particularly on rural-exception sites. The sector wonders how the Minister will ensure that TAN 6 is reflected in his actions.

It asks whether the Minister will undertake to produce clean-up figure projections based on historic costs for the brownfield sites, once a public sector land register has been completed. On open-market housing, it notes that nowhere in the report is there an assessment of the capacity in the private sector house building industry and asks whether the Minister requested an assessment of such open-market capacity from the report. Has the Minister signed off the report despite this, or will he pursue this further? Will he undertake to assess the capacity for housing delivery through system- built housing in Wales?

Finally, I have specific questions from house builders. I am quoting exactly here. They say:

'In fairness, there's a lot of good stuff being said by various parties in Welsh Government, but the real problem is that when it comes to the delivering of housing no-one in the public sector really seems to get the message or be bothered whether schemes go ahead or not. Wales seems to have a very no-can-do attitude when it comes to getting us building, as the various statistics show, compared to the rest of the UK.'

Cyfeiriasoch at y grant cyllid tai. Mae'n fenter i'w chroesawu, sydd wedi datblygu o'r cynigion bondiau tai gwreiddiol flynyddoedd lawer yn ôl. A ydych yn cydnabod nad yw hynny'n rhywbeth y gellir ei ailadrodd yn rhy aml, oherwydd yr effaith ar gerio ar fantolenni cymdeithasau tai?

Y tu hwnt i hyn, dim ond cwestiynau y mae'r sector wedi gofyn imi eu gofyn ichi sydd gennyf. Mae'r sector yn croesawu'r tasglu cyflenwadau tai, ond yn cydnabod bod safonau tai'n cael eu hyrwyddo ar draul cyflenwadau tai ac yn gofyn, fel rhan o asesiad effaith y Llywodraeth, a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i graffu ar y gost i'r sector preifat, ac nid dim ond i'r pwrs cyhoeddus, er mwyn sicrhau asesiad effeithiol o effaith y polisi.

Mae'r sector o blaid creu cofrestr tir sector cyhoeddus, ond yn gofyn a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i ddarparu arian i ddadansoddi cost a budd cyn gynted ag y bydd y gofrestr tir cyhoeddus wedi'i chwblhau er mwyn gallu dilysu budd cyhoeddus tir cyhoeddus a ddarperir am bris llai na'i werth.

Mae'r sector yn nodi bod cyflenwadau tai gwledig yn fater a oedd yn gwbl absennol o adroddiad y tasglu cyflenwadau tai ac yn gofyn sut y mae'r Gweinidog yn ymateb i'r cynnig y dyldid caniatáu croes-gymhorthdal o dai newydd y farchnad agored mewn ardaloedd gwledig, er mwyn gallu creu mwy o dai fforddiadwy gwledig, fel sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r sector hefyd yn nodi nad yw'r adroddiad yn sôn o gwbl am nodyn cyngor technegol 6, sy'n ymwneud â thai amaethyddol, yn enwedig ar safleoedd eithriedig gwledig. Mae'r sector yn holi tybed sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod ei weithredoedd yn adlewyrchu TAN 6.

Mae'n gofyn a wnaiff y Gweinidog ymrwymo i gynhyrchu amcanestyniadau o'r ffigurau glanhau yn seiliedig ar gostau hanesyddol i'r safleoedd tir llwyd, cyn gynted ag y bydd cofrestr tir y sector cyhoeddus wedi'i chwblhau. O ran tai'r farchnad agored, mae'n nodi nad oes asesiad o allu yn y diwydiant adeiladu tai sector preifat yn unman yn yr adroddiad, ac yn gofyn a ofynnodd y Gweinidog am asesiad o allu'r farchnad agored yn yr adroddiad. A yw'r Gweinidog wedi cymeradwyo'r adroddiad er gwaethaf hyn, ynteu a aiff ar drywydd hyn ymhellach? A wnaiff ymrwymo i asesu'r gallu i gyflenwi tai drwy gyfrwng tai a adeilidir yn unol â system yng Nghymru?

Yn olaf, mae gennyf gwestiynau penodol gan adeiladwyr tai. Rwyf yn dyfynnu'n uniongyrchol yma. Maent yn dweud:

A bod yn deg, mae llawer o bethau da'n cael eu dweud gan wahanol bleidiau yn Llywodraeth Cymru, ond y broblem go iawn yw, pan ddaw'n fater o gyflenwi tai, nad yw'n ymddangos bod neb yn y sector cyhoeddus mewn gwirionedd yn deall y neges nac yn malio a fydd cynlluniau'n bwrw ymlaen ai peidio. Ymddengys bod gan Gymru agwedd methu-gwneud-dim o ran dechrau gwaith adeiladu, fel y mae'r gwahanol ystadegau'n ei ddangos, o'i chymharu â gweddill y DU.

That is a direct quote from them. It is a problem, Minister, that you have to deal with. You have told us many times that you are in dialogue with them, but that only came yesterday. How will you address that?

Mae hwnnw'n ddyfyniad uniongyrchol ganddynt. Mae'n broblem, Weinidog, y mae'n rhaid i chi ymdrin â hi. Rydych wedi dweud wrthym sawl gwaith eich bod yn cael deialog gyda hwy, ond dim ond ddoe y daeth hynny. Sut ydych chi'n mynd i roi sylw i hynny?

15:24

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the Member's contribution. I will start with reference to his expression very early in his contribution when he said that he welcomed the statement. I am pleased to start off on that very positive note.

With regard to his queries through his contribution, on the Help to Buy repayment process we are still in discussion with the Treasury, but the process is likely to be 20 or 25 years of repayment, which is still to be finalised in detail, although the scheme is up and running and both sides of the M4 are quite content with the way that the process is operating. I will inform Members with more detail when we have that from the Treasury with regard to that process.

On the point about the adviser that the Member raises, as I mentioned in my statement, I believe that this is what the sector has been calling for in terms of someone to give ministerial support and advice around the process of all areas within the housing sector, both private and public. I want to consider the scope and remit of that advisor with the sector, rather than me dictating what their scope should be; it is about partnership in terms of what would be advantageous to the whole process of having an adviser.

The Member referred to increasing the threshold from 7,500 to 10,000, which, again, I am pleased that the Member welcomes. That is based upon the number of affordable homes, including co-operative homes and homes built on public land.

On the point about the review of standards that the Member raises on behalf of the industry, I am looking carefully at what the standards are in the public and private sectors in terms of what we are trying to achieve here. I have a review ongoing in terms of design quality standards, but I must say that I am disappointed that the building companies in the private sector have not engaged very well in terms of bringing information to the table about the effects of standards on the private sector. So, I would welcome more dialogue with the companies in informing the study that is ongoing.

You mentioned issues around the public land register, and I think that I was right in hearing you asking for funding in order to pursue this in more detail. I am always interested to hear what is meant by 'additional funding'. I think that I know what it means, but there is less money to go around and therefore we have to be careful about what 'additional funding' would mean in taking that forward. As I have said in previous statements and today, I welcome dialogue with the industry to see what difference we can make together in terms of housing supply and need.

Rwyf yn ddiolchgar am gyfraniad yr Aelod. Rwyf am ddechrau drwy gyfeirio at yr hyn a ddywedodd yn gynnar iawn yn ei gyfraniad, sef ei fod yn croesawu'r datganiad. Rwyf yn falch o ddechrau ar y nodyn cadarnhaol iawn hwnnw.

Ynglŷn â'i ymholiadau drwy ei gyfraniad, rydym yn dal i drafod proses ad-dalu Cymorth i Brynu â'r Trysorlys, ond mae'r broses yn debygol o fod yn 20 neu 25 mlynedd o ad-dalu, er nad yw'r manylion wedi'u cadarnhau, ond mae'r cynllun wedi dechrau ac mae dwy ochr yr M4 yn eithaf bodlon ar y ffordd y mae'r broses yn gweithredu. Rhoddaf fwy o fanylion i'r Aelodau am y broses honno pan gawn hwy gan y Trysorlys.

O ran y pwynt am y cynghorydd a gododd yr Aelod, fel y dywedais yn fy natganiad, rwyf yn credu mai dyma'r hyn y mae'r sector wedi bod yn galw amdano o ran rhywun i roi cymorth a chynghor gweinidogol i brosesau ym mhob maes yn y sectorau tai preifat a chyhoeddus. Hoffwn ystyried cwmpas a chylch gwaith y cynghorydd hwnnw gyda'r sector, yn hytrach na fy mod i'n pennu beth ddylai'r cwmpas fod; mae'n fater o weithio mewn partneriaeth i ganfod sut y byddai cael cynghorydd o fudd i'r holl broses.

Cyfeiriodd yr Aelod at godi'r trothwy o 7,500 i 10,000, sydd, unwaith eto, yn rhywbeth yr wyf yn falch bod yr Aelod yn ei groesawu. Mae hynny'n seiliedig ar nifer y tai fforddiadwy, gan gynnwys cartrefi cydweithredol a chartrefi a adeilidir ar dir cyhoeddus.

O ran y pwynt am yr adolygiad o safonau a gododd yr Aelod ar ran y diwydiant, rwyf yn edrych yn ofalus ar beth yw'r safonau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat o ran yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni yma. Mae gennyf adolygiad ar y gweill o ran safonau ansawdd dylunio, ond rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig nad yw'r cwmnïau adeiladu yn y sector preifat wedi ymgysylltu'n dda iawn o ran cyflwyno gwybodaeth am effeithiau safonau ar y sector preifat. Felly, byddwn yn croesawu rhagor o ddeialog â'r cwmnïau i lywio'r astudiaeth sydd ar waith.

Soniasoch am faterion yn ymwneud â'r gofrestr tir cyhoeddus, ac rwyf yn meddwl fy mod wedi eich clywed yn gofyn am arian i fynd i'r afael â hyn yn fwy manwl. Mae gennyf bob amser ddiddordeb clywed beth yw ystyr 'arian ychwanegol'. Rwyf yn meddwl fy mod yn gwybod beth y mae'n ei olygu, ond mae llai o arian i fynd o gwmpas ac felly rhaid inni fod yn ofalus am yr hyn y byddai 'arian ychwanegol' yn ei olygu wrth fwrw ymlaen â hynny. Fel yr wyf wedi'i ddweud mewn datganiadau blaenorol a heddiw, rwyf yn croesawu deialog â'r diwydiant i weld pa wahaniaeth y gallwn ei wneud gyda'n gilydd o ran cyflenwadau tai a'r angen amdanynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I purposefully mentioned many schemes within the Help to Buy programme, which has already seen success, including rural schemes, which are succeeding because of the new Help to Buy. So, I do not accept that we are doing little in terms of rural housing schemes, although I do accept that there is more to do. I believe that there is an urban and rural solution to move forward, but I do not accept that we are not doing enough in terms of tackling issues regarding rural homes.

In your final point, you made reference to a letter that you received from a house builder yesterday. I would be really interested if that house builder would engage with me, because I have conversations with many house builders, the Home Builders Federation and smaller builders when I do my visits in and around Wales, and no-one has raised that issue directly with me. I made the offer last time, Mark, that I would be more than happy to engage with the person who keeps writing to you to ask you questions about what we are doing. I would welcome them to my office at any time, if they would like to drop me a line. Please ask them to engage with us, so that we can address some of the issues that are perceived by this individual, who I do not recognise in terms of their comments in a public forum, apart from when he raises it through you. So, the offer stands, and if the person that writes to you prolifically would like to write to me with the issues, I would be more than happy to engage.

Soniais yn fwriadol am lawer o gynlluniau o fewn y rhaglen Cymorth i Brynu, sydd eisoes wedi gweld llwyddiant, gan gynnwys cynlluniau gwledig, sy'n llwyddo oherwydd y rhaglen Cymorth i Brynu newydd. Felly, nid wyf yn derbyn nad ydym yn gwneud rhyw lawer o ran cynlluniau tai gwledig, er fy mod yn derbyn bod mwy i'w wneud. Rwyf o'r farn bod ateb trefol a gwledig i symud ymlaen, ond nid wyf yn derbyn nad ydym yn gwneud digon i ddatrys materion yn ymwneud â chartrefi gwledig.

Yn eich pwynt olaf, cyfeiriasoch at lythyr a gawsoch gan adeiladwr tai ddoe. Byddai'n dda iawn gennyf pe bai'r adeiladwr tai dan sylw'n ymgysylltu â mi, oherwydd rwyf yn cael sgysiau â llawer o adeiladwyr tai, y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi ac adeiladwyr llai wrth fynd ar ymweliadau yng Nghymru ac o gwmpas Cymru, ac nid oes neb wedi codi'r mater hwnnw'n uniongyrchol â mi. Cynigiais y tro diwethaf, Mark, y byddwn yn fwy na pharod i gysylltu â'r unigolyn sy'n ysgrifennu atoch o hyd i ofyn cwestiynau i chi am yr hyn yr ydym yn ei wneud. Byddwn yn eu croesawu i'm swyddfa unrhyw bryd, os hoffent siarad â mi. Gofynnwch iddynt ymgysylltu â ni, fel y gallwn roi sylw i rai o'r materion y mae'r unigolyn hwn yn eu teimlo; nid wyf yn ei adnabod o ran ei sylwadau mewn fforwm cyhoeddus, ar wahân i'r rhai a ddaw drwoch chi. Felly, mae'r cynnig yno, ac os hoffai'r unigolyn sy'n ysgrifennu atoch mor doreithiog ysgrifennu ataf fi am y materion hyn, byddwn yn fwy na pharod i ymgysylltu.

15:29

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his statement. I think that the Minister will acknowledge that Wales is the only UK nation seeing a decline in new build, although we need to be cautious and guard against re-inflating the house price bubble, as is feared in many areas of England. I would like to know what the Minister intends to do to prevent that.

However, I am sure that the Minister would agree that the supply of affordable homes is the thing that we must concern ourselves with at the moment. On Help to Buy, will the Minister explain why Help to Buy is limited to new builds, because many first-time buyers would favour purchasing within the existing stock rather than new build? Perhaps you would explain whether the eligibility for those entering the scheme is restricted to people living locally or with local connections or even people living within Wales. You mention in your statement that this is a £170 million initiative. Would you tell us how much of that £170 million is Welsh Assembly Government resources? Of course, it is a shared equity scheme, so perhaps you would explain who shares in the equity of the property.

In your statement, you mentioned that 62% in the areas where completions have taken place were first-time buyers. Therefore, does that mean that 38% already owned their own property? If someone uses Help to Buy in order to move up the ladder, do they then dispose of their old property at an affordable price?

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Credaf y bydd y Gweinidog yn cydnabod mai Cymru yw'r unig genedl yn y DU sy'n gweld dirywiad mewn adeiladu o'r newydd, er bod angen inni fod yn ofalus a diogelu rhag ailchwyddo'r swigen prisiau tai, fel yr ofnir mewn llawer o ardaloedd yn Lloegr. Hoffwn gael gwybod beth y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei wneud i atal hynny rhag digwydd.

Fodd bynnag, rwyf yn siŵr y byddai'r Gweinidog yn cytuno mai cyflenwi tai fforddiadwy yw'r peth pwysicaf inni ar hyn o bryd. O ran Cymorth i Brynu, a wnaiff y Gweinidog egluro pam y mae Cymorth i Brynu wedi'i gyfyngu i adeiladu o'r newydd? Byddai'n well gan lawer o brynwyr tro cyntaf brynu oddi mewn i'r stoc bresennol yn hytrach nag adeiladu o'r newydd. Efallai y gallech esbonio a yw cymhwyster i ymuno â'r cynllun wedi'i gyfyngu i bobl sy'n byw'n lleol neu sydd â chysylltiadau lleol neu hyd yn oed i bobl sy'n byw yng Nghymru. Rydych yn sôn yn eich datganiad fod hon yn fenter gwerth £170 miliwn. A wnewch chi ddweud wrthym faint o'r £170 miliwn sy'n adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru? Wrth gwrs, mae'n gynllun rhannu ecwiti, felly efallai y gallech egluro pwy sy'n rhannu ecwiti'r eiddo.

Yn eich datganiad, dywedasoch fod 62% yn yr ardaloedd lle mae gwerthiannau wedi'u cwblhau yn brynwyr tro cyntaf. Felly, a yw hynny'n golygu bod 38% eisoes yn berchen ar eu heiddo eu hunain? Os yw rhywun yn defnyddio Cymorth i Brynu i symud i fyny'r ysgol, a ydynt yn cael gwared ar eu hen eiddo am bris fforddiadwy?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I wonder whether the Minister would let us know whether he is under any pressure at all from developers to pull back on the current regulations in order to reduce the cost of building. In relation to the figures that you have mentioned, Minister, I welcome very much the good news that more affordable homes are available, and congratulate you on those figures, and, of course, on increasing the target. I think that that is really good news, especially in partnership with Community Housing Cymru, which I am sure you would want to acknowledge is a willing and effective partner in this.

In your statement, you mentioned the social housing grant. I wonder whether you would tell us whether the social housing grant will be available to local authorities now that business plans are affordable, because it may be one way of stretching that grant further in order to produce more homes.

On planning, do you think that you could clear up the confusion that we often hear about, which is about exactly who sets the planning targets for new homes? Is it the Welsh Assembly Government or is it the local planning authorities, and do you envisage this aspect being undertaken on a regional basis in the future?

In your statement, you say that the failure to provide a five-year supply of affordable developable land will trigger a review of part of, or even the whole of, the LDP. Do you think that you could expand on that and tell us exactly what a review is? Does the previous Government policy on a presumption in favour of housing where a five-year land supply has not been identified still stand?

On the innovation in funding, are you doing anything in terms of a bond for housing in Wales? You also mentioned welfare reform, and the impact of welfare reform. Are you putting together the economic case against the bedroom tax, so that the UK Government may be persuaded that it is not in the benefit of the public purse to pursue it?

Tybed a wnaiff y Gweinidog roi gwybod inni a yw o dan unrhyw bwysau o gwbl gan ddatblygwyr i dynnu'n ôl ar y rheoliadau presennol er mwyn lleihau costau adeiladu. O ran y ffigurau yr ydych wedi sôn amdanynt, Weinidog, rwyf yn croesawu'n fawr y newyddion da fod mwy o dai fforddiadwy ar gael, ac yn eich llongyfarch ar y ffigurau hynny, ac, wrth gwrs, ar gynyddu'r targed. Rwyf yn meddwl bod hynny'n newyddion da iawn, yn enwedig mewn partneriaeth â Chartrefi Cymunedol Cymru; rwyf yn siŵr y byddwch am gydnabod eu bod yn bartner parod ac effeithiol yn hyn.

Yn eich datganiad, soniasoch am y grant tai cymdeithasol. Tybed a wnewch chi ddweud wrthym a fydd y grant tai cymdeithasol ar gael i awdurdodau lleol yn awr bod cynlluniau busnes yn fforddiadwy, oherwydd gallai fod yn un ffordd o ymestyn y grant hwnnw ymhellach i greu mwy o gartrefi.

O ran cynllunio, a ydych yn meddwl y gallech ddatrys y dryswch yr ydym yn aml yn clywed amdano, ynglŷn â phwy'n union sy'n pennu'r targedau cynllunio ar gyfer cartrefi newydd? Ai Llywodraeth Cynulliad Cymru ynteu'r awdurdodau cynllunio lleol sy'n gwneud hynny, ac a ydych yn rhagweld y gwneir hynny ar sail ranbarthol yn y dyfodol?

Yn eich datganiad, rydych yn dweud y bydd y methiant i ddarparu cyflenwad pum mlynedd o dir fforddiadwy y gellir ei ddatblygu'n sbarduno adolygiad o ran o'r cynllun datblygu lleol, neu hyd yn oed y cyfan ohono. A ydych yn meddwl y gallech ymhelaethu ar hynny a dweud wrthym beth yn union yw adolygiad? A yw polisi blaenorol y Llywodraeth ar ragdybiaeth o blaid tai lle nad yw cyflenwad tir pum mlynedd wedi ei nodi yn dal i sefyll?

Ynglŷn ag arloesi o ran cyllid, a ydych yn gwneud rhywbeth o ran bond ar gyfer tai yng Nghymru? Soniasoch hefyd am ddiwygio lles, ac am effaith diwygio lles. A ydych yn ffurfio'r achos economaidd yn erbyn y dreth ystafell wely, er mwyn gallu perswadio Llywodraeth y DU nad yw er budd y pwrs cyhoeddus i barhau â hi?

15:33

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. There was a long list of questions there, and if I fail to—[Interruption.]

Diolch. Roedd rhestr hir o gwestiynau yno, ac os methaf— [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:33

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I am sure that the Minister will answer as many points as he possibly can, and he will write to you on others.

Trefn. Rwyf yn siŵr y gwnaiff y Gweinidog ateb cynifer o bwyntiau ag y gall, a bydd yn ysgrifennu atoch ynglŷn â'r lleill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:33

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If I fail to respond to them at this moment, I will write to the Member with the further detail, in order to respond to all the questions that she raised with me today.

Os na allaf ymateb iddynt ar hyn o bryd, ysgrifennaf at yr Aelod â manylion pellach, er mwyn ymateb i'r holl gwestiynau a ofynnodd imi heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that there are a couple of fundamental points that we can group together there. I think that what we are trying to do is to not only establish the housing supply market, but actually create economic growth as well, and confidence in the market is all. You mention the issue around homes being built in Wales; what we are seeing is that there is more confidence in the market and that there is a growth in the sector—affordable housing being key to that. That is part of my increased target of 10,000, and that is why I am grateful that the Member welcomes that.

However, it is a bizarre situation, because we are criticised in Wales when the increase in house prices is lower in Wales than it is anywhere else in the UK. Well, surely that is a good thing, actually. If it was a loaf of bread, we would be complaining if the price was higher in Wales than anywhere else in the UK, but we do not in housing terms. So I find it a bizarre statement, actually, in terms of the general narrative about what the housing condition is in a UK context. I know that the Member did not raise that issue, but what I am saying is that we have to look at how we pursue the market with confidence and not overheat the market, particularly in Wales. I think that, at the moment, we are in a relatively good place.

The Member raised many questions on the Help to Buy scheme and, in terms of the specifics, I will write to the Member on those with further detail. She mentioned the issue around access to market regarding new homes only. As I said in my previous response, this is not only about a financial pathway for individuals to gain access to market homes, but also about access to growth in the economy of Wales. The build of new homes means a huge increase in terms of skills and economic growth value for the whole of Wales. So, it is specifically designed for new build. The Member mentioned 38% of individuals not being first-time buyers. Yes, a number of them were previous owners of properties and have now accessed new build, again to move on. I do not have the detail now as to whether they disposed of their property at what was perceived to be an affordable rate, but, again, if I have that detail, I will share it with the Member.

The Member asked whether I was under any pressure from the market to reduce the cost of building. Of course I am; there is always a call for looking at regulation and other elements around reducing costs. I share the view that we should be building properties at best value, and, as I said in response to an earlier comment by a Member around standards and exactly what we are chasing in terms of that, a review process is important to make sure that we get best value for our money in terms of our investment, whether that be through the social housing grant or otherwise. On the social housing grant and whether local authorities are currently able to access that, no, they are not, but I am looking, through the innovation and finance programme, to see whether that would be beneficial to get more stretch in terms of the cash opportunities in building. It is not something that I am opposed to, but I will only do that if there is market benefit in doing so.

Rwyf yn credu bod un neu ddau o bwyntiau sylfaenol y gallwn eu grwpio gyda'i gilydd yno. Rwyf yn meddwl ein bod, yn ogystal â cheisio sefydlu'r farchnad cyflenwad tai, yn ceisio creu twf economaidd hefyd, ac mae hyder yn y farchnad yn hollbwysig. Rydych yn sôn am adeiladu cartrefi yng Nghymru; yr hyn yr ydym yn ei weld yw bod mwy o hyder yn y farchnad a bod twf yn y sector—mae tai fforddiadwy'n allweddol i hynny. Mae hynny'n rhan o'm targed uwch o 10,000, a dyna pam yr wyf yn ddolchgar bod yr Aelod yn croesawu hynny.

Fodd bynnag, mae'n sefyllfa ryfedd, oherwydd rydym yn cael ein beirniadu yng Nghymru pan fo'r cynnydd mewn prisiau tai'n is yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU. Wel, onid yw hynny'n beth da, mewn gwirionedd? Pe bai'n dorth o fara, byddem yn cwyno pe bai'r pris yn uwch yng Nghymru nag yn unman arall yn y DU, ond nid ydym yn gwneud hynny o ran tai. Felly, yn fy marn i mae'n ddatganiad rhyfedd, mewn gwirionedd, o ran y naratif cyffredinol ynghylch sefyllfa tai yng nghyd-destun y DU. Gwn nad yr Aelod a gododd y mater hwnnw, ond yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw bod yn rhaid inni edrych ar sut yr ydym yn ymdrin â'r farchnad yn hyderus heb ei gorboethi, yn enwedig yng Nghymru. Credaf, ar hyn o bryd, ein bod mewn sefyllfa gymharol dda.

Cododd yr Aelod nifer o gwestiynau am y cynllun Cymorth i Brynu ac, o ran y manylion, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod amdanynt â rhagor o fanylion. Soniodd am fynediad at y farchnad o ran cartrefi newydd yn unig. Fel y dywedais yn fy ateb blaenorol, nid dim ond mater o lwybr ariannol i unigolion i allu prynu cartrefi'r farchnad yw hwn; mae hefyd yn fater o gyfleoedd i sicrhau twf i economi Cymru. Mae adeiladu cartrefi newydd yn golygu cynnydd enfawr o ran sgiliau a gwerth twf economaidd i Gymru gyfan. Felly, mae wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer adeiladu o'r newydd. Soniodd yr Aelod am y 38% o unigolion nad ydynt yn brynwyr tro cyntaf. Oes, mae nifer ohonynt wedi bod yn berchen eiddo o'r blaen ac yn awr wedi cael tai a adeiladwyd o'r newydd, eto er mwyn symud ymlaen. Nid yw'r manylion gennyf yn awr ynghylch a gawsant wared ar eu heiddo am bris yr ystyrid ei fod yn fforddiadwy, ond, unwaith eto, os caf y manylion hynny, byddaf yn eu rhannu â'r Aelod.

Gofynnodd yr Aelod a oeddwn o dan unrhyw bwysau gan y farchnad i leihau costau adeiladu. Wrth gwrs fy mod; mae galw bob amser am edrych ar reoleiddio ac elfennau eraill ynghylch lleihau costau. Rwyf yn rhannu'r farn y dylem fod yn adeiladu eiddo am y gwerth gorau, ac, fel y dywedais wrth ateb sylw cynharach gan Aelod ynglŷn â safonau a beth yn union yr ydym yn chwilio amdano yn hynny o beth, mae proses adolygu'n bwysig er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael y gwerth gorau am ein harian yn ein buddsoddiad, boed hynny drwy'r grant tai cymdeithasol neu fel arall. O ran y grant tai cymdeithasol ac a yw hwnnw ar gael i awdurdodau lleol ar hyn o bryd, nac ydyw, nid yw ar gael iddynt, ond rwyf yn ceisio gweld, drwy'r rhaglen arloesi a chyllid, a fyddai hynny o fudd er mwyn gallu estyn mwy o ran cyfleoedd arian parod ym maes adeiladu. Nid yw'n rhywbeth yr wyf yn ei wrthwynebu, ond ni wnaf hynny oni bai fod budd i'r farchnad o wneud hynny.

The Member mentioned issues around planning. It is up to the local authority to develop its LDP and we will have a view on that. It is not a function of the Welsh Government; it is clearly a function of the 25 planning authorities that we currently have in Wales. The Member referred to the issue of land use and the five-year land supply. I have concern where the LDP process presents a plan with a perceived five-year land supply, but, in reality, there is some land within that proposal that will never ever be built on, although it is still in the system. I think that is wholly inappropriate in terms of planning for the future and planning our communities, and that is why I have said to my team that we have to develop a programme that challenges the system to ensure that there is a five-year land supply process, and that, within that five-year land supply, it is useable land. So, there is still work ongoing on that and I will update the Chamber with more detail when we have that finalised.

On the issue around bonds, I believe that we are already in a position where the revenue funding that was provided by my department and by the Minister for Finance's department has created the opportunity for 1,000 new homes through a bond scheme. If there is anything else, because I ran out of paper, Deputy Presiding Officer, I will more than happily write to the Member with the details in response to her questions.

Soniodd yr Aelod am faterion yn ymwneud â chynllunio. Lle'r awdurdodau lleol yw datblygu eu cynlluniau datblygu lleol a bydd gennym farn am hynny. Nid yw'n un o swyddogaethau Llywodraeth Cymru; mae'n amlwg yn un o swyddogaethau'r 25 awdurdod cynllunio sydd gennym ar hyn o bryd yng Nghymru. Cyfeiriodd yr Aelod at ddefnyddio tir a'r cyflenwad tir pum mlynedd. Mae gennyf bryder lle mae proses y cynlluniau datblygu lleol yn cyflwyno cynllun gan dybio bod cyflenwad tir pum mlynedd, ond, mewn gwirionedd, mae rhywfaint o dir o fewn y cynnig lle na chaiff dim byd ei adeiladu arno byth, er ei fod yn dal i fod yn y system. Credaf fod hynny'n gwbl amhriodol o ran cynllunio ar gyfer y dyfodol a chynllunio ein cymunedau, a dyna pam yr wyf wedi dweud wrth fy nhîm fod yn rhaid inni ddatblygu rhaglen sy'n herio'r system i sicrhau bod proses cyflenwad tir pum mlynedd, a bod y tir o fewn y cyflenwad tir pum mlynedd hwnnw'n dir y gellir ei ddefnyddio. Felly, mae gwaith yn dal i fynd rhagddo ar hynny a rhoddaf fwy o fanylion i'r Siambr pan fyddwn wedi cadarnhau hynny.

O ran bondiau, credaf ein bod eisoes mewn sefyllfa lle mae'r arian refeniw a ddarparwyd gan fy adran a chan adran y Gweinidog Cyllid wedi creu cyfle ar gyfer 1,000 o gartrefi newydd drwy gynllun bond. Os oes rhywbeth arall, oherwydd nid oedd gennyf ddigon o bapur, Ddirprwy Lywydd, byddaf yn fwy na bodlon ysgrifennu at yr Aelod i roi manylion i ateb ei chwestiynau.

15:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I will extend the time for this statement as we are clearly not going to be able to deal with it in half an hour. I politely suggest to the Minister for Government business that half an hour was always a bit optimistic for a long statement on the housing supply. I call Mike Hedges.

Rwyf am estyn amser y datganiad hwn gan ei bod yn amlwg na fyddwn yn gallu ymdrin ag ef mewn hanner awr. Awgrymaf yn gwrtais wrth Weinidog busnes y Llywodraeth fod hanner awr ychydig yn optimistaidd ar gyfer datganiad hir am y cyflenwad tai. Galwaf Mike Hedges.

15:38 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I also welcome the revised target of 10,000 affordable homes for the term of this Assembly to help address housing need. I am also very pleased that co-operative housing was again mentioned; it is something that I have talked about a number of times here. I have two questions. Does the Minister agree with me that a return to council house building throughout Wales would help address housing need? Secondly, will the Minister ensure that these new properties are not built on known floodplains?

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r targed diwygiedig o 10,000 o gartrefi fforddiadwy ar gyfer tymor y Cynulliad hwn i helpu i ddiwallu'r angen am dai. Rwyf hefyd yn falch iawn y soniwyd am dai cydweithredol eto; mae'n rhywbeth yr wyf wedi sôn amdano nifer o weithiau yma. Mae gennyf ddau gwestiwn. A yw'r Gweinidog yn cytuno â mi y byddai dychwelyd i adeiladu tai cyngor ledled Cymru'n helpu i ddiwallu'r angen am dai? Yn ail, a wnaiff y Gweinidog sicrhau na chaiff y tai newydd hyn eu hadeiladu ar orlifdiroedd y gwyddys amdanynt?

15:39 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I thank the Member for his positive comments. On the first question, on whether I believe that council house building would help ease the pressure in the housing market, absolutely, and it is something that I will be pursuing with local authorities with the ability to build council houses in Wales. On the second issue, around planning conditions, planning consent and floodplains, I am looking at that very carefully and I share the Member's concern about not supporting planning applications on floodplains.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau cadarnhaol. O ran y cwestiwn cyntaf, ynghylch a wyf yn credu y byddai adeiladu tai cyngor yn helpu i leddfu'r pwysau yn y farchnad dai, ydw, yn sicr, ac mae'n rhywbeth y byddaf yn edrych arno gydag awdurdodau lleol sy'n gallu adeiladu tai cyngor yng Nghymru. O ran yr ail fater, ynghylch amodau cynllunio, caniatâd cynllunio a gorlifdiroedd, rwyf yn edrych ar hynny'n ofalus iawn ac rwyf yn rhannu pryder yr Aelod am beidio â chymeradwyo ceisiadau cynllunio ar orlifdiroedd.

15:40 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I will try not to task the Minister's limited supply of paper with my questions.

Ceisiaf beidio â threthu cyflenwad papur cyfyngedig y Gweinidog â'm cwestiynau.

May I start by welcoming, first of all, the increase of the target for affordable homes to 10,000? I think that a number of us have taken the view for some time that 7,500 was unambitious and I certainly hope that the Minister, now that he has gone for 10,000, will work very hard over the next two years or so to achieve that target.

In relation to the Help to Buy shared equity scheme, the Minister will be aware that I have raised with him in the past an issue whereby small builders are required, under that scheme, to register under category C of the Consumer Credit Act 1974 as credit brokers. This costs several thousand pounds, whereas those builders argue that brokerage can be covered by estate agents who already hold consumer credit licences and can act under a third party agreement for the small builder. Small builders in particular—many of which are local and build locally—consider this requirement detrimental to their business case, given that many of them will be developing three, four, five or six houses on a particular site and are therefore unable to access that scheme as a result of that. May I ask the Minister to look again at that issue to see whether some flexibility can be built into the scheme to help those small builders take advantage of it and to benefit from it in terms of the new properties that they are building using local workforces and local materials on local sites?

The next point, Deputy Presiding Officer, is in relation to the report of the housing supply taskforce. That report very helpfully has a section labelled 'immediate action'. I would be grateful if the Minister could say, in relation to some of the points on that immediate action section, what timescale he will be applying to completing the full public register of Government land, including land on which there is planning permission that the taskforce has earmarked for doing immediately, effectively.

In relation to the recommendation for identifying an enabler champion as part of the positive planning agenda for local planning authorities, what action is the Minister taking to encourage local planning authorities to do that, and what assistance is he providing to local planning authorities to put that requirement in place? Has the Minister committed to the annual statement on housing development that is referred to in the report, and is this the first of those statements? Finally, in relation to the need to provide national leadership arguing the benefits of development and describing the role of partners in making it happen, may I ask the Minister what events and other actions he will be taking to provide that particular leadership?

A gaf i ddechrau drwy groesawu, yn gyntaf oll, y ffaith bod y targed ar gyfer tai fforddiadwy wedi codi i 10,000? Credaf fod nifer ohonom wedi bod o'r farn ers peth amser nad oedd 7,500 yn uchelgeisiol ac rwyf yn sicr yn gobeithio y bydd y Gweinidog, yn awr ei fod wedi mynd am 10,000, yn gweithio'n galed iawn dros y ddwy flynedd nesaf i gyrraedd y targed hwnnw.

Ynglŷn â'r cynllun rhannu ecwiti Cymorth i Brynu, bydd y Gweinidog yn ymwybodol fy mod wedi codi mater gydag ef yn y gorffennol lle mae'n ofynnol i adeiladwyr bach, yn unol â'r cynllun hwnnw, gofrestru o dan gategori C Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 fel broceriaid credyd. Mae hyn yn costio miloedd o bunnoedd, ac mae'r adeiladwyr hynny'n dadlau y gall gwerthwyr tai y mae ganddynt eisoes drwyddedau credyd defnyddwyr ac sy'n gallu gweithredu o dan gytundeb trydydd parti ar ran yr adeiladwr bach wneud y gwaith brocera hwnnw. Mae adeiladwyr bach yn benodol—llawer ohonynt yn lleol ac yn adeiladu'n lleol—o'r farn bod y gofyniad hwn yn niweidiol i'w hachos busnes, oherwydd y bydd llawer ohonynt yn datblygu tri, pedwar, pump neu chwech o dai ar safle penodol ac felly'n methu â defnyddio'r cynllun o ganlyniad i hynny. A gaf i ofyn i'r Gweinidog edrych eto ar hynny i weld a ellir cynnwys peth hyblygrwydd yn y cynllun i helpu'r adeiladwyr bach hynny i fanteisio arno ac i elwa arno o ran y tai newydd y maent yn eu hadeiladu gan ddefnyddio gweithluoedd lleol a defnyddiau lleol ar safleoedd lleol?

Mae'r pwynt nesaf, Ddirprwy Lywydd, yn ymwneud ag adroddiad y tasglu cyflenwadau tai. Yn ddefnyddiol iawn, mae'r adroddiad hwnnw'n cynnwys adran wedi'i labelu'n 'gweithredu ar unwaith'. Byddwn yn ddiochgar pe gallai'r Gweinidog ddweud, ynglŷn â rhai o'r pwyntiau yn yr adran gweithredu ar unwaith honno, pa amserlen y bydd yn ei defnyddio i gwblhau'r gofrestr gyhoeddus lawn o dir y Llywodraeth, gan gynnwys tir lle ceir caniatâd cynllunio ac y mae'r tasglu wedi'i glustnodi i'w wneud ar unwaith, yn effeithiol.

O ran yr argymhelliad ar gyfer nodi hyrwyddwr galluogi fel rhan o'r agenda cynllunio cadarnhaol i awdurdodau cynllunio lleol, pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog awdurdodau cynllunio lleol i wneud hynny, a pha gymorth y mae'n ei ddarparu i awdurdodau cynllunio lleol i roi'r gofyniad hwnnw ar waith? A yw'r Gweinidog wedi ymrwymo i'r datganiad blynyddol ar ddatblygu tai y cyfeirir ato yn yr adroddiad, ac ai hwn yw'r cyntaf o'r datganiadau hynny? Yn olaf, o ran yr angen i ddarparu arweiniad cenedlaethol i ddadlau dros fanteision datblygu ac i ddisgrifio gwaith y partneriaid o ran sicrhau bod hynny'n digwydd, a gaf i ofyn i'r Gweinidog pa ddigwyddiadau y bydd yn eu cynnal a pha gamau gweithredu eraill y bydd yn eu cymryd i ddarparu'r arweiniad penodol hwnnw?

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for his positive comments. I will take the final points first. I intend to issue a full response to the report shortly in terms of detail on all of the recommendations, but I have started to take some immediate action on some of the issues that the Member has raised today. One of those is around the issue of the adviser, whom we will be putting in place and having discussions with the sector about very shortly. On the issue around planning champions and how that operates, I have already started discussions with many local planning authorities about how that might operate across Wales. I am seeking advice from the planning professionals in delivering that, but I will refer back to the report and make a full response very shortly.

The Member rightly raises the issue around category C of the Credit Consumer Act 1974 and the way in which that operates. We purposely designed the scheme for small building organisations to be able to access the fund via a more simple process than that which operates in England. I accept, therefore, that there are still some issues around this that we need to check in terms of how we de-risk some of that profile. What I do not want is for the risk to be dispersed among too many elements. We really need to understand who is accountable for this.

However, it is something that I am committed to looking at and, as the Member rightly raises, I will look at that immediately to see whether there is anything more that we can do in terms of supporting local businesses in developing this scheme.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau cadarnhaol. Cymeraf y pwyntiau olaf yn gyntaf. Rwyf yn bwriadu cyhoeddi ymateb llawn i'r adroddiad cyn bo hir gan roi manylion am bob un o'r argymhellion, ond rwyf wedi dechrau gweithredu ar unwaith ar rai o'r materion y mae'r Aelod wedi'u codi heddiw. Mae un o'r rheini'n ymwneud â'r cynghorydd; byddwn yn rhoi'r swydd ar waith ac yn cael trafodaethau â'r sector amdani'n fuan iawn. O ran hyrwyddwyr cynllunio a'r ffordd y mae hynny'n gweithredu, rwyf eisoes wedi dechrau trafodaethau â nifer o awdurdodau cynllunio lleol ynghylch sut y gallai hynny weithredu ledled Cymru. Rwyf yn ceisio cyngor gan y gweithwyr cynllunio proffesiynol o ran cyflawni hynny, ond byddaf yn cyfeirio'n ôl at yr adroddiad ac yn rhoi ymateb llawn yn fuan iawn.

Mae'r Aelod yn gwbl iawn i godi mater categori C Deddf Credyd Defnyddwyr 1974 a'r ffordd y mae hwnnw'n gweithio. Cafodd y cynllun ei gynllunio'n fwrddol gennym er mwyn i sefydliadau adeiladu bach allu defnyddio'r gronfa drwy broses symlach na'r un sydd ar waith yn Lloegr. Rwyf yn derbyn, felly, fod rhai materion cysylltiedig o hyd y mae angen inni edrych arnynt o ran lleihau rhywfaint ar risg y proffil hwnnw. Yr hyn nad wyf am ei weld yw gwasgaru'r risg rhwng gormod o elfennau. Mae gwir angen inni ddeall pwy sy'n atebol am hyn.

Fodd bynnag, mae'n rhywbeth yr wyf wedi ymrwymo i edrych arno ac, fel y dywedodd yr Aelod yn gwbl briodol, byddaf yn edrych ar hynny ar unwaith i weld a oes rhywbeth mwy y gallwn ei wneud i gefnogi busnesau lleol wrth ddatblygu'r cynllun hwn.

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I welcome your statement today and I think that it is important that we have that mixed ownership of homes—owner-occupiers and tenancies and social landlords—within communities. I wonder whether you could give us an update on the meeting that we had recently with Habitat for Humanity, which is an organisation that looks to assist people to get on to the housing ladder by taking the fabric of the building and making sure that the outside of the building is right and then, with some assistance from banks, taking those homes and own them for a little, peppercorn fee. Finally, as it is a housing statement, it would be remiss of me not to mention sprinklers, and as we are only weeks away from the first set of sprinklers going in, may I say 'thank you' to you, on behalf of all the people whose lives will be saved by having sprinklers fitted in their homes?

Weinidog, rwyf yn croesawu eich datganiad heddiw ac rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig fod gennym berchnogaeth gymysg o gartrefi—perchennog-ddeiliaid a thenantiaethau a landlordiaid cymdeithasol—o fewn cymunedau. Tybed a allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cyfarfod a gawsom yn ddiweddar â Habitat for Humanity, sefydliad sy'n ceisio helpu pobl i roi troed ar yr ysgol dai drwy gymryd ffabrig yr adeilad a gwneud yn siŵr bod tu allan y adeilad yn iawn ac yna, gyda rhywfaint o gymorth gan fanciau, gymryd y cartrefi hynny a'u prynu am ffi fechan rad. Yn olaf, gan mai datganiad am dai yw hwn, byddai'n esgeulus imi beidio â chrybwyll systemau chwistrellu, a chan nad ydym ond wythnosau i ffordd o osod y set gyntaf o systemau chwistrellu, a gaf i ddweud 'diolch' wrthy, ar ran yr holl bobl y bydd gosod y systemau chwistrellu hyn yn eu cartrefi yn achub eu bywydau?

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Ann Jones for her comments. Again, I think that we should be actually thanking her for her sense of purpose in terms of following through this whole process of the introduction of sprinklers. We have just introduced the legislation profile. There are still some members of the sector that are concerned about the financial process involved with sprinklers, but, as the Member is aware, we are introducing a pilot scheme in order to give confidence to the market by saying how this will be able to be installed and to develop the necessary skills for taking this forward. Indeed, I met with the Minister for skills only two weeks ago to develop learning opportunities within colleges in order to take this forward.

I am grateful to Ann Jones and Chris Ruane, who were at the meeting with Habitat for Humanity. As I said earlier, I have a team working on innovation and new opportunities, and I will be asking it to make sure that, when it takes into consideration new build or new development opportunities, it considers this one specifically.

Diolch i Ann Jones am ei sylwadau. Unwaith eto, rwyf yn meddwl y dylem fod yn diolch iddi am ei hymdeimlad o bwrpas o ran gwireddu'r holl broses hon o gyflwyno systemau chwistrellu. Rydym newydd gyflwyno'r proffil deddfwriaeth. Mae rhai aelodau o'r sector sy'n dal i bryderu am y broses ariannol sy'n gysylltiedig â systemau chwistrellu, ond, fel y mae'r Aelod yn gwybod, rydym yn cyflwyno cynllun peilot i roi hyder i'r farchnad drwy ddweud sut y gellir gosod hyn ac i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fwrw ymlaen â hyn. Yn wir, cyfarfûm â'r Gweinidog sgiliau bythefnos yn ôl i ddatblygu cyfleoedd dysgu mewn colegau er mwyn bwrw ymlaen â hyn.

Rwyf yn ddiolchgar i Ann Jones ac i Chris Ruane, a oedd yn y cyfarfod â Habitat for Humanity. Fel y dywedais yn gynharach, mae gennyf dîm yn gweithio ar arloesi a chyfleoedd newydd, a byddaf yn gofyn iddynt sicrhau, pan fyddant yn ystyried adeiladu o'r newydd neu gyfleoedd datblygu newydd, eu bod yn ystyried hyn yn benodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Datganiad: Cyflawni Rhaglen y Llywodraeth—Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ehangu Dechrau'n Deg

Tackling Poverty

I am delighted to have this opportunity today to update Members on the delivery of the programme for government commitment to double the number of children who benefit from Flying Start. The Flying Start expansion is one of this Government's key 'five for a fairer future' commitments that we made to the people of Wales at the last Assembly election. I am happy to report that we are on track to deliver our commitment.

The undeniable truth is that children living in poverty are much more likely to have worse health outcomes, worse education outcomes and poorer job prospects. Poor children are more likely to become poor adults, who then go on to become the parents of poor children. Flying Start has a key role to play in breaking the cycle of deprivation and forms a key plank in our early years interventions within the tackling poverty action plan. Our commitment to Flying Start is clear and unequivocal. Since the introduction of Flying Start in 2006, almost £0.5 billion has been invested in the future of some of the poorest families right across Wales. This includes revenue and the capital expansion programme. We are building the infrastructure that is vital to delivering the expansion of Flying Start. This investment provides the quality settings needed for free, part-time childcare and it allows us to bring together in one place the multi-agency teams that are crucial to delivering parenting courses and language and play provision.

Statement: Delivering the Programme for Government—Update on Flying Start Expansion

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi / The Deputy Minister for

Mae'n dda iawn gennyf gael y cyfle hwn heddiw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gyflawni ymrwymiad y rhaglen lywodraethu i ddyblu nifer y plant sy'n elwa o Dechrau'n Deg. Mae ehangu Dechrau'n Deg yn un o bum ymrwymiad allweddol 'pump am ddyfodol tecach' y Llywodraeth hon a wnaethom i bobl Cymru yn etholiad diwethaf y Cynulliad. Mae'n bleser gennyf adrodd ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiad.

Y gwir diamheuol yw bod plant sy'n byw mewn tlodi'n fwy tebygol o lawer o gael canlyniadau iechyd gwaeth, canlyniadau addysg gwaeth a rhagolygon swyddi gwaeth. Mae plant tlawd yn fwy tebygol o fod yn oedolion tlawd, sydd yna'n mynd ymlaen i fod yn rhieni i blant tlawd. Mae gan Dechrau'n Deg ran allweddol i'w chwarae o ran torri'r cylch amddifadedd ac mae'n elfen allweddol o'n hymyriadau blynyddoedd cynnar yn y cynllun gweithredu ar drechu tlodi. Mae ein hymrwymiad i Dechrau'n Deg yn glir a diamwys. Ers cyflwyno Dechrau'n Deg yn 2006, mae bron i £0.5 biliwn wedi'i fuddsoddi yn nyfodol rhai o'r teuluoedd tlotaf o bob rhan o Gymru. Mae hyn yn cynnwys refeniw a'r rhaglen ehangu cyfalaf. Rydym yn adeiladu'r seilwaith sy'n hanfodol i ehangu Dechrau'n Deg. Mae'r buddsoddiad hwn yn darparu'r lleoliadau o safon sydd eu hangen ar gyfer gofal plant rhan-amser di-dâl, ac mae'n ein galluogi i ddod â'r timau amlasiantaethol sy'n hanfodol i ddarparu cyrsiau rhianta a darpariaeth iaith a chwarae at ei gilydd mewn un lle.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

As we expand, we are putting new provision into communities where none previously existed. One example of this is the £100,000 project in Sealand, Flintshire, delivering the first Welsh-medium childcare within that community. Workforce planning is an essential aspect of the successful expansion of Flying Start. We are on track to develop the increased workforce required to deliver this enhanced programme, including recruiting and training more health visitors. By the end of this Assembly, in 2016, we will have delivered our pledge to double Flying Start. As a result, 36,000 children—that is one in four of all children in Wales below the age of four—will benefit from Flying Start.

Successfully delivering the expansion in numbers is no mean or simple achievement. Flying Start is a complex programme that crosses the boundaries of health, education, childcare, business and the voluntary sector. The expansion in numbers is a major part of the story, but the reason we are expanding Flying Start is to make a decisive difference with and for families facing the greatest challenges across Wales.

A range of independent evaluation activity provides us with robust evidence about the difference that Flying Start makes. One evaluation report based on interviews with parents from families with the highest levels of need concluded that

‘Experiencing the Flying Start programme has been life-changing for some high need families’.

Parents also report improvements in their children’s language and cognitive development as well as their social and emotional skills.

However, the key message from the evaluation is that the enhanced, intensive, health visiting service is having the biggest impact on the development of children. The health visitor acts as a gateway and enabler to other Flying Start entitlements of parenting programmes, early language development and free childcare provision.

A few weeks ago I visited a Welsh-medium setting in Aberystwyth. As usual, I was impressed with what I saw and heard. I heard the same message from parents and staff that I have heard on a number of occasions and from a number of sources. Flying Start children make progress when previously they had not. They are ready to learn and make the school transition much more successfully. Crucially, not only are children ready to learn, but parents are much more likely to engage in and support their child’s learning at home. Our challenge is to make sure that this quality is firmly and consistently embedded across Flying Start.

Wrth inni ehangu, rydym yn rhoi darpariaeth newydd mewn cymunedau lle nad oedd dim o’r blaen. Un enghraifft o hyn yw’r prosiect gwerth £100,000 yn Sealand, sir y Fflint, i ddarparu gofal plant cyfrwng Cymraeg am y tro cyntaf yn y gymuned honno. Mae cynllunio’r gweithlu’n agwedd hanfodol ar ehangu Dechrau’n Deg yn llwyddiannus. Rydym ar y trywydd iawn i ddatblygu’r gweithlu mwy sydd ei angen i ddarparu’r rhaglen estynedig hon, gan gynnwys recriwtio a hyfforddi mwy o ymwelwyr iechyd. Erbyn diwedd y Cynulliad hwn, yn 2016, byddwn wedi cyflawni ein haddewid i ddyblu Dechrau’n Deg. O ganlyniad, bydd 36,000 o blant—mae hynny’n un o bob pedwar plentyn yng Nghymru o dan bedair oed—yn elwa o Dechrau’n Deg.

Nid peth hawdd na pheth syml yw llwyddo i ehangu’r niferoedd. Mae Dechrau’n Deg yn rhaglen gymhleth sy’n croesi ffiniau iechyd, addysg, gofal plant, busnes a’r sector gwirfoddol. Mae cynyddu’r niferoedd yn rhan bwysig o’r stori, ond y rheswm yr ydym yn ehangu Dechrau’n Deg yw er mwyn gwneud gwahaniaeth pendant gyda theuluoedd sy’n wynebu’r heriau mwyaf ledled Cymru, ac er mwyn y teuluoedd hynny.

Mae amryw o weithgareddau gwerthuso annibynnol wedi rhoi tystiolaeth gadarn inni o’r gwahaniaeth y mae Dechrau’n Deg yn ei wneud. Daeth un adroddiad gwerthuso, a oedd yn seiliedig ar gyfweiliadau â rhieni o deuluoedd â’r lefelau uchaf o angen, i’r casgliad fod

bod yn rhan o’r rhaglen Dechrau’n Deg wedi newid bywydau rhai teuluoedd mewn angen mawr.

Mae rhieni hefyd yn sôn am welliannau yn natblygiad ieithyddol a gwybyddol eu plant yn ogystal â’u sgiliau cymdeithasol ac emosiynol.

Fodd bynnag, neges allweddol y gwerthusiad yw mai’r gwasanaeth ymweliadau iechyd dwys estynedig sy’n cael yr effaith fwyaf ar ddatblygiad plant. Mae’r ymwelydd iechyd yn borth ac yn alluogwr i hawliau eraill Dechrau’n Deg megis rhaglenni rhianta, datblygiad iaith cynnar a darpariaeth gofal plant am ddim.

Rai wythnosau’n ôl, bûm yn ymweld â lleoliad cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth. Fel arfer, gwnaeth yr hyn a welais ac a glywais argraff arnaf. Clywais yr un neges gan rieni a staff ag yr wyf wedi’i chlywed ar sawl achlysur ac o nifer o ffynonellau. Mae plant Dechrau’n Deg yn gwneud cynnydd lle nad oeddent o’r blaen. Maent yn barod i ddysgu ac yn pontio rhwng ysgolion yn llawer mwy llwyddiannus. Yn hanfodol, mae’r plant yn barod i ddysgu, ond mae’r rhieni hefyd yn fwy tebygol o lawer o gymryd rhan yn nysgu eu plant a’u cefnogi gartref. Ein her yw sicrhau bod yr ansawdd hwn wedi’i wreiddio’n gadarn ac yn gyson ar draws Dechrau’n Deg.

I recognise that there is uneven performance within Flying Start. There is no complacency on this within the Welsh Government. We are determined to focus on improving outcomes year on year. We have a robust monitoring system in place to help drive continual improvement. This allows us to review the consistency of delivery in each part of Wales. Each Flying Start area has a quality improvement plan that is based upon objective performance data and Welsh Government account managers work closely with Flying Start managers to ensure that quality improvement is achieved. That relationship of challenge and support is a key feature in Flying Start improvement.

At this point I want to pay tribute to the staff who deliver Flying Start. Their skill, commitment and willingness to work beyond traditional borders and boundaries are essential to making Flying Start a success. I know that improving outcomes for families is the central motivation for Flying Start workers. The staff who deliver Flying Start recognise that they have much to learn from each other across Wales. I am clear in my own expectation that good practice must become standard practice. That is what staff tell me that they expect to see happen, too. We will be much less tolerant of unsuccessful practice that cannot be explained by anything more than local practice. Learning from each other, from past experience, recognising where we can do better and where we have been successful is not an optional extra.

Last December I spoke at the inaugural Flying Start national learning conference. We brought together staff from across Wales to share their experiences on all aspects of Flying Start. National challenge, learning and celebration of success will continue to be a feature of Flying Start. It will be supported by a series of planned regional learning events to support Flying Start improvement.

The quality of Flying Start services must continue to improve. That is why I have commissioned research into the delivery of the early language development entitlement. We need to know more about why some Flying Start settings are much more successful than others in engaging parents. We then need to ensure that, wherever possible, a more successful means of working is adopted. I have already said that engaging parents in the learning of their child is an important feature of Flying Start. That positive engagement should not end with Flying Start, but should continue throughout the child's learning journey. This is an issue that the Minister for Education and Skills has also identified and reinforced in the action that he is taking to improve educational attainment.

Gwn fod perfformiad anwastad o fewn Dechrau'n Deg. Nid yw Llywodraeth Cymru'n hunanfodlon ynghylch hyn. Rydym yn benderfynol o ganolbwyntio ar wella canlyniadau, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gennym system fonitro gadarn ar waith i helpu i ysgogi gwelliant parhaus. Mae hyn yn caniatáu inni edrych ar gysondeb y ddarpariaeth ym mhob rhan o Gymru. Mae gan bob ardal Dechrau'n Deg gynllun gwella ansawdd sy'n seiliedig ar ddata perfformiad gwrthrychol ac mae rheolwyr cyfrifon Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â rheolwyr Dechrau'n Deg i sicrhau bod yr ansawdd yn gwella. Mae'r berthynas honno o ran her a chymorth yn un o nodweddion allweddol gwella Dechrau'n Deg.

Hoffwn yn awr dalu teyrnged i'r staff sy'n cyflwyno Dechrau'n Deg. Mae eu sgiliau, eu hymroddiad a'u parodrwydd i weithio y tu hwnt i derfynau a ffiniau traddodiadol yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod Dechrau'n Deg yn llwyddiant. Gwn mai gwella canlyniadau i deuluoedd yw'r cymhelliant canolog i weithwyr Dechrau'n Deg. Mae'r staff sy'n cyflwyno Dechrau'n Deg yn cydnabod bod ganddynt lawer i'w ddysgu oddi wrth ei gilydd ledled Cymru. Mae gennym ddisgwyliad clir fod yn rhaid i arfer da ddod yn arfer safonol. Dyna'r hyn y mae staff yn dweud wrthyf eu bod hwythau'n disgwyl ei weld yn digwydd. Byddwn yn llai goddefgar o lawer ar arfer aflwyddiannus na all dim byd mwy nag arfer lleol ei egluro. Nid dewis ychwanegol mo dysgu oddi wrth ein gilydd, o brofiad y gorffennol, a chydabod lle gallwn wneud yn well a lle'r ydym wedi bod yn llwyddiannus.

Fis Rhagfyr diwethaf, bûm yn siarad yng nghynhadledd ddysgu genedlaethol gyntaf Dechrau'n Deg. Daethom â staff ynghyd o bob cwr o Gymru i rannu eu profiadau o bob agwedd ar Dechrau'n Deg. Bydd herio cenedlaethol, dysgu a dathlu llwyddiant yn parhau i fod yn un o nodweddion Dechrau'n Deg. Yn sail iddo bydd cyfres o ddigwyddiadau dysgu rhanbarthol wedi'u cynllunio i gefnogi gwelliant Dechrau'n Deg.

Rhaid i ansawdd gwasanaethau Dechrau'n Deg barhau i wella. Dyna pam yr wyf wedi comisiynu gwaith ymchwil i ddarpariaeth yr hawl datblygiad iaith cynnar. Mae angen inni gael gwybod mwy am pam y mae rhai lleoliadau Dechrau'n Deg yn gallu ymgysylltu â rhieni'n fwy llwyddiannus o lawer nag eraill. Yna, mae angen inni sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl, y defnyddir dull mwy llwyddiannus o weithio. Rwyf eisoes wedi dweud bod cynnwys rhieni yn nysgu eu plant yn un o nodweddion pwysig Dechrau'n Deg. Ni ddylai'r ymgysylltu cadarnhaol hwnnw ddod i ben â Dechrau'n Deg, ond dylai barhau drwy gydol taith ddysgu'r plentyn. Mae hwn yn fater y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau hefyd wedi'i nodi a'i ategu yn y camau y mae'n eu cymryd i wella cyrhaeddiad addysgol.

Last September, the first in a series of statistical bulletins on the performance of Flying Start across Wales was published. Where the data told us that we could do better, I expect that we will do better. We have achieved a great deal since Flying Start was first launched in 2006, and we are making improvements all of the time. I am determined that Flying Start will continue to deliver improved outcomes for families—for both children and parents. This Government will deliver on our pledge to double Flying Start. I look forward to updating Members again in the future when we have fully delivered on that promise.

Fis Medi diwethaf, cyhoeddwyd y cyntaf mewn cyfres o fwletinau ystadegol am berfformiad Dechrau'n Deg ledled Cymru. Lle dywedodd y data wrthym y gallem wneud yn well, rwyf yn disgwyl inni wneud yn well. Rydym wedi cyflawni llawer iawn ers lansio Dechrau'n Deg am y tro cyntaf yn 2006, ac rydym yn parhau i wneud gwelliannau drwy'r amser. Rwyf yn benderfynol y bydd Dechrau'n Deg yn parhau i sicrhau canlyniadau gwell i deuluoedd—i blant ac i rieni. Bydd y Llywodraeth hon yn cyflawni ein haddewid i ddyblu Dechrau'n Deg. Edrychaf ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau eto yn y dyfodol pan fyddwn wedi cyflawni'r addewid hwnnw'n llawn.

15:54

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I thank you very much for bringing forward this statement today. You made a comment in the statement that I have a huge amount of respect for, which is that you wish to make a decisive difference with and for families facing the greatest challenges across Wales. That is a respected agenda for any organisation, Government or political parties that have that mantra at their heart, and it is something that we need to move forward, because, as we all know, there are some families, whether it is through deprivation, poverty or chaotic lifestyles, that do need that extra support and help.

I am interested to know of the expansion of Flying Start. Of course, this is something that the Government has talked about. Indeed, I believe that you put it in your manifesto. I would like to ask a couple of very clear questions about this process and about how you have come to these decisions.

Ddirprwy Weinidog, diolch yn fawr iawn am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw. Gwnaethoch sylw yn y datganiad y mae gennyf lawer iawn o barch tuag ato, sef eich bod am wneud gwahaniaeth pendant gyda theuluoedd sy'n wynebu'r heriau mwyaf ledled Cymru, ac er mwyn y teuluoedd hynny. Mae honno'n agenda deilwng i unrhyw sefydliad, Llywodraeth neu blaid wleidyddol sydd â'r mantra hwnnw wrth ei chalon, ac mae'n rhywbeth y mae angen inni symud ymlaen ag ef, oherwydd, fel y gwyddom i gyd, mae angen y gefnogaeth a'r cymorth ychwanegol hwnnw ar rai teuluoedd, boed hynny oherwydd amddifadedd, tlodi neu fywydau di-drefn.

Mae gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod am ehangu Dechrau'n Deg. Wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth y mae'r Llywodraeth wedi siarad amdano. Yn wir, credaf eich bod wedi'i roi yn eich manifestio. Hoffwn ofyn ambell gwestiwn clir iawn am y broses hon ac am sut y gwnaethoch y penderfyniadau hyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Despite increased awareness of services, this report makes it very clear that there was no difference between the groups that took up Flying Start services and those that did not. Again and again, when you read about the perception of services, parental outcomes and cognitive outcomes, you see statements such as 'impact analysis: found no difference', and that is whether the statements refer to someone who had taken part in a Flying Start programme or had not. Therefore, until the reasoning behind this statistic is understood, we cannot adequately determine whether increased spending on expansion is ideal or whether the money would perhaps be better spent on providing more hours for those who are currently on the programme, such as more hours of childcare, so that people can go out and get better, more meaningful, more long-term and more sustainable jobs. Alternatively, for example, there was research by Papero in 2004 that showed that the children of mothers who had depression suffered even more acutely than other children, and that it might be better to roll out help for those kinds of situations and to help those kinds of parents, that kind of mother and those kinds of children to move them forward. My question here is not about that this is a bad idea. However, the statistics and data collated at present do not show an overwhelming thumbs-up that says that Flying Start works brilliantly at moving people along. They show that there is no real conclusive evidence. My question, Deputy Minister, is this: how are you going to evidence that properly going forward? How are you going to justify it? Are you completely confident that the path that you are going along is the right one, and that it would not be better to look at other ways of building up in terms of the Flying Start issue?

I would also like to mention the role of parents. The report claims that Flying Start is designed to improve support for parents but that it cannot address all areas of the impact of poverty. I am sure that you know that, in Finland, where the PISA scores are so much higher than in Wales, education is seen as a key area to help people out of poverty. In Finland, they basically look at how they bring the child's home life and school life together. They form very close interactions between the two. They then use that to bring the child up through the whole system and have a really effective engagement with services. This report talks quite well about the success of engagement with health professionals, and how that has helped. It talks about the number of health visits that the child has and how that has helped that element. I would like to understand more clearly how you intend to take on board the educational side of things and bring that into line for children who are in the Flying Start regions.

Overall, our real concern is about understanding its effectiveness. I say this very clearly because I do not want you to stand up afterwards and say that I am against Flying Start, that I do not care about kids in poverty, and that I do not want to help them. However, I have a worry about more precious money, when resources are tight, being put into a programme that does not have an overwhelming result. I appreciate that you may well also think that this is part of a jigsaw, and that there are a number of other things that the Welsh Government is doing to ensure that this part of the jigsaw will add to other parts of the jigsaw to make a better whole for those children. I would be interested to really understand that in your response to me.

Er gwaetha'r ffaith bod mwy o ymwybyddiaeth am wasanaethau, mae'r adroddiad hwn yn ei gwneud yn glir iawn nad oedd gwahaniaeth rhwng y grwpiau a fanteisiodd ar wasanaethau Dechrau'n Deg a'r rhai na wnaethant. Dro ar ôl tro, wrth ddarllen am y canfyddiad ynghylch gwasanaethau, canlyniadau i rieni a chanlyniadau gwybyddol, gwelwch ddatganiadau fel 'dadansoddiad o effaith: heb weld dim gwahaniaeth', p'un a yw'r datganiadau'n cyfeirio at rywun a gymerodd ran mewn rhaglen Dechrau'n Deg ai peidio. Felly, hyd nes y gallwn ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r ystadegyn hwn, ni allwn benderfynu'n iawn a yw gwario mwy ar ei ehangu'n ddelfrydol ynteu a fyddai efallai'n well gwario'r arian ar ddarparu mwy o oriau ar gyfer y rheini sydd eisoes ar y rhaglen, megis mwy o oriau gofal plant, er mwyn i bobl allu mynd allan a chael swyddi gwell, mwy ystyrlon, mwy hirdymor a mwy cynaliadwy. Fel arall, er enghraifft, roedd ymchwil gan Papero yn 2004 yn dangos bod plant mamau ag iselder yn dioddef hyd yn oed yn fwy na phlant eraill, ac y gallai fod yn well cyflwyno cymorth i'r mathau hynny o sefyllfaoedd a helpu'r mathau hynny o rieni, y math hwnnw o fam a'r mathau hynny o blant i symud ymlaen. Nid wyf yn gofyn a yw hyn yn syniad gwael. Fodd bynnag, nid yw'r ystadegau a'r data a gasglwyd ar hyn o bryd yn rhoi neges gref bod Dechrau'n Deg yn gwneud gwaith gwych o ran gwella sefyllfaoedd pobl. Maent yn dangos nad oes unrhyw dystiolaeth bendant mewn gwirionedd. Dyma fy nghwestiwn, Ddirprwy Weinidog: sut ydych chi'n mynd i roi tystiolaeth briodol o hynny yn y dyfodol? Sut ydych chi'n mynd i'w gyfiawnhau? A ydych yn gwbl hyderus mai'r llwybr yr ydych arno yw'r un cywir, ac na fyddai'n well edrych ar ffyrdd eraill o wella Dechrau'n Deg?

Hoffwn hefyd sôn am swyddogaeth rhieni. Mae'r adroddiad yn honni bod Dechrau'n Deg wedi'i gynllunio i wella cymorth i rieni, ond na all ymdrin â holl effeithiau tlodi. Rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod eu bod yn ystyried, yn y Ffindir, lle mae'r sgorau PISA gymaint yn uwch nag yng Nghymru, fod addysg yn faes allweddol i helpu pobl allan o dlodi. Yn y Ffindir, maent yn y bôn yn edrych ar ffyrdd o ddod â bywyd cartref a bywyd ysgol y plentyn at ei gilydd. Maent yn ffurfio rhyngweithio agos iawn rhwng y ddau. Maent wedyn yn defnyddio hynny i arwain y plentyn drwy'r system gyfan ac maent yn ymgysylltu'n wirioneddol effeithiol â gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn siarad yn eithaf da am lwyddo i ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol, a'r ffordd y mae hynny wedi helpu. Mae'n sôn am nifer yr ymweliadau iechyd y mae'r plentyn yn eu cael a'r ffordd y mae hynny wedi helpu'r elfen honno. Hoffwn ddeall yn well sut yr ydych yn bwriadu ystyried yr ochr addysgol ac unioni hynny i blant sydd yn y rhanbarthau Dechrau'n Deg.

At ei gilydd, mae ein pryder gwirioneddol yn ymwneud â deall ei effeithiolrwydd. Rwyf yn dweud hyn yn glir iawn oherwydd nid wyf am ichi sefyll wedyn a dweud fy mod yn erbyn Dechrau'n Deg, nad wyf yn poeni am blant mewn tlodi, ac nad wyf am eu helpu. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu am wario mwy o arian gwerthfawr, pan fo adnoddau'n dynn, ar raglen nad yw'n sicrhau canlyniad ysgubol. Rwyf yn sylweddoli efallai eich bod hefyd yn meddwl bod hyn yn rhan o jig-so, a bod Llywodraeth Cymru'n gwneud nifer o bethau eraill i sicrhau y bydd y rhan hon o'r jig-so yn ychwanegu at rannau eraill o'r jig-so i wneud y cyfan yn well i'r plant hynny. Byddai'n dda gennych gael deall hynny o ddifrif yn eich ateb imi.

Vaughan Gething [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for your two areas of questioning. I will deal first with evaluation. This is a point that was put to me by the Children and Young People Committee—how we understand the difference that Flying Start has made. This really comes down to how and when the evaluation was done. The programme started in 2006, and the evaluation was then commissioned. Therefore, effectively, in the most disadvantaged communities, Flying Start was already there as an intervention that had started. When a comparative was then chosen, the next comparator group upwards was chosen. Therefore, essentially, the comparator group contains more advantaged, more affluent parents compared with Flying Start parents. Given what we understand about the relationship between income and achievement, it would be unreasonable to assume that those two groups were at the same level before the Flying Start intervention. I would say that the only reasonable conclusion to draw is that the comparator group were operating at a higher level than Flying Start without the intervention. This shows that with the intervention of Flying Start they have raised the achievement of that particular cohort of families. When you look at the evaluation report, they agree that that is an entirely reasonable conclusion. The problem is that the evaluators cannot say that definitively because they were not able to undertake a baseline. I am not about to ask health visitors or other professionals to undertake a comprehensive baseline before there is a new intervention programme.

What we do know is that when you look at the Flying Start expansion areas, we will have a better idea of the level of achievement before Flying Start goes in as a new intervention in the new expansion areas. We also know, tracking back, because of the time when Flying Start was introduced, you will now see a cohort of children who have gone through stages within primary education. Therefore, we can look back at whether Flying Start children, where we are able to track them, have had increased achievement compared with their peers. There are good reasons to look again at where we are now, to look back at intervention where it has taken place, but to recognise that we are not comparing apples with apples within the evaluation. That needs to be understood.

Diolch am eich cwestiynau ynghylch dau faes. Ymdriniaf yn gyntaf â gwerthuso. Dyma bwynt a gyflwynwyd imi gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc—sut yr ydym yn deall y gwahaniaeth y mae Dechrau'n Deg wedi'i wneud. Mae hyn yn ymwneud mewn gwirionedd â sut a phryd y gwnaethpwyd y gwerthusiad. Dechreuodd y rhaglen yn 2006, ac yna cafodd y gwerthusiad ei gomisiynu. Felly, i bob pwrpas, yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, roedd Dechrau'n Deg eisoes yno fel ymyriad a oedd wedi dechrau. Yna, pan ddewiswyd grŵp cymharol, dewiswyd y cymharydd nesaf i fyny. Felly, yn y bôn, mae'r grŵp cymharu yn cynnwys rhieni mwy breintiedig, mwy cefnog o'u cymharu â rhieni Dechrau'n Deg. Ac ystyried yr hyn yr ydym yn ei ddeall am y berthynas rhwng incwm a chyflawniad, byddai'n afresymol cymryd yn ganiataol bod y ddau grŵp hynny ar yr un lefel cyn ymyriad Dechrau'n Deg. Byddwn yn dweud mai'r unig gasgliad rhesymol yw bod y grŵp cymharu'n gweithredu ar lefel uwch na Dechrau'n Deg heb yr ymyriad. Mae hyn yn dangos bod ymyriad Dechrau'n Deg wedi codi cyflawniad y garfan benodol honno o deuluoedd. Pan edrychwch ar yr adroddiad gwerthuso, maent yn cytuno bod hwnnw'n gasgliad cwbl resymol. Y broblem yw na all y gwerthuswyr ddweud hynny'n bendant gan nad oeddent yn gallu tynnu llinell sylfaen. Nid wyf yn mynd i ofyn i ymwelwyr iechyd neu weithwyr proffesiynol eraill dynnu llinell sylfaen gynhwysfawr cyn dechrau rhaglen newydd o ymyriadau.

Yr hyn yr ydym yn ei wybod yw, pan edrychwch ar ardaloedd ehangu Dechrau'n Deg, y bydd gennym well syniad o lefel y cyrhaeddiad cyn rhoi Dechrau'n Deg ar waith fel ymyriad newydd yn yr ardaloedd ehangu newydd. Rydym hefyd yn gwybod, wrth olrhain yn ôl, oherwydd yr amser pan gyflwynwyd Dechrau'n Deg, y byddwch yn awr yn gweld carfan o blant sydd wedi mynd drwy gyfnodau o fewn addysg gynradd. Felly, gallwn edrych yn ôl i weld a yw plant Dechrau'n Deg, lle'r ydym yn gallu eu holrhain, wedi cyflawni mwy o'u cymharu â'u cyfoedion. Mae rhesymau da i edrych eto ar ble'r ydym yn awr, i edrych yn ôl ar ymyriadau lle maent wedi digwydd, ond i gydnabod nad ydym yn cymharu afalau ag afalau yn y gwerthusiad. Mae angen deall hynny.

On the point that you made about learning outside school, this is an issue that is very much part of the agenda of the Minister for Education and Skills and the programmes that we run here on early years as well. We recognise that getting the family more engaged and involved in a child's learning is essential to improving achievement. Flying Start is very much a part of that. In fact, some of the biggest advocates of Flying Start are reception class teachers and primary school headteachers who receive Flying Start children. They will tell you definitively that Flying Start has made a difference. They are the ones who will tell you that Flying Start children are ready to learn and are socially confident. They have also told me, on the visits that I have undertaken, that they think that that is a difference that is sustained through that child's educational journey within their school. So, that is very much something that we look for, as well as it being part of the wider range of interventions that we undertake. I have been very clear with Flying Start, Communities First and Families First that I expect to see greater coherence and co-ordination between them and with mainstream services like education. That is a message that is starting to get through and I look forward to seeing greater buy-in, in not just talking about it but delivering it. It is a key part of the deprivation programme that is being run by the Minister for Education and Skills. It is something that we will continue to look for and that Flying Start expects full well to be judged upon. We will look for that coherence and improved achievement in outcomes. I hope that deals properly with the two points that you raised.

O ran y pwynt a wnaethoch am ddysgu y tu allan i'r ysgol, mae hwn yn fater sy'n sicr yn rhan o agenda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r rhaglenni yr ydym yn eu cynnal yma ar y blynyddoedd cynnar hefyd. Rydym yn cydnabod bod sicrhau bod teuluoedd yn ymgysylltu mwy ac yn cymryd rhan fwy yn nysgu eu plant yn hanfodol i wella cyflawniad. Mae Dechrau'n Deg yn sicr yn rhan o hynny. Yn wir, mae rhai o gefnogwyr mwyaf brwd Dechrau'n Deg yn athrawon dosbarth derbyn a phenaethiaid ysgolion cynradd sy'n derbyn plant Dechrau'n Deg. Byddant yn dweud wrthyhch yn bendant fod Dechrau'n Deg wedi gwneud gwahaniaeth. Dyma'r rhai a fydd yn dweud wrthyhch fod plant Dechrau'n Deg yn barod i ddysgu a'u bod yn hyderus yn gymdeithasol. Maent hefyd wedi dweud wrthyf, ar fy ymweliadau, eu bod yn meddwl bod hwnnw'n wahaniaeth sy'n cael ei gynnal drwy gydol taith addysgol y plentyn hwnnw yn eu hysgol. Felly, mae hynny'n sicr yn rhywbeth yr ydym yn chwilio amdano, yn ogystal â bod yn rhan o ystod ehangach o ymyriadau yr ydym yn eu cynnal. Rwyf wedi bod yn glir iawn o ran Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf fy mod yn disgwyl gweld mwy o gydlynad a chyd-drefnu rhyngddynt a gwasanaethau prif ffrwd megis addysg. Mae honno'n neges sy'n dechrau cael ei chlywed, ac edrychaf ymlaen at weld mwy o gefnogaeth, nid dim ond o ran siarad am y peth, ond hefyd o ran ei gyflwyno. Mae'n rhan allweddol o'r rhaglen amddifadedd sy'n cael ei chynnal gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'n rhywbeth y byddwn yn parhau i edrych amdano ac y mae Dechrau'n Deg yn sicr yn disgwyl cael eu barnu arno. Byddwn yn chwilio am y cydlynad hwnnw ac am gyflawni canlyniadau'n well. Rwyf yn gobeithio bod hynny'n ymdrin yn briodol â'r ddau bwynt a godwyd gennych.

16:03 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am y datganiad, a hoffwn ddweud ar y cychwyn fod Plaid Cymru yn bendant yn cefnogi amcanion Dechrau'n Deg i wella deilliannau ar gyfer y plant mwyaf amddifadus yn ein cymdeithas. Hefyd, rydym o'r farn bod digon o dystiolaeth ryngwladol ac o Brydain fod ymyrraeth gynnar yn gweithio i godi pobl o dloedi a rhoi cyfleoedd economaidd i deuluoedd a chyfleoedd addysgiadol i blant. Wedi dweud hynny, nid oes prawf hyd yma o lwyddiant diamwys Dechrau'n Deg. Rydym wedi clywed eisoes am rai o'r problemau sy'n gysylltiedig â hynny, yn benodol oherwydd nad oedd meincodi wedi digwydd o'r cychwyn. Felly, mae'n anodd cymharu ardaloedd Dechrau'n Deg gydag ardaloedd eraill. Fodd bynnag, mae'r hyn y mae'r Dirprwy Weinidog yn cyfeirio ato heddiw—y gwerthusiad—yn dangos nad oes tystiolaeth bendant o wella parhaol mewn meysydd megis sgiliau iaith, sgiliau deallusol, datblygiad emosiynol a chymdeithasol, wrth gymharu ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd eraill. Wrth gwrs, mae'n ddigon posibl, fel mae'r Dirprwy Weinidog newydd grybwyll, fod y teuluoedd yn yr ardaloedd hyn wedi elwa o broses Dechrau'n Deg, oherwydd bod y gwerthusiad wedi digwydd ar ôl i'r cynllun ddechrau. Felly, mae'n bosibl eu bod wedi gwella ac wedi codi safonau yn y cymunedau hynny. Mae hefyd yn bosibl nad ydynt wedi gwella. Nid oes tystiolaeth. Mae'r Dirprwy Weinidog yn dewis dehongli'r sefyllfa fel y gwnaeth, ac mae'n ddigon posibl ei fod yn gywir i wneud hynny, gan fod tystiolaeth yn yr adroddiad i gefnogi hynny. Fodd bynnag, nid oes llwyddiant diamwys yn y cyd-destun hwn.

I thank the Deputy Minister for the statement. Plaid Cymru certainly supports the objective of Flying Start to improve outcomes for the most deprived children in our society, and we are of the opinion that early intervention, which is supported by adequate information internationally and within the UK, works in lifting people out of poverty, in giving economic opportunities to families and in providing educational opportunities to children. Having said that, there is no proof to date of the unambiguous success of Flying Start. We have already heard about some of the problems in that regard because there was no benchmarking from the very outset. Therefore, it is very difficult to compare Flying Start areas with other areas. However, the evaluation that the Deputy Minister referred to demonstrates that there is no specific evidence in terms of language skills, intelligence and social skills. There is no evidence of continuous improvement when you compare Flying Start areas with other areas. It is quite possible, as the Deputy Minister has just mentioned, that those families within these areas have benefited from the Flying Start process, because the evaluation happened after the commencement of the programme. Therefore, it is possible that there has been some progress and some improvement within those communities. It is also possible that that has not occurred, as there is no evidence either way. The Deputy Minister chooses to interpret the situation as he has done, and it is possible that he is correct in that interpretation. There is some evidence in the report to support that, but there is no unambiguous proof of success.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae hefyd yn wir i ddweud fod ardaloedd Dechrau'n Deg yn dyblygu ardaloedd eraill o weithgarwch gan y Llywodraeth, megis Cymunedau'n Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, ac ati, ac mae'n ddigon posibl taw ymyraethau eraill gan y Llywodraeth sy'n dod â budd i'r cymunedau hyn, a phlant yn arbennig, yn hytrach na Dechrau'n Deg ei hunan. Mae hynny'n dangos i mi rai o beryglon rhedeg nifer o gynlluniau ar draws ei gilydd mewn ardaloedd daearyddol pendant, a byddai'n well gennyf weld y Llywodraeth yn camu yn ôl ac yn bod yn fwy clir ynglŷn â pha raglenni a pha ymyraethau fydd, yn nhyb y Llywodraeth, yn llwyddo mewn ardaloedd, ac felly yn cefnogi'r rhain mewn sefyllfa llawer mwy strwythuredig fel bod gennym werthusiad llawer mwy credadwy ynglŷn â llwyddiant, neu fel arall, y cynlluniau hynny.

Rwy'n meddwl bod hefyd broblem ynglŷn â gofal plant am ddim gyda Dechrau'n Deg, gan ei fod ar gael mewn pum bloc o ddwy awr a hanner yr wythnos yn benodol. Nid yw hynny'n ddigon ystywyth na hyblyg i helpu rhai rhieni i fynd yn ôl i'r gwaith neu i fanteisio ar y cyfle i dderbyn hyfforddiant neu beth bynnag. Mae'r Family and Childcare Trust, er enghraifft, wedi canfod bod hon yn sefyllfa rhy gaeedig i helpu yn y cyd-destun hwn, er fy mod yn gwybod bod y teuluoedd sy'n derbyn y gofal yn ei werthfawrogi, gan fy mod i wedi siarad â nifer ohonynt ac wedi edrych ar y sefyllfa ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n edrych ar y pethau hyn yn awr.

Mae hynny yn gadael cwpl o gwestiynau penodol i'r Dirprwy Weinidog. Gan ein bod ni i gyd yn gweld nad oedd rhyw fath o feincnodi yn digwydd yn 2006, pa wersi y mae'r Dirprwy Weinidog wedi eu dysgu o hynny ar gyfer gwerthuso'r ehangiad o Ddechrau'n Deg? Mae wedi awgrymu heddiw ei fod yn gobeithio gweld gwell tystiolaeth yn dod yn ôl o'r dyblygu ar y rhaglen sy'n digwydd o dan y Llywodraeth bresennol, felly ym mha ffordd y gall sicrhau bod hynny'n digwydd, a pha wersi sydd yno? Os nad yw'n gallu dweud hyn heddiw, efallai y gall ddweud rhywbryd beth yw cyfanswm gwariant y Llywodraeth ar raglen Dechrau'n Deg o 2006 hyd yma, fel y gallwn edrych ar y gwerthusiad a gweld gwariant y Llywodraeth a pha effaith, neu fel arall, sydd wedi digwydd.

Yng nghyd-destun gofal am ddim, a yw wedi cael tystiolaeth bod y ffordd y mae gofal plant am ddim yn cael ei strwythuro ar hyn o bryd yn rhwystro rhai teuluoedd a rhai rhieni rhag mynd yn ôl i'r gwaith neu fanteisio ar gyfleoedd economaidd? A yw'n ystyried newid hynny mewn unrhyw ffordd neu ei wneud yn fwy ystywyth? Wrth ymweld gyda'r pwyllgor â chynlluniau ym Bôn-y-maen yn Abertawe yn ddiweddar, gwelais yn glir fod y gofal plant sy'n cael ei ddarparu yno o fudd i'r mamau ifanc sy'n defnyddio'r cynllun, ond nid oedd yn ddigon iddynt fanteisio ar gyfleoedd gwaith. Felly, roeddent, mewn un ffordd, yn cael eu gwneud yn fwy cysurus yn eu byd, a da o beth yw hynny, ond nid oedd yn ddigon uchelgeisiol i'w helpu i symud allan o hynny.

It is also true to say that Flying Start areas duplicate other areas of activity by Government, such as Communities First, Families First and so on. It is quite possible, therefore, that it is other interventions by Government that are actually providing benefits to those communities, and particularly to children, rather than Flying Start itself. That demonstrates to me some of the dangers of running numerous schemes in specific geographical areas, and I would prefer the Government to step back and to be more clear as to which programmes and which interventions will succeed, in the Government's opinion, in these areas, and, therefore, to support that in a far more structured way so that we have an evaluation that is more credible in terms of the success or otherwise of those programmes.

I think that there is also a problem in terms of free childcare in relation to Flying Start, because it is available in five blocks of two and a half hours a week. That is not flexible enough to assist some parents to return to work or to take full advantage of the opportunity to take up training, or employment. The Family and Childcare Trust has found that that is too restrictive a situation, although I know that the support is appreciated by families who receive it, as I have spoken to many such families and have looked at the issue as a member of the Children, Young People and Education Committee as part of its work on this area.

That leaves me with a few specific questions of the Deputy Minister. As we all recognise that the benchmarking was not in place in 2006, what lessons has the Deputy Minister learnt from that for the evaluation of the expansion of Flying Start? He has suggested today that he hopes to see better evidence coming from the expansion of the programme under the current Government. How can he ensure that that is the case, and what lessons has he learnt? If he cannot tell us today, perhaps he could tell us at some point what the total Government expenditure on Flying Start has been from 2006 to date, so that we can look at the evaluation and see the expenditure of Government and the impact, or otherwise, that has happened as a result.

In the context of free childcare, has he received evidence that the way in which the free childcare is structured at present is a barrier to some parents and some families returning to the workplace or taking advantage of economic opportunities? Is he considering changing that in any way or making it more flexible? During a committee visit to schemes in Bon-y-maen in Swansea recently, I saw clearly that the childcare provided there was certainly of benefit to those young mothers who took advantage of it, but it was not sufficient for them to take opportunities to return to the workplace. So, in a way, they were better off, and that is obviously a positive, but it was not quite ambitious enough to allow them to move back to the workplace.

Yn olaf, a allwch chi, Ddirprwy Weinidog, ddweud rhywbeth heddiw ynglŷn â'r ffaith bod yr adroddiad a gwaith arall gan y Llywodraeth wedi cydnabod nad yw 'take-up' Dechrau'n Deg yn y Gymraeg wedi bod cystal ag yr oeddech yn gobeithio? Mae darpariaeth ar gael; nid oes 'doubt' am hynny, ond nid yw'n cael ei gymryd lan yn yr un ffordd gan rai teuluoedd, ac mae cwestiwn ynglŷn â sut mae'n cael ei hyrwyddo yn y cyd-destun hwnnw. Buaswn yn bendant am weld cynllun ymyrraeth gan y Llywodraeth—gan unrhyw Lywodraeth yng Nghymru—ynglŷn â'r plant a'r teuluoedd mwyaf amddifadus, ond y cwestiwn y mae'n rhaid imi ofyn yw: a yw'r cynllun hwn yn llwyddo ac yn effeithiol yn unol â'r gwariant sydd wedi ei roi iddo?

Finally, can you, Deputy Minister, say something today about the fact that the report and other work by Government recognise that the take-up of Flying Start through the medium of Welsh has not been as positive as you had hoped? There is provision available; there is no doubt about that, but the take-up is not quite as good among some families, and there are therefore questions as to how it is promoted in that context. I would certainly want to see a programme of intervention from the Government—from any Government in Wales—in relation to our most deprived children and families, but the question that I must ask is this: is this scheme successful and effective in accordance with the expenditure that has been made?

16:09

Vaughan Gething [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the Member for the questions. Again, on the comparator point, I tried to answer this before the question and previously here today. I just do not think it is a reasonable conclusion to suggest that a more advantaged cohort of people would not have greater achievement for them and their children without the Flying Start intervention. I really do think that the only reasonable conclusion to be made is that Flying Start has been the intervention that has made a difference. The research cannot give that cast-iron guarantee about it. I accept the point that is made, but I do not think that it is reasonable to conclude otherwise.

On the point you made about a duplication of services, clearly we are not going to withdraw programmes that exist within our poorest communities. That is why I have said that I want to see a much greater coherence between those programmes and to see them working much more closely together. So, where Flying Start and Communities First work in the same communities with the same families, I want to see them definitely working more closely together, because that has not always been the case. Some of the contact has been too incidental and not planned and delivered, and it is my very clear expectation that that will happen as a matter of course. In the meetings that I have already had across Wales, that message has been well received and Flying Start and Communities First are already talking together in a much more structured way. I think that that will improve outcomes.

On the points that you make about childcare and its flexibility or otherwise, it is deliberately designed to try to reach some of our poorest families who, at present, are often a long way away from the labour market. What I have seen in the way that Flying Start is set up is that it is often, for some of those parents, their first positive engagement with the world of learning. There are a number of barriers for the parents to overcome to get them to re-engage in their child's learning. So, the childcare element is not just about developing the child; it is also about what you can do for the adult.

Diolch i'r Aelod am y cwestiynau. Unwaith eto, o ran y cymharydd, ceisiais ateb hyn cyn y cwestiwn ac eisoes yma heddiw. Nid wyf yn credu ei bod yn rhesymol awgrymu na fyddai carfan fwy breintiedig o bobl a'u plant yn cyflawni'n well heb ymyrraeth Dechrau'n Deg. Credaf yn gryf mai'r unig gasgliad rhesymol i'w wneud yw mai Dechrau'n Deg yw'r ymyriad sydd wedi gwneud gwahaniaeth. Ni all y gwaith ymchwil roi'r sicrwydd cadarn hwnnw ynglŷn â hyn. Rwyf yn derbyn y pwynt sy'n cael ei wneud, ond nid wyf yn credu ei bod yn rhesymol dod i gasgliad gwahanol.

O ran y pwynt a wnaethoch am ddwyblygu gwasanaethau, yn amlwg nid ydym yn mynd i dynnu'n ôl y rhaglenni sy'n bodoli yn ein cymunedau tlotaf. Dyna pam yr wyf wedi dweud yr hoffwn weld llawer mwy o gydlynad rhwng y rhaglenni hynny a'u gweld yn cydweithio'n agosach o lawer. Felly, lle mae Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf yn gweithio yn yr un cymunedau gyda'r un teuluoedd, hoffwn eu gweld yn bendant yn cydweithio'n agosach, oherwydd nid yw hynny wedi digwydd bob amser. Mae rhywfaint o'r cyswllt wedi bod yn rhy achlysurol a heb ei gynllunio a'i gyflawni, ac rwyf yn disgwyl yn glir iawn y bydd hynny'n digwydd fel mater o drefn. Yn y cyfarfodydd yr wyf eisoes wedi'u cael ledled Cymru, mae'r neges honno wedi cael derbyniad da ac mae Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf eisoes yn siarad â'i gilydd mewn ffordd fwy strwythuredig o lawer. Rwyf yn meddwl y bydd hynny'n gwella canlyniadau.

O ran eich pwyntiau am ofal plant a'i hyblygrwydd neu fel arall, mae wedi ei gynllunio'n fwriadol i geisio cyrraedd rhai o'n teuluoedd tlotaf sydd, ar hyn o bryd, yn aml yn bell oddi wrth y farchnad lafur. Yr hyn yr wyf wedi'i weld yn y ffordd y mae Dechrau'n Deg yn cael ei sefydlu yw mai dyma, yn aml, yw ymgysylltiad cadarnhaol cyntaf rhai o'r rhieni hynny â byd dysgu. Mae nifer o rwystrau i'r rhieni eu goresgyn er mwyn ailymgysylltu â dysgu eu plentyn. Felly, nid yw'r elfen gofal plant yn fater o ddatblygu'r plentyn yn unig; mae hefyd yn fater o'r hyn y gallwch ei wneud i'r oedolyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I recognise that there is an issue with flexibility. There is also an issue in ensuring that we have a much greater take-up of childcare. Over 90% of sessions are taken up, but I still want to see more of those sessions being taken up as they exist. I recognise that, for some parents, the current structure is not the optimum, so I am interested in how we try to do more with that. However, thus far, childcare is one of the parts of the programme that has been most welcomed by parents, and it is certainly one of the best areas of take-up in the Flying Start programme.

On the exact expenditure, I indicated in my statement that it is nearly £0.5 billion. I will happily provide the exact figure of expenditure to the end of this financial year from the start of the programme; I think that that is reasonable.

With the evaluation of the expansion, I am definitely looking at how we understand the pre-intervention achievement that exists and then how we understand the post-intervention achievement. I think that there is an opportunity to do that with the expansion areas.

This will also be part of what we look for with regard to Welsh-medium provision, because, where we are expanding, some of that is to expand choice and availability of Welsh-medium provision. Flying Start is actually pretty good at responding to parental demand, and we have reinforced to local authorities their duty to be proactive in explaining and offering Welsh-medium provision.

It is fair to say that, in some parts of Wales, Welsh-medium provision is required—you cannot deliver Flying Start in Anglesey and Gwynedd, for example, unless you are able to deliver it through the medium of Welsh. In fact, they provide it solely through the medium of Welsh in those two counties.

I am keen to ensure that, wherever Flying Start is delivered, quality is the first point at which we look. Is the quality of the service and the quality of intervention right, and is that making a difference? If we are going to provide Welsh-medium provision, we have to ensure that the quality of it is right and that it is properly available. I think that the expansion will help us to do that, and I have made clear to officials that it is something that I want to see when we look at the outcomes from the expansion programme and the design and delivery of it. I am very happy to continue having constructive discussions with you and other Members—in all of the parties, to be fair—about how we deliver that through the Flying Start expansion.

Rwyf yn cydnabod bod materion yn ymwneud â hyblygrwydd. Mae materion hefyd yn ymwneud â sicrhau bod llawer mwy o bobl yn manteisio ar ofal plant. Mae dros 90% o sesiynau'n cael eu llenwi, ond rwyf yn dal i fod yn awyddus i weld mwy o'r sesiynau hynny'n cael eu llenwi fel y maent yn bodoli. Gwn nad y strwythur presennol yw'r un gorau i rai rhieni, felly mae gennyf ddiddordeb yn y ffordd yr ydym yn ceisio gwneud mwy â hynny. Fodd bynnag, hyd yma, mae gofal plant yn un o'r rhannau o'r rhaglen sydd wedi ei chroesawu fwyaf gan rieni, ac mae'n sicr yn un o'r meysydd gorau o ran y niferoedd sy'n manteisio arno yn y rhaglen Dechrau'n Deg.

O ran yr union wariant, nodais yn fy natganiad ei fod bron yn £0.5 biliwn. Byddaf yn falch o roi'r union ffigur gwariant hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon ers dechrau'r rhaglen; rwyf yn meddwl bod hynny'n rhesymol.

O ran gwerthuso'r ehangu, rwyf yn sicr yn edrych ar y ffordd yr ydym yn deall y cyrhaeddiad cyn ymyrryd sy'n bodoli ac yna'r ffordd yr ydym yn deall y cyrhaeddiad ar ôl ymyrryd. Credaf fod cyfle i wneud hynny gyda'r ardaloedd ehangu.

Bydd hyn hefyd yn rhan o'r hyn yr ydym yn chwilio amdano o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, oherwydd, lle'r ydym yn ehangu, mae rhywfaint o hynny er mwyn ehangu dewis ac argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae Dechrau'n Deg mewn gwirionedd yn eithaf da am ymateb i'r galw gan rieni, ac rydym wedi pwysleisio wrth yr awdurdodau lleol eu dyletswydd i fod yn rhagweithiol wrth egluro a chynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mae'n deg dweud bod angen darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn rhai rhannau o Gymru—ni allwch ddarparu Dechrau'n Deg yn Ynys Môn a Gwynedd, er enghraifft, oni bai eich bod yn gallu ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wir, dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y caiff ei ddarparu yn y ddwy sir hynny.

Rwyf yn awyddus i sicrhau, lle bynnag y caiff Dechrau'n Deg ei ddarparu, mai ansawdd yw'r pwynt cyntaf yr ydym yn edrych arno. A yw ansawdd y gwasanaeth ac ansawdd yr ymyriadau'n gywir, ac a yw hynny'n gwneud gwahaniaeth? Os ydym yn mynd i ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, rhaid inni sicrhau bod ei hansawdd yn iawn a'i bod ar gael yn briodol. Rwyf yn credu y bydd yr ehangu o gymorth inni i wneud hynny, ac rwyf wedi'i gwneud yn glir i swyddogion ei fod yn rhywbeth y hoffwn ei weld pan fyddwn yn edrych ar ganlyniadau'r rhaglen ehangu a'r ffordd y caiff ei chynllunio a'i ddarparu. Rwyf yn hapus iawn i barhau i gael trafodaethau adeiladol â chi ac Aelodau eraill—o bob plaid, a bod yn deg—ynghylch darparu hynny drwy ehangu Dechrau'n Deg.

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I start by saying that I very warmly welcome the expansion of Flying Start; I am one of the fans of Flying Start. I visited Flying Start at Ysgol Tan-y-lan this morning. Flying Start is important in ensuring that children in disadvantaged communities can start nursery having gained skills that they otherwise would not have gained—not starting school sometimes over a year behind, in developmental terms, children from more advantaged backgrounds. If people do not believe that this is working, I suggest that they go and talk to some primary school headteachers.

I have two questions. What is being done to expand Welsh-medium Flying Start? It is very important for children who come from English-speaking backgrounds, if they are going to take up Welsh, for them to be able to start speaking Welsh at the age of two rather than three; it becomes one of the first languages that they start using regularly rather than a second language that they pick up. Secondly, how will you ensure that seriously disadvantaged children who live near more prosperous communities gain access to Flying Start? May I just make a plea, which is that if people in Pembrokeshire and other areas do not want Flying Start, we will have it in Swansea East?

Dechreuaf drwy ddweud fy mod yn croesawu'n fawr iawn ehangu Dechrau'n Deg; rwyf yn un o gefnogwyr Dechrau'n Deg. Ymwelais â Dechrau'n Deg yn Ysgol Tan-y-lan y bore yma. Mae Dechrau'n Deg yn bwysig o ran sicrhau bod plant mewn cymunedau difreintiedig yn ennill sgiliau cyn dechrau yn y feithrinfia na fyddent fel arall wedi'u hennill—ac nad ydynt yn dechrau yn yr ysgol weithiau dros flwyddyn ar ei hôl hi, o ran eu datblygiad, o'u cymharu â phlant o gefndiroedd mwy breintiedig. Os nad yw pobl yn credu bod hyn yn gweithio, awgrymaf eu bod yn mynd i siarad â phenaethiaid ysgolion cynradd.

Mae gennyf ddau gwestiwn. Beth sy'n cael ei wneud i ehangu Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg? Mae'n bwysig iawn fod plant sy'n dod o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, os ydynt yn mynd i ddysgu Cymraeg, yn gallu dechrau siarad Cymraeg yn ddwy yn hytrach nag yn dair oed; mae'n dod yn un o'r ieithoedd cyntaf y maent yn dechrau eu defnyddio'n rheolaidd yn hytrach nag yn ail iaith y maent yn ei dysgu. Yn ail, sut y byddwch yn sicrhau bod plant dan anfantais ddifrifol sy'n byw'n agos at gymunedau mwy ffyniannus yn gallu manteisio ar Dechrau'n Deg? A gaf i wneud ple, sef os nad oes ar bobl yn sir Benfro ac ardaloedd eraill eisiau Dechrau'n Deg, y cawn ni ef yn Nwyrain Abertawe?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for his contribution and those questions. I think that he is right to highlight that primary school headteachers are often the biggest advocates of Flying Start in their communities because they see directly the difference that Flying Start makes. I have never heard a single headteacher say that they have received children who have gone through a Flying Start programme for whom it does not make a difference. How we present that and evaluate that difference is the important aspect of it.

On your points about Welsh-medium provision, when we look at the language in which Flying Start is being delivered, my first question is, 'What is the best way to improve the quality of this programme?' A number of those children have significant language development delay and there is an issue about ensuring that parents and their children engage in language development in the first place. When we then look at how we want to expand the availability of Flying Start through the medium of Welsh, that is partly what the expansion is going to deliver. For example, in her short debate, Leanne Wood raised the issue of Newport and said that Flying Start was not available in Welsh there at that time. I know that Newport has now recruited Welsh-medium providers, of the right quality to make a difference so that families in Newport have Welsh-medium options available to them. That is what I want to see happening through the programme.

Diolch i'r Aelod am ei gyfraniad a'r cwestiynau hynny. Rwyf yn meddwl ei fod yn iawn i dynnu sylw at y ffaith mai penaethiaid ysgolion cynradd yn aml yw eiriolwyr mwyaf Dechrau'n Deg yn eu cymunedau oherwydd eu bod yn gweld yn uniongyrchol y gwahaniaeth y mae Dechrau'n Deg yn ei wneud. Nid wyf erioed wedi clywed yr un pennaeth yn dweud ei fod wedi derbyn plant sydd wedi mynd drwy raglen Dechrau'n Deg nad yw wedi gwneud gwahaniaeth iddynt. Yr hyn sy'n bwysig yma yw'r ffordd yr ydym yn cyflwyno hynny ac yn gwerthuso'r gwahaniaeth hwnnw.

O ran eich pwyntiau am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, pan edrychwn ar iaith darparu Dechrau'n Deg, fy nghwestiwn cyntaf yw, 'Beth yw'r ffordd orau o wella ansawdd y rhaglen hon?' Mae datblygiad iaith nifer o'r plant hynny'n bell ar ei hôl hi ac mae problem ynglŷn â sicrhau bod rhieni a'u plant yn ymgysylltu â datblygiad iaith yn y lle cyntaf. Pan fyddwn yn edrych ar sut yr hoffem ehangu argaeledd Dechrau'n Deg drwy gyfrwng y Gymraeg, dyna'n rhannol y bydd yr ehangu'n ei wneud. Er enghraifft, yn ei dadl fer, soniodd Leanne Wood am Gasnewydd a dywedodd nad oedd Dechrau'n Deg ar gael yn y Gymraeg yno ar y pryd. Gwn fod Casnewydd bellach wedi recriwtio darparwyr cyfrwng Cymraeg, o'r ansawdd cywir i wneud gwahaniaeth fel bod opsiynau cyfrwng Cymraeg ar gael i deuluoedd yng Nghasnewydd. Dyna'r hyn yr wyf am ei weld yn digwydd drwy gyfrwng y rhaglen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

This comes back to the point about flexibility. There is always an issue around boundaries—wherever you draw a boundary, someone will fall outside it and will not be entitled to an intervention. We have included an extra element of flexibility through Flying Start outreach, so that more families just outside the borders of Flying Start are able to access the entitlement. It is a matter for the local authorities and health boards running the Flying Start programme to determine how that outreach will work, but it will be done in tandem with the Families First programme in order to understand where the greatest levels of need exist and to try to ensure that the entitlement reaches the people with the greatest level of need through the generic service or through an expanded and more flexible Flying Start service.

Daw hyn yn ôl at y pwynt am hyblygrwydd. Mae ffiniau bob amser yn destun trafod—lle bynnag y byddwch yn tynnu ffin, bydd rhywun yn syrthio y tu allan iddi ac ni fydd hawl ganddo i gael ymyriad. Rydym wedi cynnwys elfen ychwanegol o hyblygrwydd drwy allgymorth Dechrau'n Deg, fel bod mwy o deuluoedd sydd ychydig y tu allan i ffiniau Dechrau'n Deg yn gallu manteisio ar yr hawl. Mater i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd sy'n cynnal y rhaglen Dechrau'n Deg yw penderfynu sut y bydd yr allgymorth hwnnw'n gweithio, ond gwneir hynny ar y cyd â'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf er mwyn deall ble y mae'r angen mwyaf a cheisio sicrhau bod yr hawl yn cyrraedd y bobl sydd â'r angen mwyaf drwy'r gwasanaeth generig neu drwy wasanaeth Dechrau'n Deg mwy hyblyg wedi'i ehangu.

16:16

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf i hefyd eisiau bod yn gadarnhaol o ran y cynllun. Nid wyf yn meddwl ein bod ni, fel Aelodau'r gwrthbleidiau, yn cwestiynu'r ffaith bod angen y strategaeth ond yn hytrach yn gofyn i'r Llywodraeth a ddylai fod mor hunan-fodlon—dyna'r gair sy'n cael ei gynnwys yn y datganiad—ac mae'n ymddangos iddi fod dros y chwe blynedd diwethaf. Rwy'n meddwl y gellid cwestiynu ai'r rhaglen benodol hon sydd wedi creu'r llwyddiannau.

Y cwestiwn a ofynnodd Simon Thomas, gan ystyried eich bod wedi dweud bod diffyg o ran meincnodi yn y lle cyntaf—nid yw'n bosibl inni fynd yn ôl at hynny—oedd: a ydych chi wedi dysgu'r wers honno? A ydych chi wedi meincnodi yn yr ardaloedd sydd wedi derbyn y rhaglen o'r flwyddyn hon? Rwy'n meddwl bod angen inni weld gwerth am yr arian sylweddol a roddir i'r rhaglen hon o ran cyrhaeddiad plant a hefyd eu sgiliau cymdeithasol ac ati.

Rwy'n meddwl bod rhaid edrych ar yr adroddiad, sy'n dweud:

'There is, however, very limited data which provides conclusive evidence that families in Flying Start areas before the programme started from a lower baseline position for the outcomes measured in this evaluation.'

I understand what you are saying regarding the comparator with those families from the other cohort, but I think that there is a need for the Government to accept that there was a deficit in the first instance regarding that baseline. I also think that what we need from the Government is a clear understanding. When you say that you will intervene where there is no example of good practice being followed, what steps will you take from now on that you failed to take in the preceding five or six years? It is quite clear that some local authorities at the time of the evaluation report had not achieved the health visitor caseload, and had not ensured that their childcare settings were operating at full capacity or that there was high attendance, and in six areas the LAP offering was reported as being the same as that for non-Flying Start areas. Those are the questions that we are looking at.

I also want to be positive in terms of the scheme. I do not think that we, as Members of the opposition, question the need for the strategy but rather ask the Government whether it should be as content—that is the word that is used in the statement—as it seems to have been over the last six years. I think that we could question whether it is this particular programme that has led to the successes.

The question asked by Simon Thomas, considering that you said that there was a lack of benchmarking in the first place—it is not possible for us to go back to that—was: have you learned that lesson? Have you benchmarked in the areas that have received the programme from this year? I think that we need to see significant value for the money given to this programme in terms of the children's attainment and their social skills and so on.

I think that we have to look at the report, which states:

Mae data cyfyngedig iawn, fodd bynnag, sy'n rhoi tystiolaeth bendant fod teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn y rhaglen wedi dechrau o linell sylfaen is o ran y canlyniadau a fesurwyd yn y gwerthusiad hwn.

Rwyf yn deall yr hyn yr ydych chi ei ddweud ynglŷn â'r cymharydd â'r teuluoedd hynny o'r garfan arall, ond credaf fod angen i'r Llywodraeth dderbyn bod diffyg yn y lle cyntaf o ran y llinell sylfaen honno. Rwyf hefyd yn credu mai'r hyn sydd ei angen arnom gan y Llywodraeth yw dealltwriaeth glir. Pan ddywedwch y byddwch yn ymyrryd lle nad oes enghraifft o arfer da'n cael ei dilyn, pa gamau y byddwch yn eu cymryd o hyn allan na chymerwyd gennych yn ystod y pum neu chwe blynedd blaenorol? Mae'n eithaf amlwg nad oedd rhai awdurdodau lleol ar adeg yr adroddiad gwerthuso wedi cyflawni llwyth achosion yr ymwelwyr iechyd, ac nad oeddent wedi sicrhau bod eu lleoliadau gofal plant yn llawn neu bod presenoldeb uchel ynddynt, ac mewn chwe dywedwyd bod y ddarpariaeth LAP yr un fath ag mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Dyna'r cwestiynau yr ydym yn edrych arnynt.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Roedd Simon yn sôn ei fod ef wedi bod yn Abertawe gydag aelodau'r pwyllgor. Aeth Suzy Davies a finau i Wrecsam. Rwyf am ofyn i'r Dirprwy Weinidog edrych yn benodol ar rai ardaloedd lle mae cymysgedd o ran darpariaeth, lle mae'r cyngor sir yn dadwneud ei ddarpariaeth ei hun ac yn ei hadleoli o fewn Dechrau'n Deg, ac ar y dryswch ar lawr gwlad o ran pa gynnydd sydd ar gael i deuluoedd o fewn yr ardaloedd arbennig hynny.

Rwyf hefyd yn cydnabod bod y swyddogion, a chithau fel Dirprwy Weinidog, wedi ymateb i rai o'r cwynion a gafwyd o ran darpariaeth yn yr iaith Gymraeg, ond mae rhai o'r dadleuon a ddefnyddir yn awr—nad yw'n bosibl cyflwyno dwy iaith i blant ar adegau—yr un math o ddadleuon a gafwyd 10 neu 15 mlynedd yn ôl mewn achosion lle'r oedd y plentyn yn cael addysg arbennig. Y pwynt rydym yn ei wneud ydy: os yw'r rhieni hynny'n dewis bod eu plant yn mynd ymlaen i addysg Gymraeg yn dair oed, mae'n angenrheidiol bod y siroedd hynny'n cyflwyno'r ddarpariaeth yn y rhaglen hon.

Rwyf hefyd wedi bod i Garden City yn sir y Fflint. Rwy'n cymryd bod y ddarpariaeth y gwnaethoch chi gyfeirio ati yn Aberystwyth hefyd yn ddarpariaeth sy'n cael ei chyflwyno gan y Mudiad Meithrin. Mae angen cael trafodaeth genedlaethol i ofyn ai nhw yw'r bobl orau i gyflwyno'r fath ddarpariaeth os oes problemau ynghylch darpariaeth mewn rhai siroedd.

Yn olaf, rwy'n gofyn i chi edrych ar y ffaith bod gofyn am gymhwyster lefel 5 yn yr achosion hyn. Nid yw hyfforddiant lefel 5 ar gael ar hyn o bryd yn Gymraeg, ac mae hynny yn rhwystr ar adegau hefyd. Felly, rwy'n croesawu'r datblygiad a bod y cynllun yn cael ei ehangu, ond mae'n rhaid i ni fod yn hunan-feirniadol ac rwy'n gofyn i chi sicrhau y gallwn ddweud mewn ychydig o flynyddoedd mai'r rhaglen benodol hon sy'n gyfrifol am lwyddiant, os mai dyna'r sefyllfa.

Simon said that he has been to Swansea with committee members. Suzy Davies and I went to Wrexham. I want to ask the Deputy Minister to look specifically at some areas where there is a mix in terms of provision, where the county council is undoing its own provision and relocating it within Flying Start, and at the confusion on the ground in terms of what offer is available to families within those particular areas.

I also recognise that officials, and you as Deputy Minister, have responded to some of the complaints received in respect of the provision in the Welsh language, but some of the arguments that are used now—that it is not possible to introduce two languages to children at times—are the same kind of arguments used 10 or 15 years ago in cases where the child was receiving special education. The point that we are making is this: if the parents choose Welsh-medium education for their children at the age of three, it is necessary for those counties to introduce the provision in this programme.

I have also been to Garden City in Flintshire. I take it that the provision that you referred to in Aberystwyth is also provided by Mudiad Meithrin. There needs to be a national debate as to whether they are the best people to introduce such provision if there are problems with regard to the provision in some counties.

Finally, I ask you to look at the fact that a level 5 qualification is needed in these cases. Level 5 training is not currently available in Welsh, and that is also a barrier at times. Therefore, I welcome the development and that the scheme will be expanded, but we have to be self critical and I ask you to ensure that we can say in a few years' time that this particular programme is responsible for the success, if that is the situation.

16:21 Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for those questions. I will start on the points raised about Welsh-medium provision. I will be clear that there is a proactive duty on local authorities to promote the availability of Welsh-medium provision and to meet the need and demand that exists as far as is practicable and possible. We have been very clear, and new reinforced guidance went back out to local authorities at the end of October last year. Therefore, I do not think that they are in any doubt about what our expectation is. In terms of responding to requests for Welsh-medium provision, the local authorities are pretty good at meeting those responses. As I was explaining, part of what we are looking for in the expansion is to ensure that we have provision that matches need and demand.

Diolch i'r Aelod am y cwestiynau hynny. Dechreuaf â'r pwyntiau a godwyd ynglŷn â darpariaeth cyfrwng Gymraeg. Byddaf yn glir bod dyletswydd ragweithiol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo argaeledd darpariaeth cyfrwng Gymraeg ac i fodloni'r angen a'r galw sy'n bodoli cyn belled ag y bo'n ymarferol ac yn bosibl. Rydym wedi bod yn glir iawn, ac aeth canllawiau newydd wedi'u hatgyfnerthu yn ôl allan i awdurdodau lleol ddiwedd mis Hydref y llynedd. Felly, nid wyf yn credu bod ganddynt unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl. O ran ymateb i geisiadau am ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg, mae'r awdurdodau lleol yn eithaf da am fodloni'r ymatebion hynny. Fel yr oeddwn yn ei egluro, rhan o'r hyn yr ydym yn ei geisio wrth ehangu yw sicrhau bod gennym ddarpariaeth sy'n cyfateb i'r angen a'r galw.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Within that proactive promotion—and it goes back to your point around skill levels—the quality of the intervention that takes place is important. On the point of whether Mudiad are the right people to do everything, it is a matter for the people who are commissioning Flying Start to ensure that the right quality of service comes in. Account managers here taught Flying Start managers to ensure that the right intervention is going out and that the quality meets the needs of those particular communities. I do not mind or care who is providing that; I care about the quality of that provision. Therefore, I am not interested in protecting one organisation or another; I am interested in ensuring that the right provision is made to make a difference for the children and families who have those needs, as we have identified.

Returning to your point about skill levels for staff and for managers, there is a wider discussion within the Welsh Government around what we do to upskill the whole childcare workforce. Therefore, it is an active discussion that we are having, and we will certainly look at ensuring that the right levels of qualifications that match the need and the quality of service that you want to provide are available in English and Welsh for staff to train in.

I was concerned to hear your point about confusion about what is on offer. I would be grateful if you could write to me with some specifics on that so that I can try to address it. Typically, what we find with Flying Start is that, after it has been in place for a short period of time, health visitors are well aware that it is in place and available: they go out and actively promote the service and parents want to have Flying Start. Normally, the problem involves those parents outside Flying Start areas who want to try to get into it, rather than people not being aware of where the provision is and how it is available. If people are scaling back on alternative provision, we need to look at that. There is a choice and challenge here about how Flying Start and other childcare interventions actually work between the maintained and the non-maintained sector. We do not want to drive childcare businesses out of business, because we recognise that achieving all of our ambitions on wider childcare provision requires a strong and healthy non-maintained sector.

In terms of improvement, I see that as being partly about take-up. You mentioned a number of aspects where there was a reduced level of take-up on all four elements of Flying Start. We need to remember that they are not compulsory. You go through and you have access to the enhanced health visitor service, and that increased interaction makes a big difference for many families. Not every family will need the same level, for example, of early language play and language development. Those are options for parents to undertake, and they can decide not to undertake them. Nevertheless, I think that it is entirely reasonable to look at those areas where they manage to more successfully engage parents in undertaking all those options, because I do not believe that the current figures properly match different levels of need within different local authority areas. That comes back to the point about the quality of provision as well.

O fewn y gwaith hyrwyddo rhagweithiol hwnnw—ac mae hyn yn mynd yn ôl at eich pwynt ynglŷn â lefelau sgiliau—mae ansawdd yr ymyriad sy'n digwydd yn bwysig. O ran y cwestiwn ynghylch a'r Mudiad yw'r bobl iawn i wneud popeth, mater i'r bobl sy'n comisiynu Dechrau'n Deg yw sicrhau bod gwasanaeth o'r ansawdd cywir yn dod i mewn. Mae rheolwyr cyfrifon yma wedi dysgu rheolwyr Dechrau'n Deg i sicrhau bod yr ymyriad cywir yn cael ei ddarparu a bod yr ansawdd yn bodloni anghenion y cymunedau penodol hynny. Nid wyf yn malio nac yn poeni pwy sy'n darparu hynny; rwyf yn poeni am ansawdd y ddarpariaeth honno. Felly, nid oes gennyf ddiddordeb mewn diogelu un sefydliad neu'i gilydd; mae gennyf ddiddordeb mewn sicrhau bod y ddarpariaeth gywir yn cael ei chynnig i wneud gwahaniaeth i'r plant a'r teuluoedd sydd â'r anghenion hynny, fel yr ydym wedi'i nodi.

A dychwelyd at eich pwynt am lefelau sgiliau staff a rheolwyr, mae trafodaeth ehangach o fewn Llywodraeth Cymru am yr hyn yr ydym yn ei wneud i wella sgiliau'r holl weithlu gofal plant. Felly, mae'n drafodaeth yr ydym wrthi'n ei chynnal, a byddwn yn sicr yn edrych ar sicrhau bod y lefelau cywir o gymwysterau sy'n cyd-fynd â'r angen ac ag ansawdd y gwasanaeth yr ydych am ei ddarparu ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg wrth i staff hyfforddi.

Roeddwn yn bryderus o glywed eich pwynt am ddryswch ynghylch yr hyn sydd ar gael. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu ataf â rhai manylion penodol am hynny fel y gallaf geisio ymdrin â'r mater. Fel arfer, yr hyn a welwn gyda Dechrau'n Deg yw bod ymwelwyr iechyd, ar ôl iddo fod ar waith am gyfnod byr, yn ymwybodol ei fod yno ac ar gael: maent yn mynd allan ac yn mynd ati i hyrwyddo'r gwasanaeth ac mae eisiau Dechrau'n Deg ar rieni. Fel arfer, mae'r broblem yn ymwneud â'r rhieni hynny y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg a hoffai gael y gwasanaeth, yn hytrach na phobl nad ydynt yn ymwybodol o ble mae'r ddarpariaeth a sut y mae ar gael. Os yw pobl yn cwtogi ar ddarpariaethau amgen, mae angen inni edrych ar hynny. Mae dewis a her yma ynglŷn â'r ffordd y mae Dechrau'n Deg ac ymyriadau gofal plant eraill yn gweithio mewn gwirionedd rhwng y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir. Nid ydym am yrru busnesau gofal plant i'r wal, oherwydd rydym yn cydnabod bod angen sector nas cynhelir sy'n gryf ac yn iach i gyflawni ein holl uchelgeisiau ar gyfer darpariaeth gofal plant ehangach.

O ran gwella, credaf fod hynny'n ymwneud i raddau â niferoedd. Soniasoch am nifer o agweddau lle'r oedd niferoedd is yn manteisio ar bob un o bedair elfen Dechrau'n Deg. Mae angen inni gofio nad ydynt yn orfodol. Rydych yn mynd drwodd ac mae'r gwasanaeth estynedig ymwelwyr iechyd ar gael ichi, ac mae'r rhyngweithio ychwanegol hwnnw'n gwneud gwahaniaeth mawr i lawer o deuluoedd. Ni fydd ar bob teulu angen yr un lefel, er enghraifft, o chwarae iaith a datblygiad iaith cynnar. Opsiynau i'r rhieni yw'r rheini, a gallant benderfynu peidio â'u defnyddio. Serch hynny, credaf ei bod yn gwbl resymol edrych ar yr ardaloedd hynny lle maent yn cael mwy o lwyddiant o ran denu rhieni i ymgymryd â'r holl ddewisiadau hynny, oherwydd nid wyf yn credu bod y ffigurau presennol yn cyd-fynd yn briodol â gwahanol lefelau o angen o fewn ardaloedd gwahanol awdurdodau lleol. Mae hynny'n dod yn ôl at y pwynt am ansawdd y ddarpariaeth hefyd.

You made the point that has been made by each of the party spokespersons about the baseline when Flying Start was introduced. There is always a challenge about how much money and effort you put into delivering a baseline, rather than delivering a service. This is where we are; I have been very upfront about where we are with Flying Start as it is now. I have also been very upfront about looking at what happens with the expansion. I want to understand more about where Flying Start starts, in terms of the new provision that goes into communities for the first time. We can understand that more from the health visitor service that already exists about what it already has and recognises in those communities, and also from schools in those areas. So, in the future, we will have a much more robust basis for understanding what difference a Flying Start intervention has had. That, after all, is the point. That is why we are doubling the service—to make that decisive difference. Even in these most difficult financial times, when budgets are being cut, we are expanding Flying Start and putting more money into helping our most disadvantaged families.

Gwnaethoch y pwynt y mae llefarwyr pob un o'r pleidiau wedi'i wneud am y llinell sylfaen pan gyflwynwyd Dechrau'n Deg. Mae her bob amser ynghlwm wrth faint o arian ac ymdrech a roddwch i ddarparu llinell sylfaen, yn hytrach na darparu gwasanaeth. Dyma ble'r ydym; rwyf wedi bod yn onest iawn am ein sefyllfa o ran Dechrau'n Deg fel ag y mae. Rwyf hefyd wedi bod yn onest iawn ynghylch edrych ar yr hyn sy'n digwydd wrth inni ehangu. Hoffwn ddeall mwy am ble y mae Dechrau'n Deg yn dechrau, o ran y ddarpariaeth newydd sy'n mynd i mewn i gymunedau am tro cyntaf. Gallwn ddeall mwy am hynny o ran gwasanaeth yr ymwelwyr iechyd sydd eisoes yn bodoli a'r hyn sydd ganddo eisoes a'r hyn y mae'n ei gydnabod yn y cymunedau hynny, a hefyd o ran ysgolion yn yr ardaloedd hynny. Felly, yn y dyfodol, bydd gennym sail lawer mwy cadarn i ddeall pa wahaniaeth y mae ymyriad Dechrau'n Deg wedi'i wneud. Dyna, wedi'r cyfan, yw'r pwynt. Dyna pam yr ydym yn dyblu'r gwasanaeth—i wneud y gwahaniaeth pendant hwnnw. Hyd yn oed yn y cyfnod ariannol anodd hwn, pan fo cyllidebau'n cael eu torri, rydym yn ehangu Dechrau'n Deg ac yn rhoi mwy o arian i helpu ein teuluoedd mwyaf difreintiedig.

16:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister.

Diolch, Ddirprwy Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Adroddiad Blynyddol Estyn 2012-13

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies, amendments 3 and 4 in the name of Aled Roberts, and amendments 5, 6 and 7.

Cynnig NDM5442 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2012-13.

The Estyn Annual Report 2012-13

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies, gwelliannau 3 a 4 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 5, 6 a 7.

Motion NDM5442 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes the annual report for 2012-13 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.

16:26

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

I move the motion.

I open this debate today by thanking the chief inspector for this year's annual report. Ann Keane's report affords us an important opportunity to discuss the strategic issues facing Welsh education, and I look forward to hearing contributions from across the Chamber today.

This is a pivotal year for Welsh education. The Programme for International Student Assessment results published in December 2013 provided clear supporting evidence of the scale of the education challenge lying ahead of us over the next few years. In many ways, the results vindicate the judgment of the Welsh Government of the need for a new approach to basic standards and the wholesale transformation of the accountability framework in Welsh education.

Cynigiau y cynnig.

Agoraf y ddadl hon heddiw drwy ddiolch i'r prif arolygydd am adroddiad blynyddol eleni. Mae adroddiad Ann Keane yn rhoi cyfle pwysig inni i drafod y materion strategol sy'n wynebu addysg yng Nghymru, ac edrychaf ymlaen at glywed cyfraniadau o bob rhan o'r Siambr heddiw.

Mae hon yn flwyddyn allweddol i addysg yng Nghymru. Roedd canlyniadau'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013 yn rhoi tystiolaeth ategol glir o faint yr her o ran addysg sy'n ein hwynebu dros y blynyddoedd nesaf. Mewn sawl ffordd, mae'r canlyniadau'n cyfiawnhau barn Llywodraeth Cymru o ran yr angen am ymagwedd newydd at safonau sylfaenol a thrawsnewid fframwaith atebolrwydd addysg yng Nghymru'n gyfan gwbl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Over the last three years, we have been delivering the long-term changes to transform Welsh schools, colleges and universities and raise attainment for all learners at all levels.

This year's Estyn report highlights many of the critical issues that we need to overcome if we are to build that high-achieving, high-aspiration system. At its heart, a good education relies on a few, essentially quite simple, core ingredients. It requires a good teacher in front of an engaged set of pupils in a stimulating learning environment. That is why one of the most important messages coming out of this year's report is the work that we still have to do to improve the quality of teaching and learning in our schools.

Currently, the variability in teaching and learning is much too high. While the proportion of excellent teaching in our secondary schools has increased from 10% to 15% over the last three years, we have seen an increase also in the proportion of teaching that is not good enough or barely adequate. In the primary sector too, this is an issue. The quality of teaching that is adequate or unsatisfactory has increased from 18% to 26% over the same period. This is something that we need to bear down on if we are to move the system forward and raise standards across the board in Welsh education.

Far too few of our providers have excellent standards—just 3% at primary level, 15% at secondary level and none in further education. At secondary level, almost a quarter of providers of education were judged to be unsatisfactory.

I am grateful to have met with the chief inspector to discuss these issues, and I agree with her conclusion that we need to see improvements in five key areas if we are to achieve the step change in Welsh education that we all want to see.

As I say, the key issues are small in number, they are relatively simple and they are to be found on page 26 of the Estyn annual report. I encourage everyone in Welsh education to read, if nothing else, that page, and to take to heart what is said there. Those five key areas are teaching, literacy and numeracy, assessment, self-evaluation and the development of Welsh language skills. They all need to improve if we want to take the system forward.

So, my message today is a clear one. Everyone needs to embrace the challenges contained in this report, and everyone in the sector now needs to work with us if we are to raise standards across the board. A concrete example of where we need to see this work is in developing the national model for regional working. It provides an important blueprint for collaborative working between local authorities, consortia and schools, but it now needs buy-in from right across the sector if it is genuinely going to drive forward school improvement and raise the standards of teaching and learning in our schools.

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi bod yn cyflawni'r newidiadau hirdymor i drawsnewid ysgolion, colegau a phrifysgolion Cymru a chodi cyrhaeddiad yr holl ddysgwyr ar bob lefel.

Mae adroddiad Estyn eleni'n tynnu sylw at lawer o'r materion allweddol y mae angen inni eu goresgyn os ydym am adeiladu'r system honno sy'n cyflawni dyheadau uchel. Yn ei hanfod, mae addysg dda'n dibynnu ar ychydig o gynhwysion craidd digon syml. Mae angen athro da o flaen set o ddisgyblion sydd wedi ymgysylltu mewn amgylchedd dysgu sy'n eu hysgogi. Dyna pam mai un o'r negeseuon pwysicaf sy'n deillio o'r adroddiad eleni yw'r gwaith y mae'n dal i fod angen inni ei wneud i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion.

Ar hyn o bryd, mae gormod o amrywiaeth o lawer o ran dysgu ac addysgu. Er bod cyfran yr addysgu rhagorol yn ein hysgolion uwchradd wedi codi o 10% i 15% dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd hefyd yng nghyfran yr addysgu nad yw'n ddigon da, neu sydd prin yn ddigonol. Yn y sector cynradd hefyd, mae hyn yn broblem. Mae ansawdd yr addysgu sy'n ddigonol neu'n anffodhaol wedi cynyddu o 18% i 26% dros yr un cyfnod. Mae hyn yn rhywbeth y mae angen inni ymdrin ag ef os ydym am symud y system ymlaen a chodi safonau mewn addysg drwyddi draw yng Nghymru.

Mae rhy ychydig o lawer o'n darparwyr yn cyflawni safonau rhagorol—dim ond 3% ar lefel gynradd, 15% ar lefel uwchradd a dim mewn addysg bellach. Ar lefel uwchradd, barnwyd bod bron i chwarter y darparwyr addysg yn anffodhaol.

Rwyf yn ddiolchgar o fod wedi cwrdd â'r prif arolygydd i drafod y materion hyn, ac rwyf yn cytuno â'i chasgliad bod angen inni weld gwelliannau mewn pum maes allweddol os ydym am gyflawni'r newid sylweddol mewn addysg yng Nghymru yr hoffem i gyd ei weld.

Fel y dywedais, nifer bach o faterion allweddol sydd, maent yn gymharol syml ac maent i'w gweld ar dudalen 26 adroddiad blynyddol Estyn. Rwyf yn annog pawb ym myd addysg yng Nghymru i ddarllen y dudalen honno, o leiaf, ac i ystyried o ddifrif yr hyn a ddywedir yno. Y pum maes allweddol hynny yw addysgu, llythrennedd a rhifedd, asesu, hunanwerthuso a datblygu sgiliau Cymraeg. Mae angen iddynt i gyd wella os ydym am symud y system yn ei blaen.

Felly, mae fy neges heddiw'n un glir. Mae angen i bawb gofleidio'r heriau a geir yn yr adroddiad hwn, ac mae angen i bawb yn y sector weithio gyda ni nawr os ydym am godi safonau ym mhob maes. Un enghraifft benodol o ble y mae angen inni weld y gwaith hwn yw wrth ddatblygu'r model cenedlaethol ar gyfer gweithio rhanbarthol. Mae'n lasbrint pwysig ar gyfer cydweithio rhwng awdurdodau lleol, consortia ac ysgolion, ond yn awr y mae arno angen cefnogaeth o bob rhan o'r sector os yw am wella ysgolion a chodi safonau dysgu ac addysgu yn ein hysgolion.

Moving on to post 16, there is encouraging evidence in this year's report that the call for greater collaboration in further education is yielding results. The chief inspector's report praises colleges' responsiveness, and the culture of collaboration fostered in response to the transformation agenda. This has resulted in a series of mergers so that we now have fewer, but more focused FE colleges. I very much welcome this. I see the FE sector at the vanguard of the new collaborative approach that we need to build throughout Welsh education—a new approach built on the tenets of social partnership.

A symud ymlaen at ddarpariaeth ôl-16, mae tystiolaeth galonogol yn yr adroddiad eleni fod y galw am fwy o gydweithio ym maes addysg bellach yn esgor ar ganlyniadau. Mae adroddiad y prif arolygydd yn canmol ymatebolrwydd colegau, a'r diwylliant o gydweithio sydd wedi'i feithrin yn sgil yr agenda trawsnewid. Mae hyn wedi arwain at gyfres o uniadau fel bod gennym yn awr lai o golegau addysg bellach, ond bod eu ffocws yn fwy penodol. Rwyf yn croesawu hyn yn fawr iawn. Yn fy marn i mae'r sector addysg bellach ar flaen y gad o ran y dull cydweithredol newydd y mae angen inni ei feithrin ym myd addysg yng Nghymru drwyddi draw—dull newydd yn seiliedig ar bartneriaeth gymdeithasol.

One area where we could see better partnership working is among our local authorities. Clearly, more work needs to be done to improve their education services. Of the eight local authorities inspected this year, four require special measures and three require Estyn monitoring. This simply is not good enough. But, there is a glimmer of hope. Although not in this year's report, I am sure that we all welcomed news that Ceredigion has been judged to be excellent by Estyn. Other local authorities in Wales now need to carefully study the Ceredigion model with a view to replicating the best practice that Estyn found there in their own authorities. It is clear that we have excellence in our system—we always have had it. The problem is that we have never had enough of it and, too often, it has been too isolated from other parts of the system that can benefit from the instructive lessons that it holds.

Un maes lle gallwn weld gwell gweithio mewn partneriaeth yw ein hawdurdodau lleol. Yn amlwg, mae angen gwneud mwy i wella eu gwasanaethau addysg. O'r wyth awdurdod lleol a arolygwyd eleni, mae angen mesurau arbennig ar bedwar ac angen monitro gan Estyn ar dri. Nid yw hyn yn ddigon da. Ond, mae llygedyn o obaith. Er nad yw yn adroddiad eleni, rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn croesawu'r newyddion bod Estyn wedi barnu bod Ceredigion yn rhagorol. Mae angen i awdurdodau lleol eraill Cymru yn awr astudio model Ceredigion yn ofalus gyda golwg ar efelychu'r arfer gorau a ganfuwyd gan Estyn yno yn eu hawdurdodau eu hunain. Mae'n amlwg bod gennym ragoriaeth yn ein system—mae bob amser wedi bod yno. Y broblem yw na fu erioed ddigon ohoni ac, yn rhy aml, mae wedi bod ar wahân i rannau eraill o'r system a all elwa ar y gwersi addysgiadol sydd ganddi.

16:32 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, will you take an intervention?

Weinidog, a wnewch chi dderbyn ymyriad?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:32 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you give way, Minister?

A wnewch chi ildio, Weinidog?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:32 **Huw Lewis** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, very briefly.

Iawn, yn fyr iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:32 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is just a very brief one, Minister. I agree with you that there is excellence in the Welsh education system, as seen by a recent inspection report that was published in respect of Ysgol y Foryd in my own constituency, in Kinnel Bay. Will you agree with me that that sort of excellence is precisely what we want to see in other schools across Wales? How do you intend to achieve that from school to school in terms of best practice, rather than local authority wide?

Un byr iawn ydyw, Weinidog. Cytunaf â chi fod rhagoriaeth yn system addysg Cymru, fel y gwelwyd mewn adroddiad arolygu diweddar a gyhoeddwyd ar gyfer Ysgol y Foryd yn fy etholaeth i, ym Mae Cinnel. A wnewch chi gytuno â mi mai'r math hwnnw o ragoriaeth yw'r union beth yr ydym am ei weld mewn ysgolion eraill ledled Cymru? Sut ydych chi'n bwriadu cyflawni hynny o ysgol i ysgol o ran arfer gorau, yn hytrach nag yn ôl awdurdodau lleol?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:32

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Of course I join the Member in congratulating the team at Ysgol y Foryd in terms of its excellent rating and excellent prospects for improvement. Whether it is outstanding leadership in schools like that, and which we have found at Mount Stuart Primary School in Cardiff, effective intervention at Maesteg Comprehensive School, the productive partnerships that we see at Portfield Special School, or the focus on literacy and numeracy at Yale College in Wrexham, the report makes clear that we have much to be proud of in Wales—Ysgol y Foryd included. As the Member says, we now need to spread this excellence throughout the system. That is what I propose to do. I hope that next year's report will show the progress that we are all striving to secure and are anxious to see.

Wrth gwrs, rwyf yn ymuno â'r Aelod i longyfarch tîm Ysgol y Foryd am ei sgôr ragorol a'i rhagolygon rhagorol ar gyfer gwella. O'r arweinyddiaeth ragorol mewn ysgolion fel hon, ac yn Ysgol Gynradd Mount Stuart yng Nghaerdydd, i'r ymyriad effeithiol yn Ysgol Gyfun Maesteg, i'r partneriaethau cynhyrchiol a welwn yn Ysgol Arbennig Portfield, a'r pwyslais ar lythrennedd a rhifedd yng Ngholeg Iâl yn Wrecsam, mae'r adroddiad yn ei gwneud yn glir bod gennym lawer i fod yn falch ohono yng Nghymru—gan gynnwys Ysgol y Foryd. Fel y mae'r Aelod yn ei ddweud, mae angen inni yn awr ledaenu'r rhagoriaeth hon drwy gydol y system. Dyna'r hyn yr wyf yn bwriadu ei wneud. Rwyf yn gobeithio y bydd adroddiad y flwyddyn nesaf yn dangos y cynnydd yr ydym i gyd yn ymdrechu i'w sicrhau ac yn awyddus i'w weld.

16:33

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister. I have selected the seven amendments to the motion and I call on Angela Burns to move amendments 1 and 2.

Diolch, Weinidog. Rwyf wedi dethol y saith gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Angela Burns i gynnig gwelliannau 1 a 2.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn gresynu nad yw safonau addysg yng Nghymru wedi gwella, ar y cyfan, a bod:

Regrets that standards of education in Wales have not improved in the main and that:

a) y gyfran o ysgolion uwchradd sydd wedi cael eu brandio yn 'anfodhaol' wedi cynyddu o 14% i 23%;

a) the proportion of secondary schools branded 'unsatisfactory' increased from 14% to 23%;

b) ysgolion rhagorol yn parhau i fod yn lleiafrif bychan; ac

b) excellent schools remain in a small minority; and

c) bod angen cynnal arolygiadau dilynol ar ddwy ran o dair o ysgolion uwchradd, a hanner yr ysgolion cynradd.

c) two thirds of secondary schools and half of primary schools are in need of follow-up inspections.

Gwelliant 2—Paul Davies

Amendment 2—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hybu morâl athrawon yn ysgolion Cymru.

Believes that the Welsh Government must do more to boost the morale of teachers in Welsh schools.

16:33

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 1 and 2.

Cynigiau welliannau 1 a 2.

I am delighted to move those amendments and I would like to add my voice to that of the Minister and thank the chief inspector and her team for her significant report. There is an awful lot of information in it and there is much that can be said on almost every aspect of education that she touches upon.

Mae'n bleser gennyf gynnig y gwelliannau hynny a hoffwn innau, fel y Gweinidog, ddiolch i'r prif arolygydd a'i tîm am ei hadroddiad pwysig. Mae llawer iawn o wybodaeth ynddo ac mae llawer y gellir ei ddweud ar bron pob agwedd ar addysg y mae'n ei chrybwyll.

Having moved the amendments, I repeat again that I would ask the Assembly to regret the proportion of secondary schools that are branded 'unsatisfactory', which has increased from 14% to 23%; to regret that excellent schools remain in a minority; and, to regret that two thirds of secondary schools and half of primary schools are in need of follow-up inspections.

However, there is also much to welcome in this report. There are some very positive aspects that the Minister identified. In fact, as my colleague Darren Millar has just mentioned, there is much good practice out there that we need to translate across. For example, in terms of wellbeing, the inspector had a lot of very positive words to say about the increase in the wellbeing of our children.

In some areas where you think that it might be all doom and gloom, in fact, there are also rays of light. So, if we look at the area of standards, we see that standards are similar, standards are worse in a great many of our schools, but, 'where standards are excellent'—and I am quoting directly from the report:

'There is little difference between the performance of different groups of pupils, including pupils entitled to free school meals.'

Now, one of our great cries that we make here in education is that we want to raise standards and close that attainment gap, and, of course, we know that one of the reasons that the high-ranking nations in PISA are successful is that they stop children from falling out of their education system. They keep them in the education system and help to raise those standards. Therefore, here we have a solution; if we can raise standards throughout our schools, that in itself will bring up the standards of children from poorer and more deprived backgrounds. It is a glimmer of light and one that we should latch on to and hold to our hearts as a reason why it is so important that we really push that standards agenda, and because of that, I will be welcoming the Plaid Cymru amendments on this issue.

I would like to turn my attention very briefly to mitigating the impact of poverty in schools, and it is very interesting because we have just had a quick statement from the Deputy Minister on Flying Start. I would not like to incur the wrath of Mike Hedges again, but Pembrokeshire people have critical facilities, and I wish to make a couple of observations. While I agree with the chief inspector and her commentary on the important role that mitigating the impact of poverty should play in the role of schools and in the role of teachers, I want to make very sure that, in that effort, we do not lose sight of the core, which is teaching, because there is a lot, Minister, that is talked about in here, such as asking teachers to develop the social and emotional skills of children, to give them support for their wellbeing, to look at their attendance and behaviour, to look at how to target those children and to look after their social requirements as well. The sad fact of the matter is that it is going to take more than just teachers to help some of these kids. We need a broad brush of services to be involved and what I would not like to see is that drive—which is very laudable, and I do support it—eclipsing the absolute importance of teaching. I do not want to lose that in our mix.

A minnau wedi cynnig y gwelliannau, gofynnaf unwaith eto i'r Cynulliad resynu at gyfran yr ysgolion uwchradd sy'n cael eu galw'n 'anfoddhaol', sydd wedi codi o 14% i 23%; i resynu bod ysgolion rhagorol yn dal i fod yn lleiafrif, ac i resynu bod angen arolygiadau dilynol ar ddwy ran o dair o'r ysgolion uwchradd a hanner yr ysgolion cynradd.

Fodd bynnag, mae llawer i'w groesawu yn yr adroddiad hwn hefyd. Mae rhai agweddau cadarnhaol iawn y mae'r Gweinidog wedi'u nodi. Yn wir, fel y mae fy nghydweithiwr Darren Millar newydd ei grybwyll, mae llawer o arfer da y mae angen inni ei ledaenu. Er enghraifft, o ran lles, roedd gan yr arolygydd lawer o eiriau cadarnhaol iawn i'w dweud am gynnydd yn lles ein plant.

Mewn rhai meysydd lle'r ydych yn credu y gallai fod yn ddu i gyd, mewn gwirionedd, mae yno hefyd belydrau o oleuni. Felly, os edrychwn ar safonau, gwelwn fod safonau yn debyg, mae safonau yn waeth mewn llawer iawn o'n hysgolion, ond, lle mae safonau'n rhagorol—ac rwyf yn dyfynnu'n uniongyrchol o'r adroddiad:

'Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng perfformiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim.'

Yn awr, un o'r galwadau mawr a wnawn yma o ran addysg yw ein bod am godi safonau a chau'r bwlch cyrhaeddiad, ac, wrth gwrs, rydym yn gwybod mai un o'r rhesymau pam mae'r cenhedloedd sy'n sgorio'n uchel yn PISA yn llwyddiannus yw eu bod yn atal plant rhag syrthio allan o'u system addysg. Maent yn eu cadw yn y system addysg ac yn helpu i godi'r safonau hynny. Felly, mae gennym ateb yma; os gallwn godi safonau ar draws ein hysgolion, bydd hynny ynddo'i hun yn codi safonau plant o gefndiroedd tlotach a mwy difreintiedig. Mae'n llygedyn o oleuni ac yn un y dylem gydio ynddo a'i ddal wrth ein calonau fel rheswm pam ei bod mor bwysig ein bod yn mynd ati i wthio'r agenda safonau, ac o'r herwydd, byddaf yn croesawu gwelliannau Plaid Cymru yn hyn o beth.

Hoffwn droi fy sylw yn fyr iawn at liniaru effaith tlodi mewn ysgolion, ac mae'n ddiddorol iawn gan ein bod newydd gael datganiad cyflym gan y Dirprwy Weinidog ar Dechrau'n Deg. Ni fyddwn yn hoffi ennyn lliid Mike Hedges eto, ond mae gan bobl sir Benfro gyfleusterau allweddol, a hoffwn wneud un neu ddau o sylwadau. Er fy mod yn cytuno â'r prif arolygydd a'i sylwadau am y rhan bwysig y dylai lliniaru effaith tlodi ei chwarae yn rôl ysgolion ac yn rôl athrawon, rwyf am wneud yn hollol siŵr, yn yr ymdrech honno, nad ydym yn colli golwg ar galon y mater, sef addysgu, oherwydd mae llawer, Weinidog, yn cael ei drafod yma, megis gofyn i athrawon ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol plant, rhoi cefnogaeth iddynt o ran eu lles, edrych ar eu presenoldeb a'u hymddygiad, edrych ar sut i dargedu'r plant hynny a gofalu am eu gofynion cymdeithasol yn ogystal. Y gwir trist amdani yw y bydd angen mwy na dim ond athrawon i helpu rhai o'r plant hyn. Mae angen i ystod eang o wasanaethau ymwneud â hyn ac ni fyddwn yn hoffi gweld yr ymdrech honno—sydd yn ganmoladwy iawn, ac yr wyf yn ei chefnogi—yn bwrw cysgod dros hollbwysigrwydd addysgu. Nid wyf am golli hynny yn ein cymysgedd.

Minister, I would also like to raise one question with you, which is that the inspector is very clear that there are not enough leadership development opportunities available for headteachers and other senior school leaders. We all know that an inspirational leader is absolutely the way forward for any business, any organisation and any part of the public sector. I wondered if you could just give us an overview of what you are going to be able to do to bring that forward.

I see that I am running out of time, Deputy Presiding Officer, so, Minister, I want to make one more critical comment or sound a little bell of warning, and that is that there is a real drive in schools to teach according to PISA and to teach according to Estyn. I would suggest to you that if that develops too far, we will lose the very essence of Estyn, which is its independence and its ability to really evaluate the quality of the education in our schools, because the schools will end up being mini Estyns, and that will not help us or our students.

Weinidog, hoffwn godi un cwestiwn â chi, sef bod yr arolygydd yn glir iawn nad oes digon o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth ar gael ar gyfer penaethiaid ac uwch arweinwyr eraill mewn ysgolion. Rydym i gyd yn gwybod mai cael arweinydd ysbrydoledig yw'r unig ffordd ymlaen i unrhyw fusnes, unrhyw sefydliad ac unrhyw ran o'r sector cyhoeddus. Tybed a wnewch chi roi braslun o'r hyn yr ydych yn mynd i fod yn gallu ei wneud i gyflwyno hynny?

Gwelaf fod fy amser yn dirwyn i ben, Ddirprwy Lywydd, felly, Weinidog, rwyf am wneud un sylw beirniadol arall neu ganu cloch rybuddio fechan, sef bod ymdrech wirioneddol mewn ysgolion i addysgu yn unol â PISA ac i addysgu yn unol ag Estyn. Awgrymaf ichi, os yw hynny'n datblygu'n rhy bell, y byddwn yn colli holl hanfod Estyn, sef ei annibyniaeth a'i allu i asesu ansawdd yr addysg yn ein hysgolion, oherwydd bydd yr ysgolion yn fersiynau bach o Estyn yn y pen draw, ac ni fydd hynny o gymorth i ni nac i'n myfyrwyr.

16:38

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on Aled Roberts to move amendments 3 and 4, tabled in his name.

Galwaf ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 3 a 4, a gyflwynwyd yn ei enw.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Amendment 3—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn croesawu argymhelliad Estyn y dylai mynd i'r afael ag effeithiau tlodi fod yn ganolog i gynllunio ysgol-gyfan a bod yn rhaid i'r holl staff ddeall y rôl sydd ganddynt i'w chwarae, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i wreiddio ymwybyddiaeth o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ymhlith holl aelodau staff ysgolion i sicrhau y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol i liniaru ar effaith tlodi mewn ysgolion.

Welcomes Estyn's recommendation that tackling the impacts of poverty should be central to whole-school planning and that all staff must understand the role they have to play, and calls on the Welsh Government to outline the steps it is taking to embed awareness of the Pupil Deprivation Grant amongst all staff in schools to ensure the most effective use of this funding to mitigate the impact of poverty in schools.

Gwelliant 4—Aled Roberts

Amendment 4—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn gresynu at ganfyddiadau Estyn nad yw 'ysgolion prif ffrwd bob amser yn darparu gwybodaeth o ansawdd da na gwybodaeth amserol i'r UCDAu am anghenion dysgu disgyblion' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau monitro mwy unigoleddig er mwyn cael 'darlun clir o alluoedd, anghenion a chynnydd blaenorol disgyblion'.

Regrets Estyn's findings that 'mainstream schools do not always provide Pupil Referral Units with good quality or timely information about pupils' learning needs' and calls on the Welsh Government to develop more individualised monitoring mechanisms in order to achieve a 'clear picture of pupils' abilities, needs and prior progress'.

16:39

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynigiau welliannau 3 a 4.

I move amendments 3 and 4.

Mae'n bleser gennyf gynnig y gwelliannau hyn ar ran y Democratiaid Rhyddfrydol. Fel y dywedodd Angela Burns, mae cryn dipyn o faterion sydd angen eu trafod o ran yr adroddiad hwn ac nid wyf yn teimlo bod pum munud yn ddigonol. Felly, yr hyn a wnaif fydd canolbwyntio ar y gwelliannau rydym ni wedi eu cynnig, gan ddweud ein bod ni i gyd, ar draws y Siambr, yn cydnabod bod llawer iawn o waith i'w wneud er mwyn cau'r gagendor sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran cyrhaeddiad plant yn ysgolion Cymru. Fodd bynnag, rwy'n meddwl bod yr adroddiad yn dangos bod, hwyrach, strategaeth i wneud hynny erbyn hyn, er mae'n debyg bod yn dal rhaid gofyn pam ei bod hi'n broblem yn y system o ran lledaenu arfer da rhwng ysgolion.

Rydym wedi cynnig gwelliant 3 oherwydd ein bod yn meddwl bod problem fawr o hyd o ran cyrhaeddiad ein plant tlotaf ni a'u cymdogion. Mae'r adroddiad yn nodi bod yn rhaid i'r Llywodraeth, a'r ysgolion erbyn hyn, wneud yn sicr bod holl staff yr ysgol yn deall beth sydd angen ei wneud o ran y defnydd a fydd yn cael ei wneud o'r grant amddifadedd disgyblion. Rwy'n cyfeirio yn ôl at yr adroddiad a gafwyd gennym ni rhai misoedd yn ôl yn dangos mai o fewn lleiafrif o'r ysgolion yn unig yr oedd y strategaeth honno wedi cael ei rhannu ymysg y staff. Roedd yn dal tueddiad o ran penaethiaid i gadw'r wybodaeth honno at eu hunain.

Felly, rydym ni'n gofyn i'r Llywodraeth ystyried yn ddwys iawn y canllawiau, ac yr ydym yn cydnabod bod canllawiau newydd mewn grym erbyn hyn, ond yr ydym yn credu bod cryn dipyn o ddrysych ynghlŷn â nifer o'r canllawiau y mae'r Llywodraeth wedi eu gwneud, o ran canllawiau grant amddifadedd plant, effeithiolrwydd o ran grant ysgolion, y ffaith bod yna rŵan ganllawiau newydd o ran grant Cymunedau yn Gyntaf ar arian cyfatebol, hefyd, mae canllawiau gan Estyn ei hun, ac ar ôl hynny y 'toolkit' sy'n cael ei ystyried o ran Ymddiriedolaeth Sutton.

Mae'n glir bod cryn dipyn o sylw yn cael ei roi yn yr ysgolion, bod gormod o ddrysych ac nad yw'r canllawiau hynny yn ddigon syml. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn dweud eu bod yn dechrau gweld canlyniadau cadarnhaol o ran y disgyblion hynny sy'n cael eu targedu, ond rwyf hefyd yn gofyn i'r Gweinidog a yw'n meddwl bod cryn dipyn o ddrysych o ran y cynghorau. Yr ydych chi'n ymwybodol o un achos yn Rhondda Cynon Taf lle yr oedd y cyngor ei hun wedi danfon canllawiau allan yn dweud ei bod yn bosibl i ysgolion ddefnyddio'r grant hwnnw i ddadwneud rhai o'r toriadau addysg a oedd yn cael eu hystyried. Rwy'n ymwybodol bod enghreifftiau eraill ar hyn o bryd, ac rwy'n meddwl bod yn rhaid i'r cynghorau gydnabod nad oes lle iddynt ailddweud y canllawiau sy'n cael eu rhoi allan gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein hail welliant yn sôn am gryn dipyn o ddrysych ynghlŷn â'r ffordd y mae monitro yn cael ei wneud o blant fel unigolion. Rwy'n gwybod, wrth ymateb i mi rhai misoedd yn ôl, eich bod wedi dweud bod cyfundrefnau mewn lle ar hyn o bryd i sicrhau bod yr holl blant yn cael eu monitro, ond mae'n rhaid i mi ddweud nad yw'r monitro hwnnw yr un fath rhwng y consortia. Hefyd, mae gwahanol fonitro o un cyngor i'r llall. A gaf i ofyn i chi, erbyn hyn, a ydych yn credu bod y darlun llawn yn cael ei gyflawni? Rwyf hefyd yn gofyn—

I am pleased to move these amendments on behalf of the Liberal Democrats. As Angela Burns said, there are many issues that need to be discussed in terms of this report and I do not feel that five minutes is enough. So, what I propose to do is to concentrate on the amendments that we have put forward, in saying that we all, across the Chamber, recognise that there is a lot of work to do to close the gap that exists at present in terms of the attainment of children in schools in Wales. However, I think that the report shows that there is a strategy in order to do that now, but it is likely that we still have to ask questions around why it is a problem in terms of the system in terms of disseminating good practice between schools.

We have tabled amendment 3 because we think that there is still a great problem in terms of the attainment of our poorest children and their peers. The report notes that the Government and the schools now have to ensure that all the staff at a school understand what needs to be done in terms of the use of the pupil deprivation grant. I refer back to the report that we had some months ago, which showed that it was only in a minority of schools that that strategy had been shared among the staff, and that there was still a tendency for headteachers to keep that information to themselves.

So, we ask the Government to carefully consider the guidelines, and we recognise that there are new guidelines in place now, however, we think that there is a great deal of confusion in terms of a number of guidelines that the Government has issued, in terms of pupil deprivation grant guidelines, efficiency in terms of the schools grant, the fact that there are now new Communities First grant guidelines on match funding, also, there are guidelines from Estyn itself, and furthermore the toolkit that is being considered in terms of the Sutton Trust.

It is clear that a great deal of attention is given in schools, that there is too much confusion and that those guidelines are not simple enough. Most schools say that they are beginning to see positive results in terms of those pupils who are targeted, but I also want to ask the Minister whether he thinks that there is some confusion in the councils. You are aware of the case in Rhondda Cynon Taf, where the council itself had sent guidelines out saying that it was possible for schools to use that grant to undo some of the education cuts that were being considered. I am aware that there are other examples at the moment, and I think that the councils have to recognise that they should not be reiterating guidelines that have been issued by the Welsh Government.

Our second amendment refers to the great deal of confusion that exists about the way in which monitoring is conducted of children as individuals. I know, in responding to me some months ago, that you said that there were processes in place at the moment to ensure that all children would be monitored, but I have to say that that monitoring is not the same between the consortia. There are also different monitoring processes between different councils. I want to ask you now whether you believe that a full picture is being created. I also want to ask—

16:43	Angela Burns Bywgraffiad Biography I thank Aled Roberts for taking the intervention. Would you not agree that, if the individual learning plans were properly enacted throughout all of Wales, that would actually make a significant difference because you would be able to follow that child's progress?	Diolch i Aled Roberts am dderbyn yr ymyriad. Oni fydddech yn cytuno, pe byddai'r cynlluniau dysgu unigol yn cael eu rhoi ar waith yn briodol ledled Cymru gyfan, y byddai hynny mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol oherwydd y bydddech yn gallu dilyn cynnydd y plentyn hwnnw?	Senedd.tv Fideo Video
16:43	Aled Roberts Bywgraffiad Biography Yes, I am sure that it would, but I think that the actual monitoring systems themselves are too complex at the moment. I was astounded that, even within one consortium, different authorities have actually bought into different packages. The point that I am trying to ascertain is whether the Minister feels that there is sufficient robustness with regard to whether that monitoring is in place for individual pupils. The other point that I would make in closing is that I still think that we have issues with regard to the monitoring of some pupils who may be outside the system, particularly in pupil referral units and units similar to those.	Byddai, mae'n siŵr gennyf y byddai, ond credaf fod y systemau monitro eu hunain yn rhy gymhleth ar hyn o bryd. Roeddwn yn rhyfeddu, hyd yn oed o fewn un consortiwm, fod gwahanol awdurdodau wedi ymrwymo i wahanol becynnau. Yr hyn yr wyf yn ceisio cael gwybod yw a yw'r Gweinidog yn teimlo bod digon o gadernid o ran a yw'r gwaith monitro hwnnw ar waith ar gyfer disgyblion unigol. Y pwynt arall yr hoffwn ei wneud i gloi yw fy mod yn dal i fod o'r farn bod materion i'w datrys o ran monitro rhai disgyblion a allai fod y tu allan i'r system, yn enwedig mewn unedau cyfeirio disgyblion ac unedau tebyg.	Senedd.tv Fideo Video
16:44	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call on Simon Thomas to move amendments 5, 6 and 7, tabled in the name of Elin Jones. <i>Gwelliant 5—Elin Jones</i> <i>Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</i> <i>Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod 'Llai na hanner ysgolion uwchradd yn dda neu'n well, ac mae'r gyfran sy'n anfodddhaol wedi cynyddu o un o bob saith ysgol i un o bob pedair'.</i> <i>Gwelliant 6—Elin Jones</i> <i>Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</i> <i>Yn credu mai arweinwyr ac athrawon rhagorol yw'r allwedd i godi safonau mewn ysgolion.</i> <i>Gwelliant 7—Elin Jones</i> <i>Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:</i> <i>Yn credu bod safonau yn cael eu codi mewn modd mwy cynaliadwy pan fydd ysgolion yn cydweithio yn hytrach na chystadlu.</i>	Galwaf ar Simon Thomas i gynnig gwelliannau 5, 6 a 7, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. <i>Amendment 5—Elin Jones</i> <i>Add as new point at end of motion:</i> <i>Regrets Estyn's finding that 'Fewer than half of secondary schools are good or better and the proportion that is unsatisfactory has increased from one in seven to one in four'.</i> <i>Amendment 6—Elin Jones</i> <i>Add as new point at end of motion:</i> <i>Believes excellent leaders and teachers are the key to raising standards in schools.</i> <i>Amendment 7—Elin Jones</i> <i>Add as new point at end of motion:</i> <i>Believes that standards are raised more sustainably when schools collaborate rather than compete.</i>	Senedd.tv Fideo Video
16:44	Simon Thomas Bywgraffiad Biography Cynigiau welliannau 5, 6 a 7. Rwyf hefyd yn dweud y bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r holl welliannau eraill i'r cynnig hwn. Rwy'n gweld bod cryn dipyn o ddealltwriaeth a chytundeb ynglŷn â'r ffordd ymlaen.	I move amendments 5, 6 and 7. I also state that Plaid Cymru will be supporting all of the other amendments tabled to this motion. I see that there is a great deal of understanding and agreement on the way forward.	Senedd.tv Fideo Video

Disgrifiodd y Gweinidog y maes hwn wrth agor y ddadl. Dywedodd ei fod yn glir iawn. Cyfeiriodd at dudalen 26 yn adroddiad y prif arolygydd. Yr wyf innau wedi gwneud nodyn manwl ar dudalen 26 hefyd. Ond, am rywbeth mor glir, mae wedi bod yn hynod gymhleth i ddod â'r peth i fwl ac i ddod i ryw fath o wellhad. Rydym wedi cael 17 mlynedd o Lywodraeth Lafur yn y maes hwn, ac mae'n awr yn dweud wrthym fod y ffordd ymlaen yn syml. Fodd bynnag, rydym mewn sefyllfa lle rydym ar ei hôl hi gyda PISA; lle rydym wedi bod ar ei hôl hi gyda chanlyniadau TGAU, er ein bod wedi gweld rhyw welliant yn ddiweddar; lle rydym ar ei hôl hi o ran torri'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad plant a thlodi ac amddifadedd; a lle rydym ar ei hôl hi yn gyffredinol o ran lefel ac ansawdd dysgu. Mae hynny'n dod allan yn glir o adroddiad y prif arolygydd, ac rwyf yn diolch iddi a'i staff am eu gwaith. Mae'r prif arolygydd yn ffocysu ar ddysgu fel y ffactor pwysicaf oll o ran helpu disgyblion i gyflawni eu potensial. Rwyf yn meddwl ei bod yn briodol ein bod yn ffocysu ar hynny rhywfaint ar hyn o bryd.

Rwyf yn cytuno gyda'r hyn a ddywedodd y Gweinidog, sef fod agweddau ar ddysgu da ac arfer dda i'w gweld bron ym mhob ysgol yng Nghymru. Mae ambell ysgol efallai sydd wedi methu. Fodd bynnag, yn gyffredinol, gwelwch ym mhob ysgol yng Nghymru rhyw elfen o arfer dda, dysgu da, ymddygiad da ac ymwneud da gyda'r gymuned ehangach. Yr hyn nad yw'n yno yw cysondeb. Mae'n amlwg o'r adroddiad hwn nad yw cysondeb wedi bod yno ac, yn anffodus, bod yna rhywfaint o lithro yn ôl wedi bod yng nghyd-destun ysgolion uwchradd yn benodol. Mae rhai o'r gwelliannau yn cyfeirio at hynny.

Rydym eisoes yn gwybod lle rydym yn sefyll o ran profion PISA, wrth gwrs. Fodd bynnag, mae hefyd yn siom nad yw sgiliau llythrennedd yn gyffredinol wedi gwella yn sylfaenol. Heb ein bod yn gwella sgiliau llythrennedd yn gyffredinol yn ein hysgolion, nid yw disgyblion yn gallu darllen a deall y testun. Mae hynny'n rhedeg ar draws y cwricwlwm; nid ydym yn sôn am Saesneg a'r Gymraeg yn y fan hon yn unig. Mae cynnwys y gwersi yn mynd yn annealladwy iddynt, maent yn mynd yn anhapus yn y dosbarth ac efallai'n anystywallt. Mae hynny'n effeithio ar yr holl gwricwlwm, ac mae'r holl gwricwlwm felly'n cael eu colli. Felly, mae dysgu da, wedi'u cyplysu gyda sgiliau llythrennedd, yn hollbwysig. Y cyd-destun sy'n berthnasol i'r sefyllfa hon yw'r ffordd y mae'r Gymraeg fel ail iaith wedi dirywio'n sylweddol iawn dros y chwarter canrif ddiwethaf yng Nghymru. Credaf mai rhan o hynny yw'r ffaith ei bod yn cael ei gweld yng nghyd-destun dysgu gwael o ran llythrennedd. Mae hwnnw'n un rheswm, ac mae yna ffactorau cymdeithasol eraill hefyd. Yn sicr, os ydym am ddysgu Cymraeg fel ail iaith i bob plentyn, dylem sicrhau ei bod yn cael ei throsglwyddo'n iawn a'i bod yn rhywbeth sydd â gwerth i'r plentyn. Fel arall, bydd y plentyn yn cymryd yn erbyn y pwnc, ac ni fydd hynny'n dda i'r Gymraeg nac i'w addysg.

The Minister described this in opening the debate. He said that it was very clear. He referred to page 26 of the chief inspector's report. I have also made a careful note of that particular page. However, for something that is so clear, it has been extremely complex in bringing it to some sort of conclusion, and to achieve some improvement. We have had 17 years of Labour Government in this area, and it now tells us that the way forward is simple. However, we are in a situation where we are falling behind with PISA; where we have been behind with GCSE results, although there has been some recent improvement; where we are behind in terms of breaking the link between pupil attainment and poverty and deprivation; and where we are falling behind generally in terms of the level and quality of teaching. That becomes clear from the report of the chief inspector, and I thank her and her staff for their work. The chief inspector focuses on teaching as the most important factor in terms of helping pupils to achieve their potential. I think that it is appropriate that we focus on that somewhat at this point.

I agree with the Minister's comments, namely that there are aspects of good teaching and good practice in almost every school in Wales. There are a few schools perhaps that have failed. However, generally speaking, you will find in every school in Wales some element of good practice, good teaching, good behaviour, and good engagement with the wider community. What we do not have is consistency. It is clear from this report that consistency has not been in place and, unfortunately, there has been some slippage in terms of secondary schools in particular. Some of the amendments make reference to that.

We already know where we stand in terms of PISA tests, of course. However, it is also disappointing that literacy skills have not improved fundamentally. Unless we improve literacy skills in schools, pupils will not be able to read and understand the text. That runs across the curriculum; we are not talking about just English and Welsh here. They cannot understand the content of lessons, they become unhappy in class and perhaps unmanageable. That impacts on the whole curriculum, and the whole curriculum therefore is lost. Therefore, good teaching, linked with literacy skills, is crucial. The context that is relevant to this situation is the way in which Welsh as a second language has declined substantially over the last 25 years in Wales. I think that that is partially because it is seen in the context of poor teaching in terms of literacy. That is one of the reasons, and there are also other social factors. Certainly, if we are going to teach Welsh as a second language to every child, we should ensure that it is transferred effectively and that it is of value to the child. Otherwise, the child will take against the subject, and that will not be of benefit to the Welsh language or to the child's education.

Soniodd y Gweinidog am y ffaith mai Ceredigion yw'r unig awdurdod addysg i gael ei ddyfarnu'n 'rhagorol' gan Estyn. Wrth gwrs, rwyf yn croesawu hynny ac rwyf yn croesawu'r ffaith mai Plaid Cymru sy'n arwain yr awdurdod hwnnw. Fodd bynnag, os edrychwch chi ar yr hyn y mae Ceredigion yn ei wneud sy'n wahanol i'r awdurdodau eraill, gwelwch ei fod yn gwario ychydig yn fwy, ond nid yw'n gwario mewn modd sy'n sylweddol wahanol i Flaenau Gwent, sy'n destun mesurau arbennig. Yr hyn y mae Ceredigion yn ei wneud yn well nag awdurdodau eraill yw dilyn y disgybl unigol yr holl ffordd drwy'r ysgol, gan farcio'r disgyblion. Credaf mai 'blue smurfs' yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio ar lawr gwlad yng Ngheredigion erbyn hyn i ddisgrifio disgyblion sy'n gwneud yn dda, achos maent ymddangos yn las yn y rhaglen honno. Felly, mae pob un plentyn a rhiant—mewn theori er efallai nad yw bob tro'n wir—ac yn sicr yr athrawon, yn gwybod lle mae'r disgybl o ran sgiliau darllen, llythrennedd, mathemateg ac ati. Maent yn gwybod lle maent ar ei hôl hi a lle maent ar y blaen hefyd. Felly, mae modd teilwra'r hyn y maent yn ei wneud i'r disgybl. I mi, mae hynny'n arfer dda y dylem weld yn cael ei ddilyn yn genedlaethol, ac mae'r patrwm i'w weld yng Ngheredigion. At hynny, hoffwn weld mwy o gydweithio yn lle cystadlu. Hoffwn glywed gan y Gweinidog ychydig mwy am yr hyn sy'n digwydd i'r system fandio ac am Her Ysgolion Cymru wrth iddo gloi'r ddadl hon heddiw. Hefyd, rydym am godi proffesiynoldeb yn y proffesiwn, a bydd y Bil Addysg (Cymru) yn ymwneud a'r mater hwn maes o law. Mwy na dim byd arall, mae'n rhaid inni gefnogi'r proffesiwn a pharchu proffesiynoldeb ein hathrawon.

The Minister mentioned the fact that Ceredigion is the only education authority to be described as 'excellent' by Estyn. Of course, I welcome that and I welcome the fact that Plaid Cymru leads that authority. However, if you look at what Ceredigion actually does that differs from other authorities, it does spend a little more, but it does not spend in a way that is significantly different from Blaenau Gwent, which is in special measures. What Ceredigion does better than other authorities is to follow the individual pupil the whole way through the school, marking the pupils. I think 'blue smurfs' is the term used on the ground in Ceredigion now to describe the pupils that are doing well, because they appear in blue in that programme. Therefore, every child and parent—in theory at least—and certainly the teachers, know where the pupil is in terms of literacy, numeracy, maths and so on. They know whether they are falling behind or whether they are forging ahead. Therefore, activities can be tailored to the individual pupils. To me, that is something that we should see implemented as good practice at a national level, and the pattern is to be seen in Ceredigion. I would want to see more collaboration rather than competition. I want to hear a little more from the Minister about what is happening in terms of Schools Challenge Cymru and banding when he closes the debate today. We also want to enhance professionalism within the profession, and the Education (Wales) Bill will deal with this matter in due course. More than anything, we have to support the profession and respect the professionalism of our teachers.

16:49

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, I congratulate Estyn on its report. It is a very comprehensive report, but I just want to touch on a number of themes. First, I am pleased that there is a clear recognition from Estyn that there should be a greater emphasis on the effects of poverty and that schools should address these holistically. I take Angela Burns's point about teachers being there to teach but, if we need to address poverty, I think good teachers will facilitate the right experts and people from the wider community coming in.

Poverty cannot be left conveniently at the school gates. If we have problems at home, we do not forget them when we come here, so it is not realistic to expect children to do so. We know from numerous reports that children are affected by the realities of poverty. We know, for example, that a lack of quiet space at home, and of books or equipment at home, and the stress of poverty, all make a difference to how our children develop. I am pleased that schools are taking some innovative steps here but, as the report says, we need a much more consistent approach if all our children are going to reach their potential, which is what they deserve.

Yn gyntaf oll, rwyf am longyfarch Estyn ar ei adroddiad. Mae'n adroddiad cynhwysfawr iawn, ond rwyf am grybwyll nifer o themâu. Yn gyntaf, rwyf yn falch bod Estyn yn cydnabod yn glir y dylid rhoi mwy o bwyslais ar effeithiau tlodi ac y dylai ysgolion fynd i'r afael â'r rhain mewn modd cyfannol. Rwyf yn derbyn pwynt Angela Burns fod athrawon yno i addysgu ond, os oes angen inni fynd i'r afael â thlodi, credaf y bydd athrawon da yn ei gwneud yn haws i'r arbenigwyr cywir a phobl o'r gymuned ehangach ddod i mewn

Ni ellir gadael tlodi'n gyfleus wrth glwyd yr ysgol. Os oes gennym broblemau gartref, nid ydym yn eu hanghofio pan ydym yn dod yma, felly nid yw'n realistig disgwyl i blant wneud hynny. Gwyddom o nifer o adroddiadau fod realiti tlodi'n effeithio ar blant. Gwyddom, er enghraifft, fod diffyg lle tawel yn y cartref, a diffyg llyfrau neu offer yn y cartref, a straen tlodi, i gyd yn gwneud gwahaniaeth o ran y ffordd y mae ein plant yn datblygu. Rwyf yn falch bod ysgolion yn cymryd rhai camau arloesol yma, ond, fel y dywed yr adroddiad, mae angen ymagwedd fwy cyson o lawer os yw pob un o'n plant yn mynd i wireddu eu potensial, sef yr hyn y maent yn ei haeddu.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On pupil referral units, Estyn reports that more needs to be done to improve the educational experiences of children in pupil referral units. Young people who find themselves in pupil referral units are certainly challenging but that is perhaps because the system has failed them. They may have been bullied or have been disruptive because of unmet learning needs. They are often the most marginalised pupils in the education system. If they are to be able to reach their potential, a much more consistent approach needs to be taken. Of course, we know that we need excellent teachers and good leaders and, if they are there, they can potentially turn these children's lives around. Again, I would ask for the Minister's comments on how this can be achieved across all the PRUs.

On teachers, it is clear—it runs through this report—that excellent teachers who can work as a team, can collaborate and have a sense of purpose and mission are key to how well a pupil does. All of us, I am sure, can remember our favourite teachers—we can also remember the terrible teachers as well. The favourite teachers are those who inspired, who were interested in us and got the best out of us. Again, all children deserve that. I very much welcome the fact that the Welsh Government—

O ran unedau cyfeirio disgyblion, dywed Estyn fod angen gwneud mwy i wella profiadau addysgol plant mewn unedau cyfeirio disgyblion. Mae pobl ifanc sy'n eu cael eu hunain mewn unedau cyfeirio disgyblion yn sicr yn heriol ond efallai fod hynny oherwydd bod y system wedi gwneud cam â hwy. Efallai eu bod wedi cael eu bwlio neu eu bod wedi bod yn aflonyddgar oherwydd na chafodd eu hanghenion dysgu eu bodloni. Dyma'r disgyblion sy'n aml yn cael eu gwrthio i'w ymylon fwyaf yn y system addysg. Er mwyn iddynt allu gwireddu eu potensial, mae angen ymagwedd fwy cyson o lawer. Wrth gwrs, rydym yn gwybod bod angen athrawon rhagorol ac arweinwyr da arnom ac, os ydynt yno, mae'n bosibl y gallant newid bywydau'r plant hyn. Unwaith eto, gofynnaf am sylwadau'r Gweinidog ynghylch sut y gellir cyflawni hyn ar draws yr holl unedau cyfeirio disgyblion.

O ran athrawon, mae'n amlwg—ac mae'n thema gyson yn yr adroddiad hwn—fod athrawon rhagorol sy'n gallu gweithio fel tîm, sy'n gallu cydweithio ag ymdeimlad o bwrpas a chenhadaeth yn allweddol i ba mor dda y mae disgyblion yn ei wneud. Mae pob un ohonom, rwyf yn siŵr, yn gallu cofio ein hoff athrawon—gallwn hefyd gofio'r athrawon ofnadwy. Yr hoff athrawon yw'r rhai hynny a roddodd ysbrydoliaeth inni, a oedd yn dangos diddordeb ynom ac a oedd yn cael y gorau ohonom. Unwaith eto, mae pob plentyn yn haeddu hynny. Rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith bod Llywodraeth Cymru—

16:52 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:52 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yes, certainly.

Gwnaf, yn sicr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:52 **Angela Burns** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for taking an intervention. I totally agree with you that excellence in teachers is to be welcomed. Would you not also agree that the teachers who are perhaps not so excellent but are not rubbish either—the ones in the middle—are, at the moment, very demoralised, overworked and stressed out and that we need to do something very concrete to pick them up and improve the professionalism and the standing of the profession?

Diolch yn fawr iawn am dderbyn yr ymyriad. Cytunaf yn llwyr â chi fod rhagoriaeth ymhlith athrawon i'w groesawu. Oni fydddech yn cytuno hefyd fod yr athrawon nad ydynt efallai mor rhagorol ond nad ydynt yn ofnadwy ychwaith—y rhai yn y canol—ar hyn o bryd yn teimlo'n ddigalon iawn, yn cael eu gorweithio ac o dan straen a bod angen inni wneud rhywbeth pendant iawn i'w codi yn ôl a gwella proffesiynoldeb a statws y proffesiwn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:53 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Well, yes, exactly, Angela. In fact, the point that I wanted to make is that I support wholeheartedly amendment 2, which states that

'the Welsh Government must do more to boost the morale of teachers in Welsh schools.'

Wel, ie, yn union, Angela. Yn wir, y pwynt yr oeddwn am ei wneud yw fy mod yn cefnogi gwelliant 2 yn llwyr, sy'n datgan bod

'rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hybu morâl athrawon yn ysgolion Cymru.'

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is something that I pointed out only a few weeks ago. We know that those countries that have achieved the best in PISA, for example, are those that concentrate on boosting teachers' knowledge and morale. Of course, teachers, like all public professionals, are accountable. It is not about letting them do what they want—they are very much accountable. However, I think that there is a balance to be struck. I would call for a new relationship between education professionals and the Welsh Government, based on mutual respect and professionalism. As the Minister said, it is about a joint buy-in here. All of us want standards to be raised, so I think it is about a partnership.

Finally, on maths and numeracy, I know that Estyn notes the need for improvement in numeracy. I am aware that one aspect of this has been that the Welsh Government launched the numeracy employer engagement programme last September. The scheme encourages employers in Wales to work with schools to show how numeracy can be used in real-life contexts and highlights the value and importance of having strong numeracy skills in the context of future employment. This is not the only tool in the box; this is just one aspect of it, but it is a very useful one. It is an excellent initiative but I have some concerns and I would like some information on this. First, what progress is being made on this? More importantly, how consistently is this being delivered, given that in some parts of Wales, such as my own, we are not over-endowed with employers. I would welcome a response from the Minister on that.

Mae'n rhywbeth y tynnais sylw ato dim ond ychydig wythnosau yn ôl. Gwyddom mai'r gwledydd hynny sydd wedi gwneud orau yn PISA, er enghraifft, yw'r rhai sy'n canolbwyntio ar hybu gwybodaeth a morâl athrawon. Wrth gwrs, mae athrawon, fel pob gweithiwr proffesiynol cyhoeddus, yn atebol. Nid yw'n fater o roi rhwydd hynt iddynt i wneud fel y mynnant—maent yn atebol iawn. Fodd bynnag, credaf fod yn rhaid cadw'r ddysgl yn wastad. Byddwn yn galw am berthynas newydd rhwng gweithwyr addysg proffesiynol a Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar barch y naill at y llall a phroffesiynoldeb. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'n ymwneud ag ymrwymiad ar y cyd. Mae pob un ohonom am weld safonau'n codi, felly credaf mai mater o bartneriaeth yw hyn.

Yn olaf, o ran mathemateg a rhifedd, gwn fod Estyn yn nodi'r angen i wella rhifedd. Gwn mai un agwedd ar hyn yw bod Llywodraeth Cymru wedi lansio'r rhaglen ymgysylltu â chyflogwyr ym maes rhifedd fis Medi diwethaf. Mae'r cynllun yn annog cyflogwyr yng Nghymru i weithio gydag ysgolion i ddangos sut y gellir defnyddio rhifedd mewn bywyd go iawn ac yn tynnu sylw at werth a phwysigrwydd sgiliau rhifedd cryf er mwyn cael gwaith yn y dyfodol. Nid dyma'r unig arf yn y blwch; dim ond un agwedd yw hyn, ond mae'n un defnyddiol iawn. Mae'n fenter ardderchog ond mae gennyf rai pryderon a hoffwn gael rhywfaint o wybodaeth am hyn. Yn gyntaf, pa gynnydd sy'n cael ei wneud yn hyn o beth? Yn bwysicach na hynny, pa mor gyson y mae hyn yn cael ei gyflwyno, o ystyried nad oes gennym mewn rhai rhannau o Gymru, megis fy un i, ryw lawer o gyflogwyr. Byddwn yn croesawu ymateb gan y Gweinidog am hynny.

16:55

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf hefyd yn croesawu'r adroddiad hwn, ac yn cefnogi gwelliannau 6 a 7 yn enw Elin Jones. I mi, mae'n rhwydd beirniadu ond gwneud dim. Yr hyn mae'n rhaid inni wneud —y peth pwysig—yw gwneud rhywbeth. Mae'r adroddiad yn llawn o sylwadau doeth, awgrymiadau adeiladol ac enghreifftiau o arferion da sy'n ddefnyddiol ac yn ddealladwy.

Dyma fi felly yn dod at fy mhwynt cyntaf: fel y gwyddom, ein tasg yng Nghymru yw gwneud arferion da yn arferion cyffredin. Y cam pwysig cyntaf fyddai i bawb yn y gyfundrefn addysg gael gafael ar yr adroddiad hwn a'i ddarllen. Nid sôn ydwyf am wleidyddion fel ninnau yn y Siambr, nac hyd yn oed y gweision sifil yn Llywodraeth Cymru neu adrannau addysg yng nghynghorau sir. Er mor bwysig yr ydynt yn y cyswllt hwn, yn y pen draw, darllenwyr delfrydol yr adroddiad hwn yw athrawon dosbarth, dirprwy brif athrawon a phrif athrawon mewn ysgolion ym mhob cymuned yng Nghymru. Cofiwch fod gennym y gallu i ddosbarthu'r syniadau a geir rhwng cloriau'r adroddiad hwn. Mae pob ysgol mewn pob awdurdod lleol yn cynnal diwrnodau hyfforddiant mewn swydd. Dylai'r adroddiad hwn fod yn sylfaen i o leiaf un diwrnod hyfforddiant mewn swydd ym mhob ysgol. Soniais am wneud arferion da yn arferion cyffredin: pa le gwell i ddechrau trafod y pwnc hollbwysig hwn na thrwy astudio'r tudalennau adran 1 yr adroddiad? Mae'r Gweinidog wedi siarad yn barod am dudalen 26 a'r pum argymhelliad uchaf, ond, wedyn, ar dudalen 31 mae 'Ffactorau sy'n hyrwyddo dysgu da a rhagorol'. O dan y pennawd hwn, cawn y canlynol:

I also welcome this report, and support amendments 6 and 7 in the name of Elin Jones. To me, it is easy to criticise but do nothing. What we must do—the most important thing —is to actually do something. This report is full of wisdom, constructive suggestions and examples of good practice that are useful and coherent.

This brings me to my first point: as we know, our task in Wales is to make good practice common practice. The first important step would be for everyone in the education system to get hold of a copy of this report and read it. I am not talking here about politicians such as us here in the Chamber, nor am I talking about civil servants in the Welsh Government or the education departments in the county councils. However important they are in this context, at the end of the day, the ideal readers of this report are classroom teachers, deputy headteachers and headteachers in schools in every community in Wales. Remember that we have the ability to disseminate the ideas proposed in this report. Every school in every local authority holds in-service training days. This report should be the foundation of at least one day of INSET training in every school. I mentioned making good practice common practice: what better place to start discussing this crucial issue than through studying the pages in section 1 of the report? The Minister has already mentioned page 26 and the five top recommendations, but, then, on page 31 there are 'Factors that promote good and excellent teaching'. Under this title, we have the following:

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'Mae'r gallu i gynnal safonau addysgu da a rhagorol yn yr ystafell ddosbarth yn dibynnu ar lawer o ffactorau. Er enghraifft, mae cydberthynas agos rhwng addysgu rhagorol ac arweinyddiaeth ragorol. Yn yr ysgolion hynny lle mae arweinwyr wedi bod yn llwyddiannus o ran gwella ansawdd yr addysgu a'r deilliannau ar gyfer dysgwyr yn sylweddol, mae rhai nodweddion allweddol wedi bod yn amlwg. Mae'r rhestr isod yn nodi rhai o'r rhain.'

Dylem i gyd edrych arnynt hwy. Dyma'r rhagymadrodd. Mae'r dôn, arddull a chynnwys yn ddealladwy ac yn ymarferol. Cawn enghreifftiau o bob rhan o Gymru ac o bob sector o addysg. Mae'r ysgolion sy'n cael eu defnyddio i ddangos patrymau o arferion da, neu hyd yn oed arferion rhagorol, yn cael eu henwi. Er enghraifft, mae sylw ar ddechrau'r adroddiad ynghylch Ysgol Gynradd Mount Stuart yng Nghaerdydd, lle mae 31% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim, ac mae 89% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Beth mae'r adroddiad yn dweud? Mae'n dweud hyn:

'Mae ysgolion fel Ysgol Mount Stuart yn mabwysiadu dull ysgol gyfan i fynd i'r afael ag anfantais, ac mae ganddynt arweinyddiaeth gref a chyson ar y dull hwnnw. Mae'r penaethiaid yn gwneud yn siŵr eu bod yn datblygu arbenigedd y staff, yn cryfhau cysylltiadau â'r gymuned ac yn sicrhau cymorth rhieni ar gyfer dysgu.'

Cawn ddysgu hefyd o wledydd tramor a chawn ddysgu ambell waith hyd yn oed o Loegr, ond, yn bennaf holl, cawn ddysgu o'n gilydd yng Nghymru. Mae adroddiad Estyn yn rhoi sylfaen inni wrth ddefnyddio esiamplau penodol o ysgolion penodol. Dyma'r sylfaen. Gallem gymryd mwy o enghreifftiau o arferion da a rhagorol o'r adroddiad a'u defnyddio.

Rwyf am orffen trwy sôn am y ffaith bod nifer o sylwadau ac enghreifftiau, fel yr un ynghylch Ysgol Gynradd Mount Stuart, yn yr adroddiad hwn, a dylem ni a phob athro ym mhob ysgol eu darllen.

'The capacity to maintain good and excellent standards of teaching in the classroom is dependent on many factors. For instance, there is a close correlation between excellent teaching and excellent leadership. In those schools where leaders have been successful in improving significantly the quality of teaching and the outcomes for learners, some key features have been evident. The list that follows identifies some of these.'

We should all look at those. This is the foreword. The tone, style and content are coherent and practical. We have examples from each and every part of Wales and from every educational sector. The schools used to show patterns of good practice, or even excellent practice, are named. For example, there is a comment at the beginning of the report about Mount Stuart Primary School in Cardiff, where 31% of the pupils qualify for free school meals, and 89% of pupils speak English as an additional language. What does the report say? It says this:

'Schools like Mount Stuart take a whole-school approach to tackling disadvantage and have strong and consistent leadership on that approach. The headteachers make sure that they develop the expertise of staff, strengthen links with the community and engage parental support for learning.'

We can also learn from foreign countries, and we can even learn, on occasion, from England, but, mainly, we learn from each other in Wales. The Estyn report gives us a foundation in using specific examples of specific schools. This is the foundation. We could take more examples of excellent practice from the report and make use of them.

I will conclude by mentioning the fact that there are many comments and examples, such as the one about Mount Stuart Primary School, in this report, and we and every teacher in every school should read them.

16:58

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Like many, I want to add my thanks to the chief inspector of Estyn and all the staff there for the inspection regimes that they carry out. I believe that it is important that they do that so that we can know that we have something against which to benchmark our education services for all our children. Many have talked about the attainment of children, and the gap in relation to the attainment of children from low-income backgrounds, and that has been a very high priority on most political agendas. So, I think it is important that Estyn took some time to refer to that in its report. As it briefly touches on that point, I think it sums up for me some of the very key issues that I have been looking at over my political career.

Pupils' economic circumstances must never be used as an excuse for teachers' failure to set a high aspirational standard for any of their pupils, nor can it be an excuse for their poor class-management skills. I think that what we have to demonstrate is that teachers are able to show that, where excellent teaching takes place, it actually then brings every child up to reach their standard of attainment.

Fel llawer un arall, rwyf finnau hefyd am ddiolch i brif arolygydd Estyn a'r holl staff yno am y drefn arolygu y maent yn ei chynnal. Credaf ei bod yn bwysig eu bod yn gwneud hynny er mwyn inni wybod bod gennym rywbeth i feincnodi ein gwasanaethau addysg yn ei erbyn i bob un o'n plant. Mae sawl un wedi sôn am gyrhaeddiad plant, a'r bwlch yng nghyrhaeddiad plant o gefndiroedd incwm isel, ac mae hynny wedi bod yn flaenoriaeth uchel iawn ar y rhan fwyaf o agendâu gwleidyddol. Felly, credaf ei bod yn bwysig bod Estyn yn cymryd amser i gyfeirio at hynny yn ei adroddiad. Gan ei fod yn crybwyll y pwynt hwnnw'n fyr, credaf ei fod yn crynhoi i mi rai o'r materion allweddol iawn yr wyf wedi bod yn edrych arnynt yn ystod fy ngyrfa wleidyddol.

Ni ddylai amgylchiadau economaidd byth fod yn esgus dros fethiant athrawon i osod safon dyheadol uchel i unrhyw un o'u disgyblion, ac ni all fod yn esgus am eu sgiliau gwael o ran rheoli dosbarthiadau. Credaf mai'r hyn y mae angen inni ei amlygu yw bod athrawon yn gallu dangos, lle mae addysgu rhagorol yn digwydd, ei fod yn golygu y gall pob plentyn gyrraedd ei safonau cyrhaeddiad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

All too often, the media is happy to portray a school in a low-income area as being one that is a haven for bad behaviour. That is certainly not the case, and I think that Estyn has been very clear to point out that that is not the case. It is, therefore, important to me that teaching and learning are at the heart of the school's focus.

Unsatisfactory lessons set back all of our children, but we know that, where you get an inspiring and excellent teacher, you can have that huge impact on the motivation of children, particularly those from low-income backgrounds who may not receive support from home.

I would also argue that uninspiring adequate lessons can do a great deal more to turn children away from learning, despite their background. The focus must be on ensuring that lessons are of a very high standard every time a teacher sets foot in a classroom or a learning environment. Estyn focuses on the fact that poor planning is a major cause of poor teaching, so school leaders obviously need to monitor and address that.

Minister, you accompanied me to the high school in Rhyl just before recess last week. That school, as we all know, was in band 5 in the first set of bandings. However, you saw—and I think that you were really amazed—how that transformation has taken place at Rhyl High School. That has been down, in part, to the leadership of the headteacher there, Claire Armitstead. Claire has taken that school apart, and has promised those children that, if they give her and her teaching staff that second chance, they would never let them down again. I think that she is proving that that has worked.

Rhyl High School has 30% of its pupils receiving free school meals and, in 2011, we saw that 36% of pupils leaving the school reached the level 2 threshold. That figure now stands at 50%, which I think, in that space of two years, shows that whatever Claire has got—and I think that you said this—she needs to bottle to be able to say, 'You need to do a Rhyl'. That is the best thing that the people of Rhyl have heard from a Minister for education for some time, and I thank you for that.

However, behind all of that is the fact that she has had the drive, the determination and the leadership to do that, and I know that you have recognised those skills, and the way in which she has taken some of the hardest-to-reach children, those with less assistance in terms of their home lives, and turned those children into becoming real statesmen and real ambassadors for their town. That is all we can hope that our education system will do.

I am sure that if everybody 'does a Rhyl', as well as 'doing a Ceredigion', our education system will move. However, it is important for all of us that we ensure that Estyn continues to point us to those areas where we need attention. It is incumbent on all of us to make sure that we do not let the children down.

Yn rhy aml, mae'r cyfryngau'n hapus i bortreadu ysgol mewn ardal incwm isel fel un sy'n hafan i ymddygiad drwg. Yn sicr, nid yw hynny'n wir, a chredaf fod Estyn wedi bod yn glir iawn o ran tynnu sylw at y ffaith nad yw hynny'n wir. Mae'n bwysig i mi, felly, fod y dysgu a'r addysgu'n ganolog i ffocws yr ysgol.

Mae gwersi anfodddhaol yn llesteirio pob un o'n plant, ond gwyddom, lle mae athro ysbrydoledig a rhagorol, y gallwch gael effaith aruthrol ar gymhelliant plant, yn enwedig y rheini o gefndiroedd incwm isel nad ydynt yn cael cymorth gartref.

Byddwn hefyd yn dadlau y gall gwersi digonol di-fflach wneud llawer iawn mwy i droi plant oddi wrth ddysgu, er gwaethaf eu cefndir. Mae'n rhaid canolbwyntio ar sicrhau bod y gwersi o safon uchel iawn bob tro y mae athro yn camu i mewn i ystafell ddosbarth neu amgylchedd dysgu. Mae Estyn yn canolbwyntio ar y ffaith bod cynllunio gwael yn un o brif achosion addysgu gwael, felly yn amlwg mae angen i arweinwyr ysgolion fonitro a mynd i'r afael â hynny.

Weinidog, daethoch gyda mi i'r ysgol uwchradd yn y Rhyl cyn y toriad yr wythnos diwethaf. Roedd yr ysgol honno, fel y gwyddom oll, ym mand 5 yn y cylch bandio cyntaf. Fodd bynnag, gwelsoch—a chredaf eich bod wedi'ch rhyfeddu—y ffordd y mae'r trawsnewidiad hwnnw wedi digwydd yn Ysgol Uwchradd y Rhyl. Mae hynny i'w briodoli'n rhannol i arweinyddiaeth y pennaeth yno, Claire Armitstead. Mae Claire wedi datgymalu'r ysgol honno, ac mae wedi addo i'r plant hynny, os byddant yn rhoi iddi hi a'i staff addysgu yr ail gyfle hwnnw, na fyddant byth yn gwneud cam â hwy eto. Credaf ei bod yn profi bod hynny wedi gweithio.

Mae 30% o ddisgyblion Ysgol Uwchradd y Rhyl yn cael pryda'u ysgol am ddim, ac, yn 2011, gwelsom fod 36% o ddisgyblion a oedd yn gadael yr ysgol wedi cyrraedd trothwy lefel 2. Mae'r ffigur hwnnw bellach yn 50%, sydd, rwyf yn meddwl, yn y ddwy flynedd hynny, yn dangos bod angen i Claire—a chredaf ichi ddweud hyn—botelu'r hyn sydd ganddi er mwyn gallu dwed 'Mae angen ichi wneud fel y Rhyl'. Dyna'r peth gorau y mae pobl y Rhyl wedi'i glywed gan Weinidog addysg ers peth amser, ac rwyf yn diolch ichi am hynny.

Fodd bynnag, y tu ôl i hynny i gyd y mae'r ffaith bod ganddi'r egni, y penderfyniad a'r arweinyddiaeth i wneud hynny, a gwn eich bod wedi cydnabod y sgiliau hynny, a'r ffordd y mae wedi cymryd rhai o'r plant anoddaf i'w cyrraedd, y rhai â llai o gymorth o ran eu bywydau gartref, ac wedi troi'r plant hynny'n wladweinwyr go iawn ac yn llysgenhadon go iawn dros eu tref. Dyna'r cyfan y gallwn obeithio y bydd ein system addysg yn ei wneud.

Mae'n siŵr gennyf, os bydd pawb 'yn gwneud fel y Rhyl', yn ogystal â 'gwneud fel Ceredigion', y bydd ein system addysg yn symud. Fodd bynnag, mae'n bwysig i bob un ohonom ein bod yn sicrhau bod Estyn yn parhau i dynnu ein sylw ni at y meysydd hynny lle y mae angen sylw. Mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i wneud yn siŵr nad ydym yn gwneud cam â'r plant.

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

I begin by thanking Members for their contributions today. I think that it has been an extraordinarily constructive debate, and a helpful one for me, particularly.

Dechreuaf drwy ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau heddiw. Mae wedi bod yn ddadl hynod adeiladol, ac yn un ddefnyddiol i mi, yn enwedig.

None of us in the Chamber should be in any doubt about the scale of the reform programme that has been set in train over the last three years. This is the most profound programme of reform for Welsh education since 1944, and this is, in essence, my response to what Estyn is saying in this annual report.

Ni ddylai'r un ohonom yn y Siambr fod ag unrhyw amheuaeth ynghylch maint y rhaglen ddiwygio sydd wedi ei rhoi ar waith dros y tair blynedd diwethaf. Dyma'r rhaglen ddiwygio fwyaf dwys i addysg Cymru ers 1944, a dyma, yn ei hanfod, fy ymateb i'r hyn y mae Estyn yn ei ddweud yn yr adroddiad blynyddol.

At the same time, none of us should be under any illusions about the significant uplift in standards that we need to see across the board in Welsh education. As a Government, I hope that we have taken a constructive approach today to the chief inspector's report. As Keith Davies has said—and I agree with him—it is full of wisdom. I also hope that we have taken a constructive approach to the amendments laid down by the opposition, which I will deal with as I proceed.

Ar yr un pryd, ni ddylai'r un ohonom fod ag unrhyw amheuaeth ynghylch y safonau sylweddol uwch y mae angen inni eu gweld yn gyffredinol mewn addysg yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio bod ein hymagwedd fel Llywodraeth heddiw tuag at adroddiad y prif arolygydd wedi bod yn un adeiladol. Fel y mae Keith Davies wedi ei ddweud—ac rwyf yn cytuno ag ef—mae'n llawn doethineb. Rwyf hefyd yn gobeithio bod ein hymagwedd at y gwelliannau a gyflwynwyd gan yr wrthblaid wedi bod yn adeiladol, a byddaf yn ymdrin â hwy wrth symud ymlaen.

What is clear from the report, as I say, is that there are pockets of excellence in our system. Our problem is that, far too often, standards in our system are too variable, both between and even within our own schools, as amendment 1, laid down by Paul Davies, and amendments 5 and 6, laid down by Elin Jones, recognise. To realise the improvements in standards, we crucially need to address those five key areas for improvement. Simon Thomas is quite right to say that those five key areas paint a simple picture of what needs to be done to turn around Welsh education. However, large systems such as the education system are not simple. That is the complexity that we have to tackle. Those five key areas are identified in Ann Keane's report and they have been continually referred to by Members in the Chamber today. Members are quite right to do so. Teaching, assessment, self-evaluation, literacy and numeracy and Welsh language skills are the keys top getting our system right.

Yr hyn sy'n amlwg o'r adroddiad, fel y dywedais, yw bod pocedi o ragoriaeth yn ein system. Ein problem yw bod safonau yn ein system, yn rhy aml o lawer, yn rhy amrywiol, rhwng ein hysgolion a hyd yn oed oddi mewn iddynt, fel y mae gwelliant 1, a gyflwynwyd gan Paul Davies, a gwelliannau 5 a 6, a gyflwynwyd gan Elin Jones, yn ei gydnabod. Er mwyn gwella'r safonau, mae'n hollbwysig ein bod yn ymdrin â'r pum maes allweddol ar gyfer gwella. Mae Simon Thomas yn llygad ei le wrth ddweud bod y pum maes allweddol hynny'n creu darlun syml o'r hyn y mae angen ei wneud i wyrddroi addysg yng Nghymru. Fodd bynnag, nid rhai syml mo systemau mawr fel y system addysg. Dyna'r cymhlethdod y mae'n rhaid inni fynd i'r afael ag ef. Nodir y pum maes allweddol hynny yn adroddiad Ann Keane a chyfeiriwyd atynt dro ar ôl tro gan Aelodau yn y Siambr heddiw. Mae'r Aelodau yn iawn i wneud hynny. Mae addysgu, asesu, hunanwerthuso, llythrennedd a rhifedd a sgiliau Cymraeg yn allweddol er mwyn sicrhau bod ein system yn iawn.

As a Government we are putting the framework in place for improvement, but we need buy-in from every member of the Welsh educational family to support this work. Crucially, we also need that family to get its head around the new and distinct Welsh educational landscape that is beginning to emerge. As many have said today, we already know that the single most important factor in helping learners achieve their potential is the quality of teaching.

Fel Llywodraeth, rydym yn rhoi'r fframwaith ar waith ar gyfer gwella, ond mae angen ymrwymiad gan bob aelod o deulu addysgol Cymru i gefnogi'r gwaith hwn. Yn hanfodol, mae angen i'r teulu hwnnw hefyd ddeall tirwedd addysgol newydd a gwahanol Cymru sy'n dechrau dod i'r amlwg. Fel y mae sawl un wedi ei ddweud heddiw, rydym eisoes yn gwybod mai ansawdd yr addysgu yw'r ffactor pwysicaf wrth helpu dysgwyr i gyflawni eu potensial.

While we will be accepting amendment 2 from Paul Davies in a spirit of constructive dialogue, I want to put on record that, as a Government, we are working very hard to bring the workforce with us on the journey of reform that we are taking. We recognise the need to recruit and retain the very best individuals with the highest level of subject knowledge to bring them into the Welsh system.

Er y byddwn yn derbyn gwelliant 2 gan Paul Davies er hybu deialog adeiladol, rwyf am roi ar gofnod ein bod, fel Llywodraeth, yn gweithio'n galed iawn i ddod â'r gweithlu gyda ni ar y daith ddiwygio hon. Rydym yn cydnabod yr angen i recriwtio a chadw'r unigolion gorau oll a chanddynt y lefel uchaf o wybodaeth am y pwnc a dod â hwy i mewn i system Cymru.

Today, I announced the appointment of an expert adviser of initial teacher training and we are making high-value incentives of up to £20,000 available to graduates with a first or 2:1 degree classification to teach priority subjects. We are also focused on making sure that all practitioners, including teaching assistants, have access to career-long professional development. This commitment is demonstrated by the investment that we are making in the innovative new Master's in educational practice qualification.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 17:07.

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will have much more to say, Presiding Officer, about support and challenge for the Welsh educational workforce later in the spring.

Work is well under way to require schools to have in place a school development plan, which will help to raise standards. They will set out how to most effectively target resources and identify the professional development needed for every teacher working at that school to raise their professional skills. Self-evaluation and planning for improvement will be an integral part of this new approach and will feature strongly in the new national model.

Each regional consortium will have challenge advisors whose role will be to review data alongside governors and senior leaders and challenge them to set aspirational targets—and Ann Jones spoke eloquently of the need for this—that will make a significant difference to educational outcomes. This will drive school improvements in every area of Wales.

Crucially, Presiding Officer, I am also working to target our resources more effectively. Our emerging deprivation programme, currently being developed for publication, will provide a framework for action that will cross departmental boundaries and draw together a wide range of activity into a coherent plan.

In addition to this, schools in Communities First areas will benefit from £3 million of Communities First funding matched against the pupil deprivation grant. In response to Aled Roberts's point, on the PDG, there is clarity through the Welsh Government's guidance in terms of what the PDG is for—it is not for plugging gaps or pressures within local authority budgets. I will reiterate this afternoon that if the pupil deprivation grant is misused for those purposes, I will have no hesitation in clawing back those resources that were intended for our least well-off pupils. That PDG match that I mentioned will support closer working between schools and their communities and get the holistic approach to tackling poverty, as outlined in amendment 3 by Aled.

Heddiw, cyhoeddais benodiad ymgynghorydd arbenigol ar hyfforddiant cychwynnol athrawon, ac rydym yn cynnig cymhellion uchel eu gwerth o hyd at £20,000 i raddedigion sydd â gradd dosbarth cyntaf neu 2:1 i addysgu pynciau blaenoriaeth. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr holl ymarferwyr, gan gynnwys cynorthwyrwyr dysgu, yn cael cynnig cyfleoedd datblygu proffesiynol gydol eu gyrfa. Mae'r buddsoddiad yr ydym yn ei wneud yn y cymhwyster Meistr arloesol newydd mewn ymarfer addysgol yn tystio i'r ymrwymiad hwnnw.

The Presiding Officer took the Chair at 17:07.

Bydd gennyf lawer mwy i'w ddweud, Lywydd, ynglŷn â chymorth a her i'r gweithlu addysgol yng Nghymru yn ddiweddarach yn y gwanwyn.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion fod â chynlluniau datblygu'r ysgol, a fydd yn helpu i godi safonau. Byddant yn nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o dargedu adnoddau ac adnabod y cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd eu hangen ar bob athro sy'n gweithio yn yr ysgol honno i wella ei sgiliau proffesiynol. Bydd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn rhan annatod o'r ymagwedd newydd hon ac yn nodwedd gref o'r model cenedlaethol newydd.

Bydd gan bob consortiwm rhanbarthol ymgynghorwyr her a'u rôl fydd adolygu data ochr yn ochr â llywodraethwyr ac uwch arweinwyr a'u herio i osod targedau dyheadol—a siaradodd Ann Jones yn huawdl am yr angen am hyn—a fydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ganlyniadau addysgol. Bydd hyn yn sbarduno gwelliannau i ysgolion ym mhob rhan o Gymru.

Yn hanfodol, Lywydd, rwyf hefyd yn gweithio i dargedu ein hadnoddau'n fwy effeithiol. Bydd ein rhaglen amddifadedd newydd, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd ar gyfer ei chyhoeddi, yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu a fydd yn croesi ffiniau adrannol ac yn dwyn ynghyd ystod eang o weithgarwch mewn cynllun cydlynol.

Yn ogystal â hyn, bydd ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn elwa o £3 miliwn o arian Cymunedau yn Gyntaf sy'n arian cyfatebol i'r grant amddifadedd disgyblion. O ran pwynt Aled Roberts, ar y grant amddifadedd disgyblion, mae eglurder trwy ganllawiau Llywodraeth Cymru o ran diben y grant amddifadedd disgyblion—ni fwriedir iddo lenwi bylchau neu bwysau o fewn cyllidebau awdurdodau lleol. Dywedaf eto y prynhawn yma, os bydd y grant amddifadedd disgyblion yn cael ei gamddefnyddio at y dibenion hynny, ni fyddaf yn petruso cyn adfachu'r adnoddau hynny y'u bwriadwyd ar gyfer ein disgyblion lleiaf cefnog. Bydd arian cyfatebol y grant amddifadedd disgyblion a grybwyllais yn cefnogi cydweithio agosach rhwng ysgolion a'u cymunedau ac yn sicrhau'r ymagwedd gyfannol tuag at drechu tlodi, a amlinellir yng ngwelliant 3 gan Aled.

As I said earlier, we are putting the building blocks in place to drive improvements throughout the system. Indeed, when this is done we will have a new system entirely. It will take time and determination and, crucially, a laser-like approach to the use of funding. To this end, I recently announced the £20 million Schools Challenge Cymru programme, which will begin work in September. The challenge is aimed at boosting the performance of 40 of the most challenged secondary schools in Wales through a relentless focus on teaching and learning, professional development and good leadership. These are policies that now need to be embraced by everyone in the sector. Crucially, this will require robust and effective leadership at every level of Welsh education. That is why I want to grow the leadership capacity within the system and provide development opportunities such as those, for instance, in Y Pant School, Pontyclun, and St Joseph's R.C. High School in Newport, which are highlighted in this year's report.

Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn rhoi'r blociau adeiladu yn eu lle i ysgogi gwelliannau ar draws y system. Yn wir, ar ôl gwneud hynny bydd gennym system gyfan gwbl newydd. Bydd yn cymryd amser a phenderfyniad ac, yn hollbwysig, ymagwedd fel laser at defnyddio cyllid. I'r perwyl hwn, cyhoeddais yn ddiweddar y rhaglen Her Ysgolion Cymru gwerth £20 miliwn, a fydd yn dechrau gweithio ym mis Medi. Bwriedir i'r her roi hwb i berfformiad 40 o'r ysgolion uwchradd sy'n wynebu'r her fwyaf yng Nghymru drwy ganolbwyntio'n ddirugaredd ar addysgu a dysgu, datblygu proffesiynol ac arweinyddiaeth dda. Mae'r rhain yn bolisiau y mae angen yn awr i bawb yn y sector eu croesawu. Yn hanfodol, bydd yn rhaid wrth arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol ar bob lefel ym myd addysg yng Nghymru. Dyna pam yr wyf am dyfu gallu arweinyddiaeth o fewn y system a darparu cyfleoedd datblygu megis y rhai, er enghraifft, yn Ysgol y Pant, Pontyclun, ac Ysgol Uwchradd Gatholig St Joseph yng Nghasnewydd, a grybwyllir yn yr adroddiad eleni.

I want to see strong leadership such as that across the sector. We must ensure that every leader, teacher and practitioner involved in education and training in Wales makes it their personal mission to deliver excellent teaching and learning. In doing this, they must put the interests of learners above all else, so that as a society we can realise the potential that exists for future generations in Wales.

Rwyf am weld arweinyddiaeth gref o'r fath ar draws y sector. Rhaid inni sicrhau bod pob arweinydd, athro ac ymarferwr sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant yn ei gwneud yn genhadaeth bersonol i gyflwyno dysgu ac addysgu ardderchog. Wrth wneud hyn, mae'n rhaid i fuddiannau'r dysgwyr fod yn flaenoriaeth iddynt, er mwyn i ni fel cymdeithas allu gwireddu'r potensial sydd i genedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 1 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 2 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 3 is agreed.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 3 wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 4 is agreed.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 4 wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

17:11	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography The proposal is to agree amendment 5. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 5 is agreed. <i>Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	Senedd.tv Fideo Video Y cynnig yw cytuno ar welliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 5 wedi ei dderbyn. <i>Amendment 5 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
17:11	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography The proposal is to agree amendment 6. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 6 is agreed. <i>Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	Senedd.tv Fideo Video Y cynnig yw cytuno ar welliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 6 wedi ei dderbyn. <i>Amendment 6 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
17:12	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography The proposal is to agree amendment 7. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 7 is agreed. <i>Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i>	Senedd.tv Fideo Video Y cynnig yw cytuno ar welliant 7. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 7 wedi ei dderbyn. <i>Amendment 7 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i>
	Cynnig NDM5442 fel y'i diwygiwyd:	Motion NDM5442 as amended:
	Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:	To propose that the National Assembly for Wales:
	Yn nodi adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ar gyfer 2012-13.	Notes the annual report for 2012-13 of Her Majesty's Chief Inspector of Education and Training in Wales.
	Yn gresynu nad yw safonau addysg yng Nghymru wedi gwella, ar y cyfan, a bod:	Regrets that standards of education in Wales have not improved in the main and that:
	a) y gyfran o ysgolion uwchradd sydd wedi cael eu brandio yn 'anfoddhaol' wedi cynyddu o 14% i 23%;	a) the proportion of secondary schools branded 'unsatisfactory' increased from 14% to 23%;
	b) ysgolion rhagorol yn parhau i fod yn lleiafrif bychan; ac	b) excellent schools remain in a small minority; and
	c) bod angen cynnal arolygiadau dilynol ar ddwy ran o dair o ysgolion uwchradd, a hanner yr ysgolion cynradd.	c) two thirds of secondary schools and half of primary schools are in need of follow-up inspections.
	Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i hybu morâl athrawon yn ysgolion Cymru.	Believes that the Welsh Government must do more to boost the morale of teachers in Welsh schools.
	Yn croesawu argymhelliad Estyn y dylai mynd i'r afael ag effeithiau tlodi fod yn ganolog i gynllunio ysgol-gyfan a bod yn rhaid i'r holl staff ddeall y rôl sydd ganddynt i'w chwarae, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y mae'n eu cymryd i wreiddio ymwybyddiaeth o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ymhlith holl aelodau staff ysgolion i sicrhau y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol i liniaru ar effaith tlodi mewn ysgolion.	Welcomes Estyn's recommendation that tackling the impacts of poverty should be central to whole-school planning and that all staff must understand the role they have to play, and calls on the Welsh Government to outline the steps it is taking to embed awareness of the Pupil Deprivation Grant amongst all staff in schools to ensure the most effective use of this funding to mitigate the impact of poverty in schools.

Yn gresynu at ganfyddiadau Estyn nad yw 'ysgolion prif ffrwd bob amser yn darparu gwybodaeth o ansawdd da na gwybodaeth amserol i'r UC'Dau am anghenion dysgu disgyblion' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau monitro mwy unigoleddig er mwyn cael 'darlun clir o alluoedd, anghenion a chynnydd blaenorol disgyblion'.

Yn gresynu at ganfyddiad Estyn bod 'Llai na hanner ysgolion uwchradd yn dda neu'n well, ac mae'r gyfran sy'n anfodddhaol wedi cynyddu o un o bob saith ysgol i un o bob pedair'.

Yn credu mai arweinwyr ac athrawon rhagorol yw'r allwedd i godi safonau mewn ysgolion.

Yn credu bod safonau yn cael eu codi mewn modd mwy cynaliadwy pan fydd ysgolion yn cydweithio yn hytrach na chystadlu.

Regrets Estyn's findings that 'mainstream schools do not always provide Pupil Referral Units with good quality or timely information about pupils' learning needs' and calls on the Welsh Government to develop more individualised monitoring mechanisms in order to achieve a 'clear picture of pupils' abilities, needs and prior progress'.

Regrets Estyn's finding that 'Fewer than half of secondary schools are good or better and the proportion that is unsatisfactory has increased from one in seven to one in four'.

Believes excellent leaders and teachers are the key to raising standards in schools.

Believes that standards are raised more sustainably when schools collaborate rather than compete.

17:12

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? There are no objections, therefore the motion as amended is agreed.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff y cynnig fel y'i diwygiwyd ei dderbyn.

Derbyniwyd cynnig NDM5442 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion NDM5442 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliant 2 yn enw Aled Roberts.

International Women's Day

The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, and amendment 2 in the name of Aled Roberts.

Cynnig NDM5443 Lesley Griffiths

Motion NDM5443 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2014 i nodi rôl menywod ym mywyd economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Celebrates International Women's Day 2014 in recognition of the role played by women in the economic, political, social and cultural life of Wales.

17:12

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

I am pleased to open this debate in celebration of International Women's Day 2014 to recognise the role played by women in the economic, political, social and cultural life of Wales.

Rwy'n falch o agor y ddadl hon i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2014 i gydnabod y rhan a chwaraeir gan fenywod ym mywyd economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Since 1911, there has been an annual global celebration to pay tribute to the role of women in society and to push for further social change. An important part of this has been getting more women into public office. I want International Women's Day in Wales to promote the importance of gender equality and women's empowerment. It should celebrate achievements but also highlight the very real issues and barriers still facing women and girls.

Er 1911, bu dathliad byd-eang blynyddol i dalu teyrnged i swyddogaeth menywod yn y gymdeithas ac i wthio am newid cymdeithasol pellach. Rhan bwysig o hyn fu cael mwy o fenywod i mewn i swyddi cyhoeddus. Rwyf am i Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod yng Nghymru hyrwyddo pwysigrwydd cydraddoldeb rhwng y rhywiau a grymuso menywod. Dylai ddathlu llwyddiannau, ond hefyd dynnu sylw at y materion a'r rhwystrau gwirioneddol iawn sy'n dal i wynebu menywod a merched.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Equality and Human Rights Commission has today published its report 'Who Runs Wales? 2014'. This report provides a snapshot of the gender balance in positions of influence. It is disappointing for all of us to note that the number of women in positions of power is now in decline at almost every level. This is further evidence that we must do more to ensure that we live in a representative democracy.

There are still far too few women at the decision-making tables. The Welsh Government is committed to reversing this trend, but we all have a role to play in increasing diversity. Our programme for government outlines our determination to increase diversity in public life and to challenge and change the status quo. As Minister for equalities, I have taken a proactive approach to increasing the number of women and other under-represented groups in public appointments. Welsh Ministers have now written to all chairs of public sector bodies, challenging them to take action to increase the number of women and other under-represented groups on public boards. We will receive an update on their progress by the end of June.

Following a successful event for chairs last July, I look forward to another seminar later in the year, where we will identify good practice and explore what more needs to be done.

International Women's Day is an opportunity to challenge stereotypes and accepted norms. This year's theme for International Women's Day in Wales is empowering women in Wales in a time of austerity. We chose this theme to mark a time of continuing economic insecurity for women. We know, with a few exceptions, that welfare reforms adversely affect more women than men in terms of the impact on incomes. As the impacts of austerity and welfare reforms hit, there is a danger that efforts to ensure gender equality could be lost and that women could become less visible and their voices not heard.

I believe that our economy is strongest when everyone has the chance to contribute. That means that we must help parents to balance working life with family life, and tackle the barriers that restrict participation in the workplace. The Equality and Human Rights Commission report published today highlights the results of its survey of the top 100 companies in Wales, which found that there were just two women in the most senior positions. The report acknowledges that improving gender balance can only be achieved if better family-friendly arrangements and part-time working is available at all levels.

Heddiw, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi ei adroddiad 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru? 2014'. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar y cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn swyddi dylanwadol. Mae'n siomedig i bob un ohonom nodi bod nifer y menywod mewn safleoedd o bwerau hyn yn dirywio ar bron bob lefel. Mae hyn yn darparu tystiolaeth bellach fod yn rhaid inni wneud mwy i sicrhau ein bod yn byw mewn democratiaeth gynrychioliadol.

Mae'n dal i fod yn ffaith fod llawer rhy ychydig o fenywod wrth y byrddau gwneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wrthdroi'r duedd hon, ond mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth gynyddu amrywiaeth. Mae ein rhaglen ar gyfer llywodraethu yn amlinellu ein penderfyniad i gynyddu amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus ac i herio a newid y sefyllfa bresennol. Yn fy swyddogaeth fel y Gweinidog cydraddoldebau, rwyf wedi cymryd ymagwedd ragweithiol tuag at gynyddu nifer y menywod a grwpiau eraill nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn penodiadau cyhoeddus. Mae Gweinidogion Cymru bellach wedi ysgrifennu at holl gadeiryddion y cyrff yn y sector cyhoeddus, gan eu herio i gymryd camau i gynyddu nifer y menywod a grwpiau eraill nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol ar fyrdau cyhoeddus. Byddwn yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd hyn erbyn diwedd mis Mehefin.

Yn dilyn digwyddiad llwyddiannus ar gyfer cadeiryddion fis Gorffennaf diwethaf, rwy'n edrych ymlaen at seminar arall yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pryd y byddwn yn nodi arferion da ac yn archwilio beth arall y mae angen ei wneud.

Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn gyfle i herio stereoteipiau a normau derbynol. Y thema eleni ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yng Nghymru yw grymuso menywod yng Nghymru mewn cyfnod o ddarbodaeth. Rydym wedi dewis y thema hon i nodi cyfnod o ansicrwydd economaidd parhaus i fenywod. Rydym yn gwybod, gyda rhai eithriadau, bod diwygiadau lles yn effeithio'n andwyol ar fwy o fenywod na dynion o ran yr effaith ar incwm. Wrth i effeithiau darbodaeth a diwygiadau lles daro, mae perygl y gallai ymdrechion i sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau gael ei golli ac y gallai merched fod yn llai amlwg ac na fyddai eu lleisiau'n cael eu clywed.

Rwy'n credu bod ein heconomi ar ei chryfaf pan fo gan bawb y cyfle i gyfrannu. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni helpu rhieni i gydbwysu bywyd gwaith gyda bywyd teuluol, a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n cyfyngu ar gyfranogiad yn y gweithle. Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gyhoeddwyd heddiw yn tynnu sylw at ganlyniadau ei arolwg o'r 100 prif gwmni yng Nghymru, a ganfu mai dim ond dwy fenyw oedd yn y swyddi uchaf. Mae'r adroddiad yn cydnabod na ellir ond gwella cydbwysedd rhwng y rhywiau os oes gwell trefniadau addas i deuluoedd a gweithio rhan-amser ar gael ar bob lefel.

17:16	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography Yes.	Ydw.	Senedd.tv Fideo Video
17:16	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography On that point, only 11% of local authorities in Wales are providing adequate childcare, as was highlighted by the Family and Childcare Trust report. How do you expect people to get into those positions in companies when they do not have childcare provision to look after their children while they go out to work?	Ar y pwynt hwnnw, dim ond 11% o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n darparu gofal plant digonol, fel yr amlygwyd gan adroddiad yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant. Sut ydych chi'n disgwyl i bobl allu cael y swyddi hynny mewn cwmnïau pan nad oes ganddynt ddarpariaeth gofal plant i ofalu am eu plant tra eu bod yn mynd allan i weithio?	Senedd.tv Fideo Video
17:16	Jeff Cuthbert Bywgraffiad Biography That was the whole point of the term 'women in times of austerity'. The funding cuts that your Government—the UK Government—has introduced has caused enormous problems for local authorities. Improving access to high-quality, affordable childcare is a key priority for this Government. It enables parents to work or to access training, and it supports our drive to increase economic growth, tackle poverty and reduce inequalities. Our programmes for early years and childcare, the tackling poverty action plan and the out-of-school childcare grant are making a difference. Our strategic equality plan contains the actions we are taking to help women and girls to access, to achieve and to aspire within education, training and employment. It also sets out what we are doing to tackle gender stereotyping and to enable women to access the careers of their choice. The promotion of gender equality is also the focus of a dedicated funding stream within the European structural funds programme for west Wales and the Valleys. This includes support for the Women Adding Value to the Economy project, which seeks to tackle the underlying issues that contribute to gender pay inequalities. We already have the most robust equal pay duty in the UK, introduced through our Welsh-specific equality duties. We are building on this to ensure that Welsh Government actions are focused on addressing the causes of pay differences, which will help to ensure a level playing field for all. International Women's Day provides the opportunity to highlight the fantastic achievements of many organisations and individuals across Wales in working towards gender equality. For example, in sport, we have a number of women who have achieved success on the world stage and who are now working as role models helping to inspire young people in particular to take part in sport, and to encourage them to adopt a healthy and active lifestyle.	Dyna oedd holl bwynt y term 'menywod mewn cyfnod o ddarbodaeth'. Mae'r toriadau cyllid y mae eich Llywodraeth chi—Llywodraeth y DU—wedi'u cyflwyno wedi achosi problemau enfawr i awdurdodau lleol. Mae gwella mynediad at ofal plant o ansawdd uchel, fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon. Mae'n galluogi rhieni i weithio neu i gael mynediad at hyfforddiant, ac mae'n cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau. Mae ein rhaglenni ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant, y cynllun gweithredu trechu tlodi a'r grant gofal plant y tu allan i'r ysgol yn gwneud gwahaniaeth. Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol yn cynnwys y camau yr ydym yn eu cymryd i helpu menywod a merched i gael mynediad, i gyflawni ac i gael dyheadau o fewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hefyd yn nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud i fynd i'r afael â stereoteipio rhyw ac i alluogi menywod i gael mynediad at y gyrfa oedd o'u dewis. Mae hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau hefyd yn bwyslais ffrwd ariannu arbennig yn y rhaglen cronfeydd strwythurol Ewropeaidd ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer y prosiect Merched yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau cyflog rhwng y rhywiau. Mae gennym eisoes y ddyletswydd cyflog cyfartal mwyaf cadarn yn y DU, a gyflwynwyd drwy ein dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru. Rydym yn adeiladu ar hyn er mwyn sicrhau bod camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion gwahaniaethau mewn cyflog, a fydd yn helpu i sicrhau chwarae teg i bawb. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn cynnig y cyfle i dynnu sylw at lwyddiannau gwych llawer o sefydliadau ac unigolion ledled Cymru o ran gweithio tuag at gydraddoldeb rhwng y rhywiau. Er enghraifft, mewn chwaraeon, mae gennym nifer o ferched sydd wedi cael llwyddiant ar lwyfan byd-eang ac sydd bellach yn gweithio fel esiampl i eraill yn helpu i ysbrydoli pobl ifanc yn arbennig i gymryd rhan mewn chwaraeon, a'i hannog i fabwysiadu ffordd o fyw iach ac egniol.	Senedd.tv Fideo Video

For the second year running, the Women's Equality Network Wales has been awarded Welsh Government funding to manage International Women's Day events across Wales. We need to ensure that we are reaching and empowering ordinary women in Wales. With this network of over 500 members, we can be confident that we are working well. The network has been working with women's groups to foster a collaborative and partnership approach to delivering the events. In total, £24,000 has been awarded for many and varied events across Wales.

Recently, I announced three-year funding through the equality and inclusion grant. Three of the 16 successful organisations are focused on working with women and tackling gender inequality. The North Wales Women's Centre will provide much-needed support for women across north Wales. The Women's Equality Network Wales will continue to promote and ensure gender equality in all spheres of Welsh life. The National Federation of Women's Institutes' 'balancing power' project will aim to increase the representation of women with protected characteristics at all levels of civic and public life in Wales.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru i reoli digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ledled Cymru. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cyrraedd ac yn grymuso merched cyffredin yng Nghymru. Gyda'r rhwydwaith hwn o dros 500 o aelodau, gallwn fod yn hyderus ein bod yn gweithio'n dda. Mae'r rhwydwaith wedi bod yn gweithio gyda grwpiau menywod i feithrin dull cydweithredol a phartneriaeth i ddarparu'r digwyddiadau. Mae cyfanswm o £24,000 wedi ei ddyfarnu i ddigwyddiadau niferus ac amrywiol ledled Cymru.

Yn ddiweddar, cyhoeddais gyllid tair blynedd trwy'r grant cydraddoldeb a chynhwysiant. Mae tri o'r 16 o sefydliadau llwyddiannus yn canolbwyntio ar weithio gyda menywod a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Bydd Canolfan Merched Gogledd Cymru yn darparu cymorth sydd wir ei angen ar gyfer menywod ar draws Gogledd Cymru. Bydd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru yn parhau i hyrwyddo a sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau ym mhob maes o fywyd Cymru. Nod prosiect 'cydbwyso grym' Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched yw cynyddu cynrychiolaeth menywod â nodweddion gwarchodedig ar bob lefel o fywyd dinesig a chyhoeddus yng Nghymru.

17:20 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will you take an intervention on that point?

A wnewch chi dderbyn ymyriad ar y pwynt hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:20 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

No, I have already taken an intervention, and I am drawing to a conclusion.

Na, rwyf eisoes wedi derbyn ymyriad, ac rwy'n tynnu tuag at y terfyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would also like us to recognise the work of our Presiding Officer, Dame Rosemary Butler, on women in public life, along with the Minister for Local Government and Government Business, whose report on the expert group on diversity in local government will be published here tomorrow. I look forward to continued working with them to make equal representation in public life a reality.

Hoffwn hefyd inni gydnabod gwaith ein Llywydd, y Fonesig Rosemary Butler, ar fenywod mewn bywyd cyhoeddus, ynghyd â Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, y mae ei adroddiad ar y grŵp arbenigol ar amrywiaeth mewn llywodraeth leol yn cael ei gyhoeddi yma yfory. Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda nhw i wneud cynrychiolaeth gyfartal mewn bywyd cyhoeddus yn wirionedd.

Wales has much to be proud of in advancing the roles of women in public life and work, but we should all be in no doubt that we are in very challenging times and we must redouble our efforts if we are to ensure that women play a full and effective role in Wales in the future.

Mae gan Gymru lawer i fod yn falch ohono mewn hyrwyddo swyddogaethau menywod mewn bywyd cyhoeddus a gwaith, ond ni ddylai'r un ohonom amau ein bod mewn cyfnod heriol iawn a bod yn rhaid i ni ddwysáu ein hymdrechion os ydym yn mynd i sicrhau bod merched yn chwarae rhan lawn ac effeithiol yng Nghymru yn y dyfodol.

Gwelliant 1—Paul Davies

Amendment 1—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Add as new point at end of motion:

Yn cydnabod llwyddiannau menywod o Gymru ym myd y campau a'r ffordd y maent yn fodelau rôl cadarnhaol i fenywod a dynion ifanc.

Recognises the achievements of Wales' sportswomen and how they serve as positive role models for young women and men.

17:21 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 1 in my name.

Cynigiau welliant 1 yn fy enw i.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to take part in this debate to celebrate International Women's Day. Other speakers, I am sure, will talk about the role of women in the economic, political, social and cultural life of Wales and the valuable contribution that they make to our society. However, I want to focus my comments on the achievements of our sportswomen and how they serve as positive role models for women, men, boys and girls. I hope that all Members will support our amendment.

Just over a week ago, the 2014 Winter Olympics closed with Team GB having its most successful Winter Olympics since 1924. Three of the four medals were won by women. Indeed, the men's curling team won its first medal since 1924, the women having dominated the sport since then and winning the majority of Winter Olympic medals.

Women from Wales dominated the London Paralympic games in 2012 with Nyree Kindred, Claire Williams, Jenny McLoughlin, Liz Johnson, Sara Head and Swansea-based Ellie Simmonds all taking home medals. We also had successful women at the Olympics. We all remember Jade Jones taking gold in the taekwondo. These women are just a few of the successful elite Welsh athletes who set the bar for those young men and women who aspire to become future sporting heroes.

Of course, the majority of sports are unfortunately dominated by men. The two most popular sports in Wales—football and rugby—are a case in point. We do have national women's teams, but very few of the matches are televised. How can we expect young women to aspire to play for their country if the women's game does not receive any airtime?

Football is the most popular team sport for girls in Wales. The Sport Wales 2011 school sport survey tells us that 90% of girls play football at primary school and 64% at secondary school. At club level, just over 6,000 women play regularly—an increase of 44% since 2010, which is, of course, positive. There are currently only 14 female referees in Wales, but I am pleased to see that the Football Association of Wales plans to address this and aims to increase that number to 50 by 2015 and to double that by 2018. Wales's most successful women player, Jane Ludlow, is the only female Welsh footballer to have her picture on the outside of the FAW headquarters in Cardiff.

The picture for rugby is much worse: it has no female referees and the Welsh Rugby Union devotes hardly any resources to developing the women's game. Then, there is the question of separate competitions for men and women. Of course, there are arguments for having separate competitions, but how much thought is given to sports that might easily have mixed teams, such as curling, for example?

Rwy'n falch o gymryd rhan yn y ddadl hon i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Bydd siaradwyr eraill, rwy'n siŵr, yn siarad am swyddogaeth menywod ym mywyd economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru a'r cyfraniad gwerthfawr y maent yn ei wneud i'n cymdeithas. Fodd bynnag, rwyf am ganolbwyntio fy sylwadau i ar gyflawniadau ein menywod sy'n cyflawni mewn chwaraeon a sut y maent yn gosod esiampl gadarnhaol ar gyfer menywod, dynion, bechgyn a merched. Rwy'n gobeithio y bydd pob Aelod yn cefnogi ein gwelliant.

Ychydig dros wythnos yn ôl, daeth Gemau Olympaidd y Gaeaf 2014 i ben, y Gemau Olympaidd y Gaeaf mwyaf llwyddiannus i Dîm Prydain er 1924. Enillwyd tair o'r pedair medal gan fenywod. Yn wir, enillodd tîm cyrlïo y dynion ei fedal gyntaf er 1924, a'r menywod sydd wedi dominyddu'r gamp ers hynny ac ennill y rhan fwyaf o fedalau Olympaidd y Gaeaf.

Dominyddwyd gemau Paralympaidd Llundain 2012 gan fenywod o Gymru gyda Nyree Kindred, Claire Williams, Jenny McLoughlin, Liz Johnson, Sara Head ac Ellie Simmonds sydd yn sefydledig yn Abertawe i gyd yn dod â medal adref gyda nhw. Cawsom hefyd fenywod llwyddiannus yn y Gemau Olympaidd. Rydym i gyd yn cofio Jade Jones yn ennill aur yn y taekwondo. Dim ond rhai o'r athletwyr elitaidd llwyddiannus o Gymru yw'r menywod hyn sydd wedi gosod y bar ar gyfer y dynion a menywod ifanc hynny sy'n dyheu i fod yn arwyr chwaraeon yn y dyfodol.

Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o chwaraeon yn cael eu dominyddu gan ddynion yn anffodus. Mae'r ddwy gamp fwyaf poblogaidd yng Nghymru—pêl-droed a rygbi—yn enghraifft o hyn. Mae gennym dimau merched cenedlaethol, ond ychydig iawn o'u gemau sy'n cael eu darlledu ar y teledu. Sut y gallwn ni ddisgwyl i fenywod ifanc fod â'r nod o chwarae dros eu gwlad os nad yw gêm y merched yn cael unrhyw amser ar y teledu?

Pêl-droed yw'r gamp tîm mwyaf poblogaidd ar gyfer merched yng Nghymru. Mae arolwg chwaraeon ysgol Chwaraeon Cymru 2011 yn dweud wrthym bod 90% o ferched yn chwarae pêl-droed yn yr ysgol gynradd a 64% yn yr ysgol uwchradd. Ar lefel clwb, mae ychydig dros 6,000 o fenywod yn chwarae yn rheolaidd—cynnydd o 44% er 2010, sydd, wrth gwrs, yn gadarnhaol. Ar hyn o bryd dim ond 14 dyfarnwr benywaidd sydd yng Nghymru, ond rwy'n falch o weld bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn bwriadu rhoi sylw i hyn gyda'r nod o gynyddu'r nifer i 50 erbyn 2015 ac i ddyblu hynny erbyn 2018. Chwaraewr benywaidd mwyaf llwyddiannus Cymru, Jane Ludlow, yw'r unig bêl-droediwr benywaidd Cymreig i gael ei llun ar y tu allan i bencadlys Cymdeithas Bêl-droed Cymru yng Nghaerdydd.

Mae'r darlun ar gyfer rygbi yn llawer gwaeth: nid oes ganddo ddyfarnwyr benywaidd ac nid yw Undeb Rygbi Cymru yn neilltuo fawr ddim adnoddau i ddatblygu gêm y merched. Yna, ceir y cwestiwn o gystadlaethau ar wahân ar gyfer dynion a menywod. Wrth gwrs, ceir dadleuon dros gael cystadlaethau ar wahân, ond faint o ystyriaeth a roddir i chwaraeon a allai'n hawdd gael timau cymysg, megis cyrlïo, er enghraifft?

The extreme sailing world series has mixed sailing teams. The UK leg of the world series is held in Cardiff bay after it secured funding from the Welsh Government. Perhaps the Minister, in response to this debate, could confirm whether this funding will continue in future years, as this event has been the centrepiece of the annual harbour festival and is a great example of how women directly compete with men.

Unfortunately, however, this event is an exception to the norm. There seems to be a pervasive view that women cannot compete with or against men, which is nonsense. As I am sure that most of you are aware, in September, Pembrokeshire hosts the Ironman triathlon. Despite the title, women compete on the same course, just in a different event to the men. However, the Ironman world record is actually held by a woman, English-born Chrissie Wellington. As in other walks of life, sportswomen have many hurdles to overcome outside the sporting arena, but I believe that we are slowly moving forward.

However, there is plenty of work to do. For example, the Equality and Human Rights Commission has claimed that almost no progress has been made in getting women into positions of power and influence in Wales over the last 10 years. Of course, our top-class female athletes act as positive role models and encourage young women and men to take up sport. They show young people of both sexes that hard work and dedication pay off, that you can overcome challenges and that fair play is a virtue in life. Therefore, Presiding Officer, I have been pleased to take part in this debate this afternoon to celebrate this year's International Women's Day. Thank you.

Mae timau hwylio cymysg yn y gyfres byd hwylio eithafol. Mae cymal y DU y gyfres byd yn cael ei gynnal ym mae Caerdydd ar ôl iddo sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru. Efallai y gallai'r Gweinidog, mewn ymateb i'r ddadl hon, gadarnhau a fydd yr arian hwn yn parhau yn y dyfodol, gan fod y digwyddiad hwn wedi bod yn ganolbwynt yr ŵyl harbwr flynyddol ac mae'n enghraifft wych o sut y mae menywod yn cystadlu'n uniongyrchol gyda dynion.

Yn anffodus, fodd bynnag, mae'r digwyddiad hwn yn eithriad i'r hyn sy'n arferol. Mae'n ymddangos bod barn dreiddiol na all merched gystadlu gyda neu yn erbyn dynion, sydd yn nonsens. Fel rwy'n siŵr y mae'r rhan fwyaf ohonoch yn gwybod, ym mis Medi, mae Sir Benfro yn cynnal y triathlon Ironman. Er gwaethaf y teitl, mae menywod yn cystadlu ar yr un cwrs, ond mewn digwyddiad gwahanol i'r dynion. Fodd bynnag, menyw mewn gwirionedd sy'n dal record Ironman y byd, sef Chrissie Wellington a anwyd yn Lloegr. Fel mewn swyddogaethau eraill mewn bywyd, mae gan fenywod ym myd y campau lawer o rwystrau i'w goresgyn y tu allan i'r arena chwaraeon, ond rwy'n credu ein bod yn symud ymlaen yn araf.

Fodd bynnag, mae digon o waith i'w wneud. Er enghraifft, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi honni bod bron dim cynnydd wedi'i wneud o ran cael menywod i mewn i swyddi o bŵer a dylanwad yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf. Wrth gwrs, mae ein hathletwyr benywaidd o'r safon uchaf yn gweithredu fel esiampl cadarnhaol ac yn annog menywod a dynion ifanc i ddechrau cymryd rhan mewn chwaraeon. Maent yn dangos i bobl ifanc o'r ddau ryw bod gwaith caled ac ymroddiad yn talu'r ffordd, eich bod yn gallu goresgyn heriau a bod chwarae teg yn rhinwedd mewn bywyd. Felly, Lywydd, rwyf wedi bod yn falch o gymryd rhan yn y ddadl hon y prynhawn yma i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod eleni. Diolch.

17:26

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Peter Black to move amendment 2, tabled in the name of Aled Roberts.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi adroddiad 'Lle'r Fenyw' gan Chwarae Teg a oedd yn dangos bod y mwyafrif o gyflogwyr yn meddwl y byddai gweithredu pellach gan y llywodraeth, a chymorth gyda gofal plant yn benodol, yn helpu i sicrhau cydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn y gweithle ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i ehangu darpariaeth gofal plant fforddiadwy o ansawdd yng Nghymru.

Galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

Amendment 2—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Notes the 'A Woman's Place' report from Chwarae Teg which showed that a majority of employers think that further governmental action, in particular help with childcare, would help achieve equality between men and women in the workplace and calls on the Welsh Government to outline the steps it will take to expand the provision of affordable and quality childcare in Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:26

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendment 2 in the name of Aled Roberts.

Cynigiau welliant 2 yn enw Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I very much welcome the opportunity to debate this subject today. It does provide us with an opportunity to recognise the role of women in Wales and provides an opportunity for the Welsh Government to tell us and the people of Wales how it will better enable women to have access to the role that it envisages for them.

There are gaps in childcare provision in Wales that are stopping women from entering the economy. I heard the Minister talk about the need for women to get back into the workplace and how we can better enable women to get on in life, but, of course, if you do not have that basic provision for childcare, then you are going to have a situation where that is not going to happen. Our amendment today highlights the recent Chwarae Teg report 'A Woman's Place', which states that 78% of employers surveyed felt that a lack of childcare opportunities makes it difficult for mothers with children to occupy a full-time job. It is often said that over 1 million women are missing from the UK workforce as, financially, it does not make sense for them to go back to work. The cost of childcare is a barrier for lone parents, often forcing them to choose between returning to work and staying at home, so more must be done to support mothers in accessing affordable childcare, as it will offer a significant boost to our economy.

Childcare provision in Wales is falling behind childcare provision in England. The BBC is today carrying a story stating that many parents are paying more for childcare than for their mortgage. The huge costs of childcare was highlighted during our debate last month, and women, as mothers and as the main carers, are being held back from contributing to our economy due to the costs of childcare. The UK Government has taken big strides forward to improve childcare provision. It is extending provision for two, three and four-year-olds to 15 hours a week, introducing tax-free childcare and shared parental leave. These measures will help women to balance childcare needs and return to work if they wish. In England, the number of local authorities that reported having sufficient childcare provision for under-twos has increased from just 20% to over 50% over the last few years. The report by the Family and Childcare Trust published today says that just 11% of Welsh local authorities reported sufficient childcare provision for five to 11-year-olds and just 6% for disabled children, while not one single Welsh council reported having adequate provision for children in rural areas. That is in stark contrast to what is happening in England.

The Family and Childcare Trust childcare costs survey states that childcare costs in England are falling in real terms for the first time in 12 years, but costs in Scotland and Wales are rising. According to the survey, while 54% of local authorities in England now report sufficient childcare, only 22% of Welsh local authorities report the same. Therefore, I think that it is quite clear that Wales is falling behind England and that Wales is not delivering, whereas England is.

Rwy'n croesawu'n fawr y cyfle i drafod y pwnc hwn heddiw. Mae'n darparu cyfle inni gydnabod swyddogaeth menywod yng Nghymru ac yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru ddweud wrthym ni a phobl Cymru sut y bydd yn galluogi menywod yn well i gael mynediad at y swyddogaeth y mae'n ei rhagweld ar eu cyfer.

Mae bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru sy'n atal menywod rhag mynd i mewn i'r economi. Clywais y Gweinidog yn sôn am yr angen i fenywod fynd yn ôl i'r gweithle a sut y gallwn alluogi menywod yn well i ddod ymlaen mewn bywyd, ond, wrth gwrs, os nad oes gennych y ddarpariaeth sylfaenol ar gyfer gofal plant, yna rydych yn mynd i gael sefyllfa lle nad yw hynny'n mynd i ddigwydd. Mae ein gwelliant heddiw yn tynnu sylw at yr adroddiad Chwarae Teg diweddar 'Lle Menyw', sy'n datgan bod 78% o gyflogwyr a holwyd yn teimlo bod diffyg cyfleoedd gofal plant yn ei gwneud yn anodd i famau â phlant fod mewn swydd llawn amser. Dywedir yn aml fod dros 1 miliwn o fenywod ar goll o weithlu'r DU oherwydd, yn ariannol, nid yw'n gwneud synnwyr iddynt i fynd yn ôl i'r gwaith. Mae cost gofal plant yn rhwystro i rieni unigol, gan eu gorfodi yn aml i ddewis rhwng dychwelyd i'r gwaith ac aros gartref, ac mae'n rhaid gwneud mwy felly i gefnogi mamau i gael gofal plant fforddiadwy, gan y bydd yn cynnig hwb sylweddol i'n heconomi.

Mae darpariaeth gofal plant yng Nghymru yn gostwng y tu ôl i ddarpariaeth gofal plant yn Lloegr. Mae'r BBC heddiw yn adrodd stori sy'n dweud bod llawer o rieni yn talu mwy am ofal plant nag am eu morgais. Tynnwyd sylw at gostau enfawr gofal plant yn ystod ein dadl y mis diwethaf, ac mae menywod, fel mamau ac fel y prif ofalwyr, yn cael eu dal yn ôl rhag cyfrannu at ein heconomi oherwydd y costau gofal plant. Mae Llywodraeth y DU wedi cymryd camau mawr ymlaen er mwyn gwella'r ddarpariaeth gofal plant. Mae'n ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer rhai dwy, tair a phedair oed i 15 awr yr wythnos, gan gyflwyno gofal plant di-dreth ac absenoldeb rhieni a rennir. Bydd y mesurau hyn yn helpu menywod i gydbwyso anghenion gofal plant a dychwelyd i'r gwaith os ydynt yn dymuno. Yn Lloegr, mae nifer yr awdurdodau lleol a ddywedodd bod ganddynt ddarpariaeth gofal plant digonol i blant o dan ddwy oed wedi cynyddu o brin 20% i dros 50% dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r adroddiad gan yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant a gyhoeddwyd heddiw yn dweud mai dim ond 11% o awdurdodau lleol Cymru ddywedodd fod ganddynt ddarpariaeth gofal plant digonol ar gyfer rhai pump i 11 mlwydd oed a dim ond 6% ar gyfer plant anabl, ac nid oedd unrhyw gyngor yng Nghymru yn dweud bod ganddynt ddarpariaeth ddigonol ar gyfer plant mewn ardaloedd gwledig. Mae hynny mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r hyn sy'n digwydd yn Lloegr.

Mae arolwg costau gofal plant yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant yn datgan bod costau gofal plant yn Lloegr yn gostwng mewn termau real am y tro cyntaf mewn 12 mlynedd, ond mae costau yng Nghymru a'r Alban yn codi. Yn ôl yr arolwg, tra bod 54% o awdurdodau lleol yn Lloegr bellach yn adrodd am ofal plant digonol, dim ond 22% o awdurdodau lleol Cymru sy'n adrodd hynny. Felly, rwy'n meddwl ei bod yn hollol glir bod Cymru'n llithro y tu ôl i Loegr ac nad yw Cymru'n cyflawni, tra bod Lloegr yn gwneud hynny.

The study tells us that the costs of after-school clubs have fallen in England and Scotland, although not in Wales, where the prices have increased. Just a third of local authorities have sufficient childcare through childminders and breakfast and after-school clubs. The shortage in this type of childcare was most severe in Wales. The £2.3 million announced for the out-of-school childcare grant last week was welcome, but this is not a new scheme. In fact, with funding announced ad hoc, year on year, local authorities cannot properly plan their wraparound childcare provision with any certainty. Parents are being left in a stressful situation, not knowing if they will have the childcare that they need to continue working.

The Deputy Minister for Tackling Poverty replied to our childcare debate last month, stating that the Welsh Government has undertaken,

‘research into the needs of parents who work atypical hours and have additional support needs.’

We want to see the result of this research and how the Welsh Government will expand the provision of childcare to enable these mothers to get back into work and contribute to our economy. When I spoke in that debate last month I highlighted, in particular, some of the failures of policy that are hitting childcare provision in Wales in particular, such as the failure of Genesis Cymru Wales 2, which had a specific focus on childcare by helping female lone parents who are economically inactive. This £36 million project failed to meet its target, supporting only 800 people out of the 20,000 originally aimed for.

Looking at local government too, in my own region—in Neath Port Talbot—despite the statutory requirement for the provision of free part-time education places for all children from the term following their third birthday, the local authority is cutting from its budget £447,000 this year. It plans to cut £213,000 in 2014-15, and a further £152,000 in 2015-16, effectively phasing out nursery places for three-year-olds. It seems to me that the situation in Wales can only get better, and it seems that we need to get better co-ordination between the Welsh Government and local authorities if we are to achieve that.

Mae'r astudiaeth yn dweud wrthym bod costau clybiau ar ôl ysgol wedi gostwng yn Lloegr a'r Alban, ond nid yng Nghymru, lle mae prisiau wedi cynyddu. Dim ond traean o awdurdodau lleol sydd â gofal plant digonol trwy warchodwyr plant a chlybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol. Yng Nghymru oedd y prinder mwyaf difrifol yn y math hwn o ofal plant. Mae'r £2.3 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer y grant gofal plant y tu allan i'r ysgol yr wythnos diwethaf i'w groesawu, ond nid yw hwn yn gynllun newydd. Yn wir, gyda chyllid yn cael ei gyhoeddi ad hoc, flwyddyn ar ôl blwyddyn, ni all awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth gofal plant cofleidiol yn briodol gydag unrhyw sicrwydd. Mae rhieni'n cael eu gadael mewn sefyllfa anodd, heb wybod a fydd ganddynt y gofal plant sydd ei angen arnynt i barhau i weithio.

Atebodd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi i'n dadl gofal plant y mis diwethaf, gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal:

ymchwil i anghenion rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol ac sydd ag anghenion cymorth ychwanegol.

Rydym yn dymuno gweld canlyniad yr ymchwil hwn a sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ehangu'r ddarpariaeth gofal plant i alluogi'r mamau hyn i fynd yn ôl i'r gwaith ac i gyfrannu at ein heconomi. Pan siaradais yn ystod y ddadl honno y mis diwethaf tynnais sylw, yn benodol, at rai o'r methiannau polisi sy'n taro darpariaeth gofal plant yng Nghymru yn arbennig, megis methiant Genesis Cymru Wales 2, a oedd â phwyslais penodol ar ofal plant drwy helpu rhieni unigol benywaidd sy'n economaidd anweithgar. Methodd y prosiect £36 miliwn hwn â chyrraedd ei darged, gan gefnogi dim ond 800 o bobl allan o 20,000, sef y nod gwreiddiol.

Gan edrych ar lywodraeth leol hefyd, yn fy rhanbarth fy hun —yng Nghastell-nedd Port Talbot—er gwaethaf y gofyniad statudol ar gyfer darparu lleoedd addysg rhan-amser am ddim i bob plentyn o'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd, mae'r awdurdod lleol yn torri £447,000 oddi ar ei gyllideb eleni. Mae'n bwriadu torri £213,000 yn 2014-15, a £152,000 arall yn 2015-16, i bob pwrpas yn dileu'n raddol y lleoedd meithrin ar gyfer plant tair oed. Mae'n ymddangos i mi mai dim ond gwella y gall y sefyllfa yng Nghymru, ac mae'n ymddangos bod angen i ni gael gwell cydgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol os ydym am gyflawni hynny.

17:31

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

I call on Sandy Mewies to speak on behalf of the Assembly Commission.

Galwaf ar Sandy Mewies i siarad ar ran Comisiwn y Cynulliad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:31	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography <i>Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner</i> As you say, Presiding Officer, I speak today as the Assembly Commissioner with responsibility for equalities, and I am very pleased indeed to do so. The equalities agenda is important to the Assembly Commission and we take those responsibilities seriously, not just because it is a legal responsibility but because—I think that it is fair to say—everyone feels that we want to. The Assembly is here to represent all of the people of Wales and all of its communities. We have, therefore, continued to enhance our services to the people of Wales across the equality spectrum. I am delighted to state what we have been doing specifically on the contribution of women in Wales. The National Assembly for Wales's commitment to providing a family friendly working environment has been recognised with a prestigious award. We are—	Senedd.tv Fideo Video
17:32	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography I wonder whether you could take an intervention.	Senedd.tv Fideo Video
17:32	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography Yes, I will.	Senedd.tv Fideo Video
17:32	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography I am very grateful to the Commissioner for taking an intervention because I have been trying to get an answer for three years about what policies are in place to support single-parent Assembly Members with childcare responsibilities. I would be really grateful if you could tell me what is in place from the Commission to support that.	Senedd.tv Fideo Video
17:32	Sandy Mewies Bywgraffiad Biography I can, actually. Childcare for Assembly Members is not a responsibility of the Assembly Commission. Rather, it is the responsibility of the independent remuneration board, which sets the pay and allowances for Members. It has committed to look at this. To continue, we are the only Welsh organisation named in the top UK employers by the Top Employers for Working Families organisation for the second year running. It is an industry-recognised benchmark for good practice when it comes to providing a working environment that allows for a positive work-life balance. It means that the Assembly is in the same league as many FTSE 100 companies. More importantly, it sends a strong message to potential employees considering working here. The Assembly, as a legislature, also has a good record on gender equality. Currently, some 41% of Assembly Members are women, putting the Assembly in ninth place in world rankings, comparing very favourably to other UK Parliaments.	Senedd.tv Fideo Video
	Fel y dywedwch, Lywydd, rwy'n siarad heddiw fel Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, ac rwy'n falch iawn yn wir i wneud hynny. Mae'r agenda gydraddoldeb yn bwysig i Gomisiwn y Cynulliad ac rydym yn cymryd y cyfrifoldebau hynny o ddifrif, nid yn unig oherwydd ei fod yn gyfrifoldeb cyfreithiol ond oherwydd—rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud—bod pawb yn teimlo ein bod yn dymuno gwneud hynny. Mae'r Cynulliad yma i gynrychioli holl bobl Cymru a'i holl gymunedau. Rydym, felly, yn parhau i wella ein gwasanaethau i bobl Cymru ar draws y sbectrwm cydraddoldeb. Rwyf wrth fy modd i ddatgan beth yr ydym wedi bod yn ei wneud yn benodol ar gyfraniad menywod yng Nghymru. Mae ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddarparu amgylchedd gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd wedi ei gydnabod drwy ddyfarniad clodfawr. Rydym yn— Tybed a allech chi dderbyn ymyriad. Gwnaf, fe wnaif hynny. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Comisiynydd am dderbyn ymyriad oherwydd fy mod wedi bod yn ceisio cael ateb ers tair blynedd am ba bolisiau sydd ar waith i gefnogi Aelodau'r Cynulliad sy'n rhieni sengl sydd â chyfrifoldebau gofal plant. Byddwn yn ddiolchgar iawn pe gallech ddweud wrthyf beth sydd ar waith gan y Comisiwn i gefnogi hynny. Gallaf, a dweud y gwir. Nid yw gofal plant ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn gyfrifoldeb Comisiwn y Cynulliad. Yn hytrach, cyfrifoldeb y bwrdd taliadau annibynnol ydyw, sy'n pennu tâl a lwfansau ar gyfer Aelodau. Mae wedi ymrwymo i edrych ar hyn. I barhau, ni yw'r unig sefydliad Cymreig a enwir ymysg y cyflogwyr gorau yn y DU gan y sefydliad y Cyflogwyr Gorau ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae hwn yn feincnod a gydnabyddir gan y diwydiant ar gyfer arfer da pan ddaw at ddarparu amgylchedd gwaith sy'n caniatáu ar gyfer cydbwysedd gwaith-bywyd cadarnhaol. Mae'n golygu bod y Cynulliad yn yr un gynghrair â llawer o gwmnïau'r FTSE 100. Yn bwysicach, mae'n anfon neges gref i ddarpar weithwyr i ystyried gweithio yma. Mae gan y Cynulliad, fel deddfwrfa, hanes da ar gydraddoldeb rhywiol. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 41% o Aelodau'r Cynulliad yn fenywod, gan roi'r Cynulliad yn y nawfed safle yn y byd, gan gymharu'n ffafriol iawn â Seneddau eraill y DU.	

From 2003 to 2007 more than 50% of AMs were women. Over the last few years we have seen the emergence of women as leaders of two of our political parties. Many will know that, in 2012, you, Presiding Officer highlighted a serious issue about the lack of representation of women in public life, by running a series of regional events across Wales exploring the barriers to women's participation. That culminated in a national conference in November, where delegates mandated you to write to party leaders asking them to address the drift in women's representation seen at the Assembly in the last few years. As a result of that, and the favourable response that was received, the Presiding Officer has recently formed a Women in Democracy caucus, with an Assembly Member from each party, looking specifically at best practice from parliamentary bodies around the world. It will make recommendations by the end of this year.

While it would be for political parties to determine how they get more women selected as candidates, there will undoubtedly be some institution-wide measures that could be put in place to attract more women into politics. I am sure that we all share the desire to see more women elected to the Assembly, so that it more accurately reflects the gender split in our society. However, this is not just about Assembly Members but about the wider issue of barriers to women standing for public office, such as becoming magistrates, becoming board members through the public appointments system, and standing as councillors and as school governors. There is a whole skill set that, as a society, we are just not tapping into.

I am pleased, Presiding Officer, that you have led this initiative and that you are seeking ways to encourage more participation. Since last year, we have had the Women in Public Life portal, which offers a range of ways to learn more about public life and advertises board vacancies across a range of areas. Aligned with this, Presiding Officer, you launched a development scheme for women at the end of January. Those taking part will be provided with the skills and confidence to apply for positions in public life through a programme inclusive of intense personal development and skills training, with one-to-one mentoring support and role-shadowing opportunities at the highest levels in public bodies. I know that many of the people sitting here today will be supporting that.

It is important to repeat what I have said before: none of this is about women being better than men, or vice versa. Research shows that gender balance can lead to more balanced policy. It is inevitable that a broad range of issues will be covered when you have a mixed group of people considering an issue. That is really important for a legislature. The Equality and Human Rights Commission's report, 'Who runs Wales?', launched today, shows that gender representation overall is getting worse, not better. Therefore, while we have been doing really well as the seat of democracy in Wales, we have more to do, as political parties and as an Assembly, to lead by example.

O 2003 i 2007 roedd mwy na 50% o Aelodau'r Cynulliad yn fenywod. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld merched yn dod i'r amlwg fel arweinwyr dwy o'n pleidiau gwleidyddol. Bydd llawer yn gwybod, yn 2012, eich bod chi, Lywydd wedi amlygu mater difrifol am ddiffyg cynrychiolaeth menywod mewn bywyd cyhoeddus, drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ledled Cymru yn edrych ar y rhwystrau i gyfranogiad merched. Arweiniodd hynny at gynhadledd genedlaethol ym mis Tachwedd, lle rhoddodd y cynrychiolwyr fandad i chi i ysgrifennu at arweinwyr y pleidiau i ofyn iddynt roi sylw i'r gostyngiad yng nghynrychiolaeth menywod a welwyd yn y Cynulliad yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. O ganlyniad i hynny, a'r ymateb ffafriol a dderbyniwyd, mae'r Llywydd yn ddiweddar wedi ffurfio clymblaid Menywod mewn Democratiaeth, gydag Aelod Cynulliad o bob plaid, gan edrych yn benodol ar arferion gorau cyrff seneddol o amgylch y byd. Bydd yn gwneud argymhellion erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Er y byddai'n fater i bleidiau gwleidyddol benderfynu sut y maent yn cael mwy o fenywod wedi'u dewis fel ymgeiswyr, bydd yn sicr rai mesurau sefydliad cyfan y gellid eu rhoi ar waith i ddenu mwy o fenywod i mewn i wleidyddiaeth. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn rhannu'r awydd i weld mwy o fenywod wedi'u hethol i'r Cynulliad, er mwyn iddo adlewyrchu yn fwy cywir y rhaniad rhwng y rhywiau yn ein cymdeithas. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymwneud yn unig ag Aelodau'r Cynulliad, ond mae'n ymwneud â'r mater ehangach o rwystrau i ferched yn ymgeisio am swydd gyhoeddus, megis dod yn ynadon, dod yn aelodau bwrdd drwy'r system penodiadau cyhoeddus, ac ymgeisio i fod yn gynghorwyr neu'n llywodraethwyr ysgol. Mae cyfres gyfan o sgiliau nad ydym, fel cymdeithas, yn manteisio arnynt.

Rwy'n falch, Lywydd, eich bod wedi arwain y fenter hon a'ch bod yn chwilio am ffyrdd o annog mwy o gyfranogiad. Ers y llynedd, rydym wedi cael y porth Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, sy'n cynnig amrywiaeth o ffyrdd o ddysgu mwy am fywyd cyhoeddus ac sy'n hysbysebu swyddi gwag bwrdd ar draws ystod o feysydd. Yn gysylltiedig â hyn, Lywydd, lansiwyd cynllun datblygu gennych chi ar gyfer merched ddiwedd mis Ionawr. Bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn cael y sgiliau a'r hyder i ymgeisio am swyddi mewn bywyd cyhoeddus trwy raglen sy'n cynnwys datblygiad personol dwys a hyfforddiant sgiliau, gyda chefnogaeth mentora a chyffleodd cysgodi swydd un-i-un ar y lefelau uchaf mewn cyrff cyhoeddus. Gwn y bydd llawer o'r bobl sy'n eistedd yma heddiw yn cefnogi hynny.

Mae'n bwysig ailadrodd yr hyn yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen: nid oes dim o hyn yn ymwneud â bod menywod yn well na dynion, neu i'r gwrthwyneb. Dengys ymchwil y gall cydbwysedd rhwng y rhywiau arwain at bolisi mwy cytbwys. Mae'n anochel y bydd amrywiaeth eang o faterion yn cael eu cynnwys pan fydd gennych grŵp cymysg o bobl sy'n ystyried mater. Mae hynny'n bwysig iawn ar gyfer deddfwra. Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Pwy sy'n rhedeg Cymru?', a lansiwyd heddiw, yn dangos bod cynrychiolaeth gyffredinol rhwng y rhywiau yn gwaethygu, nid yn gwella. Felly, er ein bod wedi bod yn gwneud yn dda iawn fel canolfan democratiaeth yng Nghymru, mae gennym fwy i'w wneud, fel pleidiau gwleidyddol ac fel Cynulliad, i arwain trwy esiampl.

Finally, while reflecting on International Women's Day, I must thank Ministers and Members who took the trouble to visit the KIM Inspire organisation, which is based in my Delyn constituency, at the Senedd today. It is inspirational in the support that it gives to women who have had emotional and other difficulties, to get back into the life that they deserve. It reminds us that International Women's Day is all-embracing and should encourage women to take their rightful place in their society—the place where they want to be.

Yn olaf, wrth fyfyrir ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod, mae'n rhaid i mi ddiolch i Weinidogion ac Aelodau a aeth i'r drafferth i ymweld â'r sefydliad KIM Inspire, sydd wedi'i leoli yn fy etholaeth Delyn i, yn y Senedd heddiw. Mae'n ysbrydoledig yn y cymorth y mae'n ei roi i ferched sydd wedi dioddef anawsterau emosiynol ac anawsterau eraill, i fynd yn ôl i'r bywyd y maent yn ei haeddu. Mae'n ein hatgoffa ni bod Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn hollgynhwysol ac y dylai annog menywod i gymryd eu lle haeddiannol yn eu cymdeithas—y man lle maent yn dymuno bod ynddo.

17:37

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have to say that I am not going to give the speech that I had written, having heard what I have heard today. Sandy, I heard everything that you said as the Commissioner for equality here at the Assembly, but I can tell you that, when I was elected in 2011, I was a lone parent with sole responsibility for an eight-year-old, and there is not a single policy here at the Assembly to support an Assembly Member from north Wales in that position. There is, however, in the UK Parliament, which recognises that not just women but men, too, may have caring responsibilities, not just for children but also for elderly relatives, many of whom can be very ill and very sick. There is a reason why my generation is called the sandwich generation: there is a responsibility that exists for a certain number of women or a certain generation to look after elderly parents and to also care for their young children. While I accept that the remuneration board has committed to looking at this in the next Assembly, to not have a policy in place perhaps indicates that there has not been as much thought given to the position of those with caring responsibilities as there could have been. As you have rightly noted, the number of women coming in to the Assembly and being elected to the Assembly has fallen.

I was quite shocked to read the Family and Childcare Trust report on childcare. Jeff, I am very surprised that you chose only to pick out the 2% in relation to private companies. Again, I can tell you my experience of living in rural Conwy, working part-time. There was no holiday club, unless I drove 20 miles or further to access one. There was an after-school club, which ran until 6 p.m., but if, for any reason, my working hours were not between 8 a.m. and 6 p.m., there was no childcare available at all. The childcare that was available in that rural area was only there because of the 'cylch meithrin' and the work that the 'cylch' did locally. In terms of wraparound childcare that was available for me, as a working lone parent, it was non-existent and incredibly hard to access. Bearing in mind the hours that I was working, the cost of that to me was extortionate. I had to find other ways of coping. I have to say that, had it not been for the support of my family, I would not have been able to go out to work at all. When you are talking about someone who is a fully qualified barrister and who would have been an asset to an organisation, given my legal skills and experience, and the fact that I was being paid £10.62 an hour, you can perhaps look at the issues. I am not going to be told in this Chamber that everything is alright in Wales when only 11% of local councils accept that they have adequate provision for five to 11-year-olds.

Mae'n rhaid i mi ddweud nad wyf i'n mynd i roi'r araith yr oeddwn wedi'i hysgrifennu, ar ôl clywed yr hyn yr wyf wedi ei glywed heddiw. Sandy, rwyf wedi clywed popeth a ddywedasoch wrth y Comisiynydd dros gydraddoldeb yma yn y Cynulliad, ond gallaf ddweud wrthyf, pan gefais fy ethol yn 2011, roeddwn yn unig riant gyda chyfrifoldeb llwyr am blentyn wyth mlwydd oed, ac nid oes yr un polisi yma yn y Cynulliad i gefnogi Aelod Cynulliad o ogledd Cymru yn y sefyllfa honno. Mae hynny'n bod, fodd bynnag, yn Senedd y DU, sy'n cydnabod y gallai nid yn unig merched, ond dynion hefyd, fod â chyfrifoldebau gofalu, nid yn unig am blant, ond hefyd am berthnasau oeddrannus, y gallai llawer ohonynt fod yn sâl iawn ac yn wael iawn. Mae rheswm pam y gelwir fy nghenedlaeth i y genhedlaeth yn y canol: mae cyfrifoldeb yn bodoli ar gyfer nifer penodol o ferched neu genhedlaeth benodol i ofalu am rieni oeddrannus a hefyd i ofalu am eu plant ifanc. Er fy mod yn derbyn bod y bwrdd taliadau wedi ymrwymo i edrych ar hyn yn y Cynulliad nesaf, mae'r ffaith nad oes gennym bolisi wedi'i sefydlu o bosibl yn dangos nad oes cymaint o feddwl wedi ei roi i sefyllfa'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu ag y gellid bod wedi ei roi. Fel yr ydych wedi nodi yn gywir, mae nifer y menywod sy'n dod i mewn i'r Cynulliad ac yn cael eu hethol i'r Cynulliad wedi gostwng.

Cefais dipyn o sioc i ddarllen adroddiad yr Ymddiriedolaeth Teuluoedd a Gofal Plant ar ofal plant. Jeff, rwy'n synnu'n fawr eich bod wedi dewis nodi dim ond y 2% ar gyfer cwmnïau preifat. Unwaith eto, gallaf ddweud wrthyf am fy mhrofiad o fyw yng Nghonwy wledig, a gweithio'n rhan-amser. Nid oedd unrhyw glwb gwyliau, oni bai fy mod yn gyrru 20 milltir neu fwy i gael gafael ar un. Roedd clwb ar ôl ysgol ar gael, a oedd yn rhedeg tan 6 p.m., ond os, am ryw reswm, nad oedd fy oriau gwaith rhwng 8 a.m. a 6 p.m., nid oedd unrhyw ofal plant ar gael o gwbl. Roedd y gofal plant a oedd ar gael yn yr ardal wledig honno yno'n unig oherwydd y 'cylch meithrin' a'r gwaith yr oedd y 'cylch' yn ei wneud yn lleol. O ran gofal plant cofleidol a oedd ar gael i mi, fel rhiant sengl yn gweithio, nid oedd yn bodoli ac yn hynod anodd cael mynediad ato. Gan gadw mewn cof yr oriau yr oeddwn yn eu gweithio, roedd cost hynny i mi yn ormodol. Roedd yn rhaid i mi ddod o hyd i ffyrdd eraill o ymdopi. Mae'n rhaid i mi ddweud, oni bai am gefnogaeth fy rheulu, ni fyddwn wedi gallu mynd allan i weithio o gwbl. Pan eich bod yn sôn am rywun sydd yn fargyfreithiwr gwbl gymwysedig ac a fyddai wedi bod yn gaffaeliad i sefydliad, o ystyried fy sgiliau cyfreithiol a'm profiad, a'r ffaith fy mod yn cael fy nhalu £10.62 yr awr, gallwch efallai edrych ar y materion. Nid oes neb yn mynd i ddweud wrthyf yn y Siambr hon bod popeth yn iawn yng Nghymru pan mai dim ond 11% o gynghorau lleol sy'n derbyn bod ganddynt ddarpariaeth ddigonol ar gyfer plant rhwng pump ac 11 mlwydd oed.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There is an obligation under the Childcare Act 2006 for local authorities to make an assessment as to whether their childcare provision is appropriate. If it is not appropriate, there is an obligation on them to act. Quite frankly, for all the nice talk that we hear about equality, it is action that we need. We need women in this Assembly so that we can tell you what the reality is on the ground. I do not know what your civil servants are saying to you but they are not telling you what it is like in rural areas. The fact that not a single council in Wales can say that there is adequate provision in rural areas is why I have been raising the fact with you for the last two years that the index of deprivation does not adequately reflect access to services and does not deal with the position in rural areas. This highlights it the most.

Mae rhwymedigaeth o dan Ddeddf Gofal Plant 2006 i awdurdodau lleol wneud asesiad o ran a yw eu darpariaeth gofal plant yn briodol. Os nad yw'n briodol, mae dyletswydd arnynt i weithredu. A dweud y gwir, er yr holl siarad braf yr ydym yn ei glywed am gydraddoldeb, gweithredu sydd ei angen arnom. Mae angen merched yn y Cynulliad hwn fel y gallwn ddweud wrthyhych beth yw'r gwirionedd ar lawr gwlad. Nid wyf yn gwybod beth y mae eich gweision sifil yn ei ddweud wrthyhych, ond nid ydynt yn dweud wrthyhych sut y mae pethau mewn ardaloedd gwledig. Y ffaith na all yr un cyngor unigol yng Nghymru ddweud bod darpariaeth ddigonol mewn ardaloedd gwledig yw'r rheswm pam yr wyf wedi bod yn codi'r ffaith hon gyda chi am y ddwy flynedd diwethaf nad yw'r mynegai amddifadedd yn adlewyrchu mynediad i wasanaethau yn ddigonol ac nad yw'n ymdrin â'r sefyllfa mewn ardaloedd gwledig. Dyma sy'n ei amlygu fwyaf.

I was going to talk about what the Conservative Party was doing. [Interruption.] Jeff—

Roeddwn yn mynd i siarad am yr hyn y mae'r Blaid Geidwadol yn ei wneud. [Torri ar draws.] Jeff—

17:42 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Excuse me, this is the Minister. Could you refer to him as the Minister, not Jeff? You have 10 seconds.

Esgusodwch fi, ef yw'r Gweinidog. A wnewch chi gyfeirio ato fel y Gweinidog, nid Jeff? Mae gennych 10 eiliad.

17:43 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

At management level, 17% of your civil servants are women. This is a new institution that should not have an embedded culture of discrimination. That figure speaks for itself, and Welsh Government is responsible for that.

Ar lefel rheoli, mae 17% o'ch gweision sifil yn fenywod. Mae hwn yn sefydliad newydd na ddylai fod â diwylliant sefydledig o wahaniaethu. Mae'r ffigur hwnnw yn dweud y cwbl, a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am hynny.

17:43 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

We have a lot to be proud of on this, the one hundred and third International Women's Day. [Interruption.]

Mae gennym lawer i fod yn falch ohono ar hwn, y canfed a thrydydd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. [Torri ar draws.]

17:43 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Order. This is a very important debate. Will you listen to people's contributions?

Trefn. Mae hon yn ddadl bwysig iawn. A wnewch chi wrando ar gyfraniadau pobl?

17:43 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Shall I start again? We have a lot to be proud of on this, the one hundred and third International Women's Day. The women who celebrated those very early International Women's Days at the beginning of the twentieth century could hardly have imagined the strides that women would make to take their rightful place in economic, political, social and cultural life.

A ddylwn i ddechrau eto? Mae gennym lawer i fod yn falch ohono ar hwn, y canfed a thrydydd Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Prin y gallai'r menywod a ddathlodd y Diwrnodau Rhyngwladol y Menywod cynnar iawn hynny ar ddechrau'r ugeinfed ganrif fod wedi dychmygu'r camau y byddai merched yn ei gwneud i gymryd eu lle haeddiannol mewn bywyd economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol.

The lives of women have been transformed and vastly improved thanks to the dedication of campaigners and lawmakers who have fought for women to be able to live more fulfilled lives. We have choice now: the choice to work, to study and to raise children. It is not perfect, even for the well-heeled, but it is better than it was. Women are present at every level of public life—not enough, but they are present. Here in the Assembly, we can be proud of our record of gender equality, as Sandy Mewies set out earlier. However, we have to be aware and we must continue to strive to improve.

While we celebrate the progress made by women in all spheres of life, we must not forget that we live in a society that continues to be marked by sexism. We should celebrate that women's contribution to the economy has grown and that record numbers of women are now working and setting up businesses. However, there are barriers that face women to make the best use of their desire to work, their skills and their training. Old ideas about men's work and women's work continue to limit women's opportunities, both in the workplace and at home. Occupations associated with too many women tend to be lower paid. I look forward to returning to the debate on domiciliary care workers' rights at a later date.

Women also continue to spend considerably more time doing housework than men, in part because of the things that men are prepared to do: the men's work of housekeeping, the DIY and the gardening are occasional tasks, whereas women continue to bear the brunt of the time-consuming work of keeping the house going day by day. I bear the scars, Presiding Officer, on that one.

I recently heard Bea Campbell—you all know her; the respected intellectual and writer—arguing that progress on equality has stalled, and even perhaps reversed in some areas. She quotes the Centre for Time Use Research, which found that since the 1970s the amount of time that British men devote to housework has gone up, and we can applaud that. In those 40 years it has gone up by 20 minutes. Alun Ffred Jones, that is half a minute for every year. That is the rate of increase. The time given to dedicated childcare over those 40 years has gone up by five minutes, to 20 minutes—that is about eight seconds a year extra. Some of this is due to the very long hours that British men work, and we should acknowledge that. We should be cautious in our celebrations today, because the march to equality is very slow indeed. Even more worrying is that many think that it is achieved, and that we have arrived, but we certainly have not.

Mae bywydau menywod wedi eu trawsnewid a'u gwella'n ddirfawr, diolch i ymroddiad ymgyrchwyr a deddfwyr sydd wedi ymladd i fenywod gael byw bywydau mwy cyflawn. Mae gennym ddewis erbyn hyn: y dewis i weithio, i astudio ac i fagu plant. Nid yw'n berffaith, hyd yn oed ar gyfer y rhai cefnog, ond mae'n well nag yr oedd o'r blaen. Mae menywod yn bresennol ar bob lefel o fywyd cyhoeddus—dim digon, ond maent yn bresennol. Yma yn y Cynulliad, gallwn fod yn falch o'n hanes o gydraddoldeb rhywiol, fel y nododd Sandy Mewies yn gynharach. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol ac mae'n rhaid i ni barhau i ymdrechu i wella.

Er ein bod yn dathlu'r cynnydd a wnaed gan fenywod ym mhob maes o fywyd, mae'n rhaid i ni beidio ag anghofio ein bod yn byw mewn cymdeithas sy'n parhau i gael ei marcio gan ragfarn ar sail rhyw. Dylem ddathlu'r ffaith fod cyfraniad menywod i'r economi wedi tyfu a bod y nifer fwyaf erioed o fenywod yn gweithio erbyn hyn ac yn sefydlu busnesau. Fodd bynnag, ceir rhwystrau sy'n wynebu menywod i wneud y defnydd gorau o'u hawydd i weithio, eu sgiliau a'u hyfforddiant. Mae hen syniadau am waith dynion a gwaith merched yn parhau i gyfyngu ar gyfleoedd menywod, yn y gweithle ac yn y cartref. Mae galwedigaethau sy'n gysylltiedig â gormod o fenywod yn tueddu i fod yn rhai sy'n talu cyflog is. Rwy'n edrych ymlaen at ddychwelyd at y ddadl ar hawliau gweithwyr gofal cartref yn nes ymlaen.

Mae menywod hefyd yn parhau i dreulio llawer mwy o amser yn gwneud gwaith tŷ na dynion, yn rhannol oherwydd y pethau y mae dynion yn barod i'w gwneud: mae gwaith y dynion o gadw tŷ, y DIY a'r garddio yn dasgau achlysurol, tra bod menywod yn parhau i gario baich y gwaith sy'n cymryd llawer o amser o gadw'r tŷ i fynd o ddydd i ddydd. Mae creithiau hynny gennyf fi, Lywydd.

Clywais yn ddiweddar Bea Campbell—rydych chi i gyd yn ei hadnabod; yr awdur deallusol uchel ei pharch—yn dadlau bod cynnydd ar gydraddoldeb wedi arafu, a hyd yn oed efallai wedi gwrthdroi mewn rhai meysydd. Mae'n dyfynnu'r Ganolfan ar gyfer Ymchwil Defnydd Amser, a ganfu ers y 1970au bod faint o amser y mae dynion Prydain yn ei neilltuo i waith tŷ wedi cynyddu, a gallwn gymeradwyo hynny. Yn y 40 mlynedd hynny mae wedi codi o 20 munud, hanner munud ar gyfer pob blwyddyn yw hynny Alun Ffred Jones. Dyna gyfradd y cynnydd. Mae'r amser a neilltuir i ofal plant dros y 40 mlynedd hynny wedi cynyddu bum munud, i 20 munud—mae hynny tua wyth eiliad y flwyddyn yn ychwanegol. Mae rhywfaint o hyn oherwydd yr oriau hir iawn y mae dynion Prydain yn eu gweithio, a dylem gydnabod hynny. Dylem fod yn ofalus yn ein dathliadau heddiw, oherwydd mae'r orymdaith tuag at gydraddoldeb yn araf iawn yn wir. Yn fwy pryderus fyth yw bod llawer yn credu ei fod wedi cael ei gyflawni, a'n bod wedi cyrraedd, ond yn sicr nid yw hynny'n wir.

The European Parliament has declared that its theme for International Women's Day is preventing violence against women—a challenge to all. That is a theme that has a particular importance to us here in the Assembly in 2014. Every year, 1 million women in the UK experience at least one incident of domestic violence. In Wales, one in four women will experience domestic abuse. We must take a stand. No woman should have to live in fear of gendered violence. In June, the Welsh Government will bring forward its ending violence against women domestic abuse Bill and we must seize this opportunity to challenge the culture that enables violence against women, through awareness raising and education. We can teach young people to recognise healthy relationships, and help employers to spot when their employees are in danger. 2014 is the year that we should resolve to play our part in preventing violence against women, and a good start, Assembly, would be laying down the marker that hitting children is no longer acceptable, so that when they grow up, they will not expect to hit other people.

However, 2014 is not only a year of opportunity; it is a year when we must continue to fight to stop welfare reform making the lives of women in Wales worse. Welfare reform has had, and will continue to have, a disproportionate effect on women. Changes to housing benefit payments threaten the specialist shelters and refuges that support victims of domestic violence. The introduction of universal credit may increase the dependency of women on their husbands and partners. So, today we celebrate successes, but we must not forget the work that we need to do in the future to protect those who experience the disadvantages.

17:49

Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for this opportunity to contribute to this important annual reflection on the state of play for women in Wales and across the world. Although I do not wish to pre-empt what other Members in this Chamber may say this afternoon, may I just begin by welcoming the recent focus that there has been on once and for all ending female genital mutilation in the UK after so many years of frustratingly slow progress? Indeed, 'The Guardian' newspaper in particular deserves praise for its recent campaigning on FGM, as do Jenny Rathbone, Julie Morgan, Jocelyn Davies and the other Assembly Members from across the Chamber who have fought long and hard to keep this issue in the public eye here in Wales. Of course, it is delivery and real change that will, in the end, be the true litmus test when it comes to this agenda. However, the sustained focus that there has been on FGM in the Assembly over many years is, in itself, testament to the difference a more gender-balanced politics can make in areas like this. While it is rare that I praise Tory Ministers, I thought that Michael Gove did the right thing by agreeing to write to schools in England following his meeting with campaigners on the issue, and I hope that the Welsh Government will commit to following suit.

Mae Senedd Ewrop wedi datgan mai ei thema ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yw atal trais yn erbyn menywod—her i bawb. Mae honno'n thema sydd â phwysigrwydd arbennig i ni yma yn y Cynulliad yn 2014. Bob blwyddyn, mae 1 filiwn o fenywod yn y DU yn profi o leiaf un achos o drais domestig. Yng Nghymru, bydd un o bob pedair menyw yn dioddef cam-drin domestig. Mae'n rhaid i ni wneud safiad. Ni ddylai unrhyw fenyw orfod byw mewn ofn o drais rhyweddol. Ym mis Mehefin, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ei Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig ac mae'n rhaid i ni achub ar y cyfle hwn i herio'r diwylliant sy'n galluogi trais yn erbyn menywod, drwy godi ymwybyddiaeth ac addysg. Gallwn addysgu pobl ifanc i gydnabod perthynas iach, a helpu cyflogwyr i sylweddoli pan fydd eu cyflogeion mewn perygl. 2014 yw'r flwyddyn y dylem benderfynu chwarae ein rhan i atal trais yn erbyn menywod, a dechrau da, Gynulliad, fyddai gosod arwydd nad yw taro plant yn dderbyniol mwyach, felly pan fyddant yn tyfu i fyny, ni fyddant yn disgwyl taro pobl eraill.

Fodd bynnag, nid yw 2014 yn flwyddyn o gyfle yn unig; mae hi'n flwyddyn pryd y mae'n rhaid i ni barhau i ymladd i atal diwygio lles rhag gwneud bywydau menywod yng Nghymru yn waeth. Mae diwygio lles wedi cael, a bydd yn parhau i gael, effaith anghymesur ar fenywod. Mae newidiadau i daliadau budd-dal tai yn bygwth y llochesi a'r noddfeydd arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr trais yn y cartref. Gall cyflwyno credyd cyffredinol gynyddu dibyniaeth menywod ar eu gwŷr a'u partneriaid. Felly, heddiw rydym yn dathlu llwyddiannau, ond mae'n rhaid i ni beidio ag anghofio'r gwaith y mae angen inni ei wneud yn y dyfodol i ddiogelu'r rheiny sy'n profi anfanteision.

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn i gyfrannu at yr adlewyrchiad blynyddol pwysig hwn ar y sefyllfa bresennol i fenywod yng Nghymru ac ar draws y byd. Er nad wyf yn dymuno achub y blaen ar yr hyn y gallai Aelodau eraill yn y Siambr hon ei ddweud y prynhawn yma, a gaf fi ddechrau drwy groesawu'r pwyslais diweddar sydd wedi bod ar y terfyn unwaith ac am byth ar enwaedu benywod yn y DU ar ôl cymaint o flynyddoedd o gynnydd rhwystredig o araf? Yn wir, mae papur newydd 'The Guardian' yn arbennig yn haeddu canmoliaeth am ei waith ymgyrchu diweddar ar enwaedu benywod, fel y mae Jenny Rathbone, Julie Morgan, Jocelyn Davies ac Aelodau eraill y Cynulliad o bob rhan o'r Siambr sydd wedi ymladd yn hir ac yn galed i gadw'r mater hwn dan sylw'r cyhoedd yma yng Nghymru. Wrth gwrs, cyflawni a newid gwirioneddol fydd, yn y pen draw, y prawf litmws gwirioneddol wrth ystyried yr agenda hon. Fodd bynnag, mae'r pwyslais parhaus sydd wedi bod ar enwaedu benywod yn y Cynulliad dros nifer o flynyddoedd, ynddo'i hun, yn dyst i'r gwahaniaeth y gall mwy o wleidyddiaeth wedi'i chydbwysu rhwng y rhywiau ei wneud mewn meysydd fel hyn. Er mai anaml y byddaf yn canmol Gweinidogion y Torïaid, roeddwn yn meddwl bod Michael Gove wedi gwneud y peth iawn drwy gytuno i ysgrifennu at ysgolion yn Lloegr yn dilyn ei gyfarfod gydag ymgyrchwyr ar y mater hwn, ac rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddilyn ei esiampl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, for me, one of the real strengths of International Women's Day is the fact that, uniquely, it helps to shed light on a whole range of causes and issues affecting women. Yes, the 'Who Runs Wales?' report that Assembly Members received this morning makes quite depressing reading, with progress on issues like the gender pay gap, women in public life and female representation in the boardroom either agonisingly slow or even in danger of slipping backwards. However much you get that groundhog day feeling, with the same issues cropping up again and again, year after year, surely it makes these kinds of conversations even more important.

For me, having been invited to join fellow members of Unite the Union at a campaign event this Saturday in Cardiff to highlight many of the issues that we are talking about today, I have been reflecting on the way that the role of women in the trade union movement has changed so markedly, even in my lifetime. Of course, I do not pretend that there are not still challenges that need to be overcome, particularly in terms of increasing the number of women at the top of trade unions. However, it is heartening to think how far things have come since the days when the movement would actively argue against women entering the workplace, on the basis that the family wage should not be undercut by women taking skilled jobs and earning the same as male counterparts.

As a fantastic recent article by Yvonne Roberts in the 'The Observer' highlighted, women now outnumber men when it comes to the grass-roots membership of trade unions, and we know that studies into the differences between unionised and non-unionised workplaces have concluded that pay differentials are reduced and that women get more time off, more parental leave and are more likely to benefit from job-sharing schemes. Maybe Antoinette should consider joining a trade union, dare I say? [Laughter.] Workplaces where unions are recognised are also more likely to have workplace nurseries or nurseries linked with the workplace and are generally more flexible when it comes to allowing women to switch between full and part-time work.

In the unions themselves, vibrant women's sections are now the norm rather than the exception. There have been really successful drives to recruit new members in sectors where the majority of the workforce is female, and the relentless focus on learning and education has helped make them far more attractive to potential women members and activists. In my view, it is also a really significant sign of progress that, in Frances O'Grady, the Trades Union Congress now has its first female general secretary in 144 years—part of a wider sea change throughout the trade union movement that sees women having a more prominent role across the board.

Fodd bynnag, i mi, un o gryfderau gwirioneddol Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yw'r ffaith, yn unigryw, ei fod yn helpu i daflu goleuni ar ystod eang o achosion a materion sy'n effeithio ar fenywod. Ydy, mae'r adroddiad 'Pwy sy'n Rhedeg Cymru?' y mae Aelodau'r Cynulliad wedi ei dderbyn y bore yma yn ddeunydd darllen eithaf digalon, gyda chynnydd ar faterion fel y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, menywod mewn bywyd cyhoeddus a chynrychiolaeth benywaidd yn yr ystafell bwrdd naill ai'n boenus o araf neu hyd yn oed mewn perygl o lithro'n ôl. Er cymaint y byddwch yn cael y teimlad nad yw pethau'n symud ymlaen o gwbl, gyda'r un materion yn codi dro ar ôl tro, flwyddyn ar ôl blwyddyn, siawns bod hynny'n gwneud y mathau hyn o sgysiau hyd yn oed yn fwy pwysig.

I mi, ar ôl cael gwahoddiad i ymuno â chyd-aelodau o Uno'r Undeb mewn digwyddiad ymgyrch ddydd Sadwrn yng Nghaerdydd i dynnu sylw at lawer o'r materion yr ydym yn sôn amdanynt heddiw, rwyf wedi bod yn myfyrio ar y ffordd y mae swyddogaeth menywod yn y mudiad undebau llafur wedi newid mor sylweddol, hyd yn oed yn ystod fy oes i. Wrth gwrs, nid wyf yn honni nad oes heriau yn dal i fod y mae angen eu goresgyn, yn enwedig o ran cynyddu nifer y merched ar frig undebau llafur. Fodd bynnag, mae'n galonogol i feddwl pa mor bell y mae pethau wedi dod ers y dyddiau pan fyddai'r mudiad yn dadlau'n weithredol yn erbyn menywod yn mynd i mewn i'r gweithle, ar y sail na ddylai cyflog teulu gael ei danbrizio gan ferched yn cymryd swyddi medrus ac yn ennill yr un fath â chymheiriaid gwrywaidd.

Fel yr amlygodd erthygl ddiweddar wych gan Yvonne Roberts yn 'The Observer', mae menywod bellach yn fwy niferus na dynion pan ddaw at aelodaeth o undebau llafur ar lawr gwlad, ac rydym yn gwybod bod astudiaethau i'r gwahaniaethau rhwng gweithleoedd undebau a rhai nad ydynt yn rhan o undeb wedi dod i'r casgliad bod gwahaniaethau cyflog yn cael eu lleihau a bod merched yn cael mwy o amser i ffwrdd o'r gwaith, mwy o absenoldeb rhiant ac yn fwy tebygol o elwa ar gynlluniau rhannu swydd. Efallai y dylai Antoinette ystyried ymuno ag undeb llafur, os meiddiaf ddweud? [Chwerthin.] Mae gweithleoedd lle mae undebau yn cael eu cydnabod hefyd yn fwy tebygol o gael meithrinfeydd yn y gweithle neu feithrinfeydd sy'n gysylltiedig â'r gweithle ac maent yn gyffredinol fwy hyblyg pan ddaw at ganiatáu i fenywod newid rhwng gwaith llawn amser a rhan-amser.

Yn yr undebau eu hunain, adrannau merched bywiog yn awr yw'r norm yn hytrach na'r eithriad. Bu ymgyrchoedd llwyddiannus iawn i recriwtio aelodau newydd mewn sectorau lle mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu yn ferched, ac mae'r pwyslais di-baid ar ddysgu ac addysg wedi helpu i'w gwneud yn llawer mwy deniadol i ddarpar aelodau a gweithredwyr benywaidd. Yn fy marn i, mae hefyd yn arwydd sylweddol iawn o gynnydd bod gan y Gyngres Undebau Llafur, yn Frances O'Grady, ei hysgrifennydd cyffredinol benywaidd cyntaf mewn 144 mlynedd—rhan o weddnewid ehangach ar draws y mudiad undebau llafur sy'n gweld menywod yn cael swyddogaeth fwy amlwg yn gyffredinol.

Of course, I do not want to present a picture of motherhood and apple pie, but given the kinds of issues that we need to make progress on—equal pay for equal work, equal opportunities for promotion, socially acceptable working hours, flexi-time and job sharing, as well as the important issues where battles have already been won, like the right not to be sacked because of pregnancy—the role of trade unions has been really important. As the unions themselves increasingly reflect the membership that they represent, surely, too, we will see more rapid progress on some of these vital issues for women up and down Wales.

Wrth gwrs, nid wyf yn dymuno cyflwyno darlun o fod yn fam a phastai afal, ond o ystyried y mathau o faterion y mae angen i ni wneud cynnydd arnynt—cyflog cyfartal am waith cyfartal, cyfleoedd cyfartal ar gyfer dyrchafiad, oriau gwaith derbyniol yn gymdeithasol, oriau hyblyg a rhannu swydd, yn ogystal â'r materion pwysig lle mae brwydrau eisoes wedi eu hennill, fel yr hawl i beidio â chael eu diswyddo oherwydd beichiogrwydd—mae swyddogaeth undebau llafur wedi bod yn hynod bwysig. Wrth i'r undebau eu hunain yn gynyddol adlewyrchu'r aelodaeth y maent yn ei gynrychioli, yn sicr, hefyd, byddwn yn gweld mwy o gynnydd cyflym ar rai o'r materion allweddol ar gyfer merched ar hyd a lled Cymru.

17:53

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased to speak on this International Women's Day. I think that it is really good that we are having a debate on this day, when we can share the achievements of women and the common issues that we all have to face in terms of childcare and care for our elderly parents.

On Saturday, I will be out with my colleagues in Whitchurch on the high street, giving out our leaflets in the suffragette colours—purple, green and white. Of course, 12 months ago, we were remembering the fact that it was the centenary of the death of Emily Davison, who killed herself under the King's horse as she protested for women's right to vote. So, it is an important time, I think, to remember all of these achievements. In our leaflets on Saturday, we will be highlighting the benefits that women have had from being part of the European Union—the hard-won maternity rights, rights for part-time workers and all of those things that have been achieved in the EU.

In any case, today, in the brief time that I have, I just wanted to talk briefly about the position of some Welsh women who are not able to contribute to the economic and cultural life in Wales, and those are Welsh women who are in prison. The prison system is not devolved, but the justice system is intrinsically linked up with the services that we provide in Wales and which the Welsh Government funds. The situation of women in prison is pretty well known. They are very likely to be victims themselves, of domestic abuse, which we have already heard mentioned here this afternoon, and they are victims of sexual abuse. I am also looking forward to the ending violence against women Bill, when that comes in in June, because I think that that will be a real opportunity, as Jocelyn Davies said, to ensure that our children get the education in school that will ensure that they understand what healthy relationships are and what is acceptable and not acceptable. At the moment, there is a great deal of confusion about that among young people.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n falch iawn i siarad ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Rwy'n meddwl ei bod yn dda iawn ein bod yn cael dadl ar y diwrnod hwn, pan fyddwn yn gallu rhannu llywyddiannau menywod a'r materion cyffredin y mae'n rhaid i bob un ohonom eu hwynebu o ran gofal plant a gofalu am ein rhieni oeddrannus.

Ddydd Sadwrn, byddaf allan gyda fy nghydweithwyr yn yr Eglwys Newydd ar y stryd fawr, yn rhannu'n taflenni yn y lliwiau swffragét—porffor, gwyrdd a gwyn. Wrth gwrs, flwyddyn yn ôl, roeddem yn cofio'r ffaith ei bod yn ganmlwyddiant marwolaeth Emily Davison, a laddodd ei hun o dan geffyl y Brenin wrth iddi brotestio dros hawl menywod i bleidleisio. Felly, mae'n gyfnod pwysig, rwy'n credu, i gofio pob un o'r cyflawniadau hyn. Yn ein taflenni ddydd Sadwrn, byddwn yn tynnu sylw at y manteision y mae merched wedi'u cael o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd—yr hawliau mamolaeth a enillwyd drwy ymdrech galed, yr hawliau i weithwyr rhan-amser a'r holl bethau hynny sydd wedi eu cyflawni yn yr UE.

Beth bynnag, heddiw, yn yr amser byr sydd gennyf, rwyf eisiau siarad yn fyr am sefyllfa rhai merched Cymru nad ydynt yn gallu cyfrannu at fywyd economaidd a diwylliannol yng Nghymru, a'r rheini yw menywod Cymru sydd yn y carchar. Nid yw'r system garchardai wedi'i datganoli, ond mae'r system gyfiawnder yn gysylltiedig yn y bôn gyda'r gwasanaethau a ddarperir gennym yng Nghymru ac y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu. Mae sefyllfa menywod yn y carchar yn dra hysbys. Maent yn debygol iawn o fod yn ddiodefgyr eu hunain, o gam-drin domestig, yr ydym eisoes wedi clywed amdano yma y prynhawn yma, ac maent yn ddiodefgyr cam-drin rhywiol. Rwyf innau hefyd yn edrych ymlaen at y Bil rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod, pan ddaw hynny i mewn ym mis Mehefin, oherwydd credaf y bydd hynny'n gyfle gwirioneddol, fel y dywedodd Jocelyn Davies, i sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg yn yr ysgol a fydd yn sicrhau eu bod yn deall beth yw perthynas iach a beth sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol. Ar hyn o bryd, mae llawer iawn o ddryswch am hynny ymysg pobl ifanc.

The figures are stark: half of women in prison have suffered domestic abuse; one in three has suffered sexual abuse; 53% of women in prison have experienced emotional, physical or sexual abuse; and the majority of women who go to prison, 81%, have committed a non-violent offence. It does seem to me that there are small numbers of women who are in prison from Wales, but the most vulnerable women are being imprisoned. I believe, and I think that many others believe, that the best alternative for women in this very vulnerable situation would be community alternatives. In south and mid Wales, up to Aberystwyth, women go to Eastwood Park, and in the north they tend to go to Styal Prison. It is only a small number: in September 2013, there were only 268 women in prison who had Welsh addresses. It is going up, because the number in May 2009 was 156 women. It has gone up quite a bit, which is a matter of concern.

It seems to me that this very small number of women in Wales have such complex and difficult problems and backgrounds that we could really do something. The Welsh Government is working with Eastwood Park, which is considered a hub for Welsh women prisoners. However, we could work with the services that we provide and try to stop this very small vulnerable group of women from being imprisoned. It seems to me that it is not necessary for them to go to prison. They are not a risk to society and there are other ways of dealing with the crimes that they have committed and tackling the real complexities of their lives.

The other issue is their children and what happens to their children. I know that my colleague Christine Chapman has done a lot of work on prisoners' children. There is no doubt that woman prisoners' children suffer so much in the system. I wonder whether the Welsh Government, working with the prison service, could make a real effort to try to challenge these very short sentences that these women get. Large numbers of them are on remand, and half of those women on remand do not end up with a prison sentence. If it would be possible for us to make a real concerted effort to try to make a movement on this small group of women, it would be a great achievement. The services that we provide, funded by the Assembly, such as the drug and alcohol services and all of those services, could be used effectively to stop the imprisonment of many of those women from Wales.

Mae'r ffigurau'n llwm: mae hanner y menywod sydd yn y carchar wedi dioddef cam-drin domestig; mae traean ohonynt wedi dioddef cam-drin rhywiol; mae 53% o fenywod yn y carchar wedi profi cam-drin emosiynol, corfforol neu rywiol, ac mae'r rhan fwyaf o fenywod sy'n mynd i'r carchar, 81%, wedi cyflawni trosedd di-drais. Mae'n ymddangos i mi mai bychan yw'r nifer o fenywod o Gymru yn y carchar, ond mae'r merched mwyaf agored i niwed yn cael eu carcharu. Rwy'n credu, ac rwy'n meddwl bod llawer o bobl eraill yn credu, mai'r dewis gorau ar gyfer menywod yn y sefyllfa agored i niwed iawn hon fyddai dewisiadau amgen yn y gymuned. Yn ne a chanolbarth Cymru, hyd at Aberystwyth, mae menywod yn mynd i Eastwood Park, ac yn y gogledd maen nhw'n tueddu i fynd i Garchar Styal. Nifer fechan yn unig yw hyn: ym mis Medi 2013, dim ond 268 o fenywod yn y carchar oedd â chyfeiriadau yng Nghymru. Mae'n cynyddu, oherwydd mai 156 o fenywod oedd y nifer ym mis Mai 2009. Mae wedi cynyddu gryn dipyn, sy'n achos pryder.

Mae'n ymddangos i mi fod gan y nifer fach iawn yma o fenywod yng Nghymru broblemau a chefnidiroedd cymhleth ac anodd o'r fath y gallem wir wneud rhywbeth yn eu cylch. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Eastwood Park, sy'n cael ei ystyried yn ganolbwynt i garcharorion benywaidd o Gymru. Fodd bynnag, gallem weithio gyda'r gwasanaethau a ddarperir gennym a cheisio atal y grŵp bach iawn hwn o fenywod sy'n agored i niwed rhag cael eu carcharu. Mae'n ymddangos i mi nad oes angen iddynt fynd i'r carchar. Nid ydynt yn achosi perygl i gymdeithas ac mae ffyrdd eraill o ymdrin â'r troseddau y maent wedi'u cyflawni a mynd i'r afael â gwir gymhlethdodau eu bywydau.

Y mater arall yw eu plant a beth sy'n digwydd i'w plant. Gwn fod fy nghyd-Aelod Christine Chapman wedi gwneud llawer o waith ar blant carcharorion. Nid oes amheuaeth bod plant carcharorion benywaidd yn dioddef cymaint yn y system. Tybed a allai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r gwasanaeth carchardai, wneud ymdrech wirioneddol i geisio herio'r dedfrydau byr iawn y mae'r menywod hyn yn eu cael. Mae nifer fawr ohonynt yn aros eu prawf yn y ddalfa, ac nid yw hanner y menywod hynny yn cael dedfryd o garchar yn y pen draw. Pe byddai'n bosibl i ni wneud ymdrech gydlynol wirioneddol i geisio gwneud symudiad ar y grŵp bach hwn o fenywod, byddai'n cyflawni llawer. Gellid defnyddio'r gwasanaethau a ddarparwn, a ariennir gan y Cynulliad, megis y gwasanaethau cyffuriau ac alcohol a'r holl wasanaethau hynny, mewn gwirionedd i atal carcharu llawer o'r menywod hynny o Gymru.

17:59 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to reply to the debate. Jeff Cuthbert.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i ymateb i'r ddadl. Jeff Cuthbert.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:59 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

I have listened with interest to the debate, which was quite wide ranging, on International Women's Day. I thank all Assembly Members for their contributions.

Rwyf wedi gwrandao gyda diddordeb ar y ddadl, a oedd yn cynnwys amrywiadau eang, ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod. Hoffwn ddiolch i holl Aelodau'r Cynulliad am eu cyfraniadau.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The discussion on the amendments to the motion highlights the progress that we have made. I am content to support amendment 1 from Paul Davies on recognising the achievements of Wales's sportswomen and how they serve as positive role models for young women and men. You made a plea about the funding of particular sporting events, extreme sporting events—I think that you referred to extreme sailing at one point—and I will discuss that matter with my colleague the Minister for Culture and Sport. It is of course a matter for him. I can say though that one of the very impressive projects that we have had on the issue of rebalancing gender stereotypes was the Sport Wales project, which is a very good example that we are looking to cascade.

I also support amendment 2 from Aled Roberts, which calls on the Welsh Government to outline the steps that we will take to expand the provision of affordable and quality childcare in Wales. We have set out our priorities to improve the accessibility and availability of childcare in 'Building a Brighter Future', our long-term strategy for childcare and the early years in Wales. It sets out our plans to consider how we regulate and inspect childcare, how we can support childcare businesses and how we can improve the skills and qualifications of the workforce. However, I accept that there is more work to be done.

Antoinette Sandbach raised a number of points, many of which were matters for the Assembly Commission. You complained about the drop in the number of female Assembly Members. True; when I came here it was 30:30, and that is not the case now. Even so, we are still among one of the best-represented Assemblies and Parliaments in the world in terms of gender. If you want to make a comparison with the UK Parliament, I am sure that we will stand up quite well.

You also mentioned—I am not quite sure why—my civil servants. All of my private office staff are women, and so are most of my senior officials.

We also need to ensure that parents who need to access childcare to work are aware of the benefits available to them to help with the cost of childcare. However, what we cannot control are the amounts of tax benefits that are available and what changes the UK Government makes to benefits that help people with childcare costs. We do know, however, that it is likely that some families will find it difficult to cope with the 10% reduction in the childcare element of working tax credit.

One way in which we can help those most disadvantaged families, as my colleague the Deputy Minister for Tackling Poverty outlined earlier, is through programmes such as Flying Start, which we are doubling the reach of during the Assembly term. This means that we will double the number in the programme of two to three year olds in some of our most disadvantaged communities and they will be able to access two and a half hours of free high-quality childcare every day for 39 weeks of the year.

Mae'r drafodaeth ar y gwelliannau i'r cynnig yn amlgyr'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud. Rwy'n fodlon cefnogi gwelliant 1 gan Paul Davies ar gydnabod cyflawniadau menywod chwaraeon Cymru a sut y maent yn gweithredu fel esiampl cadarnhaol ar gyfer menywod a dynion ifanc. Gwnaethoch ble ynghylch ariannu digwyddiadau chwaraeon penodol, digwyddiadau chwaraeon eithafol—rwy'n credu eich bod wedi cyfeirio at hwylio eithafol ar un adeg—a byddaf yn trafod y mater hwnnw gyda fy nghydweithiwr, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon. Wrth gwrs, mater iddo ef yw hyn. Gallaf ddweud serch hynny mai un o'r prosiectau trawiadol iawn yr ydym wedi'u cael ar y mater o ail-gydbwysu stereoteipiau rhywiol oedd prosiect Chwaraeon Cymru, sy'n enghraifft dda iawn yr ydym yn bwriadu ei ailadrodd.

Rwyf hefyd yn cefnogi gwelliant 2 gan Aled Roberts, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i ehangu darpariaeth gofal plant fforddiadwy ac o ansawdd da yng Nghymru. Rydym wedi nodi ein blaenoriaethau i wella'r ffordd y mae gofal plant yn hygyr'r ac ar gael yn 'Adeiladu Dyfodol Gwell', ein strategaeth tymor-hir ar gyfer gofal plant a'r blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Mae'n nodi ein cynlluniau i ystyried sut yr ydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gofal plant, sut y gallwn gefnogi busnesau gofal plant a sut y gallwn wella sgiliau a chymwysterau'r gweithlu. Fodd bynnag, rwy'n derbyn bod mwy o waith i'w wneud.

Cododd Antoinette Sandbach nifer o bwyntiau, llawer ohonynt yn faterion i Gomisiwn y Cynulliad. Roeddech yn cwyno am y gostyngiad yn nifer yr Aelodau Cynulliad benywaidd. Gwir, pan ddes i yma roedd yn 30:30, ac nid yw hynny'n wir erbyn hyn. Er hynny, rydym yn parhau i fod ymhlith un o'r Cynulliadau a Seneddau â chynrychiolaeth orau yn y byd o ran rhyw. Os ydych am wneud cymhariaeth â Senedd y Deyrnas Unedig, rwy'n siŵr y byddwn yn cymharu'n eithaf da.

Soniasoch am—nid wyf yn hollol siŵr pam—fy ngweision sifil. Mae pob un o fy staff swyddfa preifat yn fenywod, ac mae hynny'n wir am y rhan fwyaf o fy uwch swyddogion hefyd.

Mae angen i ni sicrhau hefyd bod rhieni sydd angen cael gafael ar ofal plant er mwyn gallu gweithio yn ymwybodol o'r budd-daliadau sydd ar gael iddynt i helpu gyda chost gofal plant. Fodd bynnag, yr hyn na allwn ei reoli yw maint y budd-daliadau treth sydd ar gael a pha newidiadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud i fudd-daliadau sy'n helpu pobl gyda chostau gofal plant. Rydym yn gwybod, fodd bynnag, ei bod yn debygol y bydd rhai teuluoedd yn ei chael yn anodd i ymdopi â'r gostyngiad o 10% yn elfen gofal plant y credyd treth gwaith.

Un ffordd y gallwn helpu'r teuluoedd mwyaf difreintiedig hynny, fel yr amlinellodd fy nghydweithiwr y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi yn gynharach, yw trwy raglenni fel Dechrau'n Deg, yr ydym yn dyblu ei chyrhaeddiad yn ystod tymor y Cynulliad. Mae hyn yn golygu y byddwn yn dyblu'r nifer yn y rhaglen o rai dwy i dair oed yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a byddant yn gallu cael mynediad i ddwy awr a hanner o ofal plant o ansawdd uchel yn rhad ac am ddim bob dydd am 39 wythnos y flwyddyn.

As Sandy Mewies said, the 'Who runs Wales?' 2014 report provides us with a stark reminder that we must continue in our efforts to ensure that women are represented in positions of power and influence. We will continue our proactive work in increasing the number of women and other under-represented groups in public life. This is a clear example of where we are working across Government to make Wales a more equal society.

We will continue to highlight the many achievements, sporting or otherwise, of women in Wales as this will inspire future generations. Wales has a wealth of women to be proud of, and we should celebrate this, as pointed out by Jocelyn Davies in praising the work of so many volunteers and groups over the year. She also highlighted the dangers that remain in such things as sexism in our media.

Lynne Neagle quite rightly highlighted the changing nature of trade unions, and pointed out that Frances O'Grady is the first female general secretary of the Trade Union Congress.

We will continue in our efforts to tackle gender stereotyping through education and work with the third and private sectors to help change young people's aspirations in education, training and employment, such as through the Get On With Science initiative, which is encouraging more girls to have an interest in science and engineering.

Building on the integrated 'Right to be Safe' strategy, which tackles all forms of violence against women and domestic abuse, the Welsh Government will introduce the violence against women and domestic abuse Bill in June of this year. That point has been highlighted by Jocelyn Davies and by Julie Morgan in her comments about women in prison. I can tell Julie that my colleague, the Minister for Housing and Regeneration, has already set up a working group looking at this very matter, and that will report in due course.

To conclude, this Welsh Government is committed to ensuring equality in Wales whereby all are respected and everyone has the opportunity to fulfil their potential. We have seen many improvements, but we can do more. What this debate demonstrates is how important International Women's Day is in providing us with an opportunity to highlight the issues facing women in Wales today and to look for even more opportunities to address them.

Fel y dywedodd Sandy Mewies, mae'r adroddiad 'Pwy sy'n rhedeg Cymru?' 2014 yn ein hatgoffa bod yn rhaid i ni barhau yn ein hymdrechion i sicrhau bod menywod yn cael eu cynrychioli mewn swyddi o bwerau dylanwadu. Byddwn yn parhau â'n gwaith rhagweithiol o ran cynyddu nifer y menywod a grwpiau eraill nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol mewn bywyd cyhoeddus. Mae hon yn enghraifft glir o sut yr ydym yn gweithio ar draws y Llywodraeth i wneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal.

Byddwn yn parhau i dynnu sylw at lwyddiannau niferus, mewn chwaraeon neu fel arall, menywod yng Nghymru, gan y bydd hyn yn ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol. Mae gan Gymru gyfoeth o fenywod i fod yn falch ohonynt, a dylem ddathlu hyn, fel y nodwyd gan Jocelyn Davies wrth ganmol gwaith cymaint o wirfoddolwyr a grwpiau yn ystod y flwyddyn. Tynnodd sylw hefyd at y peryglon sy'n parhau mewn pethau fel rhywiaeth yn ein cyfryngau.

Tynnodd Lynne Neagle, yn gwbl briodol, sylw at y newid yn natur undebau llafur, gan nodi mai Frances O'Grady yw ysgrifennydd cyffredinol benywaidd cyntaf Cyngres yr Undebau Llafur.

Byddwn yn parhau yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw drwy addysg a gweithio gyda'r trydydd sector a'r sector preifat i helpu i newid dyheadau pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, fel drwy'r fenter Dod Ymlaen Gyda Gwyddoniaeth, sy'n annog mwy o ferched i gymryd diddordeb mewn gwyddoniaeth a pheirianeg.

Gan adeiladu ar y strategaeth integredig 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', sy'n mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Bil trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig ym mis Mehefin eleni. Mae'r pwynt hwnnw wedi'i amlygu gan Jocelyn Davies a chan Julie Morgan yn ei sylwadau am fenywod yn y carchar. Gallaf ddweud wrth Julie fod fy nghydweithiwr, y Gweinidog Tai ac Adfywio, eisoes wedi sefydlu gweithgor i edrych ar yr union fater hwn, a bydd yn adrodd maes o law.

I gloi, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru lle y perchir pawb a bod gan bawb y cyfle i gyflawni eu potensial. Rydym wedi gweld llawer o welliannau, ond gallwn wneud mwy. Beth mae'r ddadl hon yn ei ddangos yw pa mor bwysig yw Diwrnod Rhyngwladol y Menywod o ran rhoi cyfle i ni dynnu sylw at y materion sy'n wynebu menywod yng Nghymru heddiw ac i chwilio am hyd yn oed mwy o gyfleoedd i fynd i'r afael â hwy.

18:05

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you very much. The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Diolch yn fawr iawn i chi. Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:05

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 2. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 2. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Cynnig NDM5443 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5443 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2014 i nodi rôl menywod ym mywyd economaidd, gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Celebrates International Women's Day 2014 in recognition of the role played by women in the economic, political, social and cultural life of Wales.

Yn cydnabod llwyddiannau menywod o Gymru ym myd y campau a'r ffordd y maent yn fodelau rôl cadarnhaol i fenywod a dynion ifanc.

Recognises the achievements of Wales' sportswomen and how they serve as positive role models for young women and men.

Yn nodi adroddiad 'Lle'r Fenyw' gan Chwarae Teg a oedd yn dangos bod y mwyafrif o gyflogwyr yn meddwl y byddai gweithredu pellach gan y llywodraeth, a chymorth gyda gofal plant yn benodol, yn helpu i sicrhau cydraddoldeb rhwng dynion a menywod yn y gweithle ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i ehangu darpariaeth gofal plant fforddiadwy o ansawdd yng Nghymru.

Notes the 'A Woman's Place' report from Chwarae Teg which showed that a majority of employers think that further governmental action, in particular help with childcare, would help achieve equality between men and women in the workplace and calls on the Welsh Government to outline the steps it will take to expand the provision of affordable and quality childcare in Wales.

18:05

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? There are no objections. That means that the motion as amended is agreed.

Y cynnig yw derbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Mae hynny'n golygu y caiff y cynnig fel y'i diwygiwyd ei dderbyn.

Derbyniwyd cynnig NDM5443 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion NDM5443 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.

18:05

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That brings today's proceedings to a close.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.